Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

# COFIANT
## Y PARCHEDIG
## JOHN JONES, BLAENANERCH.

GAN

Y PARCH. JOHN DAVIES

BLAENANERCH.

1122.
e. 97.

Bt. from widow of Bob Owen, Croesor

1122 e. 97

3/6.

Bob Owen
Croesor

# COFIANT

Y PARCHEDIG

# JOHN JONES, BLAENANERCH.

GAN

Y PARCH. JOHN DAVIES,

BLAENANERCH.

---

WREXHAM:
CYHOEDDEDIG GAN HUGHES AND SON, HOPE ST.

BODLEIAN
P
- 9 DEC 1965
LIBRARY

# CYNNWYSIAD.


TUDAL.

PENNOD I.—Sylwadau Rhagarweiniol .. .. .. .. .. 5—9

PENNOD II.—Ei rieni—Ei enedigaeth—Ei febyd—Yn pregethu yn blentyn—Ei rieni yn symud, &c., &c. .. .. 10—16

PENNOD III.—Dyddiau ei ieuenctyd, a blynyddoedd cyntaf ei ddyniant—Yn gadael yr ysgol ddyddiol—Yn gweithio gyda'i dad ar y fferm—Yn para i bregethu—Yn pregethu fel y Parch. W. Richards i'w fam—Arferion llygredig yr oes a'r ardal yn dylanwadu er drwg arno—Ei fwynder boreuol yn ymadael—Yn bygwth siomi disgwyliadau a gweddïau yr eglwys ar ei ran, a dinystrio ei gysur a'i ddefnyddioldeb ei hun .. .. .. .. 17—22

PENNOD IV.—Ei ddychweliad o'r wlad bell—Yn ail ddyfod i'r cyfarfodydd crefyddol—Yn cael pleser mawr i wrando pregethau—Y rhai hyny yn foddion argyhoeddiad iddo—Yn dyfod at grefydd—Yn gweddio yn gyhoeddus—Ei boblogrwydd mawr drwy ei oes yn dechreu pan ddechreuodd weddïo yn gyhoeddus .. .. .. .. 23—30

PENNOD V.—Siarad y bobl am iddo i fyned yn bregethwr—Eu hawydd am iddo i ddechreu—Rhai yn yr eglwys yn ei erbyn i fyned i bregethu—Y teimlad yn rhy gryf a chyffredinol iddynt fedru ei rwystro—Yn dyweyd yn gyhoeddus am y waith gyntaf mewn cyfarfod gweddïo—Awydd y bobl yn myned yn fwy, ac yn anwrthwynebol am iddo i gael dechreu pregethu—Ei achos ef a'r diweddar Barch. D. Davies, fel ymgeiswyr am y weinidogaeth ger bron yr eglwys—Cenadon o'r Cyfarfod Misol yn dyfod i brofi yr eglwys a'r ymgeiswyr—Cyfarfod y prawf—Y ddau yn dyfod drwy y prawf yn weddol hawdd—Yn cael caniatad y Cyfarfod Misol i ddechreu pregethu: Daniel Davies ar unwaith, a John Jones yn mhen mis neu ddau ar ei ol—Ei ryddid yntau i ddechreu yn rheolaidd—Ei bregeth gyntaf, a'r ail—Yn pregethu boreu Nadolig yn Blaenanerch—Son mawr yn myned am dano drwy y wlad o amgylch—Yn pregethu llawer mewn tai annedd yn y gymydogaeth—Yn myned i'r ysgol i Aberteifi—Yn dyfod o'r ysgol heb ddysgu fawr o herwydd ei alwadau aml i bregethu, ac yntau wedi ymgolli mewn gweithio pregethau a phregethu—Ei anfanteision i wneyd pregethau, ac angen mawr am danynt yn gwasgu yn fawr ar ei feddyliau—Hyn, a'i ddull tanllyd ac ymroddgar o'u traddodi, yn effeithio yn ddrwg ar ei iechyd—Yn gorfod newid ei ddull o draddodi ei bregethau .. .. .. .. .. .. .. 31—44

PENNOD VI.—Yn myned allan o'i Sir i bregethu, ac yn dechreu ymgymeryd a theithiau i bregethu.—Galw mawr am dano—Yntau yn llawn o'r pregethu—Yn cychwyn at ei gyhoeddiad—Y parotoadau angenrheidiol tuag at hyny—Yn pregethu yn y Gwastad—Y testyn a'r bregeth a'i cododd i sylw y wlad, yn mhob man yr a'i iddo agos, y tro cyntaf—Yn myned y tro cyntaf ar daith i Sir Fynwy, a rhanau o Morganwg, ar gais Owen Enos—Yn myned i'r Gogledd y tro cyntaf—Yn pregethu yn Nghymmanfa Bangor—Yn myned i daith gyda y Parch. Daniel

TUDAL.

Davies i Sir Forganwg, a rhanau o Sir Gaerfyrddin—Yn cael ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth—Yn cael ei ddewis i roddi y Cyngor yn yr Ordeinio, &c., &c. .. .. 45—62

PENNOD VII.—Yn priodi—Teulu ei wraig, a'i nodwedd fel gwraig rinweddol—Yn myned i fyw i Canllufaes—Yn glaf iawn yno—Eu plentyn bychan yn marw—Yn symud yn ol i fyw i'r Cytir bach, ac oddiyno i Brynhyfryd—Yn un serchus a hawdd ei drin yn y teulu—Eto yn un o dymer naturiol wyllt a hawdd ei gyffroi i ddigio—Yn arfer codi yn foreu—Yn ofalus am y ddyledswydd deuluaidd—Yn ymboeni gyda'i bregethau—Ei ddull yn cyfansoddi ei bregethau ac yn ysgrifenu—Ei hoffder o'i lyfrau, a'i ofal am danynt—Yn ofalus am ei gyhoeddiadau, a phawb yn y teulu yn gorfod gwasanaethu arno pan yn cychwyn iddynt .. 63—71

PENNOD VIII.—Yn y tŷ capel, a manau eraill yn mhlith ei gyfeillion—Yn hoff o adrodd a dynwared hen bregethwyr—Yn ymbleseru i adrodd dau neu dri o hen gymeriadau yn neillduol—Difyr-ddywediadau o'i eiddo ar yr adegau hyn, yn cael eu hadrodd ganddo, rai o ddigrifwch, ac eraill yn fynegiad o'i deimladau yn wyneb cyfarfod â rhyw brofedigaeth fechan fe allai .. .. .. .. .. .. .. 72—87

PENNOD IX.—Yn cysgu—Cwsg yn afiechyd arno—Yn cael ymwared o hono fel y cyfryw cyn diwedd ei oes—Ei enwogrwydd fel chwyrnydd, &c. .. .. .. .. .. .. 88—99

PENNOD X.—Yn pregethu yn anterth ei nerth, ac uchder ei boblogrwydd—Mewn Cyfarfod Misol—Disgwyliad mawr am dano—Yn y gwahanol gyfarfodydd neillduol yno—Yn y seiat gyffredinol—Yn pregethu yno—Mewn Cymmanfa—Yn bregethwr Cymmanfa—Yn y Gogledd yn 1859—Yn y seiat yno—Yn pregethu yno—Mewn Cymmanfa yn y Deheudir—Yn nghyfarfodydd neillduol y Gymmanfa yn y De—Yn pregethu—Y Gymmanfa olaf y bu ynddi yn pregethu .. .. .. .. .. .. .. .. 100—133

PENNOD XI.—Mr. Jones yn Adfywiad 1859—60—Yn methu credu ynddo ar y dechreu—Yr effeithiau a'i canlynai yn peri iddo i gredu ynddo—Yn cael ei feddiannu gan yspryd y diwygiad—Ei deimladau yn ddrylliog iawn—Yn tori allan i orfoleddu ei hunan nos Sul olaf yr wythnos weddi gyntaf—Yn tori allan i foliannu mewn seiat wrth geisio gan ereill i dewi, ac yn neidio yn ei glogs—Tipyn o ysmaldod yn ei feddiannu am fod un o'r hen chwiorydd wrth orfoleddu, yn taflu y bai—fod ei gŵr wedi ei gadael—ar y diafol .. .. .. .. .. .. .. .. .. 134—142

PENNOD XII.—Yn gwaelu yn ei iechyd—Ei saldra diweddaf—Yn marw—Lle ei gladdedigaeth—Ei gladdedigaeth—Mrs. Jones yn marw, ac yn cael ei chladdu yn mhen mis ac ychydig ddyddiau ar ei ol .. .. .. .. .. 143—151

PENNOD XIII.—Mr. Jones fel pregethwr—Ei nodweddion neillduol—Ei boblogrwydd—Amryw bethau yn cael eu nodi er cyfrif am ei boblogrwydd am 42 o flynyddoedd; megys gwres angherddol ei yspryd, ysgrythyroldeb ac eglurder ei bregethau, ei ymddangosiad corfforol, ei allu i siarad, a nerth ac amrywiaeth ei lais, tlysni ei gydmariaethau, a phertrwydd llawer o'i ddywediadau .. .. 152—176

# COFIANT
# JOHN JONES, BLAENANERCH.

## PENNOD I.

*Sylwadau Rhagarweiniol.*

DYWED y Beibl, "Y cyfiawn fydd byth mewn coffadwriaeth," a bod "coffadwriaeth y cyfiawn yn fendigedig;" a chan hyny, dylid hyd y gellir, gadw enw y cyfiawn mewn coffadwriaeth yn y byd hwn. Ond hynod ddiffygiol y mae y byd ar y cyfan wedi bod yn hyn. Y mae ein gwlad ni wedi bod felly yn neillduol, hyd yn oed gyda golwg ar ei phregethwyr; oddieithr ychydig o honynt—ychydig o'r rhai penaf fel rheol. Wrth reswm dylai dynion enwog iawn fod mewn coffadwriaeth; nid dywedyd yn erbyn hyny mewn modd yn y byd yr ydym, ond dymuno awgrymu, y dylem ymdrechu cadw mewn cof hanes dynion îs yn ngraddau eu gallu, a disgleirdeb eu talentau, tra yn ddynion amlwg mewn duwioldeb a defnyddioldeb. A dichon y buasai bywgraffiadau dynion o'r dosparth hwn, yn llawn mwy llesiol, os nid mor ddyddorol, i luaws y bobl, na'r eiddo dynion enwog a galluog iawn. Mae dynion mwyaf ac enwocaf y byd, yn rhy fawrion ac uchel i'r byd, yn enwedig i luaws y byd, eu caru a'u hefelychu, am nas gallant eu deall efallai—y cwbl allant wneyd â hwynt yn yr ystyr yma yw eu hedmygu. Yr ydym yn teimlo gyda golwg ar y dosparth uwchaf eu talentau a'u hathrylith, eu bod ryw fodd, yn rhy uchel i ni allu cydymdeimlo yn iawn â hwynt, er nas gallwn lai na'u parchu a'u hedmygu; yr ydym yn methu teimlo yn gryf mae dynion, rhai o honom ni ydynt hwy. Felly yr ymddengys i ni, y gellir dywedyd am wrth-

ddrychau bywgraffiaeth ein gwlad i raddau mawr, yn enwedig, fel y dywedwyd, gyda golwg ar y lluaws; dynion annghyffredin iawn ydynt, a'r rhai hyny wedi eu lliwio yn bur gryf yn y cyffredin, yn y bywgraffiadau yma; ac fel hyn ymddangosant i luaws y bobl mewn rhyw uchder nas gellir dyfod atynt; ac felly, ni theimlir y cydymdeimlad goreu â hwynt, na'r dyddordeb dyfnaf a mwyaf llesiol yn eu hanes. Mae yr oll, o ganlyniad, yn marw mewn edmygedd o honynt, ac nid yn terfynu mewn cymathiad o'u buchedd hwy a bywyd y darllenydd, er ei nerthu a'i buro.

Mae gwrthddrychau Cofiaint ein gwlad, yn gyffelyb i ryw ser disglaer a mawrion yn y nefoedd. Nis gallwn ni, y lluaws, lai na gweled eu prydferthwch, a llawenychu yn eu goleuni. Maent yn fydoedd mawrion a disglaer iawn. Ond bydoedd yn uchder y nefoedd ydynt, nis gallwn ddringo atynt, mesur eu maintioli, na dirnad eu goleuni. Ac nis gallwn chwaith, o ganlyniad, rwymo eu hyfrydwch at ein gwasanaeth—maent yn rhy fawrion ac uchel i ni; rhyw ser yn y nefoedd ydynt. Y mae ein lleuad, er ei bod yn llai ei maintioli, ac heb feddu goleuni gwreiddiol ei hun, yn llawer fwy gwasanaethgar i'n byd ni, am ei bod yn nes ato, ac yn fwy tebyg iddo. Ac y mae un ddaear fechan, er ei bod o dan ein traed, yn fwy o wasanaeth uniongyrchol i ni, na lloned nefoedd o ser. Yr ydym yn gallu ffarmio arwyneb hon, er dwyn allan fara, a gwin i gynal a llawenychu ein calon—rhodio ar ei dyfnderau, ac ymbabellu ar ei huchelderau, a dwyn allan o'i thrysorau cuddiedig gyflawnder o ddefnyddiau cysur a mwyniant. Er fod y ddaear yn y modd yma, yn llai, ac yn îs na'r ser yn y nefoedd; eto y mae er hyn oll, ië, yn wir, am hyn oll, i raddau mawr, yn fwy o werth a gwasanaeth uniongyrchol i ni 'teulu'r llawr,' fel y dywedwyd, na hwynt oll. Felly, ymddengys, gallasai cofiaint o ddynion, ond iddynt fod yn ddynion da, ac wedi cael eu hysgrifenu yn fedrus,

nid yn unig i fod o les i luaws y bobl, ond i fod yn fwy felly iddynt mewn gwirionedd, yn aml, na bywgraffiadau y dynion annghyffredin iawn yma sydd mor annhebyg iddynt, ac mor bell oddi wrthynt, o ran galluoedd eu meddyliau, a natur eu profiadau.

Pa fodd bynnag, y mae yn ddiamheu fod ein gwlad, ar y cyfan, yn rhy esgeulus o ysgrifenu a darllen hanes bywyd y rhai a fagwyd ac a fu byw ynddi, er ei dyrchafu i'r sefyllfa y mae ynddi yn bresenol. Mae coffadwriaeth llawer o rai rhagorol y ddaear yn ein gwlad, yn cael ei gladdu yn y ddaear, mewn ystyr, yn yr un bedd, ac ar yr un pryd ag y cleddir eu cyrff. Mae hyn yn ormod o wirionedd am ein pregethwyr ni fel gwlad, yn enwedig yn Siroedd Aberteifi a Phenfro; llawer o ba rai a fu o wasanaeth mawr i achos Mab Duw yn eu dydd, a'r rhai oedd yn barchus iawn gan y wlad tra yn fyw—y bobl yn hoff iawn o'u gweled a'u gwrando. Ond wedi iddynt feirw, dyna hwy wedi myned am byth yn mhob ystyr. A gellid meddwl, nad oes adnodau yn yr holl Feibl, i'w credu fel y rhai canlynol, a hyn mewn ystyr hollol lythyrenol:—"Nid oes coffa am y pethau gynt; ac ni bydd coffa am y pethau a ddaw, gan y rhai a ddel ar ol. Canys ni bydd coffa am y doeth, mwy na'r annoeth yn dragywydd."

A dyma un rheswm i ni ymgymeryd ag ysgrifenu hanes Bywyd yr efengylydd o Blaenanerch—ceisio llanw rhan o'r diffyg hwn yn ein plith. Hyn ydyw ein rheswm i raddau, am ei ysgrifenu a'i gyhoeddi yn lled fyr a rhad, fel y mae. Gwyddom ei fod ef yn ŵr adnabyddus a phoblogaidd annghyffredin, trwy holl Gymru, ac amryw o brif drefydd Lloegr; ac felly, yn teilyngu yn ddiau, fod hanes coffadwriaethol pur helaeth yn cael ei ysgrifenu iddo, a'i gyhoeddi yn llyfr lled drudfawr. Ond er mwyn gochel profedigaeth ar y naill law, a chyfarfod ag amgylchiadau a disgwyliadau lluaws y bobl—i'r rhai y perthynai efe mewn modd arbenig—ar y llaw arall, medd-

yliasom mai doethach fuasai rhoddi rhai o'r prif ffeithiau perthynol iddo mor fyr ac mor rhad ag y gellid, heb wneuthur cam ag ef, a cham a'r wlad a'i hoffai gymaint, yn enwedig fel pregethwr. Meddyliasom unwaith, gyhoeddi braslun o hanes ei fywyd ef, a'r eiddo Mr. Daniel Davies yn un llyfr. Awgrymasom y peth i'r Parch. Dafydd Davies, mab y diweddaf, a da ydoedd y peth yn ei olwg yntau. Ac yr ydoedd amryw bethau yn ymddangos o blaid gwneyd felly. Yr ydoedd y ddau wedi eu geni a'u magu yn yr un gymydogaeth. Derbyniwyd y ddau yn aelodau crefydd gan yr un eglwys. Dechreuodd y ddau bregethu yn yr un lle ac yn agos iawn ar yr un pryd. Bu y ddau byw eu holl fywyd yn yr un gymydogaeth. Gweithiasant eu delw i raddau mawr ar yr un pobl. Ac fel y digwyddodd yn hynod, buont feirw yn agos iawn i'r un amser. Ac er eu bod mewn rhyw bethau, gellid meddwl, yn hynod annhebyg: eto mewn pethau eraill yr oeddent yn debyg. Yr oedd y ddau yn gryfion, iachus, lled fawrion a thew—un yn dew iawn, a'r llall yn weddol felly yn ei amser goreu—eu cyrff. Yr oedd y ddau yn feibion natur mewn modd neillduol. Y ddau oeddent brenau cyfiawnder o'r allt, wedi tyfu yn dalion a phraffion, heb ddim o ol bwyeill a chynion yr athrofau a'r prif ysgolion yma i weled arnynt. Yr oedd y ddau hefyd, ag argraff yr oes a'r ardal y magwyd hwy ynddynt yn ddofn iawn arnynt. Yr ydoedd hyn i'w weled yn amlwg yn eu hiaith, eu difyrion, eu hanesynau, yn gystal ag ar eu cymariaethau yn eu pregethau, eu hareithiau ar Ddirwest, &c. Nid ydym yn dweyd dim am dda na drwg y pethau yma—crybwyll hyn yn unig yr ydym er dangos llinellau o debygolrwydd yn y ddau hen efengylydd o Blaenanerch. Dywedodd un, bod pob un a rydd argraff —a wna *foldio* ei oes, neu oesau ar ei ol—fod rhaid i hwnw fod wedi cael ei *foldio* ei hun gan ei oes ei hun. Diamheu y gadawodd y ddau weinidog hyn gryn dipyn

o'u delw ar eu hardal a'u hoes; gan hyny rhaid eu bod hwythau, yn ol yr uchod, wedi cael eu *moldio* i ryw fesur gan eu gwlad a'u hoes. Felly buasai llawer o briodoldeb yn ddiau mewn rhoddi hanes bywyd y ddau mewn un llyfr i'r wlad, o herwydd y rhesymau a nodwyd, ac eraill a ellid ddwyn yn mlaen.

Pa fodd bynnag, wedi ail feddwl ar ol ysgrifenu cryn lawer o'r Bywgraffiad hwn, ac wedi ymgynghori ag amryw frodyr, daethom i'r penderfyniad, mai doethach wedi y cwbl ydoedd peidio cyhoeddi hanes y ddau yn yr un llyfr, er mwyn gwneyd tegwch â'u coffadwriaeth hwy, ac a'r wlad, o ran ei chwaeth a'i sefyllfa.

yliasom mai doethach fuasai rhoddi rhai o'r prif ffeithiau perthynol iddo mor fyr ac mor rhad ag y gellid, heb wneuthur cam ag ef, a cham a'r wlad a'i hoffai gymaint, yn enwedig fel pregethwr. Meddyliasom unwaith, gyhoeddi braslun o hanes ei fywyd ef, a'r eiddo Mr. Daniel Davies yn un llyfr. Awgrymasom y peth i'r Parch. Dafydd Davies, mab y diweddaf, a da ydoedd y peth yn ei olwg yntau. Ac yr ydoedd amryw bethau yn ymddangos o blaid gwneyd felly. Yr ydoedd y ddau wedi eu geni a'u magu yn yr un gymydogaeth. Derbyniwyd y ddau yn aelodau crefydd gan yr un eglwys. Dechreuodd y ddau bregethu yn yr un lle ac yn agos iawn ar yr un pryd. Bu y ddau byw eu holl fywyd yn yr un gymydogaeth. Gweithiasant eu delw i raddau mawr ar yr un pobl. Ac fel y digwyddodd yn hynod, buont feirw yn agos iawn i'r un amser. Ac er eu bod mewn rhyw bethau, gellid meddwl, yn hynod annhebyg: eto mewn pethau eraill yr oeddent yn debyg. Yr oedd y ddau yn gryfion, iachus, lled fawrion a thew—un yn dew iawn, a'r llall yn weddol felly yn ei amser goreu—eu cyrff. Yr oedd y ddau yn feibion natur mewn modd neillduol. Y ddau oeddent brenau cyfiawnder o'r allt, wedi tyfu yn dalion a phraffion, heb ddim o ol bwyeill a chynion yr athrofau a'r prif ysgolion yma i weled arnynt. Yr oedd y ddau hefyd, ag argraff yr oes a'r ardal y magwyd hwy ynddynt yn ddofn iawn arnynt. Yr ydoedd hyn i'w weled yn amlwg yn eu hiaith, eu difyrion, eu hanesynau, yn gystal ag ar eu cymariaethau yn eu pregethau, eu hareithiau ar Ddirwest, &c. Nid ydym yn dweyd dim am dda na drwg y pethau yma—crybwyll hyn yn unig yr ydym er dangos llinellau o debygolrwydd yn y ddau hen efengylydd o Blaenanerch. Dywedodd un, bod pob un a rydd argraff —a wna *foldio* ei oes, neu oesau ar ei ol—fod rhaid i hwnw fod wedi cael ei *foldio* ei hun gan ei oes ei hun. Diamheu y gadawodd y ddau weinidog hyn gryn dipyn

o'u delw ar eu hardal a'u hoes; gan hyny rhaid eu bod hwythau, yn ol yr uchod, wedi cael eu *moldio* i ryw fesur gan eu gwlad a'u hoes. Felly buasai llawer o briodoldeb yn ddiau mewn rhoddi hanes bywyd y ddau mewn un llyfr i'r wlad, o herwydd y rhesymau a nodwyd, ac eraill a ellid ddwyn yn mlaen.

Pa fodd bynnag, wedi ail feddwl ar ol ysgrifenu cryn lawer o'r Bywgraffiad hwn, ac wedi ymgynghori ag amryw frodyr, daethom i'r penderfyniad, mai doethach wedi y cwbl ydoedd peidio cyhoeddi hanes y ddau yn yr un llyfr, er mwyn gwneyd tegwch â'u coffadwriaeth hwy, ac a'r wlad, o ran ei chwaeth a'i sefyllfa.

## PENNOD II.

*Ei rieni—Ei enedigaeth—Ei febyd—Yn pregethu yn blentyn —Ei rieni yn symud, &c., &c.*

MEWN Cwm, heb fod ynddo ddim yn hynod iawn, tua haner y ffordd—a chymeryd y ffordd unionaf—o Blaenanerch i Llechryd, y mae Melin Blaenpistyll. Ac yn y lle bychan hwn, y mae yn ymddangos, y dechreuodd pâr ieuanc, o'r enwau Samuel a Charlotte Jones, eu brwydr â'r byd er byw ynddo, tua thriugain a deg o flynyddoedd yn ol. Ganwyd iddynt yn y lle hwn ddau o blant—merch a mab, Hannah a John. Plentyn prydferth, gwyneb crwn, a thew oedd John. Yr ydoedd y plentyn ynddo ef yn dad y dyn yn hyn, y mae yn debyg, mewn modd neillduol. Felly ymddengys mai yn Melin Blaenpistyll, yn mhlwyf Llangoedmor, y ganwyd Mr. Jones, Hydref 4ydd, 1807. Yr ydoedd ei fam yn dyfod allan o deulu yn perthyn i'r Bedyddwyr. Ac aelod o'r cyfundeb hwnw oedd hithau, ac yr arosodd drwy ei hoes, er byw y rhan fwyaf o'i thymor ger llaw Blaenanerch, ac arfer dilyn y moddion yno yn gyffredin; eto aelod yn Pen y parc, capel y Bedyddwyr ger Aberteifi, yr arosodd hi wedi y cwbl hyd ei bedd. Methodist o ran sêl oedd ei dad. Ond parhaodd yn ddigrefydd, ac yn ddyn pur afrywiog, o dymer ac ymddygiadau, yn agos hyd derfyn ei oes faith. Yr ydoedd wedi cael ei bedwar ugain mlwydd oed, os ydym yn cofio yn iawn, pan ddaeth at grefydd. Pa fodd bynnag, cafodd yntau grefydd pan yn fab heibio i'r oedran mawr uchod, yn adeg—neu o leiaf gerllaw adeg diwygiad 1859—60; a bu fyw dair neu bedair blynedd gwed'yn gyda chrefydd, ac arwyddion pur amlwg arno ei fod wedi cael crefydd o'r iawn ryw. Yr ydoedd yn y blynyddoedd

diweddaf yma yn hoff o wrando y Gair, ac yn ymddangos fel yn derbyn drwyddo; ac yr ydoedd yn hoff iawn o weddio hefyd yr adeg hon. A mawr ydoedd ei ofid pan yn methu myned ar ei *liniau* i weddio, pan wedi myned i fethu gwneyd hyny gan wendid a musgrellni. Gofynai i'w fab, "A alla i weddio John, heb fyn'd ar fy mhen liniau?" "O gellwch, nhad bach," meddai John, "yn eitha' da. Gellwch weddio ar eich cefn yn y gwely fan yna yn eithaf da. Gwna Duw eich gwrando fel hyny mor barod ag ar eich gliniau, nhad bach, pan y'ch ch'i yn ffeili myn'd ar eich gliniau."

Ni bu arosiad Samuel a Charlotte Jones yn y felin ond byr. Ac ni chlywsom am ddim yn hynod yn eu plentyn John, tra yn aros yno, ond ei fod yn blentyn tew o gnawd, a thipyn yn drwstan a thrymaidd ei ysgogiad; ac eisoes yn hoff o, ac yn bwyta llawer o'r hyn a elwir yn yr ardal hon, *sopas*—blawd ceirch a llaeth ymenyn, o'r hwn y daeth yn or-hoff wedi tyfu i fyny. Ac feallai bod bwyta y bwyd cryf a rhyfedd hwn, yn moreu ei oes, yn un rheswm am ei fawr gryfder corfforol drwy ei oes fel pregethwr. Symudodd y teulu hwn o Felin Blaenpistyll i ffermdy o'r enw Penar-uchaf, yn agos i Aberporth, ac oddi yno drachefn yn bur fuan i'r Cytir bach—fferm fechan yn agos i Blaenanerch. Ac yma yn y Cytir bach y cawn ni wrthddrych y nodiadau hyn bellach, ac yma yr aroswn ni am dipyn gydag ef, ac wrth yr enwau John Cytir bach, a John Jones, Cytir, yr adwaenwn ni ef bellach am lawer o'i oes, fel dyn ac fel pregethwr. Gellid meddwl mai tua saith neu wyth oed oedd efe pan ddaeth y teulu i fyw i'r Cytir bach.

Ac y mae y ffaith mai o'r teulu hwn—teulu a'r tad yn ddyn digrefydd a nwydwyllt, a'r fam heb ddim yn hynod ynddi fel crefydd-wraig—y cododd Mr. Jones, yn brawf mai nid i'r un fan, yn gystal ag mai nid yr un modd yr edrych Duw yn aml, ag yr edrych dyn, pan yn codi offer-

ynau i wneyd ei waith, a galw dynion i gyhoeddi efengyl ei Fab. Wele efe yma yn myned heibio i deuluoedd hen flaenoriaid duwiol a ffyddlon Blaenanerch, ac eraill oedd yn deuluoedd crefyddol iawn yn y gymydogaeth, ac yn myned i deulu y Cytir bach—teulu lle yr oedd crefydd yn cael lle bychan y pryd hwnw—i ymofyn am uchelswyddog iddo ei hun; ac yn marcio allan, a donio unig fab y teulu hwnw yn bregethwr effeithiol ei deyrnas. Felly annhrefn dyn yn aml yw trefn Duw. Pan aeth Ef gynt i eneinio brenin iddo ei hun ar Israel, nid i un o deuluoedd tywysogion Jerusalem yr aeth i ymofyn am dano, ond i deulu Jesse y Bethlehemiad. Ac nid y milwr lluniaidd a phrofedig yn y teulu hwnw oedd ei etholedig Ef, ond y llanc gwridgoch oedd ar ol y defaid. A phan aeth Ef i anrhydeddu gwragedd a merched y ddaear yma, trwy ddewis un o honynt i fod yn fam Iachawdwr y byd, nid i balasau y breninesau, na chestyll y tywysogesau, yr aeth Ef i'w cheisio, ond i anedd-dy cyffredin rhiaint Mair y Forwyn. Felly yma. Pan ddaeth Ef i godi pregethwr yn Blaenanerch, aeth heibio i deuluoedd y doethion a'r deallus, a'r crefyddol iawn yn y gymydogaeth, ac aeth i deulu Cytir bach, am yr hwn deulu ni feddyliodd neb ond Duw, ddim tuag at yr offeiriadaeth, nes iddo Ef ddangos hyny yn ddigon amlwg.

Ychydig a feddyliai ei rieni yn ddiau, yn adeg boreu oes eu plentyn John, eu bod wrth fagu y bachgen trymaidd o feddwl, a thrwsdan o gorff hwnw, ond rhywbeth yn hynod yn ei ffordd—eu bod yn magu John Jones, Cytir, neu yr hen Flaenanerch, oedd wedi hyny i dynu y byd ar ei ol, a'i swyno a'i ddoniau ymadrodd am y Groes, braidd dihafal. Ac mor lleied a hyny y meddyliai yr eglwys a'i gymydogion am hyn yn awr. Modd bynnag, dangosai efe yn bur foreu ar ei oes, mai pregethwr oedd ef i fod, a dim neillduol arall—pregethwr ydoedd efe er yn blentyn. Dyma ddywedodd efe ei hun ar hyn wrthym,

pan yn treulio prydnawn gydag ef Medi 24, 1862. Adroddodd lawer iawn o'i hanes y tro hwnw, a hyny fel pe y gwnai o bwrpas er mwyn i ni ei gadw mewn cof, a gwneyd defnydd o hono ar ol hyny. Ond fel y bu ein anffawd, ni ysgrifenasom ond ychydig—gan feddwl ar y pryd y cofiem y cwbl, neu os na wnaem, y cawsem ddigon o gyfleusderau i'w dynu allan i fyned dros yr un pethau ar ol hyny—a methasom ddyfod o hyd i'r oll o'r ychydig hyny. Pa fodd bynnag, wele yn canlyn yr ychydig sydd ar gael a ysgrifenwyd o'i enau ef ei hun, yr adeg a nodwyd:—
"Yr oedd awydd pregethu arnaf pan oeddwn i yn ieuanc iawn. Yr wyf fi yn cofio rhywbeth am i fi gael gafael ar rhyw damed o hen lyfr pan oeddwn i tua thair oed, a'i bregethu oeddwn i yn ei wneyd, ac nid treio ei ddarllen—nid oeddwn i yn gallu ei ddarllen, na gwybod dim am hyny." Yr oedd hyn yn fwy hynod yn ei berthynas âg ef na llawer o blant, o herwydd mai ychydig, os dim o bregethu oedd ef wedi ei wrando y pryd hwn, am fod ei dad a'i fam yn byw yn bell oddiwrth bob capel; ac felly, anaml y buasent hwy eu hunain, yn dra thebyg, o herwydd hyny a phethau eraill, yn myned i wrando yr efengyl yr adeg hono. "Gyda phlant 'Rhen efail" (tŷ bychan yn ymyl y Cytir bach yw 'Rhen efail) y dysgais i y llythyrenau. Pan ai nhad a mam i'r cwrdd ar y Sabbothau, yr oeddwn innau yn myn'd i'r Henefail i gael dysgu y llythyrenau; a dysgais hwy i gyd yn bur fuan. Yr oeddwn tua naw oed pan ddysgais ddarllen. Yr oeddwn yn *dotio* am wrando pregethau erioed. A byddwn y pryd hwnw, yn arfer gwrando ar y llawr yn mhlith yr hen wragedd. Dywedodd un o honynt—Hannah Shôn Phillip, wrth fy nhad yr adeg yma, 'Sam,' meddai hi, 'mae'n well gyda fi y bachgen yma na ch'i o lawer.' 'Pa'm,' medd fy nhad. 'O,' meddai hithau gwed'yn, 'am ei fod yn well gwrandawr yn y capel na ch'i o lawer.' 'Wyddoch chi hyny,' meddai wrtho

drachefn. 'Mor wired a'ch geni chi, mae yr Arglwydd yn meddwl gwneyd rhywbeth mawr trwy y bachgen yma.' Yr oedd hyn pan oeddwn tua deuddeg oed.

Yr oeddwn yn yr oedran yma yn mron *dwli* am lyfrau. Y llyfr cyntaf a gefais erioed oedd Catechism Mr. Jones, Llanddowror. Ac O! mor falch oeddwn o hono--mi a'i troais yn rhywfath o bregethau i gyd agos. Yr un arall a gefais oedd Catechism Mr. Charles, o'r Bala, a gwnes hwnw yn bregethau bob tipyn. Yr oeddwn yr amser yma ( nid ydym yn siwr pa amser a feddyliai yn awr. Gallem dybio mai o'r deuddeg hyd tua'r ddeunawfed flwyddyn o'i oedran a feddyliai,) yn gwneyd llawer iawn o bregethau ac yn eu hysgrifenu. Yr oeddwn hefyd yn ysgrifenu gymaint allwn o bron bob pregeth fyddwn yn wrando yr adeg hon, ac yn eu pregethu yn gyfain os cawn wrandawyr. Yr oeddwn hefyd, prydnhawn Suliau pan oedd y bobl yn y capel, yn myn'd tua'r Gasgen (tŷ bychan ar dir Cytir bach, oedd y Gasgen,) a ffordd hono, os cawn rhyw blant gartref i'm gwrando. Bu'm unwaith yn pregethu yn y pwlpud yn y capel, pan oeddwn yn yr ysgol ddyddiol, a phlant yr ysgol yn gwrando arnaf. Ond aeth yn brofedigaeth arnaf yno—fe gollais fy nhestyn, a methais gael gafael arno am dipyn, ond cefais o hyd iddo gwed'yn, a phregethais yn *noble* arno wed'yn, nes oedd y plant crynion yn neidio wrth wrando arna' i. Yr hen bobol oedd fy nghwmpeini i yr adeg hono, er fy mod yn bur ieuanc, ac heb fod yn aelod o'r seiat; a byddent yn caniatau i fi rywfodd i fod gyda hwy fel hyny. 'Gadewch i John,' medd un o'r hen flaenoriaid, 'gallwn fentro dyweyd pob peth yn nghlyw John; o achos gyda ni y myn ef fod o hyd.' Un llwfr iawn oeddwn i bob amser. Nid oeddwn yn chwareu, na dim, gyda phlant eraill yn yr ysgol ddyddiol, nac un man arall; ac yr oedd chwant annghyffredin arna' i fyn'd i'r seiat." Hyd yma yr â ein cofnodiant o'i enau ef ei hun, o'i ddyddiau boreuol.

Ac y mae yr hyn a ddywed ef ei hun uchod, yn gystal a'r hyn a ddywed ei gyfoeswyr, fod Mr. Jones, Blaenanerch, yn llawn o'r pregethwr er pan ar y ddaear. Torai allan i ddangos ei hun yn nheganau ei febyd, ac yn chwareuon ei ieuenctyd. Os ydoedd y milwr mor llawn yn Napoleon Fawr pan yn fachgen yn yr ysgol, nes gwneyd gwrthgloddiau ac amddiffynfëydd o'r eira, a gwneyd pelenau rhyfel o'r mân gerig a'r eira, i ffugio ymladd a'i gyfoedion, a gwneyd arfau rhyfel o'r arfau oedd ganddo i drin ei ardd, er gyru yn ol y troseddwyr ieuainc pan yn ffoi rhag perygl i'w diriogaeth ef. Felly yr oedd y pregethwr mor llawn yn John Cytir bach, pan yn fachgenyn, fel mai pwlpud pob uchelfan iddo ef, a thestyn pregeth pob testyn a gwrthddrych o'r bron iddo ef. Cysegrai bob ystol yn y tŷ, pob coeden o'i gwmpas, ac aml i lwyn drain yn ei ymyl, yn bwlpud iddo ei hun. Sail pregeth pob gwrthddrych agos iddo. Sŵn pregeth, pob sŵn i John Cytir bach; gwaeddi pregethu, pob gwaeddi iddo ef; canu pregethau a phregethu pob canu iddo ef; a chydgynulliad pobl i bregethu iddynt, pob cydgynulliad iddo ef—y gwartheg ar y ddol, y ceffylau yn yr ystabl, a'r defaid ar ochr y bryn—yr oedd mor llawn o'r pregethu a'r pregethwr, pan yn fachgen bach. Pan yn dysgu yn yr ysgol, ni wnai efe ddysgu fawr ddim ond dysgu pregethu. Dyma yr hanes gawn ni am dano yn yr ysgol ddyddiol,—nad ydoedd yn rhagori mewn unrhyw beth gyda'i wersi—ar ol y buasai yn aml yn ystod yr ychydig ysgol a gafodd yn moreu ei oes—ond rhagorai ar bawb o ddigon i bregethu, a dynwared pregethwyr. Un llwfr a digalon oedd ef yn mhlith y plant pan yn yr ysgol, fel y dywedai efe ei hun; ac ni welid mo hono ef yn chwareu gyda'i gyfoedion. Ond gyda rhyw dwr o'r plant ieuangaf y gwelid ef yn chwareu pregethu. A buasai yn aml yn myned ar daith bregethwrol—myned o'r ystabl yn ymyl y capel (hon oedd ei brif gapel ef pan yn yr

ysgol,) i'r ffald gerllaw, ac oddiyno i'r cae, ac i'r ffordd fe allai weithiau, os cai hwyl dda ar y daith. Ac os cawsai un o'r plant yn ddigon cryf ac ewyllysgar i ymgymeryd â'r gorchwyl dipyn yn bwysig hyny, buasai yn myned ar ei gefn, o un capel i'r llall, er mwyn ymddangos yn fwy urddasol, er dwyn allan y cynllun o bregethwr mawr ar ei daith mor berffaith ag y gallesid dan yr amgylchiadau. Dywedir hefyd, fod yn rhaid i'r pregethwr am *hwyl* rywfodd yn y cyfarfodydd hyn. Os na ddeuai yn ewyllysgar, yr oedd rhaid peri iddi ddyfod o'i hanfodd; a'i y pregethwr i lawr o'i bwlpud, a churai ychydig ar y plant, er mwyn cael ganddynt lefain rywfodd yn y cwrdd —canys rhaid am lefain a hwyl boed a fyno. A hynod mor amlwg y mae y plentyn i'w ganfod yn dad y dyn yn hyn hefyd. Fel hyn, yr ydoedd wedi sefydlu ei gymeriad fel pregethwr y gymydogaeth, yn bur foreu ar ei oes. Dyma oedd ei gymeriad a'i enw, "Pregethwr y Cytir bach." Pregethai bob sabboth os cai wrandawyr, a mynychach o lawer—mewn amser ac allan o amser—yr adeg yma o'i dymor. Ac felly yr oedd yn ddyddordeb plant y gymydogaeth, a gwrthddrych disgwyliadau a gweddiau llawer o'r bobl mewn oed—yn enwedig yr hen—ac yn ddedwyddwch mawr iddo ei hun yn dra thebyg yn yr adeg foreu hon ar ei oes.

## PENNOD III.

*Dyddiau ei ieuenctyd, a blynyddoedd cyntaf ei ddyniant—Yn gadael yr ysgol ddyddiol—Yn gweithio gyda'i dad ar y fferm—Yn para i bregethu—Yn pregethu fel y Parch. W. Richards i'w fam—Arferion llygredig yr oes, a'r ardal yn dylanwadu er drwg arno—Ei fwynder boreuol yn ymadael—Yn bygwth siomi disgwyliadau a gweddiau yr eglwys ar ei ran, a dinystrio ei gysur a'i ddefnyddioldeb ei hun.*

Erbyn hyn, y mae gwrthddrych ein cofiant wedi gadael dyddiau mebyd a phlentyndod, a thyfu i fyny yn laeslanc cryf, a llawn o gnawd. Ac yn awr, y mae wedi gadael ei ysgol ddyddiol, i ymgymeryd a gorchwylion y fferm gyda'i dad. Ychydig a gafodd o ysgol yn y tymor hwn, fel plant y gymydogaeth yn gyffredinol, a gwael iawn oedd hono tra y bu ynddi. Ac fel y dywedwyd yn barod, mae yn debyg na wnaeth ef y defnydd goreu o honi, yr ychydig amser y bu ynddi. Pa fodd bynnag, y mae yn gorfod ei gadael pan yn bur ieuanc, ac yn dechreu gweithio ar y tyddyn.

Nid yw yn ymddangos ei fod wedi bod yn rhyw weithiwr mawr, a pharod un amser, er ei fod yn gorfod gweithio yn lled galed weithiau; a gwnai hyny yn rhesymol dawel dywedir, os cai ddigon o'r *sopas* hwnw. Beth bynnag, nid oedd fawr o ymddiried iddo ef gyda'i waith. Os buasai rhyw gyfarfod mawr gerllaw, neu ryw bregethwr enwog yn myned heibio, hwyrach y collid John ar ganol y gwaith mwyaf pwysig—adeg y cynhauaf, neu rhywbeth o'r fath. A mawr y difrïo fuasai ei fam yn ei wneyd ar y 'bachgen chcwn' (nid oedd yn gallu swnio yr "r,") a'i dad yn bygwth gwneyd rhywbeth gwaeth na hyny iddo, os deuai yn ol. Ond yn mhen tipyn, dyma y naill yn rhoddi ei fygwth heibio, a'r llall

yn peidio a'i difrïo, wedi i John ddyfod yn ol yn iach a heb newynu. Dechreuai ganlyn gyda y ceffylau a'r gert, yr aradr, &c., pan tua deuddeg a thairarddeg oed. Ond gwneyd y gert yn bwlpud ydoedd ef yn aml, ac anghofio yr aradr a'r ceffylau; neu wneyd testynau pregeth o honynt i dwr o blant fuasai—yn rhy aml i ddybenion y ffermio—yn ei ganlyn yr adeg hon; neu feallai, gwneyd yr aradr yn destyn wnai, a'r ddau geffyl yn wrandawyr astud ac ewyllysgar iddo ei hun. Clywid ef yn aml yr amser yma, o gryn bellder, pan yn gyru y gert ar hyd y ffordd, yn bloeddio rhyw bethau am y farn a'r byd tragwyddol, nes dychrynu rhyw bobl yn ofnadwy.

"Yr oeddwn," meddai, "yn aml y pryd hwnw yn myned Sabboth pen mis gyda mam i Penparc, i wrando Wm. Richards yn pregethu, a'i weled yn bedyddio. Dyna hen bregethwr *noble* oedd e ŵr. O dyn anwyl! ni wyddech chwi faint o benau f'asai i bregeth ef weithiau. Mi a'i clywais ef unwaith yn codi 36 o benau i'r un bregeth. Ac yr oeddwn i yn ffrynd iawn iddo, ac yn hoff iawn o'i *actio* yn pregethu pan oeddwn i yn ifanc. Byddwn yn gwneyd hyny weithiau i mam, a hithau yn leicio i fi wneyd yn annghyffredin. Pan y byddai i raddau allan o hwyl weithiau, dim ond i fi wneyd tipyn o'r hen weinidog iddi, 'roedd yn dod 'nunion ŵr—yr oedd yr yspryd yn ei gadael toc iawn, dim ond i fi ganu iddi ar delyn Wm. Richards. A dyna fyddwn i yn ei wneyd yn y cyffredin, pan ddigwyddai i fi gyffroi ei natur tuag ataf fi, ("yr oedd yr hen wraig, ys dywedai ef weithiau, yn lled boeth ei thymer,") a hithau â'r wialen neu'r ffon ar yn ol i, dim ond i fi gael rhedeg i ben yr hen lwyn drain mawr oedd yn ymyl tŷ y Cytir bach y pryd hwnw; nid yn unig yr oeddwn ddiogel rhag y wialen a'r ffon tra yno; ond erbyn y byddwn i wedi dyweyd yn null Wm. Richards, 'rwy'n sylwi yn ail,' neu, 'rwy'n sylwi yn drydydd mam,' yr oedd yr hen Sharlot a'i *choler* yn dechreu dod i lawr erbyn hyny, a chwap fe

fyddwn yn ei gwel'd yn troi yn ol i'r tŷ, a phregeth yr hen frawd wedi cael y fath ddylanwad arni, nes lladd ei digofaint druan cyn i fi godi cwarter ei benau ef i'r bregeth. Ac erbyn hyny, yr oedd yn ddigon diberygl i minnau i ddod i lawr o fy mhwlpud diogel, a myned i'r tŷ, os leiciwn i ar ei hol." Mae yn debyg fod y llwyn drain mawr y cyfeiriwyd ato uchod, yn enwog iawn ganddo ef i redeg ato a dringo iddo fel pwlpud, a dinas noddfa. Pregethasai o gangau pigog hwn yn aml, nid yn unig dangnefedd i fynwes gythryblus ei fam pan wedi digio wrtho; ond hefyd lawenydd a difyrwch i fynwesau ysgeifn twr o blant ac eraill, a ymgasglent o'i gwmpas i wrando arno. A rhedasai yma hefyd weithiau, rhag llid dialyddion heblaw, a mwy peryglus na'i fam, druan o honi—nid oedd fawr o berygl ynddi hi a'i gwialen a'i ffon wedi y cwbl, yn enwedig iddo ef.

Ond rhaid i ni adael John Jones, am dipyn o leiaf, yn ymddifyru yn ddiniwed, os nid yn hollol ddifrifol gyda'i bregethu i'r plant a'r ieuenctyd, ac yn wrthddrych dyddordeb a disgwyliadau pobl oreu ardal ei enedigaeth, ac edrych arno yn ymddifyru yn ngwasanath y gelyn, ac yn bygwth troi allan wedi y cwbl yn fab afradlon.

Er ei fod mewn ardal grefyddol yn moreu ei oes, ac er bod ei fam yn aelod grefyddol, eto yn gymaint a bod ei dad yn ddyn digrefydd hollol y pryd hwnw, ac yn ddyn trwsgl yn ei iaith a'i ymddygiadau, a llawer o arferion llygredig yn uchel yn yr ardal yn yr oes hono, yr oedd yr awyr a anadlasai efe pan yn blentyn ac yn ddyn ieuanc, yn mhell o fod yn iachus, a'r amgylchiadau yr oedd a fynai efe â hwynt yn mhell o fod yn ddiberygl iddo ef—dyn ieuanc oedd mor barod i dderbyn argraff. Trwy y pethau hyn, a dilyn cwmpeini ysgafn a gwamal y gymydogaeth, ac yntau yn rhydd oddiwrth iau ac addysg uniongyrchol crefydd, aeth pregethwr addawol a doniol y Cytir bach, yn ysgafn a gwamal ei hun. Ymadawodd ei fwyn-

der a'i astudrwydd boreuol; aeth yn ysgafn ei feddwl, a llygredig ei eiriau a'i ymddygiadau i raddau. Canlynai ddynion ieuanc ac arferion, llygredig y gymydogaeth. Ymhyfrydai yr adeg hon i raddau, yn mlas a chwmpeini y diodydd meddwol; ac mewn myned o gwmpas tai y gymydogaeth i gellwair gyda y merched ieuainc.

Golygfa bruddaidd i'r pen, ydoedd gweled dyn ieuanc—a fu unwaith yn ymhyfrydu gwrando yr efengyl gyda hen wragedd duwiol yr ardal, ac yn ymhoffi yn nghwmpeini hen bobl oreu y seiat i wrando arnynt yn ymddiddan am grefydd a'i phethau, ac yn llawer o fywyd eu hymddiddanion, ac yn wrthddrych eu gweddiau a'u disgwyliadau—yn awr wedi gadael yr Ysgol Sul am dymor, ac heb fod yn y capel yn gwrando'r efengyl, fe allai weithiau, am chwarter blwyddyn yn olynol. Wele hwnw yn awr, yn crwydro o un capel i'r llall ar y Suliau, ac mor aml a hyny gartref heb fyned i un man o addoliad; ac yn bygwth ar y pryd, taflu bywyd newydd i hen lygredigaethau ac arferion drwg yn y gymydogaeth, drwy ei ddawn i adrodd ystoriau, pregethu, dynwared pregethwyr, &c.; o herwydd ymddengys na fuasai un cynnulliad o eiddo y cwmpeini llawen, yn un man braidd yn y gymydogaeth yr adeg hono yn gyflawn, ac yn myned yn mlaen yn hwylus, heb fod 'John Cytir bach' yno. Ac O! fel y bygythiai yr aur yn ei berthynas ag ef, dywyllu a newid, a cherig y cysegr i gael eu taflu yn mhenau yr heolydd! Ac nid oedd gan John Jones, Blaenanerch, pan fel hyn yn bygwth troi allan yn ddyn ieuanc gwyllt ac annuwiol, un tad duwiol i'w rwystro i fyned yn mlaen â'i weddiau taerion, fel John Jones, Llanllyfni, pan yn bygwth gwneyd yr un peth yn ddyn ieuanc—nac un fam, mae yn debyg, yn ddigon duwiol a phenderfynol i dreulio oriau mewn gweddiau, ac i'w rybuddio gyda dagrau, wrth ddeall fod ei fryd i fyned i'r ffeiriau gwagedd, a chanlyn gyda dynion ysgafn a gwamal; ac yn y diwedd, pan na thyciai dim

arall, yn taflu gwely angeu ei hanwyl briod megys ar draws ffordd yr annuwiolion, i'w rwystro i fyned yn mlaen ar hyd-ddi, fel y gwnai mam dduwiol iawn y Joneses o Llanllyfni. Ac y mae yn ymddangos hefyd, na wnaeth mam pregethwr y Cytir bach, fel y gwnai yr eiddo Tommy Richards ieuanc, Trefin—ymladd fawr ag ef yn ei dagrau, ac â'i dagrau, er ei berswadio i fyned i'r cyfarfodydd crefyddol pan wedi eu gadael, ac yn crwydro o dŷ i dŷ yn y gymydogaeth ar y Sabbothau, i ymofyn am ddifyrwch arall, ac wedi hyny yn methu myned iddynt gan gywilydd. Na, cafodd John Jones ei ffordd yn weddol rydd o rwystrau i fyned ar grwydr, yn dra thebyg, o du ei deulu; ac yn wir o ran pobpeth allanol, a daearol o'r bron. Nid ydoedd wedi bod erioed yn aelod crefyddol; cyfarfodydd crefyddol ac egwyddorol plant yr ardal, a chymdeithas dirwest, nid oeddent mewn bod yr amser hwnw; ac hyd yn oed addysg yr Ysgol Sul—yr unig addysg i raddau yn grefyddol y gwyddai efe yn uniongyrchol am dani—hynod o anmherffaith ydoedd yn y wlad y pryd hwnw. A thrwy bobpeth, nid yw yn gymaint rhyfeddod i ddyn ieuanc o ardymer a phrofedigaethau John Jones, i grwydro tipyn fel hyn i'r wlad bell. Y syndod ydyw, na buasai wedi myned yn mhellach, ac iddo gael ei ddychwelyd yn ol.

Pa fodd bynnag, er i John Jones y Cytir, yn y tymor hwn o'i oes, trwy gellwair yn ormodol â llwybrau yr yspeilydd, a gwneyd cyfeillion gormodol o ddynion ieuanc llygredig yr ardal, fel y dywedasom yn barod, er iddo felly golli y cymeriad a feddai unwaith (a theimlo oddiwrth hyny, er ei alar a'i anfantais mewn rhyw bethau, dros ei oes,) a bygwth siomi disgwyliadau goreu ei gyfeillion crefyddol, ac archolli ei gydwybod ei hun yn dost iawn; yr ydoedd yn llestr etholedig gan Dduw wedi y cwbl, er iddo yr adeg yma syrthio i'r llwch, a chael ei ddifwyno i raddau gan y llaid. Yr oedd yr Arglwydd—yn ol prophwydoliaeth yr hen chwaer Hannah Shôn Phillip—

yn meddwl gwneyd gwaith mawr drwyddo yn nheyrnas ac amynedd ei Fab. Gan hyny, ni chollodd ei olwg arno, na'i afael ynddo yn ei holl grwydriadau i wlad y gelyn, a'i wasanaeth i hwnw tra yno—cadwodd raddau o dynerwch yn ei gydwybod, mae yn debyg pan oedd waethaf, a rhyw feddwl ynddo am droi yn ol pan bellaf yn y wlad bell. Ymddengys na chollodd yntau y pregethwr—yr hyn oedd yn anmhosibl iddo ef, oblegid pregethwr o ryw natur oedd ef yn rhwym o fod, gan mai hyny ydoedd drwyddo oll—ni chollodd hwnw yn ei holl grwydriadau a'i wrthgiliadau i gyd. Pregethai yn nhai ei gymydogion i'r cwmpeini llawen, a'r dafarn weithiau, mae lle i feddwl, er bywyd i'r gyfeddach a'r difyrwch cnawdol. Gwnai ddefnyddio llestr yma y deml Ddwyfol, y mae lle i feddwl rai prydiau, yn ngwasanaeth teml yr eilunod; er na bu, yn ol dim a glywsom ni, yn gwneyd arferiad o fyned i'r tafarnau yn y tymor yma o'i oes. Beth bynnag, daliodd afael yn y pregethwr yr adeg yma; neu yn hytrach, daliodd y pregethwr afael ynddo ef, yn mhob man, a chyda phob peth.

## PENNOD IV.

*Ei ddychweliad o'r wlad bell—Yn ail ddyfod i'r cyfarfodydd crefyddol—Yn cael pleser mawr i wrando pregethau—Y rhai hyny yn foddion argyhoeddiad iddo—Yn dyfod at grefydd—Yn gweddio yn gyhoeddus—Ei boblogrwydd mawr drwy ei oes yn dechreu pan ddechreuodd weddio yn gyhoeddus.*

YN y bennod flaenorol yr ydym yn gadael John Jones yn ddyn ieuanc yn treulio rhai o'i ddyddiau goreu yn y wlad bell, yn ceisio troi trueni hono yn bleser a diddanwch, gwneyd bara angylion o gibau ei moch, a chyfodi bywyd o'i marwolaeth. Ond yn ofer ac am ddim, fel pawb eraill y treuliodd ei nerth wrth geisio y fath beth—diflastod a siomiant oedd yn ngwaelod pob mwyniant yn y wlad hono; cibau *moch* ydoedd ei bara goreu, marwolaeth ydoedd ei bywyd uwchaf, anfonydd angeu ydoedd ei hafonydd, moroedd marw ydoedd ei moroedd, mynyddoedd tanllyd, hen gartref arosol mellt a tharanau, ydoedd ei mynyddoedd, a dyffrynoedd cysgod marwolaeth ydoedd ei dyffrynoedd brasaf, beth bynnag iddo ef, tra bu yno. Dywedai wrth un ryw dro, ei fod ef wedi bod yn agos a 'drysu, a thori ei galon' tua diwedd yr adeg yma—pan yn dechreu dyfod ato ei hun, ar ol profi mewn rhan chwerwder ffyrdd pechod a phleserau y cnawd, y mae yn debyg.

Nid ydym yn gwybod yn sicr, pa gyhyd y bu efe yn y sefyllfa o wrthgiliad yma, fel y gallwn ei galw. Tebyg ei fod wedi aros ynddi am gryn amser. Clywsom ef yn dywedyd ei hun, ei fod wedi aros o'r Ysgol Sul am flwyddyn gyfan—yn methu myned iddi, medd efe, yn benaf, o herwydd cywilydd. Pa fodd bynnag, wedi iddo ddechreu dyfod i'r cyfarfodydd ar ol ei ymadawiad hwn â hwy, ymbrioda a hwy bellach hyd angeu. A gafaela y pregethau

ynddo yn awr o'r newydd, a chyda mwy o nerth nag erioed. "O! yr oeddwn yn cael blas ar y pregethau," meddai, "yr amser hwnw, ac yr oeddwn yn llefain wrth eu gwrando nes yr oeddwn yn swpws—neu yn swps—i gyd. Nid yn unig yr oedd y pregethwyr fel E. Morris, John Elias, John Evans, a Henry Rees—yn fy ngorchfygu â'u pregethu. Ond yr oedd yr hen bregethwyr bach hyny, yn enwedig os b'asai tipyn o dân ynddynt, yn cario yn lan arna i yr amser hyny—Wm. Davies, Rhydfendigaid, Rhys Jones, Lledrod, a David Morris, Sir Gaer—dyna oedd yn gas gen i ŵr, bod rheini yn drech na fi, ac yn peri i fi wylo fel hyny." Ei brif hyfrydwch yn awr eto, ydoedd gwrando ac adrodd pregethau. Ac ai am ddiwrnodau yn olynol weithiau ar ol rhyw bregethwr hoff ganddo, a fuasai yn myned ar gyhoeddiad trwy y wlad. Pan ddaeth y diweddar Mr. Rees heibio yr adeg hon, collwyd John Cytir bach, am wythnos, fel na wyddai ei dad a'i fam fawr ddim pa le yr ydoedd, na pha beth yn iawn oedd wedi dyfod iddo. Ond er fod ei rieni yntau dipyn yn flin yn ei gylch, nid oeddent yn flin yn ei geisio; canys gwyddent amcan pa beth oedd wedi ei dynu o cartref, a hyderent nad oedd dim drwg wedi ei oddiweddyd. Ac wedi bod o gartref, ac ar goll am wythnos o amser, dyma ef yn dyfod adref o'r diwedd, i raddau yn flin gan y daith; ac yn ymddangos yn wyneb hir a thrist iawn wrth feddwl cyfarfod ei dad a'i fam; o herwydd yr ydoedd yn teimlo ei fod yn haeddu cael tipyn o'i ddwrdio y waith hon beth bynag—wedi myned o gartref ac aros am wythnos heb ddweyd dim am hyny wrth ei dad a'i fam; yr ydoedd mewn gwirionedd yn haeddu cryn dipyn o gerydd y tafod, os nid ei waeth y tro hwn. Modd bynnag, nid oes hanes ei fod wedi ymdaro yn ddrwg wedi y cwbl y waith hon. Yr oll a ddywedodd yr hen wraig, hyd y clywsom ni, ar y mater oedd:—"Mae y bachgen chcwn wedi dwad adche, a gas e fwyd wn i. Gofyn

iddo," meddai wrth Nani y ddeiliades (hen garitor y mae a fynom â hi eto yn y cofiant hwn,) "a oes eisiau bwyd achno."

Ai yr amser hwn gyda'i gydymdeithion o'r ardal, i'r Cymmanfaoedd yn bur bell weithiau, er nad oedd eto yn grefyddol. A mawr y swynai bobl y tai yr arosai ynddynt i letya, trwy ei ddawn i adrodd ystorïau difyr, ac i siarad; ac yn enwedig trwy ei ddawn i adrodd pregethau a dynwared pregethwyr. Clywsom ei fod wedi myned i gryn brofedigaeth wrth fyned o gartref i Gymmanfa fel hyn unwaith. Yn rhywle yn o bell i lawr yn Sir Benfro y digwyddodd y peth—yn Nghaerfarchell, neu i lawr yn y rhan hono o'r Sir yn rhywle. Yr ydoedd ef a'i gyfaill wedi myned i letya at deulu pur gyfrifol a charedig iawn; a thrwy ei dymer hapus, a'i ddawn i siarad a chwerthin, yr ydoedd John Jones wedi enill y teulu i'w hoffi yn fawr iawn. Ond ar ol swper dyma y Beibl yn dyfod ar y bwrdd; ac wrth gwrs, John Jones oedd i ddarllen a gweddio. Nid ydym yn gwybod a oedd ei gyfaill yn grefyddol a'i peidio—tebyg iawn ei fod. Ond John Jones oedd y siaradwr a'r pregethwr mawr, ac efe wrth reswm oedd i gadw dyledswydd. Ond och! nid ydoedd efe yn y seiat. A mawr fu ei brofedigaeth i orfod addef hyny wrth y teulu caredig dan y fath amgylchiadau. Mawr hefyd oedd eu siomedigaeth hwythau i glywed y fath beth; o herwydd tybient hwy yn sicr nid yn unig ei fod yn grefyddwr, ond ei fod yn dechreu pregethu o leiaf gyda hyny; gan ei fod mor ddoniol yn adrodd pregethau, ac yn siarad am bethau crefydd, ac hefyd wedi dyfod i'r Gymmanfa hono. Ond er i'r teulu hwn gael y fath siomedigaeth ynddo yn hyn yr adeg hono, nid yw yn debyg i'w serch tuag ato fyned ddim llai, na'u hawydd i'w weled eilwaith, a'i glywed, a'i groesawu i'w tŷ.

Ond er ei holl hoffder o'r pregethwyr a'u pregethau, a chyfarfodydd cyhoeddus crefydd, a'i ddagrau yn aml

ynddo yn awr o'r newydd, a chyda mwy o nerth nag erioed. "O! yr oeddwn yn cael blas ar y pregethau," meddai, "yr amser hwnw, ac yr oeddwn yn llefain wrth eu gwrando nes yr oeddwn yn swpws—neu yn swps—i gyd. Nid yn unig yr oedd y pregethwyr fel E. Morris, John Elias, John Evans, a Henry Rees—yn fy ngorchfygu â'u pregethu. Ond yr oedd yr hen bregethwyr bach hyny, yn enwedig os b'asai tipyn o dân ynddynt, yn cario yn lan arna i yr amser hyny—Wm. Davies, Rhydfendigaid, Rhys Jones, Lledrod, a David Morris, Sir Gaer—dyna oedd yn gas gen i ŵr, bod rheini yn drech na fi, ac yn peri i fi wylo fel hyny." Ei brif hyfrydwch yn awr eto, ydoedd gwrando ac adrodd pregethau. Ac ai am ddiwrnodau yn olynol weithiau ar ol rhyw bregethwr hoff ganddo, a fuasai yn myned ar gyhoeddiad trwy y wlad. Pan ddaeth y diweddar Mr. Rees heibio yr adeg hon, collwyd John Cytir bach, am wythnos, fel na wyddai ei dad a'i fam fawr ddim pa le yr ydoedd, na pha beth yn iawn oedd wedi dyfod iddo. Ond er fod ei rieni yntau dipyn yn flin yn ei gylch, nid oeddent yn flin yn ei geisio; canys gwyddent amcan pa beth oedd wedi ei dynu o cartref, a hyderent nad oedd dim drwg wedi ei oddiweddyd. Ac wedi bod o gartref, ac ar goll am wythnos o amser, dyma ef yn dyfod adref o'r diwedd, i raddau yn flin gan y daith; ac yn ymddangos yn wyneb hir a thrist iawn wrth feddwl cyfarfod ei dad a'i fam; o herwydd yr ydoedd yn teimlo ei fod yn haeddu cael tipyn o'i ddwrdio y waith hon beth bynag—wedi myned o gartref ac aros am wythnos heb ddweyd dim am hyny wrth ei dad a'i fam; yr ydoedd mewn gwirionedd yn haeddu cryn dipyn o gerydd y tafod, os nid ei waeth y tro hwn. Modd bynnag, nid oes hanes ei fod wedi ymdaro yn ddrwg wedi y cwbl y waith hon. Yr oll a ddywedodd yr hen wraig, hyd y clywsom ni, ar y mater oedd:—"Mae y bachgen chcwn wedi dwad adche, a gas e fwyd wn i. Gofyn

iddo," meddai wrth Nani y ddeiliades (hen garitor y mae a fynom â hi eto yn y cofiant hwn,) "a oes eisiau bwyd achno."

Ai yr amser hwn gyda'i gydymdeithion o'r ardal, i'r Cymmanfaoedd yn bur bell weithiau, er nad oedd eto yn grefyddol. A mawr y swynai bobl y tai yr arosai ynddynt i letya, trwy ei ddawn i adrodd ystorïau difyr, ac i siarad; ac yn enwedig trwy ei ddawn i adrodd pregethau a dynwared pregethwyr. Clywsom ei fod wedi myned i gryn brofedigaeth wrth fyned o gartref i Gymmanfa fel hyn unwaith. Yn rhywle yn o bell i lawr yn Sir Benfro y digwyddodd y peth—yn Nghaerfarchell, neu i lawr yn y rhan hono o'r Sir yn rhywle. Yr ydoedd ef a'i gyfaill wedi myned i letya at deulu pur gyfrifol a charedig iawn; a thrwy ei dymer hapus, a'i ddawn i siarad a chwerthin, yr ydoedd John Jones wedi enill y teulu i'w hoffi yn fawr iawn. Ond ar ol swper dyma y Beibl yn dyfod ar y bwrdd; ac wrth gwrs, John Jones oedd i ddarllen a gweddio. Nid ydym yn gwybod a oedd ei gyfaill yn grefyddol a'i peidio—tebyg iawn ei fod. Ond John Jones oedd y siaradwr a'r pregethwr mawr, ac efe wrth reswm oedd i gadw dyledswydd. Ond och! nid ydoedd efe yn y seiat. A mawr fu ei brofedigaeth i orfod addef hyny wrth y teulu caredig dan y fath amgylchiadau. Mawr hefyd oedd eu siomedigaeth hwythau i glywed y fath beth; o herwydd tybient hwy yn sicr nid yn unig ei fod yn grefyddwr, ond ei fod yn dechreu pregethu o leiaf gyda hyny; gan ei fod mor ddoniol yn adrodd pregethau, ac yn siarad am bethau crefydd, ac hefyd wedi dyfod i'r Gymmanfa hono. Ond er i'r teulu hwn gael y fath siomedigaeth ynddo yn hyn yr adeg hono, nid yw yn debyg i'w serch tuag ato fyned ddim llai, na'u hawydd i'w weled eilwaith, a'i glywed, a'i groesawu i'w tŷ.

Ond er ei holl hoffder o'r pregethwyr a'u pregethau, a chyfarfodydd cyhoeddus crefydd, a'i ddagrau yn aml

ynddynt, bu gryn dipyn yr adeg yma wedi y cwbl cyn gallu tori trwyddi i dderbyn crefydd. Yr ydoedd ofn a chywilydd yn ei orchfygu—ofn wrth gael ei dderbyn at grefydd, a chywilydd i gyflawni ei dyledswyddau cyhoeddus ar ol hyny, yn gystal ag ofn ei cholli ar ol ei chael. Pa fodd bynnag, tua gwanwyn y flwyddyn 1832, pan ydoedd graddau o adfywiad ar grefydd yn y wlad, aeth gwrando yr efengyl yn fwy na theimlad o fwynhad, ac achos o ddagrau plentyn yn haner deffro iddo yntau—aeth yn golli bywyd a'i gael iddo. A phenderfynodd, doed a ddelo, roddi ei hun o'r diwedd, nid yn unig i'r Arglwydd, ond hefyd i'w bobl yn Blaenanerch. Yr hyn a'i dygodd i'r penderfyniad hwn—beth bynnag a'i haddfedodd ynddo—oedd gwrando pregeth ar y geiriau:—"A thân fflamllyd, gan roddi dial i'r sawl nid adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn ufuddhau i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist"—gan y diweddar Barch. James Davies, Penmorfa. Yr ydoedd hon, mae yn debyg, yn bregeth effeithiol annghyffredin—fel yr ydoedd rhai o bregethau y gŵr hwnw—a bu yn foddion troedigaeth rai ugeiniau yn y gymydogaeth hon yr adeg hono. Ac yn agos yr un amser daeth y dyn hwnw trwy y wlad—Mr. Wm. Jones, Caerwys, Sir Fflint, a phregethodd yn effeithiol iawn ar y geiriau:—"Ac wele yr holl ddaear yn eistedd ac yn llonydd." Cafodd y bregeth hon hefyd ddylanwad neillduol ar ei feddwl i'r un perwyl; sef i benderfynu ymuno a chrefydd bellach yn ddioedi. Amlygodd y penderfyniad yma i'w fam, fel yr ymddengys o flaen neb. A dyma yr ymddiddan gymerodd le rhyngddynt mewn perthynas i hyny, yn ol fel ei hadroddwyd ganddo ef ei hun wrthym un tro, pan oeddem yn siarad ag ef am ddechreuad ei grefydd:—" Yr oedd chwant annghyffredin arna i yr amser hyny i fyn'd i'r seiat; a dywedais hyny un tro wrth mam. 'Yr ydw i yn meddwl myn'd i'r seiat mam,' dywedai wrthi. 'O! wyt ti, machgen bach i,' meddai

hithau. 'I ble 'rwyt ti'n meddwl myn'd?' 'I Blaenanerch 'rwyf fi yn meddwl.' 'Y mae yn well i ti ddod ato ni i Penparc, nag i'r capel—mae nhw yn *strict* iawn tua'r capel yna, ni alli di byth byw gyda nhw yna.' 'I'r capel 'rwyf fi yn meddwl' myn'd, mam, i threio hi beth bynnag—nhw yw'm mhobol i mam.' 'O wel, o'r goreu ynteu, machgen bach i,' oedd ateb olaf mam ar hyn. Ac fel hyny y bu; ac yr wyf gyda hwy hyd heddi ŵr, rywfodd beth bynnag."

Ac un diwrnod, wele John Jones ac unarbymtheg eraill, yn Blaenrnerch mewn seiat yn ymgeiswyr am aelodaeth yno. Y diweddar Barch. Wm. Morris, Cilgeran—yn ol fel ein hysbyswyd—ydoedd gyda'r eglwys yn eu derbyn. Ymddengys fod John Jones, o herwydd ryw reswm, ar ben y rhes yma o ymofynwyr am aelodaeth. O leiaf iddo ef y gofynodd, neu y parodd un o'r hen flaenoriaid, ofyn yn gyntaf, gan feddwl yn ddiau y gwnai ef—y pregethwr doniol, a'r siaradwr mawr—i ddweyd am ei dywydd gyda pharodrwydd a medr, yr hyn allasai fod yn dipyn o nerth i'r lleill i adrodd eu profiad, a dyweyd am eu cymellion i geisio crefydd. Ond er syndod yn ddiameu i'r frawdoliaeth oll, ac i'r pregethwr dyeithr yn eu plith, y cwbl gawsant gan y pregethwr doniol, a'r siaradwr mawr a pharod o'r Cytir bach, ar yr achlysur pwysig hwn ydoedd:—"Yr wyf am gael bod yma gyda chi os ca' i." A da ydoedd fod rhyw rai, yn mhlith yr ymgeiswyr, yn fwy parod i siarad yn yr amgylchiad hwnw na'r pregethwr o'r Cytir, onide buasai yn drymaidd iawn yn y cyfarfod, er fod yno gynifer yn ymofyn am aelodaeth o'r newydd. Nid ydym yn gwybod yn sicr, pa un ai methu dweyd ychwaneg a wnaeth, o herwydd ei deimladau a gwendid, neu ynte barnu yr ydoedd fod hyny yn ddigon iddo ef i ddweyd, gan fod yno lawer i ddyweyd ar ei ol ef—y mwyaf tebyg yw mai methu a wnaeth. Pa beth bynnag, felly y bu; a chafodd yntau fod gyda hwy hyd y diwedd.

Ond os ydoedd yn methu dywedyd fawr wrth bobl yr Arglwydd wrth roddi ei hun iddynt, dangosodd yn fuan ar ol hyny, ei fod yn medru dywedyd wrth yr Arglwydd ei hun, mewn gweddiau rhyfedd ac effeithiol. Torodd ei weddiau fel taran ddisymwth ar yr ardal, nes ei tharo â syndod, os nid â braw hefyd. Y waith gyntaf y gweddiodd yn y teulu, mae yn debyg fod rhywbeth yn ei weddi a'i weddio, y tro hwnw, na annghofiodd rhai oedd yno, mo'r tro tra buant ar y ddaear. "Yr wyf yn cofio," meddai ef, "am y tro cynta' i fi weddio gartre'. Yr oeddwn i wedi darllen, ac yn sefyll fan hono dipyn ar ol dibenu darllen, ac fe ddiffoddodd mam y ganwyll, ac es innau i weddio fel hyny yn y tywyllwch." Ond os ydoedd yn dywyllwch o'r ddaear, goleuai o'r nefoedd ar y gweddiwr a'r teulu. Yr ydoedd yno bawb mewn syndod, ac un hen chwaer—yr hen Nani Bronheulwen—yn gwaeddi yn agos mor uchel ag yntau cyn diwedd y weddi. Yn un o dai Bronheulwen y gweddiodd yn gyhoeddus gyntaf erioed; a gweddiodd nes i rywrai oedd yno annghofio eu hunain a'r ddaear am dipyn—torodd allan orfoledd mawr yn y cyfarfod gweddio cyntaf y gweddiodd John Jones ynddo erioed. Ac ar ol iddo ef ddechreu gweddio yn y cyfarfodydd hyn, nid oedd un yn iawn os na fyddai John Cytir bach yn gweddio ynddo. Y cyfarfod diolchgarwch am y cynhauaf cyntaf wedi iddo ddyfod at grefydd, rhaid ydoedd ei gael ef yn un i weddio ynddo. Henafgwyr duwiol fuasai yn arfer gweddio yn y cyfarfodydd hyn yn Blaenanerch, fel pob man arall hwyrach. Ond rhaid tori y rheol y tro hwn, er mwyn cael John Jones i mewn, er nad ydoedd ond crefyddwr ieuanc iawn—rhyw bedwar neu bum mis oed ydoedd eto fel crefyddwr; o herwydd ymunasai â chrefydd yn mis Mai, 1832, ac yr oedd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal tua dechreu Hydref yn yr un flwyddyn. Pa fodd bynnag, dacw yr hen frawd anwyl, James Watts, un o'r blaenoriaid, yn myned allan o'r

capel tra yr ydoedd y gynulleidfa yn canu, ac yn myned i fyny i'r galari—rhaid ydoedd myned allan tuag at fyned i'r galari yn hen gapel Blaenanerch—i geisio cael John Cytir bach i weddio yn y cyfarfod. Ac os llwyddai ei gael, talai yn dda am yr holl drafferth i fyned allan o'r capel, ac i fyny i'r llofft—y creu twrw a'r cwbl. Ac ar ol tipyn o gymell —yr ydoedd rhaid iddo ef am hyny yr adeg hon, fel bob amser ar ol hyn—llwyddwyd ei gael, a gweddiodd yn rhyfedd iawn. Yr ydoedd y pryd hwn yn weddiwr na chlywyd yn yr ardal, mae yn debyg, ddim o'r fath erioed. Yr ydoedd John Cytir bach yr amser yma, yn weddiwr mor effeithiol a phoblogaidd, ag y bu John Jones, Cytir, Jones Blaenanerch, neu yr hen Flaenanerch ar ol hyny, fel pregethwr.

A boddlawn iawn gan bobl galon gynes Blaenanerch, yr adeg hyn, ydoedd clywed fod pregethwyr—yn enwedig rhyw fath o honynt—yn tori eu cyhoeddiadau, neu fethu dyfod iddynt, er mwyn cael cyfleusdra i glywed John Cytir bach yn gweddio. Nid ydym yn gwybod yn iawn pa beth oedd ei arddull, nac yn mha beth, neu bethau, oedd ei fawr nerth a'i effeithiolrwydd fel gweddiwr, heblaw fod gwres ei yspryd, a'i ddoniau lleisiol annghyffredin, yn un rheswm neillduol am yr effeithiau ydoedd yn cydfyned â'i weddiau. Gallem feddwl hefyd, oddiwrth y cyngor a gafodd—fel y dywedai ei hun, gan hen ŵr Aberteifi, y Parch. John Thomas—gyda golwg ar weddio, ei fod yn tueddu i fod yn rhy bregethwrol, neu areithyddol yn ei weddiau yr amser hwnw. "Un o'r cynghorion goreu gefais i erioed gyda golwg ar weddio, oedd gan yr hen ŵr John Thomas. 'Gochelwch y dull areithyddol yma o weddio, yn mhob modd,' ebai efe wrthyf fi un tro, ar ol i fi fod yn dechreu'r cwrdd o'i flaen. Yr oedd yn ei ddyweyd wrthyf mewn modd caredig ac anwyl iawn—yr oeddwn i yn dipyn o *favourite* gan yr hen ŵr oddi[illegible]r y dech-

reu. A gwnaeth hyn lawer iawn o ddaioni i fi, gyda golwg ar weddio." Gellid casglu oddi wrth air y cyngor yna, o eiddo hen ŵr craffus a chwaethus Aberteifi, ei fod yn ymollwng yn ormodol i'r dull areithyddol yn ei weddiau yr adeg hono. Ond er hyn—ac fe allai am hyn lawer iawn—yr ydoedd yn cael rhyw ddylanwad annghyffredin ar ei gymydogion yn ardal Blaenanerch, trwy ei weddiau yn y cyfnod hwn o'i oes.

## PENNOD V.

*Siarad y bobl am iddo i fyned yn bregethwr—Eu hawydd am iddo i ddechreu—Rhai yn yr eglwys yn ei erbyn i fyned i bregethu—Y teimlad yn rhy gryf a chyffredinol iddynt fedru ei rwystro—Yn dyweyd yn gyhoeddus am y waith gyntaf mewn cyfarfod gweddio—Awydd y bobl yn myned yn fwy, ac yn anwrthwynebol am iddo i gael dechreu pregethu—Ei achos ef a'r diweddar Barch. D. Davies, fel ymgeiswyr am y weinidogaeth ger bron yr eglwys—Cenadon o'r Cyfarfod Misol yn dyfod i brofi yr eglwys a'r ymgeiswyr—Cyfarfod y prawf—Y ddau yn dyfod drwy y prawf yn weddol hawdd—Yn cael caniatad y Cyfarfod Misol i ddechreu pregethu: Daniel Davies ar unwaith, a John Jones yn mhen mis neu ddau ar ei ol—Ei ryddid yntau i ddechreu yn rheolaidd—Ei bregeth gyntaf, a'r ail—Yn pregethu boreu Nadolig yn Blaenanerch—Son mawr yn myned am dano drwy y wlad o amgylch—Yn pregethu llawer mewn tai annedd yn y gymydogaeth—Yn myned i'r ysgol i Aberteifi—Yn dyfod o'r ysgol heb ddysgu fawr o herwydd ei alwadau aml i bregethu, ac yntau wedi ymgolli mewn gweithio pregethau a phregethu—Ei anfanteision i wneyd pregethau, ac angen mawr am danynt yn gwasgu yn fawr ar ei feddyliau—Hyn, a'i ddull tanllyd ac ymroddgar o'u traddodi, yn effeithio yn ddrwg ar ei iechyd—Yn gorfod newid ei ddull o draddodi ei bregethau.*

Bellach, ar ol i John Jones i ddyfod at grefydd, a dechreu gweddio mor rhyfedd ac effeithiol, pwnc y dydd yn yr ardal, a siarad mawr y gymydogaeth ydoedd am iddo bregethu—fod yn rhaid iddo fyned yn bregethwr—pa bryd ydoedd yn dechreu—y buasai yn siwr o ddod yn bregethwr mawr, &c., &c. Pa fodd bynnag, yr ydoedd rhai yn eglwys Blaenanerch fel arall yn ei erbyn. Ychydig ydoedd y rhai hyn—ychydig o ddynion hunan-dybus, a rhai o honynt wedi cael eu siomi

eu hunain yn hyn. Ond er bod un neu ddau o'r gwrthwynebwyr hyn yn ddynion o dipyn o allu, a chyfrwys iawn, yr ydoedd y teimlad yn rhy gryf a chyffredinol o'i blaid iddynt allu gwneyd dim i'w atal. Ac nid oedd ganddynt ddim o werth i ddwyn yn ei erbyn er ceisio hyny—dim ond dal ar ryw anmherffeithderau yn ei iaith a'i wybodaeth, a phigo allan rywfrychau ydoedd wedi bod yn ei gymeriad moesol. Ac fel hyn, pregethu fynai efe, a phregethu fynai y bobl a lluaws y blaenoriaid iddo wneyd, gan ei annog—er mor ieuanc ydoedd eto fel crefyddwr—i ddywedyd *gair* yn y cyfarfodydd gweddiau. Ac mewn cyfarfod gweddi yn Cross Inn—tafarndy y pryd hwnw ger Blaenanerch—y dywedodd efe air yn gyhoeddus yn y modd yma gyntaf erioed. Er ei fod yn awr yn hen bregethwr mewn ffordd o chwareu pregethu, a dynwared pregethwyr a phregethu; eto hwn ydoedd y tro cyntaf iddo ddywedyd wrth y bobl, dan deimlad o bwys a chyfrifoldeb ei fod yn dyweyd wrthynt i ddechreu pregethu, a'i fod yn gyfrifol i Dduw am hyny. Oblegid hyn, teimlai raddau o ofn yn ei feddwl, a chryndod yn ei lais wrth lefaru y waith hon, na wyddai am dano pan yn dynwared pregethu er difyru ei wrandawyr. Beth bynnag, ar annogaeth, ac ar ol tipyn o gymelliad gan y rhai a flaenorent yn y cyfarfod gweddio hwnw, dyma John Jones ar ei draed i siarad, er gradd o syndod, a mawr lawenydd a boddlonrwydd i bawb oedd yno. A dyma ef yn dechreu llefaru gyda y llais mawr, a'r yspryd tanllyd a'i hynodent trwy ei oes, ar gariad Duw, nes gosod y tipyn cynulliad oedd yno yn un goelcerth o dân sanctaidd; a'r tafarndy am yr adeg, yn gysegr Duw, yn lle bod yn deml yr eilunod. Dyweyd wnaeth y tro hwn, yn un ffrwd ddidrefn a didor; ond ymddengys mai ffrydlif o dân byw ydoedd er hyny. Ac os ydoedd awydd y wlad yn fawr am iddo ddechreu pregethu o'r blaen, yr ydoedd eu hawydd erbyn hyn yn saith mwy, wedi i rai fod yn, ac eraill

glywed am y cyfarfod yn y Cross Inn. Nid oedd wiw i'r ychydig wrthwynebwyr i sôn am ei fod yn "newyddian yn y ffydd," na dim arall er ei rwystro mwyach. Na, gellid tybio y mynai sêl ac awydd yr hen flaenoriaid oedd o'i blaid, a lluaws yr eglwys, a'r byd hefyd o ran hyny, i gael John Cytir bach i bregethu yn awr—am dipyn o leiaf—pe na buasai yn y ffydd o gwbl.

Ac yn mhen ychydig gyda blwyddyn wedi i John Jones i ymuno â chrefydd—nid rhyfedd fod rhai brodyr yn dyweyd ei fod yn newyddian yn y ffydd, o herwydd yr ydoedd felly mewn gwirionedd—ar ol tipyn o siarad ac ymddadleu mewn mân bwyllgorau gan y blaenoriaid, ac eraill ydoedd i raddau yn mlaen gyda chrefydd yn yr ardal, wele ei fater ef a Daniel Davies ger bron yr eglwys fel ymgeiswyr am y weinidogaeth. Methasom a chael fawr ddim o fanylion y cyfarfod hwn, er gwneyd ein goreu i hyny. Ond cawsom gymaint a hyny mewn perthynas â John Jones (yr oeddent, gallem feddwl, yn fwy ffafriol i Daniel Davies,) fod yr ysgol ddeallawl—yr ychydig oedd a sêl ganddynt dros y deddfau a'r barnedigaethau y cyfeiriasom atynt eisoes—yn ceisio gwrthwynebu yn gyhoeddus, ar sail ei fod yn 'newyddian' yn y ffydd yn benaf; a da iawn nad oeddent yn gwrthwynebu, trwy ddadleu nad ydoedd yn y ffydd o gwbl. Ond nid ydoedd fawr bwys yn eu gwrthwynebiad, gan fod yr eglwys—yr hon oedd dra lluosog,—Blaenanerch ac Aberporth yn un yr adeg hono—yn danllyd o'i blaid. Yr ydoedd hon ar y cyfan yn galonboeth, os nid i raddau yn benboeth hefyd, yn mhlaid i hen bregethwr enwog y cangau coed, a chonglau y tai, ac yn arbenig erbyn hyn, y cyfarfodydd gweddiau, i gael dechreu pregethu o ddifrif, ac yn rheolaidd bellach yn y capeli a'r byd.

Aeth ryw frawd, neu frodyr parod ac ewyllysgar, ag achos y ddau ymgeisydd am bregethu yr efengyl i'r Cyfarfod Misol. A'r cenadon y penodwyd arnynt gan y

Cyfarfod Misol, i ddyfod i Blaenanerch ar yr achlysur pwysig, ydoedd y Parchn. ——— nage, y pryd hwnw, nid Parchedigion—ond John Thomas, Aberteifi, a Daniel Davies, Capel drindod. Dywedasom fod yr achos hwn yn bwysig. Yr ydoedd felly, nid yn unig ynddo ei hun, ac yn ei berthynas a'r ddau ymgeisydd hyn, fel y mae yn ei berthynas a phawb a ymgeisiant am y swydd uchel; ond yr ydoedd felly yn neillduol, yn ei berthynas â'r eglwys hon. Dyma ddau ddyn, heb fod yn ieuanc iawn, yn ymgeiswyr am y gwaith mawr o bregethu yr efengyl mewn eglwys wladaidd, a hono heb fod yn hollol o'r un farn am y peth. A dyma y ddau gyntaf—aeth mor bell a hyn beth bynnag—a gynnygiodd am y fath beth ynddi erioed; er ei bod yn weddol brofiadol yn hyn byth oddi ar hyny. Modd bynnag, wele y cyfarfod pwysig a hirddisgwyliedig wedi dyfod, a'r hen gapel gryn lawer yn llawnach nag arférol adeg seiat. Ac yn mhlith y bobl, o flaen y sedd fawr, dacw ddau ddyn, y naill tua 35, a'r llall tua 26 mlynedd o oedran, a'r naill yn bur deneu o gnawd, a'r llall i raddau yn fawr a chadarn ei gorff—dyma y ddau ddyn yna a llygaid pawb arnynt, a hwythau yn ymddangos yn ddifrifol ac wyneb-drist iawn. Ac erbyn hyn, dyma lygaid y gynulleidfa ar ddau eraill wedi dyfod i mewn, ac eistedd yn y sedd fawr—un a'r olwg arno yn ofnadwy o sobr a difrifol, ond meddylgar iawn, a'r llall yn ymddangos yn fywiog a siaradus—dyma y ddau weinidog ydoedd wedi dyfod i brofi yr eglwys a'r ymgeiswyr, mewn perthynas i'r symudiad pwysig hwn. Ac ar ol dechreu y cyfarfod yn y drefn arferol, a rhai sylwadau rhagarweiniol gan y ddau weinidog, dyma yr hen dad o Aberteifi—efe ydoedd yr ymholydd—ar ei draed i'w profi o ran eu gwybodaeth yn athrawiaethau crefydd. Y mae yr olwg ar yr holwr patriarchaidd, yn ddigon i ddychrynu unrhyw ddyn, wrth feddwl sefyll ger ei fron i gael ei holi ganddo. Gellid meddwl wrth edrych arno, gyda ei gorff

eiddil a dignawd, a'i wyneb hyll a hynafol, a sobrwydd a difrifoldeb ofnadwy wedi hen ymgartrefu ar ei wedd, yn gwneyd ei ymddangosiad o ganol plygiau y napcyn *India* tywyll sydd am ei ben, mai un o hen brophwydi y dyddiau gynt, neu un o dadau yr eglwys Gristionogol wedi digwydd aros ar y ddaear hyd yr adeg hono, neu wedi ei godi oddiwrth y meirw, fel Samuel gynt, i weini ar yr achlysur ydoedd efe; ac y mae yr olwg arno yn ddychrynadwy fel arholwr. Ond pa fodd bynnag, un fel arall—un tirion iawn ydoedd fel holwr, ac y mae y ddau ymgeisydd yn gwybod hyny. Ae yn awr, wele hwythau ar eu traed ar ei gyfer; yr holwr a'r atebwyr yn bruddaidd a difrifol iawn yr olwg arnynt, a'r gynulleidfa yr un modd, yn sobr ac astud yr olwg arni; ond ar yr un pryd yn llawn chwilfrydedd. Ac erbyn hyn y mae Mr. Daniel Evans wedi rhoddi ei hun yn gyfleus i fwynhau ei hun wrth edrych a gwrando, ar y prawf yn myned yn mlaen.

"Beth yw eich barn chi, Daniel, am y bod o Dduw?" ydoedd y cwestiwn cyntaf. "Yr ydw i yn barnu bod Duw, a'i fod yn hanfodi yn dri o bersonau," ydoedd yr atebiad cyntaf. "A ydych ch'i yn barnu y buasai yn dri o Bersonau, pe heb greu y byd, a gwneyd trefn yr iachawdwriaeth, Daniel?" ydoedd yr ail ofyniad. "Yr ydw i yn barnu, pe buasai Efe ddim wedi gwneyd dim, a dim yn bod ond Efe ei hunan, y buasai Efe yr un wed'yn," ydoedd yr ail atebiad. "Beth yw eich barn ch'i, John, am etholedigaeth gras?" ydoedd y gofyniad nesaf. "Yr wyf fi yn barnu," meddai John mewn llais uchel a mawr, ac i raddau yn gyffrous, "fod Duw wedi ethol tyrfa na ddichon neb eu rhifo i gael eu cadw byth." Ac felly, ymddengys, hyd y diwedd—y gofyniadau yn eglur ac adnabyddus, allan o'r Cyffes Ffydd, a'r atebion yn eglur a pharod. Aeth y ddau drwy y porth hwn yn lled rwydd; a hawdd y gallasent, mae yn debyg, o herwydd nad ydoedd y porth i'r

bywyd gweinidogaethol y dyddiau hyny, yn mhlith y Methodistiaid, yn borth cul iawn, yn enwedig yn e arholiadau.

Yn Aberystwyth yr oedd y Cyfarfod Misol i fod ar ol hyn. O leiaf, yno y daeth adroddiad o'r hyn a gymerodd le yn Blaenanerch, gyda golwg ar y ddau ymgeisydd yno am y weinidogaeth, ger bron Cyfarfod Misol y Sir. Ac wedi tipyn o holi gyda golwg ar ymarweddiad, gwybodaeth, &c., y ddau "bregethwr newydd yn ngodreu y wlad," penderfynwyd fod y ddau i gael pregethu; a bod Daniel Davies i gael dechreu ar unwaith, ond fod John Jones—oblegid ei fod mor ieuanc fel crefyddwr—i aros am fis neu ddau (nid ydym yn gwybod yn sicr pa un.) Ac yn mis Hydref, 1833, fel ein hysbyswyd, dyma adeg John Jones hefyd yn dyfod o'r diwedd, i gael dechreu o ddifrif a rheolaidd, ar ei hoff waith. Felly, er i achos y ddau i ddyfod ger bron yn yr un seiat gartref, ac i'r un Cyfarfod Misol, a chael eu rhyddid i fyned yn mlaen i ddechreu pregethu ynddynt yr un modd; eto, ni chawsant ddechreu rhedeg yr yrfa bregethwrol yn hollol yr un pryd, fel y dywedai Mr. D. Davies, wrth frawd o'r gogledd unwaith ar hyn. Gofynodd y gweinidog hwnw i'r ddau, pan yn bresenol gyda'u gilydd yn nhŷ capel Blaenanerch, ar ol tipyn o siarad â hwynt am eu pregethu, pa bryd y deuent eto i'r Gogledd, &c.—Gofynodd:—"P'run o hono chwi 'ch dau ddechreuodd bregethu gyntaf?" "Wel, fi," ebai Mr. D. Davies, "ga'dd y blaen arno fe ychydig bach; ond ni che's i ddim myn'd yn agos digon o flaen y *filain*—fe a'th heibio i fi gwed'yn yn union."

Y Sabboth cyntaf ar ol iddo gael caniatad i ddechreu, pregethodd yn Blaenanerch, o flaen yr hen Batriarch hybarch o Aberteifi. Ei destyn oedd, Rhuf. viii. 1, "Nid oes gan hyny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu." A'r hyn y cymerai efe afael

neillduol ynddo yn y testyn hwn ydoedd—Dim damnedigaeth i'r saint; hen dant melus yn nhelyn yr efengyl, y bu ef yn dra hoff o'i chwareu hyd derfyn ei bregethu, a therfyn ei yrfa yn y byd. "Ie," meddai, "DIM DAMNIO i'r hen gredadyn byth—na, y mae y saint yn rhydd â'r ddamnedigaeth yma beth bynnag a'u cyferfydd hwy. Os yw eu bwrdd yn llwm, 'Dim damnio.' Os yw eu gwisg yn dlawd, 'Dim damnio,' mae perygl y damnio wedi symud. Os yw eu croes yn drom, gadewch iddyn nhw, mae eu bywyd yn *safe*, 'Dim damnio.' Os yw eu 'cerydd yn dod iddynt bob boreu,' nid oes 'Dim damnio' yn y cerydd beth bynnag yw—nid oes dim angeu yn y crochan iddynt hwy—'Dim damnio.' "

O hyn allan, wele John Cytir bach yn bregethwr awdurdodedig a rheolaidd, a sôn mawr am dano, a disgwyliad mawr wrtho, yn enwedig yn y cymydogaethau cyfagos. Ac yr ydoedd yn rhaid ei alw erbyn hyn, hyd yn oed yn ardal ei enedigaeth—lle yr oedd gan mwyaf pob John yr amser hwnw yn shôn, neu yn Jack; a phob Dafydd yn Deio neu Dai; a phob James yn Shams, neu Shami; a phob Thomas yn Twm neu Twmi—yr ydoedd yn rhaid erbyn hyn ei alw yn John Jones, Cytir, gan ei fod bellach yn bregethwr, ac nid i fod mwyach yn John Cytir bach. A dyma ydoedd uchder mwyaf enw pregethwr Methodistaidd i fod y pryd hwnw, yn enwedig yn nghymydogaeth Blaenanerch. Ymylai ar fod yn bechod, i alw neb pregethwr yn Mr., ond Mr. Evans, New Inn, a Mr. Charles, Caerfyrddin. Eben Morris ydoedd i fod, a John Thomas (ie Shôn Thomas oedd yr enw priodol un amser) a Tomi, neu Twmi Richards, a Shams Davies. O dyn anwyl, rhaid ydoedd cadw Meistr y pryd hyny yn ardal hoff Blaenanerch—ac "megys yr oedd yn y dechreuad, felly y mae i raddau mawr" hyd yr awr hon yno—rhaid cadw hwnw yn barchus iawn i offeiriad y plwyf, y pregethwr Baptist, neu Annibynwr, ac i ambell ffarmwr

'uasai yn gwisgo yn bur dda, a gallu siarad ychydig o Saesonaeg, a rhegi yn weddol lithrig yn yr iaith hono. Yr ydoedd galw pregethwr Methodist yn Meistr yn ormod o lawer iddo ; nid ydoedd ei ras yn haner digon grasol i'w gadw ef yn ei le, pe cai y fath ddyrchafiad. Ac nid heb swm mawr iawn y cafodd John Jones y rhagorfraint hon yn mhen blynyddoedd ar ol hyn, gan ei gymydogion twymgalon, a thra gofalus am ei ras o ostyngeiddrwydd.

Yn y flwyddyn y dechreuodd y ddau frawd o Blaenanerch bregethu, yr adeiladwyd capel yn Aberporth. A chyn diwedd y flwyddyn, er nad ydoedd yn agos cael ei orphen, byddid yn cadw odfaon nos Sabbothau ynddo yn lle yn y Plas—yr hen ffermdy enwog ger Aberporth, y bu cymaint o bregethu ac addoli yn ei ysgubor am flynyddoedd. Ac yn Aberporth y pregethodd John Jones ei ail bregeth ar nos Sabboth, o flaen y diweddar D. Thomas, Llanddewibrefi. Ei destyn y waith hon ydoedd Ioan i. 12. Ni chlywsom ddim am ei sylwadau, na bod dim yn hynod yn y bregeth na'r pregethwr y tro hwn. Yr oeddem ni yn y cyfarfod yma, os nad ydym yn camsynied y tro ; ond yn rhy ieuanc i gofio dim, ond am y pregethwr cyntaf yn gwaeddi, a rhai o'r hen wragedd yn llefain, ac am y darnau coed tlysion iawn ydoedd ar hyd y llawr yma a thraw, y rhai a wnaent wasanaeth mawr i ni pe caem ond eu meddu. A dyma ein adgof—os teilwng o'r enw—cyntaf am John Jones yn pregethu.

Y pryd hyny yr ydoedd yn arferiad yn Blaenanerch, fel yn y wlad yn gyffredinol, i gynnal cyfarfodydd cyn dydd ar foreuau Nadolig ; yr hyn a elwid cadw y Plygain. A'r Nadolig cyntaf ar ol i John Jones i ddechreu pregethu, yr ydoedd pregeth i fod yn y capel fel arferol. A gellid meddwl fod y pregethwr a ddisgwyliasid wedi eu siomi yno y boreu hwnw. Yn awr, pa beth ydoedd i wneyd, ond syrthio ar John Jones, a dymuno arno ef i gymeryd lle y genad a ddisgwyliasid. Ond nid ydoedd ef wedi

meddwl am hyny, yn dra thebyg, o herwydd *clogs* oedd am ei draed, a'r bregeth yn anmharod iawn yn ei feddwl. Modd bynnag, yr ydoedd rhaid myned i fyny i'r pwlpud yn y *clogs* a'r dillad gwaith, a'r meddwl anmharod. Darllenodd yn destyn :—"Canys ganwyd i chwi heddyw Geidwad yn ninas Dafydd"—testyn cymwys iawn beth bynnag am y bregeth. Dechreua y pregethwr i siarad yn araf a thrwsgl, a'r olwg arno yn anserchus ac anfoddlon. Ond cyn hir, y mae y llais yn ymgodi, a'r ymadrodd yn ymystwytho, a'r wyneb yn sirioli, a'r galon yn ymgynesu wrth sôn am y "Ceidwad mawr a'i gadw." "Dyfod i gadw wnaeth Mab Duw, nid i ddamnio. Cadw—nid oedd raid iddo ef i ddod o fynwes ei Dad i dy golli di—dod i gadw a wnaeth.—Cadw—cadw—Diolch am Geidwad i'n cadw ni yn lle ein damnio ni." Yr oedd y pregethwr ar dân erbyn hyn, ac yn bloeddio ei 'chalon hi'—chwedl yntau—ac yn neidio yn ei *glogs*, bob tro y gwaeddai Cadw, nes y plygai ac y tyrfai yr hen bwlpud mewn modd rhyfedd. Cafodd odfa rymus anarferol; a hyn y mae yn debyg—yr odfa yn y Blygain—ydoedd dechreuad ei nerth a'i ryfeddodau fel pregethwr. Ac erbyn hyn nid ydoedd bosibl ei glywed yn pregethu yn ddigon aml yn y capel—rhaid ei gael i bregethu yn aml iawn yn y tai, ar hyd y gymydogaeth; yr hyn beth fuasai yn arferiad pur gyffredin yn y wlad y dyddiau hyny. Cyn hir, ar ol y Nadolig hwn, wele ef yn gorfod pregethu yn nghladdedigaeth un o'r hen flaenoriaid mwyaf caredig iddo ef, a selog drosto, ag ydoedd yn Blaenanerch—John Davies, Ffynon. Ei destyn ydoedd: "Marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn, a bydded fy niwedd i fel yr eiddo yntau." Pregethai yn annghyffredin o effeithiol meddant. Yr ydoedd ei deimladau wedi eu cyffroi ar ol y marw, a rhywbeth neillduol iawn wedi disgyn arno ef â'r gwrandawyr. Bloeddiai yn effeithiol iawn :—"Y mae y Cristion wrth farw yn barod i ddyweyd fel Hannah gynt am ei mab—gan gofleidio y Beibl yr un

pryd—' am y plentyn hwn y gweddiais i:' 'am y graig hon yn yr afon y gweddiais i; am y goleuni hyn yn y glyn y gweddiais i; am y Ceidwad hwn i ofalu am danaf yn angeu y gweddiais i,'" &c., &c. Erbyn hyn dyma y pregethwr newydd o Blaenanerch, yn tori fel cwmwl—yn fellt, ac yn daranau, a gwlaw ar y wlad, a sôn mawr am dano yn myned fel tân gwyllt i bell ac agos, a'r bobl yn tyru ar ei ol yn dyrfaoedd i bob man lle y clywsent ei fod ef i bregethu ynddo. Pan ydoedd i fod yn Blaencefn, boreu Sul, buasai y ffyrdd yn ddu gan ddynion o Blaenanerch, a lleoedd ereill, yn myned i wrando arno. Yr ydoedd y capelau yn mhob ardal agos yn rhy fychain i gynwys y tyrfaoedd a gyrchent i'w wrando. Daeth fel hyn ar unwaith—gartref ac oddicartref, pell ac agos—yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd Cymru. Yr ydoedd felly hefyd, pan heb un llyfr, nac un cynorthwy i wneyd pregethau, ond y Beibl, yr Hyfforddwr, a Chatechism yr Eglwys; y rhai a ddefnyddiasai yn bur helaeth, yn ol ei addefiad ef ei hun, i weithio ei bregethau allan. Ac wedi iddo gael Geiriadur Mr. Charles, mewn ychydig amser ar ol hyn, tybiai ei hun uwch ben ei ddigon o ran llyfrau. A gwyddys ei fod wedi dal yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd Cymru hyd ddiwedd ei oes. A rhaid fod yn y dyn hwn rhyw adnoddau pregethu annghyffredin—dyn heb addysg yn ol ystyr gyffredin y gair, ac heb lyfrau, ond ychydig iawn, a'r ychydig hyny yn rai cyffredin iawn, hyd y diwedd—eto yn dal yn un o'r rhai mwyaf poblogaidd am ddwy a deugain o flynyddoedd, a hyny pan oedd, a phan y mae cewri ar y ddaear; ond deuwn at hyn eto.

Cyn hir ar ol dechreu pregethu, pan oedd llawer o ymofyn am dano i bregethu yn nhai ei gymydogion a'i gyfeillion, ac i'r capelau, a'r cymydogaethau cyfagos; a phan oedd yntau wedi ei lyncu i fyny—wedi meddwi—gyda cyfansoddi pregethau a'u traddodi hwy, â i'r ysgol i Aberteifi, i ddysgu tipyn o Saesonaeg yn benaf. Ond yr

ydoedd yn amlwg na wnai lawer â'r ysgol dan y fath amgylchiadau, gan nad pa faint bynnag ydoedd ei alluoedd naturiol i allu dysgu. Yr oedd yn awr tua saith neu wyth ar hugain o oed, ac yn methu cael llonydd gan y bobl, heb bregethu iddynt yn aml; a hyny yn galw am bregethau newyddion yn aml, a'i feddwl yntau, fel y dywedwyd wedi ei gymeryd i fyny braidd yn gwbl gan y pregethu. Ac felly y bu, er iddo fod yn yr ysgol gryn amser, nid oedd y defnydd a wnaeth o honi ond bychan. Digwyddodd yr hen efengylydd o Tregaron, ddyfod heibio Blaenanerch yr adeg pan oedd gwrthddrych ein cofiant yn yr ysgol yn Aberteifi. Ac wrth ei fod yn siarad y naill beth a'r llall am John Jones a'i bregethu, &c., daeth pwnc yr ysgol dan sylw. "A yw e yn tewychu yn yr ysgol," ebai Mr. Richards? "Ydi, mae yn myn'd yn dewach bob dydd am a wn i," oedd yr ateb. "O gwedwch wrtho am ddod adre' gynta gallo fe yntau, os felly," medd Mr. Richards eilwaith. Ac felly bu, daeth adref cynted y gallasai, gellid tybio, gan adael y Saesonaeg gan mwyaf a'r dirgeledigaethau oll, perthynol i addysg, ar ol yn Aberteifi. Pa fodd bynnag, daeth ar ol hyn i allu gwneyd defnydd gweddol rwydd o'r llyfrau Saesnig oedd yn ei feddiant ef; a daeth hefyd ar ol priodi —Saesnes yn benaf oedd Mrs. Jones—i allu siarad Saesonaeg yn weddol rwydd, ond bod ei Saesonaeg ef a llawer o wedd a naws iaith ei fam arno.

Yn awr ymrodda gyda'r pregethu o'r newydd; ond rhaid cynnorthwyo tipyn hefyd gyda gwaith y fferm. A thua'r amser yma, gallwn dybio, y dywedir ei fod pan allan yn aredig â'r *goat* fawr—ac un fawr iawn ydoedd hefyd—ydoedd ganddo yn myned o cartref i bregethu am dano, yn gadael yr aradr a'r ddau geffyl yn ymyl y clawdd yn aml, ac yntau y tu arall yn gweddio, neu yn dyfeisio pregeth; a da iawn iddo dan y fath amgylchiadau, fod y gôb fawr am dano i'w gadw rhag sythu. Yr

amser hwn hefyd yr oedd ganddo geffyl ar ei enw ei hun, ac i raddau at ei wasanaeth ei hun. Ac yr oedd hwnw, drwy ryw foddion neu gilydd, yn llawn gwell o gnawd ac ymddangosiad na'i frodyr. Ac yr oedd yr hen wraig, beth bynnag am yr hen ŵr, yn drwg dybio John, am yr achos o'r rhagoriaeth hyn yn ngheffyl y pregethwr. Yr ydoedd hi yn haner credu ei fod ef yn lladrata—gair heb fod yn swnio yn dda hefyd yn gysylltiedig â phregethwr—ceirch i'w geffyl ei hun. A bygythiai ef yn enbyd o'r herwydd, ac yntau yn ceisio gwadu y cyhuddiad. Ond ryw foreu pan oedd y tad a'r fam yn y tŷ, wele John i mewn ag ysgub geirch yn iawn dan ei gesail, gan feddwl—pe yn meddwl hefyd—ei fod yn ei chymeryd hi i'r ystabl i'r ceffyl. Ond yn lle hyny, dyma ef yn myned a hi i'r tŷ at ei dad a'i fam ; ac fel hyn, *poor fellow*, yn cael ei ddal yn euog o'r trosedd adgas ar unwaith. Nid ydym yn gwybod pa beth fu y canlyniad o hyn. Ond nid oes hanes, ddarfod i'r pregethwr na'i anifail, i ddioddef rhyw lawer o herwydd y digwyddiad annymunol. Modd bynnag, cyfnod pwysig neillduol ydoedd yr adeg hon yn mywyd a phregethu Mr. Jones, a hyny mewn mwy nag un ystyr—ei fynediad trwodd o farwolaeth i fywyd gyda'i bregethu ydoedd. Yn awr yr ydoedd wedi codi disgwyliadau dirfawr yn y wlad wrtho. Yr ydoedd eisiau llawer o bregethau, ac ychydig i'w cael, a'r cynnorthwyon i'w gwneyd tu allan iddo ei hun y peth nesaf i ddim, a'r amser a'r manteision i'w gwneyd yn rhy fychain. Eithr yr ydoedd rhyw bethau wedi y cwbl, yn fanteisiol yn ei berthynas ag yntau yn hyn. Yr oedd ei gof yn dda iawn, a llawer o hen bregethau a wrandawsai yn aros yn ei feddwl. Ac yr oedd digon o wres yn ei yspryd i doddi y rhai hyny i'w arddull, ac at ei wasanaeth ei hun ; yn gystal a medru, trwy yr un yspryd, i greu sylweddau o'r cysgodau a deflid allan gan yr hen syniadau hyn, ac adnodau mwyaf efengylaidd ac adnabyddus y Beibl oedd yn ei feddwl yr adeg yma o'i fywyd.

Ond er hyn oll, yr ydoedd ei bregethu yn trethu ei natur, gorff a meddwl, yn ofnadwy o drwm y tymor hwn. Buasai weithiau yn awr, yn gorfod myned allan o'r pwlpud ar ol gweddio cyn pregethu; o herwydd methu cofio pa le yr oedd y testyn, neu fethu cofio y bregeth; neu fe allai llwfrdra yn ei orchfygu. Myned allan i weddio yn benaf, os nid yn hollol ydoedd fel hyn yn dra thebyg. A deuai yn ol wedi enill nerth Duw, a chydymdeimlad angerddol y gynulleidfa; a rhwng y ddau, buasai yn pregethu yn rhyfedd o effeithiol yr adegau hyn yn y cyffredin. A'r pryd hyny buasai yn dyweyd yn gyflymach, a myned i waeddi yn gynt o lawer nag yn mlynyddoedd diweddarach ei fywyd, nes difetha ei hun—buasai ei waed yn tori yn aml pan ar ganol pregethu. Ein adgof cyntaf ni am dano o ran ei wedd a'i olwg allanol, yn gystal ag am ei bregethu, ydyw ei weled ar brydnawn Sabboth, yn dyfod i mewn i'r capel yn wael ei iechyd drwy ymdrechu yn ormodol, meddent, wrth bregethu. Yr oedd yr hen gôb fawr lwyd, enwog hono, a'r goler lydan i lawr dros ei ysgwyddau am dano, a'r napcyn sidan tywyll—y napcyn pregethwrol hwnw—am ei ben, wedi methu myned i'r cyhoeddiad o herwydd sefyllfa wael ei iechyd. Ond ryw fodd, ni ddaeth y pregethwr a ddisgwyliasid i Blaenanerch y Sul hwnw. Yr ydoedd John Jones yno; ond yr ydoedd yn wael ei iechyd, ac yn pallu pregethu. Ceisiasent ei berswadio i wneyd yn y tŷ, cyn dyfod i'r capel, ond ni wnai, ac ymddengys na ddylai wneyd. Wele un o'r blaenoriaid o'r diwedd yn dechreu y cyfarfod gweddi, fel y tybiant yn awr, ac yn gweddio yn afaelgar iawn. A dyma hwy eto yn gwneyd ymosodiad ar John Jones i bregethu, ac yn ei orfodi braidd, i fyned i'r pwlpud i ddyweyd rhywbeth modd bynnag. A dacw ef yn codi fyny a'r *goat* fawr am dano, a'r *handkerchief* mawr i fyny am ei ben; a'r olwg arno yn bur welw a gwael, ac yn wyneb-drist iawn. A dyma y penill allan mewn llais isel

annghyffredin; a'r testyn yr un modd yn cael ei ddarllen mewn llais isel iawn. Nid ydym yn cofio pa beth oedd y testyn y waith hon, nac yn cofio dim o'r bregeth chwaith. Ac wedi dweyd cryn dipyn, nas gallasai bregethu o herwydd ei saldra a'i anmharodrwydd, dacw y pregethwr sal cyn hir yn dechreu twymno—y llais yn dechreu ymgodi ac ymdoddi yn seiniol, a'r bobl yn dechreu bywiocau. Yn y man dacw y *goat* fawr yn gorfod dod i lawr. Y mae yr odfa yn myned yn odfa ryfedd, a'r pregethwr claf yn dechreu bloeddio gyda nerth ofnadwy. Toc, wele y napcyn yn cael ei dynu oddiar y pen, ac yn gorwedd yn anniben ar ei ysgwyddau ac am ei wddf, a'r saldra wedi myned yn annghof gan y pregethwr a'i wrandawyr —cafodd y pregethwr claf odfa i'w chofio byth yn ddiau, gan lawer oedd ynddi. Ond hyny oedd yn annymunol mewn perthynas a'r odfa hon, aeth y pregethwr yn llawer salach ar ei hol; collodd, mae yn debyg, amryw Suliau o'i gyhoeddiadau, mewn canlyniad iddo bregethu fel y gwnaeth y tro hwn. Yr oedd ei gyhoeddiad i fod yn Blaenanerch y Sul canlynol. Ond nid ydoedd efe yn gallu dyfod o'r tŷ, os o'i wely—y Sul hwnw. Ymddengys ei fod yn pregethu y tymor yma, ac am amser ar ol hyn, gyda y fath ymroddiad a nerth rhyfedd—anmhosibl i un cyfansoddiad corfforol i ddal yn hir oddi tano. Ac oni bae iddo newid ei ddull o draddodi ei bregethau, buasai yn dra thebyg yn ei fedd yn fuan iawn. A dyma y rheswm paham yr aeth i siarad mor arafaidd yn y rhan gyntaf o'i bregeth weddill ei oes. Dywedir mai Mr. Richards, Tregaron, a'i cyngorodd i newid ei ddull o draethu ei bregethau. "Rhaid i chwi wneyd," meddai, "onide byddwch yn sicr o ddifetha eich hun yn bur fuan; a byddwch yn ddistaw yn y bedd cyn haner eich dyddiau, yn lle cyhoeddi iachawdwriaeth i'r byd, os ewch yn mlaen fel yna."

## PENNOD VI.

YN MYNED ALLAN O'I SIR I BREGETHU, AC YN DECHREU YMGYMERYD A THEITHIAU I BREGETHU.

*Galw mawr am dano—Yntau yn llawn o'r pregethu—Yn cychwyn at ei gyhoeddiad—Y parotoadau angenrheidiol tuag at hyny—Yn pregethu yn y Gwastad—Y testyn a'r bregeth a'i cododd i sylw y wlad, yn mhob man yr a'i iddo agos, y tro cyntaf—Yn myned y tro cyntaf ar daith i Sir Fynwy, a rhanau o Morganwg, ar gais Owen Enos—Yn myned i'r Gogledd y tro cyntaf—Yn pregethu yn Nghymanfa Bangor—Yn myned i daith gyda y Parch. Daniel Davies i Sir Forganwg, a rhanau o Sir Gaerfyrddin—Yn cael ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth—Yn cael ei ddewis i roddi y Cyngor yn yr Ordeinio, &c., &c.*

GAN fod erbyn hyn lawer iawn o wahoddiadau taerion, ar y pregethwr newydd enwog o Blaenanerch, i dalu ymweliad a'r siroedd a'r ardaloedd cyfagos, ac yntau ei hun yn llawn o'r tân sanctaidd yn ymlosgi ynddo, rhaid ydoedd cydsynio hyd y gellid. Eithr yr ydoedd amryw bethau yn eisiau arno, fel ei frodyr yn gyffredinol y dyddiau hyny, er ei alluogi i ddilyn y cyhoeddiadau yma yn haner cysurus. Yr ydoedd yn rhaid am geffyl wrth reswm. Rhaid hefyd ydoedd am bâr o *overalls.* Yr oedd y gôb fawr a'r goler mawr i lawr yn mhell dros yr ysgwyddau ganddo yn barod. Ond yr oedd yn rhaid cael clôg eto, a *chap* yn perthyn iddo er cuddo yr het a'r pen, a'r wyneb agos oll—os digwydd i'r tywydd i fod yn arw iawn; a rhaid hefyd am *portmanteau*—ysgil-gist, os buasai ychydig hyd yn y daith. Ac os oedd y pregethwr yn penderfynu ymwisgo yn yr holl arfogaeth, yn erbyn gwynt

a gwlaw, yn ol ffasiwn oes a gwlad, rhaid iddo feddu gyda y pethau a nodwyd, bâr o *dop-boots* yn ddiogelwch i'r traed a'r coesau, a napcyn *India* tywyll i'w wisgo am y pen ar ol pregethu, &c. A thrwy y cwbl, gellid meddwl mai gorchwyl gryn anhawdd ydoedd i wynt, na gwlaw, ddyfod o hyd i'r pregethwr ei hun, pan ar ei daith y pryd hwnw.

Wedi cael yr holl angenrheidiau uchod, neu y nifer fwyaf a phwysicaf o honynt—nid ydym yn sicr eu bod oll i'r manylion ganddo ef—dacw ddyn gweddol dew, a'r olwg arno yn wledig o ran gwisg ac ymddangosiad corfforol; nid ydych yn siwr ar yr olwg gyntaf arno, pa un ai hen ai ieuanc ydyw—ymddengys yn bob un o'r ddau i ddyn dyeithr ar yr olwg gyntaf. Ymwisga yn bur hynod. Clos penlin, côb isaf o frethyn cartref, a het isel, ac ymyl lydan iawn iddi sydd ganddo. Adroddai yn mhen blynyddoedd ar ol hyn, am ei ddull yn gwisgo yr amser yma gyda difyrwch. "Yr oedd mam yn fy ngwisgo i," meddai, "pan ddechreuais i bregethu mor salw ŵr, fel nad oedd fawr berygl y gwnai un lodes ifanc i fy ffansio i byth." Ond er hyn oll, y mae yn ymddangos yn dda a chefnog, a rhywbeth yn ddeniadol yn yr olwg arno i ferched ieuainc, a hen, a phawb wedi y cwbl. Dyma y dyn wyneb llydan ac agored—*leonine face*—a'r olwg arno yn attyniadol, er gwaethaf ei ymddangosiad pruddaidd, a'i wisg wledig, yn cychwyn ymbarotoi i fyned i daith Sabboth i'r Gwastad, swydd Benfro, am y tro cyntaf erioed iddo fyned mor bell a hyny ar gyhoeddiad i'r Sir hono; er nad ydyw y rhanau uchaf o honi nepbell o'i gartref, ac yntau erbyn hyn yn ddiau, wedi bod yn y capelau uchaf ynddi ragor nag unwaith. Ond nid yw eto ond dechreu gwisgo am dano. Ie, dyna. Rhaid cael yn nesaf y *goat* fawr lwyd, *cashmere*, a'r *overalls*, ac am ben hyn oll, y clogyn brethyn du mawr a thrwm. Rhaid yn nesaf am y ceffyl—yr hen gel du, scotch mawr, a chryf;

yn fwy cymwys i lusgo y wagen, neu y gert, a thunell neu ragor o bwysau ynddi, na chario pregethwr. A chyda llaw, yr oedd hen gel du John Jones, Cytir bach, yr adeg yma, yn agos mor enwog a'i feistr, yn enwedig yn mhlith bechgynos y gymydogaeth. A diau y teimla y rhai sydd yn fyw o'i gyfoeswyr yn chwith iawn, os nid yn ddigofus wrthym, os na bydd genym bennod o leiaf o gofiant am dano yn y bywgraffiad hwn. Ond yn gymaint ag mai ysgrifenu ychydig o hanes y meistr yr ydym yn y llyfryn hwn, gadawn hanes ei anifail ar hynyna o grybwylliad—rhaid yn nesaf am dano ef; a dyma ef wrth y drws yn barod i gychwyn i'r daith. Ac wedi hir a pheth, dyma y meistr hefyd yn barod, ac yn dyfod allan yn drwmlwythog ei feddwl a'i gorff. Ac yn wyneb bod y pregethwr mor drwm o gorff a meddwl, a'r ceffyl du yn lled uchel, rhaid myned â'r olaf at yr esgynfainc, tuag at i'r pregethwr—er nad ydyw ond dyn ieuanc—allu myned ar ei gefn. Ac o'r diwedd, dacw y ddau yn cychwyn yn arafaidd o'r Cytir bach, am y Gwastad yn Sir Benfro. A rhwng fod y dyn yn fawr, a'r dillad yn fawr, a'r "hen gel du" yn fawr, gellid tybied fod darn helaeth o gymydogaeth Blaenanerch a'i gogoniant yn ymadael, pan fuasai John Jones a'r "hen gel du" yn myned i daith. Ac fel hyny yr oedd mewn gwirionedd—yr oedd darn mawr o gnawd ac yspryd, yn gystal a nodweddiad y gymydogaeth, yn myned oddicartref, pan gychwynent hwy eu dau i daith. Dyma y ddau yn drechreu y daith tua'r Gwastad yn Sir Benfro, am Sabboth. Ac ar y cyfan, y maent yn myned yn mlaen yn weddol gysurus a chytunus, oblegid nid oes fawr o frys ar y naill na'r llall. Ac anhawdd yw penderfynu, weithiau o leiaf, pa un yw y meistr—y mae pob un yn feistr yn ei ffordd ei hun, y pregethwr a'r ceffyl. Os bydd eisiau bwyd ar y ceffyl, ac iddo weled tipyn yn gyfleus ar ochr y ffordd, efe yw y meistr, am ychydig beth bynnag; o herwydd rhaid cael rhan o

hwnw, gwnaed y pregethwr a fyno, ac eled y cyhoeddiad lle yr elo. Pa fodd bynnag, cyrhaeddwyd pen y daith cyn aeth hi yn hwyr iawn nos Sadwrn—yr oedd y pregethwr a'r ceffyl, er yn *slow*, yn *sure*.

Y boreu Sabboth a ddaeth; ac y mae y bobl yn ymdyru yn fwy nag arferol, a chyda mwy o fywiogrwydd na chyffredin, er na welsant y pregethwr o'r blaen. Ond yr ydoedd yn ddyeithr, a rhai wedi clywed rhywbeth am dano; cyfrifa hyn am y tyru bywiog a chynar i'r capel. Yn mhen enyd, wele y pregethwr yn dyfod at y capel, yn ddyn mawr annghyffredin rhwng y dillad a phob peth, ar gefn yr haner elephant o geffyl oedd ganddo, nes y mae y dynion o gwmpas yr addoldy yn dechreu synu, a'r syndod hwn yn ffafriol i greu disgwyliad ynddynt wrtho fel pregethwr mawr. Yr ydoedd yn dyfod i fyny yn berffaith â nodau cyffredin y pregethwyr mawr yn yr oes hono, yn arbenig os ydoedd y clogyn am dano. Yr ydoedd ef a'i anifail—yr oedd y 'cel du' yn dew iawn heblaw ei fod yn fawr—yn dew, mawr, a graenus o wisg ac ymddangosiad. Disgyna y pregethwr oddi ar ei farch, ac â i mewn i'r tŷ capel. Ymddiosga o'r haenau uchaf o'r wisg oedd am dano, a'r brodyr parchus oedd yn disgwyl yno am dano yn edrych yn fanwl arno. Methant wybod yn iawn pa beth i wneyd o hono. Tybiant yn awr mai hen ydyw. Ond yn y man, y maent yn gorfod penderfynu nad yw yn hen. Beth ydyw? Ai tlawd neu gyfoethog ydyw? Nid yw yn ymddangos yn dlawd yn ei wisg na dim arall, er ei fod yn ymddangos yn hynod, a gwladaidd yn ei wisg a'i ymddangosiad oll. Penderfyna y frawdoliaeth o'r diwedd, ei fod yn ymddangos yn fwy tebyg i ffermwr gweddol gefnog na dim arall; ond y mae yn amser dechreu yr odfa.

A allan yn arafaidd, a dringa i'r pwlpud yn drwm ei droed a phruddaidd ei wyneb. Dacw ef ar ei draed, yn ddyn mawr, llyfndew a gwledig; mae merched

ieuainc cyfrifol yr ardal yn teimlo braidd yn siomedig —nid ydynt yn gwybod yn y byd pa un ai dyn ieuanc, neu ŵr priod ydyw. Ac os yw yn ddibriod, anhawdd iawn i'r chwiorydd yma i wybod pa beth i wneyd o hono, gwed'yn; mae rhywbeth yn attyniadol a hawddgar ynddo, er gwaethaf y tristwch sydd ar ei wedd, a'r wisg wledig sydd am dano. Ond gadawn hynyna yn awr, y mae y pregethwr yn dechreu darllen y bennod. Dyma y penill allan. Y mae rhywbeth yn hwna sydd yn tynu sylw. Wedi canu y penill, dechreua weddio. Y mae rhyw afael a nerth rhyfedd yn hon o'r dechreu. Gweddiodd y pregethwr, fel na feddyliodd neb fawr gwed'yn am ei wisg, na pha un ai hen ai ieuanc, &c., ydoedd efe—na, nid oedd neb yn meddwl am ddim, ond disgwyl am y testyn a'r bregeth. A dyma y testyn yn cael ei ddarllen mewn llais i raddau yn uchel, a thipyn yn gyffrous (dyma ei ddull yn nechreu ei bregethu)— "A bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef." Pregethodd yn rhyfedd ac ofnadwy, ac nid annghofiodd neb mewn oedran y bregeth na'r pregethwr byth yn dra thebyg. Prin y meddyliodd neb o'r gynulleidfa rhyw lawer am ginio, nac arall y boreu hwnw; yr oedd meddwl am y pregethwr doniol o Blaenanerch, ac awydd i fyned i'w wrando yn y prydnawn a'r nos, wedi myned a bryd a meddwl y nifer luosocaf o honynt.

A chan fod y bregeth hon o'i eiddo wedi bod mor nodedig ganddo yn nechreuad ei ffordd fel pregethwr—drwy hon yn benaf y daeth i sylw y wlad ar y dechreu, ac y marciwyd ef allan fel un o bregethwyr mwyaf poblogaidd Cymru—a chan fod llawer wedi bod yn dymuno arno ei phregethu yn mlynyddoedd olaf ei oes, ac yntau yn nacau gwneyd, rhoddwn i'r darllenydd grynodeb, i fesur yn gyflawn o honi. Y mae wedi ei hysgrifenu ganddo mewn llyfryn pur ddestlus. Ysgrifenai yr adeg yma yn hynod o fân o ran ei lythyreniad, a thueddai i ysgrifenu

felly bob amser. Y mae yn ysgrifenedig ar ddechreu y llyfryn hwn:—"John Jones's Book, in the year of our Lord, 1835." Y mae y *date* yma, yn gystal a phethau eraill perthynol iddo, yn dangos fod y llyfr pregethau hwn yn gasgliad o rai o'i bregethau cyntaf ef. Ni raid i ni hysbysu y darllenydd fod y bregeth hon yn wahanol iawn fel y mae ganddo ef wedi ei hysgrifenu—yn gystal ag fel ei cyflwynir genym ninnau i'r darllenydd—i'r hyn ydoedd yn dyfod allan o'i enau ef; nid yn unig o ran gwres a theimlad, ond hefyd o ran defnydd ac ystyr. Nid yw fel y mae wedi ei hysgrifenu ganddo, gellid tybied, ond defnyddiau i feddwl arnynt—*material for thoughts*—yn unig; ac nis gallwn ni ond rhoddi crynhodeb o'r hyn a ysgrifenodd efe yn y cofiant hwn. Pa fodd bynnag, rhoddwn grynhodeb pur gyflawn o honi; a hyderwn y rhydd hyny, nid yn unig foddlonrwydd i'r darllenydd, ond mesur o syniad wedi y cwbl, am y bregeth enwog hon, ac am y pregethwr yn ei thraddodi gyda nerth anorchfygol yn aml. Yr oedd ganddo ef ddwy bregeth ar yr adnod—"Canys Bachgen a anwyd i ni," &c. Ond y bregeth a ddaeth i enwogrwydd, ac a'i cododd yntau felly yn neillduol, ydoedd yr un ar y rhan o'r adnod a nodwyd gyntaf—"Pregeth y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef." A ganlyn sydd fraslun o honi:—

"Y gwrthddrych a nodir yma yw yr Arglwydd Iesu Grist. Mae yma ddesgrifiad o'r Arglwydd Iesu o ran ei Berson cyfryngol yn meddu ar ddwy natur—natur y ddwy blaid wedi cwrdd yn ei Berson Ef; 'Canys bachgen a aned i ni, Mab a roddwyd i ni, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef.' Ond y mae y geiriau hefyd yn dangos bod llywodraeth gyfryngol yn perthyn i'r Arglwydd Iesu—'A bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef.' *Sylwn oddiwrth y geiriau:—*

I. Fod y llywodraeth yn perthyn i Grist fel Cyfryngwr.

II. Ar natur ei lywodraeth Gyfryngol.

III. Gan fod llywodraeth yn perthyn i Grist fel Cyfryngwr, mai ein dyledswydd yw ymostwng iddo fel Brenin, a'n braint yw cael bod yn ddeiliaid i'w deyrnas Ef.

## I.

Mae llywodraeth Gyfryngol yn perthyn i Grist.

1. Y mae arglwyddiaeth a llywodraeth yn cael eu priodoli iddo yn y Gair Sanctaidd; megys prophwydoliaeth Jacob am dano dan yr enw Silo:—'Nid ymedy y deyrnwialen o Judah, na'r deddfwr oddi rhwng ei draed Ef, hyd oni ddel y Silo.' Ac y mae tystiolaeth yr angel wrth Mair, yn dangos hyn yr un modd. 'Hwn fydd mawr ac a elwir yn Fab y Goruchaf, ac iddo y rhydd yr Arglwydd Dduw orseddfa ei dad Dafydd. Ac Efe a deyrnasa ar dŷ Jacob yn dragywydd, ac ar ei frenhiniaeth ni bydd diwedd.'

2. Mae yr enwau cyfryngol sydd yn cael eu gosod arno yn y Gair, yn brawf fod llywodraeth Gyfryngol yn perthyn iddo; megys Brenin a osododd Duw ar Seion—'Minnau a osodaf fy Mrenhin ar Seion,' medd yr Arglwydd; Arglwydd o wneuthuriad Duw; Pen yr Eglwys, Pen corff, a Phen uwchlaw pob peth i'r eglwys; Bugail y praidd, y Bugail da, a Bugail mawr y defaid, Act. ii. 36; Eph. i. 22, a Heb. xii. 20. Mae yr enwau hyn ar Grist yn dangos fod llywodraeth Gyfryngol yn perthyn iddo.

3. Mae gallu perthynol i lywodraeth yn cael ei briodoli iddo. Mae wedi ei eneinio. Mae ei eneiniad yn golygu ei osodiad a'i awdurdodiad i weinyddu yn ei swyddau cyfryngol, i ddwyn oddi amgylch fwriadau tragwyddol y Jehofa, mewn perthynas i iachawdwriaeth yr eglwys. Ac fel y mae wedi ei awdurdodi yn ei holl swyddau, felly y mae wedi ei awdurdodi fel Brenin ei eglwys. 'Minnau a osodais fy Mrenin ar Seion fy mynydd sanctaidd.'

4. Mae gwrthddrychau perthynol i frenin yn cael eu priodoli iddo; megys gorsedd, teyrnwialen, a choron.

Mae breninol goroniad wedi bod arno gan ei Dad, gan ei eglwys, a chan ei elynion, Heb. ii. 9; Can. iii. 11; Ioan xix. 1, 2, 3. Mae hyn eto yn profi fod llywodraeth Gyfryngol yn perthyn iddo.

5. Mae gweithredoedd perthynol i lywodraeth wedi eu cyflawni ganddo, ac yn cael eu priodoli iddo i gael eu cyflawni eto. Cafodd Crist ei ordeinio i'r llywodraeth yma yn nhragwyddoldeb; a dechreuodd ei gweinyddu yn fuan ar ol y cwymp. Bu yn gweinyddu y llywodraeth yma dan yr hen oruchwyliaeth. Cafodd ei eni yn Frenin, a'i fagu i lywodraethu. Yr ydoedd yn dal y llywodraeth yma yn sefyllfa ei ddarostyngiad yn y byd hwn. Fel Brenin y marchogai ar asyn i Jerusalem. 'Bydd lawen iawn ferch Seion—wele dy Frenin yn dyfod atat.' Fel Brenin ei eglwys y bwriai allan y prynwyr a'r gwerthwyr o'r deml. Yr oedd ganddo ef awdurdod i drin yr hen fechgyn hyny gyda'u haur, a'u byrddau, a'u taflu allan o dŷ ei Dad—yr oedd llywodraeth y tŷ ar ei ysgwydd Ef y pryd hwna. Fel Brenin ei eglwys yr oedd Efe yn gostegu y gwynt a'r môr. Fel Brenin yr eglwys y bu yn ymladd â'r gelynion, a'u concro ar y groes—yr oedd y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef pan dan yr hoelion. Fel Brenin y daeth i fyny o'r bedd, ac y sefydlodd ordinhadau yr eglwys, ac y gosododd y gwahanol swyddogion yn ei dŷ. Ac fel Brenin Cyfryngol y mae yn anfon yr Yspryd, ac y daw i farnu y byd.

6. Yr oedd yn cael ei gysgodi yn ei lywodraeth Gyfryngol dan yr hen oruchwyliaeth. Nid oedd holl frenhinoedd Israel a Judah ddim ond cysgod o Frenin Seion. Pan anwyd y Brenin yma yn nghyflawnder yr amser, fe lyncodd yr holl gysgodau hyny ynddo ei hun; ac eistedda Efe mwy yn dragywydd ar dŷ Jacob, ac ar ei frenhiniaeth Ef ni bydd diwedd—'A bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef.' Wel, byw fyddo y Brenin yma byth.

II.

Ar natur ei lywodraeth Gyfryngol Ef. Y mae y llywodraeth hon ar ei ysgwydd Ef fel Cyfryngwr, o roddiad ac ymddiried y Duwdod. Fel Person Dwyfol, yr oedd yn meddu awdurdod heb angen ei derbyn gan neb; ond pan y mae rhoddi i Grist, a derbyn gan Grist, fel Cyfryngwr, y mae hyny iddo ef, Math. xxviii. 18. Ac y mae y llywodraeth hon wedi ei rhoddi i Grist, fel gwobr am ei waith a'i wasanaeth, yn gorphen gwaith y prynedigaeth ac iachawdwriaeth yr eglwys, Phil. ii. 9.

1. Y mae yn llywodraeth dragwyddol, Dan. vii. 13, 14. Mae Crist wedi ei ordeinio er tragwyddoldeb i'r llywodraeth hon, Diar. viii. 23. Efe y dywedir fod 'ei fynediad allan o'r dechreuad, er dyddiau tragwyddoldeb i fod yn llywydd yn Israel,' Mich. v. 2. Yn Bethlehem y ganed Ef, ond y mae ei fynediad allan er dyddiau tragwyddoldeb. Mae hon hefyd yn dragwyddol o ran ei gweinyddiad. Mae swn tragwyddol yn y testyn:—'A BYDD y llywodraeth ar ei ysgwydd ef.' Yr ydoedd "y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef," fel byrdwn ganddo yn cael ei ddyweyd yn aml, a'i floeddio gyda mwy o rym ac effeithiolrwydd, fel yr elai yn mlaen—yn enwedig y gair EF yn niwedd y frawddeg. Ac yn wir, yr ydym yn gorfod teimlo, wrth adysgrifenu y braslun yma o'r bregeth hon, mai diffygiol iawn i roddi un syniad o'r hyn ydoedd ganddo ef yw, heb fod y byrdwn yma i mewn gyda hi yn ei nerth, ei wres, &c, ef yn ei ddywedyd—neu yn hytrach yn ei floeddio a'i ganu. "Ar ei frenhiniaeth Ef ni bydd diwedd byth. Wedi *settlo* holl *goncern* y farn ddiweddaf, ni bydd diwedd ar ei lywodraeth Ef. Bydd Ef yn gweinyddu y lywodraeth Gyfryngol byth yn y byd a ddaw; mewn cospi ar un llaw, ac mewn gogoneddu ar y llaw arall. Bydd cospedigaeth yr annuwiol yn dyweyd byth—'Y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef;' a dedwyddwch y saint, yn dyweyd byth yn yr un modd—'Y llywodraeth ar ei

ysgwydd Ef.' Ac am na bydd diwedd ar ei lywodraeth Ef, ni bydd diwedd ar ddinystr ei elynion, na diwedd ar ddedwyddwch y saint byth.

2. Y mae yn llywodraeth Ysprydol. Mae y cwbl a berthyn i'r llywodraeth hon yn ysprydol—ei Brenin, ei gorsedd, ei theyrnwialen, a'i deiliaid. Mae ei Gwaith yn waith ysprydol; sef darostwng gallu y diafol, a dadymchwel teyrnas y tywyllwch ; a gogoneddu Duw mewn dwyn oddiamgylch dragwyddol iachawdwriaeth i ddynion. Breniniaeth nad yw o'r byd hwn yw ei frenhiniaeth Ef; ac agwedd gwas oedd ei agwedd Ef yn myned trwy y byd hwn, er mwyn dangos nad oedd ei frenhiniaeth Ef o'r byd yma. Ac wrth farw mewn tlodi a gwarth, fe roddes elynion ei deyrnas mewn cadwynau, a sylfaenodd ei deyrnas mewn gwaed, ar sail na chryna hi byth, Heb. xii. 28, 29.

3. Mae yn llywodraeth eang iawn. Y mae yn gyffredinol ar bob peth. 'Rhoddwyd i mi,' meddai, 'bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear'—mae yn dri phlyg.

(*a*) Y mae ar y greadigaeth resymol—angylion, dynion, a chythreuliaid.

(*b*) Y mae ei lywodraeth Ef ar y greadigaeth ddireswm—ar anifeiliaid ac ymlusgiaid y ddaear, ehediaid yr awyr, a physg y môr. Os bydd eisiau asen i wahardd ynfydrwydd hen broffwyd ariangar, gall Ef beri i hono lefaru—'Y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef.' Dacw ddwy fuwch flythion yn myned a'r Arch adre'. Beth mae hyna yn ddangos? 'Y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef.' Dyna y cigfrain yn porthi Elias â bara a chig y boreu, ac a bara a chig y prydnawn—'Y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef.' Dacw y pysgodyn yn dyfod a modd i dalu y dreth i Pedr a'i Feistr. Sut hyny? Am fod 'y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef.'

(*c*) Y mae ar y greadigaeth faterol a difywyd. Y môr yn agor o flaen Israel, am fod 'y llywodraeth ar ei

ysgwydd Ef.' Y nefoedd yn rhoddi manna, y graig yn rhoddi dwr, a'r Iorddonen yn troi yn ei hol, am fod 'y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef.' Dyma y tân yn llosgi yn y ffwrn dân yn Babilon, heb wneyd niwed i'r tri llanc, am fod y Pedwarydd oedd ynddi, a'r 'llywodraeth ar ei ysgwydd Ef'—gall Ef wneyd fel y myno â phob peth er dwyn ei amcanion i ben.

4. Mae yn llywodraeth rasol ar ei eglwys. Fel y mae yn llywodraeth rasol, y mae cynydd yn perthyn iddi. Ond fel y mae yn gyffredinol, y mae yn arosol. Fel y mae yn llywodraeth rasol ar yr eglwys, y mae fel y gareg welodd Daniel, yn myned ar gynydd, nes o'r diwedd myned yn fynydd digon mawr i lanw gwastadedd yr hen ddaear yma â'i mawredd—a dylanwad crefydd o fôr i fôr, ac o'r afon hyd derfynau y ddaear yn y man—mae 'y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef.'

5. Mae ei lywodraeth yn farnol, er trin achosion tragwyddol ei greaduriaid rhesymol. Efe sydd yn Ben yn y byd a ddaw, i drin holl achosion tragwyddoldeb, a phenderfynu cyflwr dynolryw i gyd am byth yn y byd hwnw. A Christ yn ei lywodraeth gyfryngol welir yn dyfod ar gymylau y nef, y dydd diweddaf i farnu y byd ar ei orsedd freninol, a holl genedloedd y ddaear wedi eu cydgasglu ger ei fron Ef; ac fel Brenin y byd yn eu didoli hwynt, fel y didola y bugeiliaid y defaid oddi wrth y geifr, a'u *settlo* yn eu cartref am byth—'llywodraeth ar ei ysgwydd Ef' fydd hi byth yn y byd a ddaw.

## III.

Gan fod llywodraeth yn perthyn i Grist, ein dyledswydd a'n braint ni yw ymostwng dan ei lywodraeth Ef. Mae rhai yn dyweyd—'Ni fynwn ni hwn i deyrnasu arnom.' Ond cofied y rhai hyny—mae diwrnod y lladdfa yn ol. Ond mawr fydd braint y rhai a ymostyngant iddo. Dyma y rhai y mae pob peth yn gweithio er eu

lles, yn myned trwy y dwr heb foddi, a'r tân heb losgi; y rhai y mae marw yn elw iddynt, a'r rhai wahoddir â'r Gair, 'Deuwch fendigedigion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas;' y rhai a gânt eu gwisgo mewn dillad gwynion, a gânt fraint yn mhren y bywyd, bwyta o'r manna cuddiedig, mwynhau llawenydd, rhanu yr yspail, &c., am byth—am hyny, ymostyngwn i'w lywodraeth Ef. Amen.

'Bachgen a aned, Mab rowd in',
A'i enw sy'n rhyfeddol,
Llywodraeth ar ei ysgwydd gaed—
Duw cadarn, Dad tragwyddol.' "

Mae y pennill yna wedi ei ysgrifenu ganddo ar ol y bregeth; er ei roddi i'w ganu yn ddiau ar ol iddo ei phregethu.

Yn Awst, y flwyddyn 1838, bu farw ei chwaer yn dra disymwth, a theimlai yntau yn fawr ar ei hol. Yr oedd ei gyhoeddiad i fod yn Twrgwyn a Salem, yn fuan ar ol claddu ei chwaer. Aeth i'r cyhoeddiad hwn; ond gwrthododd aros i bregethu am chwech, yn y naill na'r llall o'r ddau le uchod, o herwydd, yn benaf, teimlo yn alarus ar ol ei chwaer. A deallodd rhai o'r brodyr yn Blaenanerch nad ydoedd yn bwriadu aros yr odfa chwech yn Twrgwyn. Yr oedd yr hen batriarch hynod, Owen Enos, Pencae, Sir Fynwy, yno yn ardal ei enedigaeth y pryd hwnw. Ac yn un peth, er mwyn i'r hen 'Owen' ei glywed, crefwyd ar Mr. Jones i bregethu yn Blaenanerch y prydnawn Sul hwnw am 6 o'r gloch. Ond nacau addo gwneyd yr ydoedd, er pob dawn a ddefnyddiwyd i'w berswadio. Pa fodd bynnag, anturiwyd ei gyhoeddi. Yn y cae bychan yn ymyl y capel y cedwid y moddion cyhoeddus yr haf hwnw, os buasai yr hîn yn caniatau, yn gymaint a bod y capel yn cael ei ailadeiladu y flwyddyn hono. Ac am fod yr hîn yn hyfryd, a'r pregethwr yn boblogaidd, yr oedd tyrfa fawr iawn wedi ymgasglu i'r cae bach—cymaint a welwyd mewn rhai cymmanfaoedd. Ond er

fod y bobl yno oll yn bresenol ger bron Duw i wrando, nid oedd dim argoel am y pregethwr yn un man. Ceisiwyd gan y Patriarch, o'r Esgaer gerllaw gynt, ond Pencae yn awr, i fyned i'r pwlpud oedd yn ymyl y clawdd, i ddechreu'r odfa, yr hyn a wnaeth yn ufudd iawn, yn ei ffordd ryfedd ei hun. Rhoddodd amryw bennillion allan ar y dechreu, yr hyn oedd beth rhyfedd a dyeithr y pryd hyny, nid er mwyn rhoddi mawl i'r Hwn a'i piai gymaint, ond er mwyn disgwyl y pregethwr. Darllenodd yn go faith, a gweddiodd yn rhyfedd a lled faith; nid am ei fod ef fel ambell un, yn methu dyweyd ei neges yn fyr ac uniongyrchol; ond i raddau, yn dra thebyg, i dreulio'r amser, er edrych a ddeuai y pregethwr. Ond gorfod rhoddi fyny wnaeth cyn fod dim tebyg fod y pregethwr yn dyfod. Rhaid canu eto, y pennill hiraf ellid gofio, a chanu pennill hir drachefn. Ac erbyn hyn, dyma y bobol oedd yn sefyll ar eu gwyliadwriaeth, yn canfod rhywbeth mawr tebyg iddo ef a'r 'hen gel du' yn dod yn arafaidd, tua haner milldir oddi wrth y capel. Yr oedd Owen yn y pwlpud o hyd, hyd yma, yn rhoddi pennillion i'r dyrfa i ganu. Ac o'r diwedd dyma John Jones wedi dyfod at gongl y cae, ond yn myned heibio tuag adref. Yr oedd dau neu dri o'r blaenoriaid allan ar y ffordd gydag ef yn awr, yn gwneyd eu goreu i gael ganddo aros a phregethu; ond yn methu—allasai efe ddim newydd gladdu ei chwaer fel hyny. Ac erbyn hyn, dyma yr hen 'Owen' yn gadael y pwlpud, a'r pennillion, a'r canu, ac yn dyfod at y pregethwr. "Beth sydd arnat ti? Rhaid i ti ddwad i bregethu i ni. A weli di fath dyrfa o ddynion sydd wedi dwad yma i di rondo di." "Na, alla i ddim siwr, mae nheimladau yn alarus, a'n nghymerau i yn ddrylliog ar ol fy chwaer, Owen bach—alla i ddim," oedd yr ateb gafodd yntau. "Beth sy ar y ffwl, a wyt ti yn meddwl na chladdodd neb chwaer ond ti," ebai Owen gwed'yn. "Na, ddowa i ddim, gadewch i

fi fyn'd adre," meddai y pregethwr eto. "Beth, a odi y d——— ynot ti, mae rhaid i ti ddwad, a dwad ar unwaith, a weli di y dynion yn disgwyl," medd yr hen Owen drachefn! A chyda hyn, wele y pregethwr yn disgyn, ac yn dyfod i mewn i'r cae gyda y brodyr ac Owen Enos, ac yn myned i'r pwlpud ar unwaith, ac yn codi ei destyn. Y testyn oedd:—"A hwy yn ddiystyr ganddynt, a aethant ymaith, un i'w faes ac arall i'w fasnach." Pregethodd yn hynod iawn, a chafodd yr hen Batriarch o Pencae flas mawr ar yr odfa; a bu yn gyfaill mawr i Mr. Jones, tra y bu byw, ar ol yr odfa hono. A rhaid oedd i Owen gael addewid am gyhoeddiad i Sir Fynwy, a rhanau o Morganwg, ganddo cyn myned yn ei ol—nid oedd wiw ceisio pallu i Owen; os na lwyddai efe trwy fendithio, mynai trwy felldithio.

Mae yn ymddangos iddo, yn y flwyddyn ganlynol, i fyned i'r daith a addawsid i Owen Enos y pryd hwn. Ac ychydig a'i hannghofiodd byth yn y wlad hono, a'i clywodd yn pregethu y tro cyntaf hwn—cyhoeddi John Jones, Blaenanerch, yn unrhyw gapel yno byth ar ol hyn, a wnai ei lanw unrhyw adeg. Clywsom frawd ag oedd yno ar y pryd, yn dyweyd am dano yn Pont-morlais, Merthyr, pan ar y daith hon. Ar nos Sabboth yr ydoedd yn y capel uchod—daeth yno o Dowlais. Yr ydoedd y capel mawr wedi ei orlenwi yn mhob congl o hono, cyn iddo ef i ddyfod i mewn. Ac erbyn fod rhyw frawd—y pregethwr oedd yn digwydd bod yn y daith hono ydoedd y brawd hwn mae yn ymddangos—yn y pwlpud i ddechreu y cyfarfod, dyma John Jones, Blaenanerch, i mewn yn y sedd fawr, yn ddyn lled fawr a chadarn o gorff, ond yn ymddangos yn ymollyngar a thrymaidd o feddwl y nos hono beth bynnag; ac un rheswm mawr am hyn ydoedd, gweled y fath dyrfa wedi dyfod i wrando arno ef, mewn fath le pwysig a dyeithr iddo ef. Wedi i'r pregethwr orphen gweddio, dacw ef yn codi i fyny i

roddi pennill allan—pennill y teimlai ei wirionedd yn ddwys iawn ar y pryd, fel yr ydoedd yn hawdd darllen hyny ar wedd ei wyneb. Y pennill oedd:—

> "Darfu fy nerth, rwy'n llwfrhau
> Yn d'allu mae f' ymddiried;
> Nerth mawr difesur, fel y môr
> Genyt sy'n stôr i'r gweiniaid."

Yr ydoedd rhyw ysprydoliaeth fyw yn cerdded trwy y dyrfa, wrth ei waith yn rhoddi y geiriau yna allan, a'r olwg gaent arno ef ar y pryd; a gwnaeth hyn ennill cydymdeimlad â chalon y gynulleidfa fawr o'i blaid ar unwaith; fel mai gwaith hawdd, i raddau mawr, ydoedd iddo i bregethu iddi yn awr. Y testyn ydoedd:—"A bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef." Cafodd odfa annghyffredin, fel y buasai arferol o gael, yn enwedig pan bregethasid y bregeth hon ganddo.

Gellid meddwl fod y daith hon yn un o'i deithiau pregethwrol cyntaf ef. Nid ydym ni yn siwr, pa un ai hon neu ei daith gyda y Parch. D. Davies drwy Sir Forganwg, a rhan o Sir Gaerfyrddin, ydoedd y gyntaf oll. Yr ydoedd Daniel Davies a John Jones yn gyfeillion mawr, ac wedi dechreu pregethu yn agos yr un pryd ac yn yr un fan; eto, nid yw yn ymddangos iddynt fyned gyda'u gilydd ar daith reolaidd, ond y tro hwnw trwy Forganwg a Chaerfyrddin. Nid ydoedd un rheswm am hyn dybygem o'u tu hwy, ond bod pob un o honynt yn anfoddlon i fod y pregethwr olaf, yn enwedig o hyd; ac yr oeddent, yn ol syniad gwlad am ddau bregethwr i fyned ar daith gyda'u gilydd, yn ddau rhy dda i fyned fel hyn ar unwaith i daith—ys dywedai Robert Thomas am dano ei hun a Cadwaladr Owen. Modd bynnag buont y waith y cyfeiriwyd ati ar daith reolaidd a phur hir. Ac ar y cyfan, trodd allan yn daith lwyddianus a chysurus i'w ryfeddu. Hoffai y ddau adrodd am y daith hon—"Y daith gyda'u gilydd drwy

Sir Forganwg"—yn aml drwy eu hoes; ac adrodd am ryw bethau rhyfedd a digrifol, a gyfarfuasant hwy a'u hanifeiliaid mewn cysylltiad â hi. Ond ychydig siaradent am eu pregethu un amser, yn ystod y daith hon. Ychydig hefyd, yn werth ei goffa, a glywsom ni gan eraill mewn perthynas a hwy yn y daith dan sylw. Mae yn ddiamheu fod llawer o bethau allasai fod o werth a dyddordeb yn nghôf llawer sydd eto yn fyw, am danynt hwy a'u pregethu pan yn myned drwy y wlad yna, yn ddau ddyn hynod iawn yn eu ffyrdd eu hunain, am y tro cyntaf erioed. Ond methasom ni, er ceisio peth, a chael fawr iawn, a dim neillduol ynddo. Clywsom hyny, beth bynnag am danynt o lawer cyfeiriad, eu bod yn creu cryn dwrw a siarad ar eu hol yn mhob man; a chofiai y rhan fwyaf o'r gwrandawyr yn dda am danynt byth ar ol hyny. Ar y cyfan, John Jones, fel y mae yn hawdd meddwl, ydoedd yn creu mwyaf o argraff ar y wlad, ac yn tynu y bobl ar ei ol. Ond yr ydoedd dosparth yn mhob cynulleidfa, gellid meddwl, yn barnu—a rhai yn dyweyd hyny hefyd—fod llawn cystal shop gan Daniel Davies o fewn; ond fod ei gyfaill yn rhagori llawer yn maint a gosodiad allan ffenestri ei shop. Mynai Daniel Davies, y rhan amlaf, bregethu yn gyntaf, yn enwedig mewn llefydd mawrion. Ac ar y cyfan, gallai taw fel hyny ydoedd oreu; oblegid buasai yn anhawdd iawn i unrhyw bregethwr i bregethu yn llwyddianus ar ol John Jones, weithiau, yr amser hwnw.

Gallem dybied mai nid hir ar ol y daith trwy Forganwg y bu cyn myned i'w daith gyntaf i'r Gogledd. Y mae yn ymddangos mae myned i'r daith hon a wnaeth heb neb ganddo, yn benaf er mwyn bod yn bresenol yn y Gymmanfa a gynhelid yn Bangor yr adeg hono. Bu yn pregethu ddau o'r gloch y diwrnod olaf yn y Gymmanfa a nodwyd. Bu ofn a gwendid agos a'i orchfygu cyn, ac wrth ddechreu pregethu y waith hon. Ond y mae yn

debyg i'r odfa hon droi allan yn un o'i rai goreu ef mewn Cymmanfa wedi y cwbl; ac ofer oedd ceisio pregethu ar ei ol. Ymddengys hefyd mai dyma y tro cyntaf iddo bregethu mewn Cymmanfa—beth bynnag yn yr awyr agored.

Yn Nghymmanfa Llangeithio, Awst, 1841, ordeiniwyd ef gyda phump eraill. Y rhai a neillduwyd yn y Gymmanfa hono oedd:—Joseph Rees, James Davies, John Jones, ac Evan Jones, o Sir Aberteifi; a Edward Mathews, ac Evan Morgan, o Sir Forganwg. Traethwyd ar natur eglwys ar yr achlysur gan y Parch. T. Elias, a rhoddwyd y cyngor gan y Parch. T. Richards. Gwelwn mai un yn unig o'r chwech a neillduwyd yn y Gymmanfa hono sydd yn fyw —y Parch. E. Mathews, Caerdydd. Er bod John Jones yn bregethwr poblogaidd a chymeradwy iawn yn mhob man, a hyny oddi ar y dechreuodd ar y gwaith, eto bu wyth mlynedd yn pregethu cyn cael ei ordeinio. Yr ydoedd ein tadau yn hwyrfrydig iawn i roddi yr anrhydedd cysegredig hwn i rai o'u meibion glewaf a hoffaf.

Yn araf a phrin ar y cyfan, yr estynid rhagorfreintiau y corff iddo ef rywfodd—fel y digwyddai weithiau i bregethwyr y bobl, o herwydd rhyw resymau Eto cafodd ef brofi *rhan* o fwyd y breninoedd a'r tywysogion yn yr ystyr yma wedi y cwbl. Llwyddodd i gael ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth, wedi bod yn cynhyrfu Cymru a'i bregethu tanllyd, llwyddianus, a phoblogaidd, am wyth mlynedd. Cafodd roddi y Cyngor yn Nghymmanfa Pontfaen, Awst, 1857. Bu yn traethu ar fater mewn cysylltiad â'r ordeinio yn Nghymmanfa Llanilltyd Fawr, Awst, 1863. Y mater ydoedd:—"Y Broffes Gristionogol, ei hamcan, ei rhagorfreintiau, a'i hymrwymiadau." Yn Nghymmanfa Aberteifi, Awst, 1868, dewiswyd ef i fod yn Llywydd am y flwyddyn ddyfodol. A bu yr ail waith yn rhoddi y Cyngor i'r rhai a neillduwyd i gyflawn waith y weinidogaeth yn Nghymmanfa Treforris, Awst, 1869.

Yr ydoedd y Cyngor hwn, fel ei traethwyd ganddo ef—fel y cawn achlysur i gyfeirio eto ato mewn pennod arall—yn un o'r Cyngorion goreu yn ddiau a draddodwyd erioed; ac yn un o'r pethau goreu, a mwyaf nodweddiadol o hono ei hun, a wnawd ganddo ef erioed. Fel hyn, er nad annghofiodd y Cyfundeb ef mewn modd yn y byd a'i swyddogaethau o anrhydedd, eto pan ystyriom ei safle a'i boblogrwydd fel pregethwr yn y wlad, rhaid dyweyd mai tipyn yn brin a diweddar y deuent i'w ran ef wedi y cwbl.

## PENNOD VII.

*Yn priodi—Teulu ei wraig, a'i nodwedd fel gwraig rinweddol —Yn myned i fyw i Canllufaes—Yn glaf iawn yno—Eu plentyn bychan yn marw—Yn symud yn ol i fyw i'r Cytir bach, ac oddiyno i Brynhyfryd—Yn un serchus a hawdd ei drin yn y teulu—Eto yn un o dymer naturiol wyllt a hawdd ei gyffroi i ddigio—Yn arfer codi yn foreu—Yn ofalus am y ddyledswydd deuluaidd—Yn ymboeni gyda'i bregethau—Ei ddull yn cyfansoddi ei bregethau ac yn ysgrifenu—Ei hoffder o'i lyfrau, a'i ofal am danynt—Yn ofalus am ei gyhoeddiadau, a phawb yn y teulu yn gorfod gwasanaethu arno pan yn cychwyn iddynt.*

PAN ydoedd tua'r 36 flwyddyn o'i oedran, priododd Mr. Jones Mrs. James—boneddiges barchus ac o deulu uchel yn yr ardal. Yr oedd tad y Mrs. James hon—Mrs. Jones ar ol hyny—yn Ysgotiad o ochr ei dad, ac yn dwyn enw Ysgotaidd—Makeig—a bu y teulu hwn yn berchen ar lawer o dir yn agos i Llechryd unwaith, ac y mae rhan o hono yn cael ei alw wrth yr enw *Scotland* yn awr. Ond o du ei fam yr oedd yn Gymro pur; ac ymddengys hefyd, fod ei fam yn perthyn i'r Methodistiaid yn Llechryd, o ran ei chrefydd. Ac y mae yn draddodiad yn y teulu hyd heddyw, fod William Williams, Pant-y-celyn, yn galw yn aml yn Scotland yn amser y wraig hon, ac iddo ganu yr hen bennill canlynol iddi ryw dro, er tipyn o ddifyrwch diniwed:—

"Llechryd oerllyd gwlad y Gogledd,
Cwmwl dudew yw dy nod;
Ac ni thywynodd Haul Cyfiawnder
Ar dy yspryd eto erioed:
Mali o Scotland oedd dy harddwch,
Mali o Scotland oedd dy rym;
A phan ddiango Mal i'r nefoedd,
Ni bydd ynot fywyd ddim."

O du ei mham yr ydoedd Mrs. Jones yn dyfod allan o deulu Iuddewaidd. Ond er ei bod yn un o deulu fel hyn, yn gymysgedig o waed ac iaith—yn fwy o Saeson nag o Gymry—ac o ddygiad i fyny uchel, bu yn wraig ofalus a da iawn i Mr. Jones. Ac er nad ydoedd wedi ei dwyn i fyny gyda y Methodistiaid—perthyn i'r eglwys wladol ydoedd y teulu—ac o arferion uwch, a gwahanol i'r ardal hon yn gyffredin; eto gwnaeth ei synwyr cryf, a'i chrefydd gyson, hi yn aelod esmwyth a defnyddiol o gymdeithas a chrefydd, yn ardal Blaenanerch tra y bu byw.

Bu Mr. Jones yn meddwl rhywbeth am briodi ei wraig pan ydoedd yn Miss Makeig, a dywedid yn y gymydogaeth y gallasai ei chael hefyd y pryd hwnw, oni bae ei fod ef dipyn yn ddifater am hyny y pryd hwnw. Disgwyliai i gael gwraig yr adeg hono, y mae yn debyg, yn yr un modd i raddau, ag y cafodd Adda ei wraig, sef trwy gysgu. Pa fodd bynnag, ni ddisgwyliasai ei chael yn hollol yn yr un modd ag Adda chwaith yr adeg hono. Y mae genym un ffaith i brofi hyn. Pan oeddem ni yn blentyn, yr ydym yn cofio fod Rhosygadair-fawr—yno yr oedd Miss Makeig yn byw y pryd hwnw, yn cadw y fferm hono i'w mham—yn crasu ŷd ar ein hodyn ni yn y Cytir. Ac un prydnawn, yn y cyf-amser yr oedd ein tad yn fwy gwyllt a bywiog nag arferol (efe ydoedd cyfrinachwr—*confidant* Mr. Jones yn y mater,) a rhaid am dân yn mharlwr bychan y Cytir y prydnawn hwnw. Ac yn mhen tipyn, dyma John Jones, Cytir bach, yn dyfod i'r tŷ, ac yn ymddangos yn fwy trwsiadus nag arferol pan yn talu ymweliad cyfeillgar â theulu y Cytir, a daeth yno yn gynar i gael cwpaned o dê. Ychydig cyn nos, dyma ni y plant yn cael gorchymyn i fyned allan i'r tŷ-odyn am dipyn o'r ffordd; ac yr oeddem yn falch iawn o'r gorchymyn, gan fod yno dân da, a chyfleusdra da i ni gael chwareu. A chyda y llwydnos, dyma Miss Betsy, fel ei gelwid hi genym

ni, yn dyfod at y tŷ, ar gefn ei chaseg goch smart, a'n tad yn fywyd i gyd yn rhedeg i'w chynorthwyo i ddisgyn, a myned a hi i'r tŷ. Ac fel y clywsom Mr. Jones, lawer tro yn ei adrodd er difyrwch, yn agor drws y parlwr yn selog a gwyllt, ac yn ei gollwng i mewn at Mr. Jones, dan ddywedyd—"Dyna, rhyngoch chi a hi yn awr." Pa fodd bynnag, yn ofer ac am ddim y bu yr ymgyfarfod hwn, er dwyn yn mlaen rag-gyfeillach briodasol rhyngddo ef a Miss Makeig fel y cyfryw. Terfynodd yn hollol y noson hono, mewn distawrwydd a dirgelwch yn mharlwr bychan y Cytir. Ac ni bu hi hir ar ol hyn cyn priodi â Mr. James, Trefere-uchaf, ffermwr cyfrifol yn y gymydogaeth. Ychydig iawn fu parhad yr undeb hwnw —dim ond mis neu ddau. Bu Mr. James farw yn ddamweiniol, trwy syrthio oddi ar ei farch wrth ddyfod adref o Aberteifi. Ganwyd iddi blentyn o'r briodas hon, mab, yr hwn sydd yn fyw yn awr, ac yn aelod parchus o'r eglwys Fethodistaidd yn Blaenanerch. Ac yn mhen amser, aeth Mr. Jones i geisio am law Mrs. James yn awr, yr ail waith; a bu yn llwyddianus y tro hwn beth bynnag; priodwyd hwy Ionawr 14, 1842. Yn Canllufaes—ffermdy tua haner y ffordd o Blaenanerch i Aberteifi—yr ydoedd Mrs. James yn byw pan briododd Mr. Jones, ac yno y dechreuodd ef ei fywyd fel penteulu. Ganwyd iddynt un plentyn yno, a dyma yr unig blentyn a anwyd iddynt; ac ni bu Thomas Jones eu plentyn hwn, fyw ond deng mis. Ac yr ydoedd eu galar, yn enwedig ei eiddo ef, yn fawr ar ei ol—bu ef am flynyddoedd yn hiraethu, ac yn wylo ar ei ol. Yn y lle hwn hefyd, y bu Mr. Jones yn glaf iawn mewn twymyn, a gafodd yn ganlyniad i gysgu mewn gwely llaith a roed iddo pan ar ei daith yn rhyw ran o'r Gogledd. Bu yn agos i angeu yr amser hwn, a bu diddarbod am ei einioes ef. Rhoddes y doctoriaid ef i fyny i farw un amser; ond ymddengys na roddes yr eglwys ef i fyny felly y pryd hwnw; ac y mae

y cyfeillion yn Blaenanerch yn gryf yn y farn hyd y dydd hwn, mai eu taerni hwy mewn gweddi a fu yn foddion adferiad iechyd iddo y waith hon. Effeithiodd yr afiechyd hwn yn faith arno, yn enwedig ar ei lais ef—collodd rai nodau yn nhôn ei lais, medd rhai, tra fu byw.

Symudodd o Canllufaes, yn mhen pum mlynedd ar ol iddo briodi, yn ol i'r Cytir bach, at ei dad yr hwn ydoedd yn awr yn myned yn hen, ac yn teimlo yn unig. Ac yn mhen tair blynedd, symuda eto i'r Brynhyfryd,—tŷ a adeiladodd ei hun, ar ei dir ei hun, yn ymyl Blaenanerch, lle y bu byw mewn heddwch a chysur hyd angeu. Bu Mr. James, mab Mrs. Jones, byw gyda'i fam a Mr. Jones yn agos hyd y bu y ddau feirw. Bu byw fel hyn gyda hwy am flynyddoedd wedi iddo briodi, ac yn magu ei blant gyda hwy; a Mr. Jones yn ymddwyn tuag ato yn hollol fel ei blentyn, a thuag at ei blant fel pe buasent wyrion iddo ef; ac ymddengys ei fod yn arfer sôn yn aml am ei Thomas bach yn y teulu, gyda thristwch, nes y daeth plant Mr. James yno, ac ar ol hyny na soniai fawr ddim am dano un amser. Teimlai, ac ymddygai Mr. James ato yntau yn mhob peth, fel ei dad. A dywedodd Mr. James wrthym, na bu un gair cas rhyngddynt yn ystod yr holl amser y buont byw gyda'u gilydd, a bod mwy o hiraeth arno ar ol Mr. Jones, yn rhyw ystyr, nag ar ol ei fam wedi iddynt farw. Siarada hyn yn dda am y ddau yn eu synwyr a'u teimladau.

Yr ydoedd yn hynod serchus a hawdd ei drin yn y teulu. Yr ydoedd felly, nid yn unig i Mrs. Jones, a'i mab a'i blant; ond yr ydoedd felly i'w frawd a'i chwaer-yn-nghyfraith, y rhai a fu yn byw gyda hwy yn Brynhyfryd am flynyddoedd; amgylchiadau a allasai fod yn achos o lawer o annghydfod ac anhapusrwydd, yn enwedig iddo ef. Eto un o dymer naturiol wyllt ydoedd efe, a bu hyn yn brofedigaeth iddo lawer gwaith. Ychydig iawn, a'r ychydig hyny yn beth bychan a

dibwys, os buasai o natur neillduol, wnai ei gyffroi i ddigllondeb, neu o leiaf ei yru o'i anian lawen. Ond pan ddigwyddai hyn, rhaid ydoedd am ammodau heddwch yn bur fuan. Un o'i wendidau ef oedd hyn; ond gellid meddwl mai gwendid dibechod ydoedd ynddo ef yn aml wedi y cwbl. Ond er hyny, cymerai rhyw ddynion fantais o'r gwendid hwn ynddo, i'w demtio i brofedigaeth weithiau, a'i boeni ynddi wedi ei demtio iddi. Ac yr oedd hyn yn dangos ei hun ynddo i raddau yn y teulu gartref weithiau; gellid yn hawdd ei daflu o'i hwyl, ac i sori tipyn; ond gellid yn hawdd hefyd ei gael yn ol iddi drachefn.

Arferai godi yn lled foreu ar hyd ei oes. Ac yr oedd yn ofalus i gadw'r "ddyledswydd deuluaidd" yn ddifwlch, er mai ychydig o amser a gymerai i fyned trwyddi yn gyffredin; a buasai yn gweddio i raddau mawr yr un geiriau braidd bob amser. Tueddai yn fawr i unffurfiaeth yn ei weddiau cyhoeddus hefyd, beth bynnag yn ei flynyddoedd diweddaf, oddieithr ambell i dro pan ddisgynai rhywbeth neillduol ar ei yspryd—buasai ef a'i weddiau yn newydd ar amserau fel hyny. Yr ydoedd yn hoff iawn o'i lyfrau, ac hynod ofalus am danynt; er mai ychydig oeddynt, ac anaml y gwnai ddefnydd o honynt. Yr ydoedd yn siriol a charedig iawn i blant bach Mr. James bob amser, ond pan fyddent yn ymhel a'i lyfrau ef—nis gallasai oddef hyny ynddynt, er mor hoff oedd o honynt, a charedig ydoedd iddynt. Pan yn astudio ei bregethau yn y tŷ, y llyfrau a fuasai ganddo bob amser oeddent, Testament bychan—deuddeg plyg, a Beibl Peter Williams. Nid ydym yn gwybod yn iawn pa ddefnydd ydoedd y Testament hwn iddo; ond yr ydoedd ganddo bob amser wrth gyfansoddi ei bregethau, a dygai ef gydag ef bob amser pan yn eu traddodi y troion cyntaf. Yr oeddem ni yn tybied wrth weled hwn ganddo, pan oedd y bregeth yn newydd, fod rhyw *notes* ganddo ynddo;

neu o leiaf ei fod yn Destament a chyfeiriadau ynddo. Ond nid oedd y naill na'r llall ynddo. Gwnai llawer o'r hen bregethwyr ddefnydd o ryw Feibl neu Destament bychan felly, er mwyn cadw *notes* a'u cuddio rhag y gynnulleidfa. Cofus ydyw genym ni am Feibl bach y diweddar Mr. Wm. Williams, Aberteifi, a'r meddwl uchel oedd genym am y Beibl bach hwnw pan yn blentyn. Yr oeddem ni yn credu pan yn ieuanc, fod Mr. Wm. Williams yn cael y cwbl—yr amser o'r dydd (oblegid ni wnai ef ddechreu yr odfa yn ol amser cloc y capel) yr hymnau, y bregeth; a hyd yn oed y dwrdio doniol a wnai weithiau ar y bobl—credem ni y pryd hwnw fod y cwbl yna yn Meibl bach Mr. Williams, a bod awdurdod y Beibl bychan tu cefn i'r oll a ddywedai ac a wnai. Nid ydym sicr pa beth berodd i Mr. Jones i wneyd defnydd o'r Testament bychan hwnw, ar y dechreu; gallai fod awydd bod yn debyg i rai o hen bregethwyr enwog Cymru yn hyn, i fod yn un rheswm am hyny. Ond y mae yn ddiddadl, fod cael hwnw yn ei law, wedi dyfod o'r diwedd trwy arferiad, yn rhyw gynnorthwy i gadw ei feddwl yn dawel gyda mater y bregeth, pan yr ydoedd yn newydd, a'i syniadau yn anaddfed yn ei gof a'i feddwl. Y defnydd a wnai o Feibl Peter Williams, yn aml, ydoedd gwneyd desg ysgrifenu o hono. Ysgrifenai gryn lawer—mwy na feddylid o lawer. Y mae llawer iawn o'i bregethau wedi eu hysgrifenu ganddo, a hyny mewn llawysgrifen fân a destlus, ac yn weddol ddiwallau. Ysgrifenu ei bregethau a wnai gan amlaf, ar ol eu profi trwy eu pregethu yma a thraw. Ond y mae y mân ddywediadau a draethai yn aml, oddi ar gynhyrfiad y foment hwylus—gemau ei bregethau—yn eisiau ynddynt oll. Ac ar glawr brethynog yr hen Beter, yn araf iawn, yr ysgrifenai hwy gan amlaf. Treuliai lawer o amser gyda'i bregethau. Dyma yn unig ydoedd ei waith, ac ymboenai lawer gyda hwy—llawer mwy nag y gellid meddwl. Tystiolaeth Mr. James am

dano yn hyn ydoedd:—"Yr oedd mewn gwirionedd yn poeni ei hunan wrth *studio;* ac ymddangosai i ni fel teulu, yn druenus ei deimladau yr amser y buasai wrthi; ac ni cheid un gair o'i enau o'i fodd; er na allech feddwl hyny pan yr oedd allan, ac yn wir, pan oedd yn y tŷ o ran hyny, ar ol y dibenai efe rywbeth, yr oedd yn llawen iawn, ac weithiau yn galw arna i, os byddwn yn y tŷ, i gael ymgom gydag ef yn y parlwr." Treuliai lawer o amser allan yn yr ardd, a'r caeau gerllaw y tŷ, i astudio, a pherffeithio ei bregethau. Ymdrafferthai felly, yn ei ffordd ef, gyda gwneyd pregethau newyddion, a gwella, a newid, a throi a throsi yr hen, hwyr a boreu, pan gartref; ond cymerai y prydnawn yn y cyffredin i ymweled a'i gyfeillion, neu i gymeryd "*nap* bach."

Ymdrechai yn fawr, ac ystyried pob peth, i fyned i'w gyhoeddiadau trwy ei oes. Buasai yn myned yn aml, er mor drwm o gorff, ac er methu cerdded fawr ddim pan yn teithio, i deithiau hirion iawn yn Sir Aberteifi, a hyny heb ddisgyn i gael cynnaliaeth iddo ei hun na'i anifail. Weithiau gwnai hyn er mwyn peidio pwyso ar ei gyfeill ion, a phryd arall o ddiffyg cyfleusdra. Pan yn methu weithiau fyned i'w gyhoeddiad, yr ydoedd yn hynod anhapus drwy y Sabboth hwnw, yn enwedig os y tywydd fuasai wedi ei rwystro, ac i'r tywydd droi yn deg y Sul y buasai gartref. Ond os parhai y tywydd yn arw iawn drwy y dydd, buasai yntau yn hapus iawn, gyda y preg ethwr a'r cyfeillion yn y capel drwy y dydd.

Fel cyfaill yr ydoedd yn ffyddlawn a diogel, ac fel cymydog, yr ydoedd yn heddychlawn a charedig—oddieithr i rai o'i gymydogion gymeryd mantais annheg ar ryw ddiniweidrwydd, a manau dolurus a berthynai iddo—sorai wrthynt am dipyn os gwnaent hyny. Ond ni wnai byth ddrygu hen gyfaill, os digwyddai ddigio weithiau wrtho am ryw amser byr. Fel y dywedodd y Parch. John Jones, y Cei, ddiwrnod ei gladdedigaeth, ei fod ef

wedi cael prawf neillduol arno yn hyny—ei fod "fel y bedd" yn hyny, ys dywedai efe ei hun—cadwai gyfrinach yn ddiogel, er na buasai yn siwr o gadw wyneb siriol iawn i'w gyfeillion goreu bob amser. Ac yr ydoedd yn un da iawn am beidio dyweyd dim yn isel am ei frodyr yn y weinidogaeth; yr ydoedd yn un o'r dosparth blaenaf yn hyn. A phan glywsai eraill yn gwneyd, gwnai ef amddiffyn yn y cyffredin. Ac yr ydoedd braidd bob amser yn cymeryd ochr y diffynydd mewn unrhyw amgylchiad. Felly y gwnai yn y Gymanfa, Cyfarfod Misol, ac yn yr Eglwys, neu mewn rhyw ymddiddan ar aelwyd y tŷ capel yn mhlith ei gyfeillion—ochr y *defendant* a gymerai ef bron bob amser, fel mater o gwrs yn fwy nag o argyhoeddiad gellid meddwl weithiau. Nid ydoedd mewn modd yn y byd yn ddadleuwr galluog, gyda golwg ar unrhyw fater, nac yn ddiogel bob amser o ran ei farn mewn perthynas iddo. Ond rhoddai ei boblogrwydd mawr, fel dyn a phregethwr, gryn werth ar ei gael ef o blaid rhyw fater wedi y cwbl, yn enwedig mewn cyfarfod cyhoeddus a phoblog.

Gwnai y dymer serchus a llawen, a'i nodweddai yn ei deulu ei hun, ei nodweddu hefyd mewn teuluoedd eraill yr âi iddynt; fel yr ydoedd efe yn hoff-ddyn neillduol y cyfryw yn mhob man trwy ei oes. A prin y peidiai y bobl, ar adeg Cyfarfod Misol, neu Gymanfa, ag ymryson am ei gael ef i'r teuluoedd. Medrai wneyd ei hun, a phawb eraill yno, mor hapus tra yn aros yn y lle. Buasai felly yn arbenig mewn teulu, os na fuasai yno ormod o foneddigeiddrwydd, a ffurfiau teuluaidd. Yr oedd ef yn aml yn cael ei wahodd i letya i dŷ rhyw ŵr mawr mewn cymydogaeth, a hwnw o ryw enwad arall, neu yn ddigrefydd feallai. Ond i dŷ rhyw ŵr llai, yn hen Fethodist adnabyddus, lle y gallasai deimlo yn rhydd a chartrefol, yr âi ef os caffai ei ddewis. Y teuluoedd yr hoffai efe, fel y rhan fwyaf o'i frodyr, fyned iddynt, ydoedd y rhai y

gallasai fwyta ac yfed yn ddirodres ynddynt, ac adrodd ei hoff chwedlau yn rhydd, a chwerthin llond y tŷ, os digwyddai fel hyny, ynddynt. Ac yr ydoedd yn un mor hawdd ei drin, a'i foddloni yn y teuluoedd hyn hefyd, fel yn ei deulu ei hun yn mhob peth. Ac yn un peth, o leiaf, yr ydoedd yn hawddach ei drin a'i foddhau oddi cartref, na chartref, y mae yn ymddangos. Pan yn cychwyn i'w daith oddi cartref, ni fuasai pethau yn iawn, os na fuasai pawb o'r teulu yn ei gychwyn. Yr ydoedd ei feddwl dipyn yn isel a llwfr, braidd bob amser ar brydiau felly, yn enwedig pan yn cychwyn i daith am amser maith, fel yr oedd raid i bawb i wasanaethu arno. Ond nid ydoedd dim o hyn ynddo oddi cartref. Yr ydoedd yr hawddaf ei drin a gwasanaethu arno, gyda golwg arno ei hun a'i anifel. Ac o ran hyny, gadawsai ofal yr anifel i ragluniaeth, a chydwybod yr *ostler* braidd bob amser. Ond os ydoedd i raddau yn fyr ei amynedd, ac yn llwfr o feddwl, yn cychwyn ei deithiau oddicartref, yr ydoedd yn hollol fel arall pan ddychwelai o honynt, yn mron yn ddieithriad. Yr ydoedd yn siriol a llawen, ac yn barod i *gracio joke* a rhyw aelod o'r teulu, os buasai yn y golwg, yn mhell cyn dyfod at y tŷ, ac heb eisiau neb o'r bron i wasanaethu arno.

## PENNOD VIII.

*Yn y tŷ capel, a manau eraill yn mhlith ei gyfeillion—Yn hoff o adrodd a dynwared hen bregethwyr—Yn ymbleseru i adrodd dau neu dri o hen gymeriadau yn neillduol—Difyrddywediadau o'i eiddo ar yr adegau hyn, yn cael eu hadrodd ganddo, rai o ddigrifwch, ac eraill yn fynegiad o'i deimladau yn wyneb cyfarfod â rhyw brofedigaeth fechan fe allai.*

Gwyr pawb sydd yn gwybod dim am Mr. Jones, pa mor ddoniol a phoblogaidd ydoedd yn y pwlpud, neu ar esgynlawr y Gymanfa. A gwyr llawer hefyd, nad ydoedd yn fwy felly yno, nag ydoedd yn nhŷ y capel ar ol pregeth dda ganddo ei hun, neu gan arall—yn enwedig un o'i hen gyfeillion yn y weinidogaeth, yn yr hwn y buasai ganddo ymddiried. Pan yn nghwmpeini cyfeillion, y tybiai efe yn ddiogel i ymollwng i siarad yn rhydd, a chwerthin yn galonog yn eu presenoldeb; megys y diweddar Barch. D. Jones, Treborth; neu yn wir, unrhyw frodyr, hen neu ieuainc, yn ei Sir ei hun, neu allan o honi, ag y buasai tipyn o gydnawsedd yspryd ynddynt i'r eiddo ef. O! mor ddoniol y buasai ef yn aml! Yr ydoedd ei gof yn dda, a'i sylw ar bersonau, yn null eu cyrff a'u nodweddion neillduol, yn fanylach o lawer nag y tybid yn y cyffredin, a'i ddawn i siarad ac i efelychu yn fawr; ac yn mhellach, yr ydoedd yn ddyn o yspryd ysgafn a llawen annghyffredin; yn gallu chwerthin mor uchel agos ag y medrai bregethu. A rhwng pob peth, medrai wneyd gwledd ddanteithiol, y fath a garent, i'w gyfeillion yn yr amgylchiadau hyn yn y cyffredin. Weithiau, adroddai ddarnau o bregethau rhai o'r hen bregethwyr a wrandawsai pan yn ieuanc, yn eu llais a'u dull hwy eu hunain; megys John

Elias, E. Morris, a Christmas Evans—yn enwedig yr olaf. Gwrandawsai lawer ar yr hen Gristmas tua Phenyparc, pan yn myned yno yn ifanc gyda'i fam. Ac yr ydoedd yntau yn hoff iawn o sylwadau a dawn Christmas Evans; ac ymhyfrydai yn fawr i adrodd ei sylwadau, a gwneyd ei ddawn o ran ei lais—gymaint felly, nes y gellid meddwl, fod un adran yn nhôn ei lais ef pan yn pregethu, wedi ei moldio gan yr eiddo Cristmas.

Pa fodd bynnag, ei ddifyrwch mawr ef ar adegau fel hyn, ydoedd adrodd rhyw hen frodyr ag ydoedd dipyn yn hynod fel dynion a phregethwyr; ond ar yr un pryd â rhywbeth yn swynol ynddynt iddo ef, o ran eu dawn ymadrodd neu ryw beth arall; megys y Parchn. Wm. Havard, Wm. Davies, Pontrhydfendigaid, a William Richards, Penparc. Gellid meddwl ei fod wedi cael llawer o bleser wrth wrando Mr. W. Havard lawer tro, o herwydd ei ddawn toddedig, a'i yspryd efengylaidd, nes ei edmygu yn fawr fel pregethwr yn mhob ystyr. Soniai am dano yn aml, ac adroddai ddarnau o'i bregethau yn fynych, er difyrwch mawr i bawb fuasai yn gwrando, ond nid i neb yn fwy nag iddo ei hun. Y tro diweddaf i ni fod yn ei gwmpeini, a'r Gymanfa ddiweddaf y bu ef yn pregethu ynddi—Cymanfa Woodstock, Hydref, 1878—ymddifyrai lawer gyda sôn am dano a'i adrodd, yn Castell Henry cyn dechreu y Gymanfa, ac wedi hyny yn nghyfarfodydd y Gymanfa ragor nag unwaith. Yn un o gyfarfodydd neillduol y Gymanfa hono, yr ydoedd coffâd am farwolaeth Mr. D. Howells, Abertawe. Wedi i rai o'r brodyr mwyaf adnabyddus o Mr. Howells siarad, ac i un o honynt ddyweyd rhyw bethau a dueddent i dynu i lawr yn fwy na dyrchafu yr hybarch Howells o Abertawe, ceisiwyd ganddo ef i ddyweyd ychydig ar y mater. Ac wedi tipyn o gymell, cododd ar ei draed, a dywedodd—fel pe heb glywed un gair o'r hyn ddywedasid gan y brawd o'i flaen ef—"hen fachgen *noble* oedd Mr.

Howells. Y mae'n chwith gyda fi ei golli o'r Gymanfa, a'r cwrddau yma. Y mae hiraeth arna' i ar ol yr hen frodyr fu gyda ni yn y cyfarfodydd yma, sydd wedi ein gadael a myned adre' yr ochr draw; ac fe fydd arna' i chwant myn'd adre' ar eu hol weithiau hefyd." Yna enwai lawer o frodyr a thadau oeddent wedi meirw, i raddau yn ddiweddar oll. A phan ydoedd y rhes yma yn terfynu, dywedodd yn gyffrous:—"a'r hen Havard ŵr," er fod yr hen efengylydd hwnw wedi marw oes neu ddwy o flaen y rhai a enwasai efe, nes peri i bawb i wenu wrth ei glywed yn rhoddi y fath bwyslais ar yr "hen Havard," a'i ddwyn i mewn i'r fath ddosparth o rai wedi meirw. A phan yn pregethu ar y maes yn yr un Gymanfa yn nghanol hwyl fawr, daeth yn ei ffordd i enwi rhai o enwogion mwyaf yr eglwys, mewn gwahanol oesau a gwledydd, "a'r hen Havard" yn bencongl-faen i'r adeilad. Ar ol aros ychydig i geisio cofio rhywun arall, ac yn methu ei gael, y daeth yr hen Havard allan ganddo —yr oedd yr "hen Havard" gydag ef bob amser.

Un o ddifyrion Mr. Jones (ymollyngai i'r ormodiaith yna er difyrwch yn unig, ac nid i ddangos fod yr hen bregethwyr yn yfed gormod, na'i fod yntau yn bleidiol i yfed y diodydd meddwol o gwbl—siaradai yn erbyn hyn drwy ei oes,) oedd adrodd y modd y buasai Mr. Havard yn areithio ar Ddirwest wedi iddi ddyfod i'r wlad, a'r modd y buasai yr hen bregethwr yn yfed *cider* cyn hyny. "O, ni annghofiaf i byth" adroddai ef, "y tro yn y 'sgubor 'slawerdydd, yr oedd fel ail eni yn gywir i fi—annghofia i byth mo'r tro yn y 'sgubor—yr oedd fel ail enedigaeth i fi'n gywir." Mae yn debyg mai mewn cyfarfod a gynnelid mewn ysgubor, yr argyhoeddwyd Mr. Havard, ac y dygwyd ef i'r ffydd Ddirwestol. Ac wrth areithio ar Ddirwest, rhaid ydoedd iddo ef yn aml, os nid bob amser, gael sôn am y tro hwnw gymerodd le arno ef yn yr ysgubor. "Wel, a oedd yr hen frawd Havard yn

hoff o yfed cyn i Ddirwest ddyfod i'r wlad," gofynid iddo. "O nac oedd," atebai yntau—"dim ond ei fod fel eraill yr amser hwnw—yfai yr hen frodyr faint fynen nhw 'r amser hwnw. Ond chawn ni mo'i gwel'd hi 'nawr yn un man ar ol pregethu, na chyn hyny, pe byddem ni yn ll'wgu am dani. Rhyw hen goffi, neu rywbeth fel hyny fydd gyda nhw 'nawr. Yr oeddwn i yn A———, rhyw ddydd Sul, wedi bod yn pregethu yn galed i'r holl bobol hyny, a chyfranu iddyn' nhw ar ol hyny—i'r holl gannoedd—a chwpaned o goffi oedd gan hen wraig y tŷ capel i gynnyg i fi yn y diwedd; coffi, coffi, fel hyny o hyd ŵr, y mae yn ddigon i hala dyn i fagu'r b———. Ond yr oedden' nhwy, yr hen bregethwyr, yn ei hyfed hi, nes gwresogi i gyd; ac yr oeddent mewn hwyl *noble* wed'yn i fyn'd i ganmol y drefn fawr i bechaduriaid. Ond rhaid i ni gael gwres o'r nefoedd i gyd 'nawr, neu fod hebddo, yn y pwlpud a thu allan iddo. Ac fel hyny, 'rhen Havard y pryd hwnw. Yr oedd yn rhaid iddo ef yfed llawer cyn dechreu yfed i gyd" (yna chwarddai yn uchel a chalonog iawn) "yr oedd e yn gymaint o faint—yr oedd e fel Behemoth mawr ŵr, o faint a syched. Dyn anwyl! Nid oedd glasiad neu gwpaned ddim yn y byd iddo—ddim dafn i'r *ocian.* Yr oedd yn rhaid iddo ef gael llon'd *shwg* fawr cyn dechreu yfed; a chynwys hono yn myn'd lawr fel i winch, ac yn gwaeddi ar ei ffordd, 'Hawyr bach, b'le mae'r gwaelod yma;' a'r hen Havard yn cwynfan mwynhad—'cw, cw, cw'—wrth 'rondo ar y *cider* ar ei daith tua'r gwaelod." Yna chwarddai ef, a'r cwmpeini gydag ef wrth gwrs, yn fwynhaol iawn. "Hen fachgen *noble* oedd yr hen Havard wedi y cwbl," ychwanegai. "'Roeddwn i yn leicio ei glywed e yn pregethu, ac yr oedd yn fy hala i ŵylo yn y fan, pan oeddwn i yn ifanc, wrth ei wrando." Yna chwarddai yn ddistaw, ac ai i dymer meddwl dipyn yn bruddglwyfus, wrth gofio fod yr hen Havard wedi myned oddiar y chwareufwrdd, gellid

meddwl. Ond erbyn hyny, cofiai rhywbeth arall am dano, a'i codai yn ol i'r dymer ysgafn a chwareus drachefn. "A glywsoch chi," gofynai, "am Daniel Davies yn ei olchi yn yr Helyg (tŷ ger Aberporth,) 'slawer dydd?" "Naddo," fuasai yr ateb pa un bynnag a fuasid wedi clywed neu beidio. "A fu Daniel Davies yn ei olchi ef?" "Do, do, ŵr. 'Roedd e ar daith un tro, yn lled gloi ar ol i Mr. Daniel Davies a finnau ddechreu pregethu, ac un noswaith yn pregethu yn yr Helyg. Ac yr oedd yn rhaid iddo i gael dŵr y môr i fyny i'r Helyg i gael ei olchi, a Dan fu'n cyflawni'r oruchwyliaeth arno. 'Roedd hyn yn eitha gwir hefyd; fe fuais i yn gofyn i Daniel Davies yn ddiweddar shwd y bu, ac yr oedd e yn dyweyd ei bod yn eitha gwir. Shwd y doethoch chi i ben â hi Daniel, meddwn i? 'Roedd yno getyn o waith golchi, onid oedd e? '*Jaist* i fachgen, oedd rhwng y cwbwl,' meddai—' 'roedd hi fel ta ni yn golchi ochor Cader Idris bron! Ac 'roedd ei winau fel 'gwinau Nebuchodonosor fachgen—yr oedd yno lawer o waith i gyd. Ond mi ddoes i ben ag ef rywfodd beth bynnag. Ac yr oedd e yn dyweyd wrthw' i ar ol hyny, ei fod e wedi bod yn well o'r olchfa ga's e gen i yn yr Helyg, am bum mlynedd ar ol hyny.'" Ond nid ydoedd adrodd yr ystori o enau Daniel Davies, yn ddigon i'r hen Jones, pan y buasai efe mewn hwyl dda—rhaid iddo ef i gael ei hactio allan, a'i pheintio yn ol ei chwaeth a'i fedr ei hun. Rhywbeth tebyg i a ganlyn ydoedd ef. "'Daniel Davies,' meddai 'rhen Havard, 'a wnewch chi 'ngolchi i a dŵr y mor?' 'Gna i,' meddai Daniel, 'os galla i ddod i ben a hi, a chael digon o ddŵr atoch chwi—ond mae digon gerllaw gadewch iddo.' A dyma Dan yn dechreu golchi a rhwbio, fel pe b'ase fe yn golchi wyneb *continent* bron ŵr; a'r hen Havard yn 'cw, cw, cw,' dan yr oruchwyliaeth.' 'Pa ham na buasai efe yn ymolchi yn y môr gofynid iddo.' '*Dear me*,' ychwanegai, 'b'le 'r ai y fath greadur i'r

môr. Fe fu'se fel pe bu'sech chi yn taflu'r Wyddfa yno. Ac fe fu'se y pysgod druain yn ffaelu gwybod beth fu'se yno, ac yn barod i fyn'd na welsai pobol Aberporth un o honynt byth, a'r Gwyddelod yr ochr draw, yn dychrynu wrth wel'd y môr yn llanw ac yn terfysgu, pe ai efe i'r môr i ymolchi.' "

Pregethwr bychan oedd Wm. Davies, Rhydfendigaid, ond er hyny, gwresog a hwylus iawn ar brydiau. Teimlai un brawd yn y Sir sêl gynes iawn dros gael careg ar ei fedd yn ddiweddar; a dygodd yr achos i'r Cyfarfod Misol. Ond nid ydoedd y brawd hwnw na neb arall yn siwr pa le yr ydoedd wedi cael ei gladdu. Ac wrth ei bod yn trin y mater yn ol a blaen, a dim fawr o fyn'd arno, na thebyg y ceid diwedd arno yn fuan; o herwydd daliai y brawd a ddaeth a'r peth yn mlaen yn gyndyn o blaid ei gynnygiad, er methu gwybod yn iawn pa bryd y bu farw, na pha le y claddwyd ef. Ond ymddengys nad oedd Mr. Jones wedi dyweyd dim ar y mater—dim ond gwrando ar eraill yn siarad, a rhai o honynt yn poethi tipyn. "Twt," meddai yntau o'r diwedd, "y mae cystal i chi adael iddo mwy. Y mae'r hen frawd wedi marw yn awr er ys blynyddoedd; fe fydd yn bryd iddo godi yn y man." A therfynodd yr ymryson fan hono, yn nghanol chwerthin y bobl, wrth weled y buasai yn llawn bryd i Wm. Davies i godi o'i wely cyn hir, gan nad pa le yr ydoedd, yn gymaint ai fod wedi myned iddo er ys cymaint o amser. Medrai ddiffodd angerdd tân fuasai am gyneu, neu wedi cyneu rhwng dynion a'u gilydd, mewn ffordd hynod, fel yr uchod, yn aml iawn. Pan yn Ceinewydd un tro, a rhyw fater o ymrafael rhwng rhyw wraig ddoniol iawn i amddiffyn ei hun, a hen frawd o flaenor—saer llongau o ran ei waith—hynod ddiddawn i amddiffyn ei hun, wedi bod ger bron y seiat y nos Sul hono, a dim posibl cael pendraw ar y ddadl yn hollol yn y capel. Ac erbyn ei fod yno, dyma y wraig hono a'i gwrthwynebydd yno ar ei

ol. Ymosodai y wraig yn enbyd ar yr hen saer-llongau, a hwnw heb ddweyd fawr ddim am amser, a Mr. Jones yn ysmocio ei bibell, ac yn gwrando arnynt yn haner cellweirus o ran ei feddwl a'i wedd. Ond toc, dyma yr hen flaenor yn dyweyd wrth ei gyhuddwraig am beidio rhoi *balls* ar y tân, onide y buasai yn siwr o gyneu yn enbyd eto. "Ha! a welwch chi'r hen frawd," meddai Mr. Jones yn awr, gan gymeryd arno nad oedd yn eu deall, er ceisio troi y peth i chwerthin, i gael llonydd gan ferw y wraig ryw fodd—"mae e am beidio rhoi *balls* ar y tân, er mwyn iddo fe i gael *pass* ar yr ysglod, welwch chi." Ac erbyn hyn, dyma y cwmpeini yn tori allan i chwerthin drwy yr holl le; a pheidiodd y wraig ar yr adeg hono o leiaf, a rhoddi ei *balls* ar y tân; a chafodd yr hen frawd druan, *bassio* rhai o'i ysglod wedi iddi hi fyned adref y noson hono gwed'yn. Ond sôn yr oeddem am Mr. Jones a Wm. Davies. Clywsom ef yn dyweyd fod Wm. Davies yn pregethu unwaith yn Blaenanerch, o flaen hen efengylydd medrus Aberteifi, ac yn ystod ei bregethu wedi gwaeddi llawer iawn, nes yr oedd yr hen ŵr wedi blino yn fawr arno, os nid eraill, yn lled amlwg; o herwydd ni wnaeth tra yn pregethu y tro hwnw, ond rhoddi un waedd yn unig, o'r dechreu i'r diwedd. Gwnai hyn i arwyddo y gallasai yntau waeddi hefyd, ond fod digon o hyny wedi cael ei wneyd yno y tro hwnw, gan Wm. Davies, a bod eisiau gwneyd rhyw beth wrth bregethu heblaw gwaeddi. "Dyna bregeth," meddai, "oedd gyda Wm. Davies ar y ddafad a'r bugail—y Cristion yn ddafad, a Iesu Grist yn Fugail gwed'yn. Yr oedd e yn golchi arni wrth bregethu hono, nes yr oedd y cwbwl yn dân." Ac wedi gwneyd ei wyneb mor debyg ag y medrai i wyneb W. Davies, gan estyn y wefus isaf allan yn mhell iawn, adroddai beth o'r bregeth, yr un fath a'r hen ŵr ei hun. "Dyco'r hen ddafad," meddai, "wedi myn'd allan dros y clawdd, a bant a hi lwybyr ei phen

rywle; a dyco'r bugail allan ar ei hol hi, ac yn hala'r ci ar ei hol hi, a hwnw yn ei hannos hi, ac yn ei dal a'i chnoi, a dechreu ei rhwygo hi. A chyda hyny," meddai wed'yn, "y mae calon y bugail yn dechreu tosturio wrthi, ac y mae yn dechreu dyweyd wrtho ei hunan, ''Nafad yw er hyny, 'nafad yw er hyny'—(lawer gwaith drosodd gyda gwres mawr,) ac y mae erbyn hyn yn rhedeg nerth ei draed i rwystro y ci i wneyd niwed iddi; a finnau, meddai Mr. J. Jones, yn llefain wrth wel'd y Bugail yn tosturio wrth yr hen ddafad ddrwg." "Pregeth arall enwog iawn oedd ganddo"—ychwanegai Mr. Jones, yn debyg iawn wedi dechreu adrodd a dynwared W. Davies —"oedd '*pregeth y brethyn glas.*' Yr oedd yn anfoddlon i'r pregethwyr—o leiaf, rai o honynt—i wisgo cotiau duon; ac fel hyn y daeth y bregeth hon i fod—ei hamcan neillduol oedd, myned yn erbyn y llygredd hwnw. Yr oedd wedi ei sylfaenu ar hanes rhanau o'r Tabernacl a'r Deml wedi eu gwisgo â brethyn glas; o ganlyniad, glas oedd lliw *coat* y pregethwr i fod. A'i fyrdwn, a gair ei hwyl yn y bregeth hono, oedd 'Brethyn Glas,' 'Brethyn Glas.' Tynai ei fys—arferai wneyd hyny yn yr hwyl—dros ei wefus isaf bob tro cyn gwaeddi 'Brethyn Glas,' er mwyn cael y wefus allan yn ddigon i wneyd y Brethyn Glas yn foddion effeithiol i argyhoeddi y bobol o'u pechod yn gwisgo *cotiau* duon. 'Beth daenid ar fwrdd y bara gosod? Brethyn Glas. Beth osodid ar wyneb yr allor aur—ie allor aur? Beth hefyd, ond y Brethyn Glas.' Dyn anwyl, gall'sech feddwl y gwnai wisgo y deml i gyd â 'Brethyn Glas.' Ac fe fuse'r hen bregethwr yn dân ac yn fwg i gyd wrth drin y 'Brethyn Glas,' nes bu'sech chi yn ofni y rhoddai y deml a'r 'Brethyn Glas' ar dân."

Hen gymeriad arall yr ymhyfrydai efe ei adrodd a'i ddynwared, oedd y Parch. Wm. Richards, Penparc—hen weinidog ei fam, at yr hwn y cyfeiriasom eisoes, ragor nag unwaith. Hen ŵr—yn byw yn adeg boreu oes

Mr. Jones—diniwed, a digon parchus yn ei ddydd a'i ardal, ydoedd Wm. Richards; yn ymddibynu mwy ar ei ddiniweidrwydd a'i sel dros fedydd, er cadw ei gynulleidfa gyda'u gilydd ac mewn tipyn o heddwch, nag ar ei allu i bregethu. "Un tro," adroddai Mr. Jones, "yr oedd yn gofyn am godiad yn ei gyflog, mewn seiat o'r brodyr a'r chwiorydd yn Penparc—wyth punt oedd ei gyflog e yn awr. 'Wel, wel, frodyr bach,' meddai ef, 'does dim i 'neyd; rhaid 'madel sownd, rhaid 'madel sownd; all Nanci (ei wraig) a finnau byth byw fel hyn ar wyth punt, rhaid 'madel sownd. Gyda chi yma y leiciwn i fod hefyd frodyr bach; ond does dim i 'neyd, rhaid 'madel sownd!' 'Wel, fe godwn wheigen i chi ynteu,' meddai nghadcu—Shon Blaenwenen—wrtho. 'Wel o'r goreu ynteu, o'r goreu ynteu frodyr bach.' Ac fel hyny, *settlwyd* ar unwaith ar ol codi wheigen yn ei gyflog."

Darluniai Wm. Richard gyda hyfrydwch yn bedyddio. Tebyg i a ganlyn o ran geiriau—ond gwnai ef lawer er ei ddangos heblaw dyweyd ei eiriau—ydoedd ei ddarluniad o hono yn bedyddio. "Wedi rhoddi i ganu (neu fe allai mai dim ond ei adrodd wnai) y pennill :—

> "'Dofnaf w'radwydd neb na'i stŵr,
> Wrth ufuddhau i fedydd dŵr,
> Mi wela'r Iesu draw o'm blâ'n,
> Yn nghanol—ie, *yn nghanol*—yr Iorddonen lan.'

'Faint yw'ch oed chi merch i?' 'Hyn a hyn,' fuasai'r ateb. 'Ie, ie,' ychwanegai yntau, 'ufuddhau i'r Iesu yn hyn a hyn oed—Braint fawr iawn,' 'Dofnaf w'radwydd neb na'i stwr,' &c. Y mae yn myn'd i lawr i'r dŵr yn araf bach, ac yn dangos yn ei elfen ynddo fel pysgodyn. A'r araeth gaem ganddo yn aml ar fedydd fu'sai, dyweyd wrth fyned i'r dŵr, ac ynddo :—'Chi wyddoch mai dyn digon pwlog w' i frodyr bach, yn aml. Ond wrth fedyddio, 'ches i bwl erioed; na 'ches i bwl

erioed. Deio, taro glotasen fach fan yna, i ddyor y dŵr i golli (ac ar yr un pryd a'i ddwylo yn y dŵr yn glanhau rhyw borfa, neu wellt oddiar ei wyneb.) Naddo, frodyr bach, 'ches i bwl erioed. Er mod i nawr yn bedyddio er ys—Shemi, weli di mo'r dŵr yna; agor fwlch bach fan yna iddo gael rhedeg—na ches i bwl erioed wrth fedyddio. Er mod i, frodyr bach, fel y gwyddoch chi, yn ddigon pwlog, ond ni ches i bwl erioed wrth fedyddio. Ac y mae hyn yn profi mai bedydd sydd i fod;' ac ar yr un pryd yn para i glirio ei ffordd a'r dŵr erbyn y bedyddio, i gael 'whare teg beth bynnag, i'w golchi nhw yn lân. Ond brithion iawn oedden' nhw ganddo druan, wedi y cwbl, y rhan fwyaf. Yr oedd neithor yn y gymydogaeth unwaith, a'r cwrw yn pasio yn iawn yno. A dranoeth, dyma ryw un ffyddlon yn dod a'r newydd i W. Richards, fod llawer iawn o aelodau Penparc, wedi meddwi yno. 'Wel, pwy oedden nhw,' meddai yr hen ŵr? 'O, hwn a hwn.' 'Wel, wel '—'a hwn a hwn '—' Wel, wel,' 'a hwn a hwn' —'Wel, wel! A yw hi ddim yn bryd i ti stopio frawd bach'—'a Shôn Lanwenen.' 'Wel, wel, wel, wel!! Os oedd Shôn yn un o honynt, ni wn i beth i 'neyd yn y byd yn awr iddynt.' 'Doedd dim *use* dechreu dysgyblu ŵr; yr oedd gormod o'r defaid wedi myn'd ar ddisperod. Ac heblaw hyny, yr oedd Shôn Lanwenen yn un o honynt—yr oedd ofn Shôn yn nghalon yr hen weinidog druan."

"'Rwy' i yn cofio am dano yn pregethu yn angladd masiwn bach yn y gymydogaeth yma unwaith," ychwanegai. "Yr oedd ganddo bregethau rhyfedd yn aml mewn angladdau. Fe allai mai darllen dwy bennod gweddol hir a wnai, yn lle'r bregeth; neu ynteu, 'sponio adnod neu ddwy am ryw bum munyd, a dybenu fel hyny. Ei destyn yn angladd y masiwn yma oedd:—' Gan fod genyf chwant i'm datod a bod gyda Christ.' '*Having a desire to depart,*' yw y Sasneg yn y fan hon. Ie, ie, gyfeillion

bach, *departo* yw hi yma. Fe welwyd Dafi druan gyda ni yma; ond y mae wedi departo—departo yw hi yma. Do, do, fe'i gwelwyd lawer gwaith a'i ddwylo yn y morter, a'i ffedog wen o'i flaen gyda ni yma; ond dim byth mwy—dim byth mwy; wedi *departo.* Ac fe'i gwelwyd lawer gwaith yn myn'd a dwad gyda ni tua Penparc; ond welwn ni mo hono mwy druan—na dim byth mwy; y mae wedi departo—departo yw hi yma gyfeillion bach. '*Having a desire to depart.*' Rhaid i ninnau *departo* oddi yma frodyr bach; gan hyny, '*Having a desire to depart.*' Fel hyn, 'doedd e fawr o bregethwr druan; ond yr oedd yn hen ŵr da a chymeradwy iawn gyda nhw; ac yr oedd golwg fawr iawn gyda mam arno."

Yr ydoedd yn eiddigus iawn bob amser o'i barch a'i safle fel pregethwr. Ac os na chawsai ei le mewn Cymmanfa, Cyfarfod Misol, neu ryw gyfarfod arall—yr hyn a ddigwyddai, y mae yn ymddangos, yn rhy aml iddo—neu os tybiai efe hyny, teimlai yn fawr o herwydd hyny; a siaradai yn gryf iawn am hyny wrth ei gyfeillion, trwy drin y bobl a dybiai efe fuasai yn achos o hyny, yn gyffredinol mewn termau cryfion, a iaith ddoniol annghyffredin. Ni ddywedai yr achos mewn geiriau plaen. Ond hawdd i'w gyfeillion oedd deall yn bur fuan hefyd, pa beth oedd hwnw, yn mhell cyn diwedd yr ymddiddan.

Bu yn Nghymanfa ddiweddaf C———, yn Sir M———, lle ni chafodd ei foddhau yn dda o ran y safle a roddwyd iddo yno. Rhoddwyd ef i bregethu, yn ol ei farn ef o leiaf, ar adeg, os nid mewn man annghyfleus; y bobl yn ymadael lawer o honynt ar haner yr odfa, a hono bron o angenrheidrwydd, yn myned yn *flat.* Ac ni cheisiwyd ganddo gymeryd un rhan yn ngwasanaeth yr ordeinio, er ei fod wedi dyfod yno o bellder mawr, a bellach yn henafgwr enwog iawn, pan oedd rhai yn ymyl cartref, a rhai o honynt yn ieuengach gweinidogion nag ef, yn cael

rhan yn y gwasanaeth hwnw. Nid oedd neb yn gallu gweled pethau fel hyn gynt na Mr. Jones, na neb chwaith yn fwy byw i deimlo mewn rhai ystyriaethau, o'r herwydd, nag efe. Yr ydoedd yn dyfod adref o'r Gymmanfa hono gyda chyfaill iddo. Ymollyngai i siarad yn rhydd iawn wrth ei gyfaill, er nad ydoedd mewn hwyl o gwbl. "Mae nhw yn rhyw ddynion rhyfedd tua M——— yma ŵr," meddai. "Mae nhw yn gallu gwneyd pob peth eu hunain yma—heb help nefoedd na daear. Mae nhw yn gallu *ordeinio* a phob peth eu hunain, heb help neb. Mae'r hen Mr. H.———, fe weddïth faint fyno nhw—fe weddïth o *June* i *January* gyda nhw, os ca fe!" "Dyn mawr," ychwanegai, "a welsoch chi erioed y fath ddegwm y mae nhw yn ei roi ŵr? 'Dyden nhw ddim yn rhoi digon o ddegwm i chi olchi'ch crys unwaith am a wn i, chweithach rhoi modd i chi gael crys newydd—mae nhw'n rhyfedd iawn ŵr!" Ar ol bod yn Nghymanfa ddiweddaf Aberhonddu—lle ni chafodd bobpeth wrth ei fodd gellid meddwl—dywedai a ganlyn wrthym ni. "Fe'n rhoison i i bregethu yno ar ol rhyw hen Sais o Scotland, neu rywle ŵr. A Sais oedd e! Nid yn unig fe laddodd y bobol cyn i fi gael gneyd dim â nhw, ond fe'u claddodd ar ol eu lladd; a byth y dybenai fe eu lladd a'u claddu. A'r gwaith cynta' oedd i fi i dreio wneyd arnyn' nhw, oedd treio'u cael yn fyw, a'u cael nhw i fyny o'u beddau cyn dechreu pregethu iddyn' nhw."

Gwnaeth y brodyr C——— rywbeth i'w anfoddloni ryw dro,—er mai un rhydd a charedig iawn tuag at enwadau eraill ydoedd efe yn y cyffredin Ond digwyddai iddynt wneyd rhywbeth allan o le weithiau iddo ef yn bersonol—a gwae hwy am fyr amser pan wnaent felly. Yr oedd y brodyr yma wedi gwneyd rhywbeth iddo yr adeg y cyfeiriwn ati. "Rhyw greaduriaid rhyfedd yw yr A——— yna ŵr," meddai. "Mae nhw am gael y cwbwl iddyn nhw'u hunain—mae nhw am neyd C——— o'r

blaned i gyd, pe gallent. Fe *fuldian* yn rhywle'n union, os ca nhw le gwâg ŵr. Pe gwelen nhw eich esgid yn wâg, fu'se dim tryst na fyddai 'i llond hi o gapel gyda nhw ynddi'n union ŵr, er mai 'ch esgid chi fuasai hi hefyd."

Yr oedd tipyn o eiddigedd bach plentynaidd, rhyngddo ef ac un brawd parchus yn y Sir drwy y blynyddoedd. Nid ydym yn gwybod pa beth oedd y rheswm am hyn; gallem ni feddwl nad oedd dim rheswm yn bod o'r naill du na'r llall—rhyw dipyn o wendid plentynaidd ydoedd yn y ddau. Pa fodd bynnag, yr oedd yn ddiniwed iawn o'r ddau tu. Ni wnaeth ddim gwaeth erioed rhyngddynt, hyd y gwyddom ni, na gwneyd y naill yn dueddol i gyraedd ergyd bychan—mewn rhyw haner cellwair—ar y llall mewn perthynas a'u pregethu, neu rywbeth arall o'r eiddynt. Ymollyngai Mr. Jones i gellwair yn ddoniol i'w ryfeddu pan mewn cwmpeini o gyfeillion, yn siarad am neillduolrwydd y brawd hwnw. "Mae hwn a hwn wedi cael gig nawr ŵr," meddai wrthym ni unwaith. "A welsoch chi erioed fath gig ŵr? Y mae y ceffyl ynddi draw yn rhywle oddi wrtho fe a'r gig, fel pe wedi gwahanu a 'madael am byth—y mae y fath hyd yn 'i *shaft* hi. Pan y byddo fe a'r gig yn y Rhyd fan yna, y mae yr hen geffyl yn gyfer iet ein clôs ni"— pellder o led cae bychan. Un tro, yr oeddem yn dyfod at gapel B———, a Mr. Jones yn dyfod allan o hono. "Pwy oedd yn pregethu yna heddyw?" meddem wrtho. "O, hen frawd"—oedd yr ateb. "Yr oedd yn pregethu ar etholedigaeth. Yr oedd ganddo etholedigaeth ryfedda erioed ŵr—etholedigaeth fach gyfyng iawn fu'se etholedigaeth P———. Nid yn unig, 'doedd dim lle i ddod allan o honi; ond 'doedd ddim lle i fyn'd mewn hefyd iddi—'roedd e yn i g'neyd hi fel sach, wedi gwnïo ei deupen hi. 'Roedd hi yn dda nad 'r hen frawd fu yn g'neyd yr etholedigaeth draw ŵr, onide fe fyddai yn edrych yn dewyll iawn arno ni i fod mewn ynddi, lawer o hono ni." Yr

oeddem yn digwydd cyfarfod âg ef unwaith, yn lled fuan ar ol Cymmanfa yr Ysgolion Sabbothol yn nosparth ———. Ac yr oedd y brawd hwnw wedi troseddi yn bur ddrwg yn hono, trwy fyned ag Ysgol y bwriadai efe ei holi oddi arno, a holodd y brawd hwnw hi ei hun. "Mae hen frawd——yn rhyfedd iawn; onte barnwch chi nawr," dywedai. "Wyddoch chi 'naeth e a fi yn y Sasiwn blant yn—— pwy ddiwrnod?—fe ddwgodd Ysgol arn'i i holi, fachgen yn deg! 'Roedd Ysgol—— wedi gosod arna i ei holi, a rhoi'r pwnc i fi a phobpeth. Ond pan es i mewn i'r capel y prydnawn, dyna lle 'roedd e wrthi yn holi ei weitha. Fe aeth at rai o'r bobol haner dydd, ac fe gâs y pwnc gan y rheini; ac fe ddwgodd yr Ysgol arna i yn deg fel yna. Ond oedd hyny yn afresymol? Whare teg i finnau hefyd—yr hen frawd yn myn'd a'r Ysgol fel hyny, yn *sly* heb 'weyd dim, oddi arna i."

Yr oedd yn hoff o arfer gormodiaith ei hun, mewn cydymddiddan gyda chyfeillion, fel y dengys y ffeithiau a adroddwyd yn y bennod hon yn amlwg. Hoffai hyny yn fawr gan arall, os buasai tipyn o arabedd yn y darluniad, neu yr ystori. Yr oedd hen ôf ffraethbert iawn yn byw yn ei ymyl, a hoffai yn fawr i adrodd rhai o ddywediadau hwnw; yn enwedig dywediad yr hen ôf am y diafol a phlant y Diwygiad yn B——, yr adeg yr oedd y cyffroad hwnw mwyaf tanllyd yno. Yr oedd y gôf wedi cael pâr o glocs newydd, dolurus iawn i'w draed yr adeg hono. Ac wedi myned i dŷ cymydog ar ryw neges, gofynodd gwraig y tŷ iddo:—"Swt ydych chi heddi, Thomas bach?" "Wel wir, Mrs. Davies, dwdw i ddim yn dda *at all* heddi, na'r dyddiau yma," oedd ateb y gôf. "Beth sydd arnoch chi—beth sydd yn eich blino fel hyny?" "Wel, mi weda wrthoch chi. Mae R—— yna wedi g'neyd pâr o glocs newi i fi, ac mae nhw mor ddolurus i'n nhraed i; yr w'i yn ffaelu

cered dim ynddyn' nhw. Mae nhw'n sôn yn y capel yna am rwymo y diafol. Pe bu'se R——— yn gweithio pâr o glocs iddo fe, fu'se dim eisiau llawer o rwymo arno fe gwed'yn, mi *defya* i nag ai e ddim yn mhell iawn o cartre, a chlocs R——— am 'i draed e."

Yr oedd rhyw *home made wit*, yn gymysg a thipyn o gellwair fel yna o eiddo ei hen gymydogion, yn ei daro ef yn neillduol; a buasai yn hoff o'u hail adrodd pan mewn tymer lawen a siriol, ar yr aelwyd gartref ac oddi cartref.

Ystori hoff ganddo ef i'w hadrodd a'i hactio allan, ydoedd ystori y "tu de'r llong," gan hen frodyr Llechryd. Yr oedd dosparth o ddynion yn y lle uchod, er ys oes neu ddwy yn ol, yn enwog fel Calfiniaid selog, a cheidwaid gofalus o'r athrawiaeth hono, yn ei pherthynas â'r pregethwyr; megys Mr. Evans, Llwyngrawys, Edward ddall, Shôn Stephens, &c. Ac un boreu Sabboth, ar ol gwrando pregeth gan Mr. Jones—i fesur yn *broad* yn ol eu llathen hwy—ar Drefn maddeuant i'r penaf pechadur; "wedi i ni eiste' lawr yn nhŷ'r capel," adroddai Mr. Jones, "Mr. Evans un ochr i'r tân, ac Edward yn ei ymyl (a'i ddwylaw ar ben ei phon, a'i ên yn pwyso ar hyny) a finnau yr ochr arall, dyma Mr. Evans yn gofyn yn sancteiddiol i Edward:—'Beth yw *tu de'r llong*, Edward?' Atebai Edward mor sancteiddiol a hyny a gostyngedig iawn—'Wn i ddim, Syr.' 'Ai Arminiaeth yw y *tu de'r llong*, Edward?' 'Nage, Mr. Evans bach,' atebai hwnw, gan godi ei ên ychydig bach oddi ar ei ddwylaw yn pwyso ar y ffon. 'Beth yw *tu de'r llong*, Edward, a'i Fulleriaeth yw e?' 'Nage, Mr. Evans bach—nage, nage, Mr. Evans bach,' meddai drachefn. 'Wel, beth yw *tu de'r llong* yntau, Edward, a'i CALFINIAETH yw e,' gofynai Mr. Evans am y tro olaf, gyda phwyslais neillduol, yn arwyddo yn amlwg i Edward, er ei fod yn ddall, beth oedd *tu de'r llong* i fod. Ac yn lle rhoddi ateb uniongyrchol i'r

gofyniad olaf a therfynol hwn, atebwyd ef gan Edward trwy dori allan i orfoleddu—os nid addoli—a'i bwys ar ben ei ffon:—'O'n mowyd anwyl i yw hono, Mr. Evans bach! Bendigedig,' dywedai Edward, gan guro blaen y ffon wrth y llawr, a churo y llaw oedd yn dal y ffon a'r llall, a dyrchafu ei wyneb yn awr yn mhell oddi ar y ffon tua'r nefoedd. Ac felly penderfynwyd mai Calfiniaeth yw *tu de'r llong*, gan yr hen frodyr."

## PENNOD IX.

*Yn cysgu—Cwsg yn afiechyd arno—Yn cael ymwared o hono fel y cyfryw cyn diwedd ei oes—Ei enwogrwydd fel chwyrnydd, &c.*

A SIARAD yn gyffredinol, nid oes dim yn hynod yn y mwyaf hynod yn ei gwsg—dim rhagor yn y rhagoraf i farwolion eraill pan yn y sefyllfa hon. "Mae yr M.A.'s"—ys dywedai Mr. Richards, Tregaron gynt, am Dr. Edwards, y Bala, yr hwn y pryd hwnw oedd newydd gael ei M. A.; a thrwy ei fod wedi cysgu un boreu Cymmanfa dipyn yn hir, mynai'r hen Efengylydd o Tregaron edrych arno er gweled, medd efe, pa fodd y cysgai M. A. Ac wedi edrych arno am ychydig, gan gymeryd arno ei fod yn synu:—"O," ebai, "y mae M. A. yn cysgu 'run fath a dyn arall wedi y cwbl." Eithr nid oes un reol heb ei heithriad. Ac yr ydoedd yr hen Flaenanerch yn eithriad yn hyn, fel mewn llawer peth arall. Yr ydoedd efe yn hynod, ac yn enwog yn ei gysgu; neu yr ydoedd yn enwog am ei fod yn hynod. Gwyr pawb hyn a fu yn cysgu yn yr un tŷ ag ef; ac yn enwedig y rhai a fu mor anffortunus a gorfod gorwedd yn yr un gwely ag ef weithiau. A diau na fyddem ffyddlon i'r darllenydd, nac ychwaith i Mr. Jones, pe na ddywedem air byr am dano yn yr ystâd ryfedd hon—cysgod marwolaeth; neu fel y dywedodd rhyw un am dani, "chwaer ieuengaf marwolaeth."

Hynodai dau beth Mr. Jones yn ei gysgu, cysgai yn aml annghyffredin—beth bynnag un adeg o'i oes—a chysgai yn ddoniol annghyffredin. Er fod llawer o fywiogrwydd yn ei yspryd a'i dymer; eto o herwydd tewdra ei gorff, ac yntau yn treulio cymaint

o'i nerth wrth bregethu, teimlai trwy ei oes yn drymaidd a chysglyd pan yn eistedd i lawr, ac heb wneyd dim. Ond, pan o bymtheg a deugain hyd tua dwy neu dair a thriugain oed, y meiddid, ac y gorchfygid ef fwyaf ganddo. Yr adeg hono cysgai yn mhob man, ac ar bob pryd pe cai lonyddwch, a phe rhoddasai ffordd i'w deimladau. Dywedai wrthym ni unwaith tua'r amser yma :—"Ni wn i beth yw'r cysgu yma sydd yn fy mlino i fel hyn ŵr. Pan y bydda' i yn codi y boreu, ac eiste' ar yr ysgrin fan hyn, fe gysgwn yn y fan, a thrwy y dydd oni bae fy mod i yn ymla' yn galed yn ei erbyn e. A phan fydda' i yn trafeilu yn y gig, y mae'n cario yn lan arna i. Y mae yn dod arna i fel pe bu'se rhywbeth yn fy saethu. Pe gwelwn rhyw *goach*, neu rywbeth yn dod yn fy erbyn, neu wel'd fy hun yn myn'd heibio rhyw gornel—neu unrhyw beth o'r fath, nid oes gyda fi ddim i wneyd—yr wyf yn rhwym o gysgu." Ac y mae yn syndodm awr ei fod wedi dianc heb gyfarfod ag unrhyw ddamwain yr adeg yma. Ni ddywedai wrth ei deulu ei fod mor ddarostyngedig iddo. Ac felly, buont hwy am rai blynyddoedd yn dra thebyg, heb wybod fawr am y perygl y buasai ynddo ; ac fel hyny yn dawel heb ddanfon neb ganddo i'w deithiau. A diangenrhaid ydoedd hyny ; canys yr Arglwydd a anfonai ei angel i wylio ei was tra yr oedd efe yn cysgu yn yr amgylchiadau hyn, fel na ddigwyddodd iddo ddim niwed, gymaint ag unwaith, hyd y clywsom ni o herwydd y cwsg yma. Ai y gaseg ag ef yn ddiogel am filldiroedd o ffordd fel hyny, a'r *rains* yn ymlusgo ar y llawr o gwmpas ei thraed. Mae hyn yn ffaith, ac yn ffaith hynod, pa beth bynnag oedd yr achos o honi ; sef ei fod yn teithio yn y modd yma am lawer o ffordd amryw weithiau, ac mewn gwahanol ffyrdd, ond heb gael un niwed iddo ei hun nac i'w anifel.

Y pryd hwnw yr oedd cwsg yn glefyd trwm a pheryglus iawn arno. Ac ymddengys y buasai wedi ei ladd yr adeg

hono, oni bae iddo trwy bang trwm o ddolur, a cholli llawer o'i waed, i gael ymwared o hono ef, yn gystal a llawer o'r trwch mawr o gnawd a berthynai iddo y blynyddoedd hyny. Daeth yn ddyn newydd, am rai blynyddoedd ar ol y saldra yma; ni flinid ef yn fawr, na chan gwsg, na chan *gnawd.*

Yn adeg teyrnasiad y cwsg mawr hwnw arno, cysgai yn y cyffredin yn nghyfarfodydd neillduol—a chyhoeddus o ran hyny, ond pan ddeuai i'w ran ef i siarad—y Cyfarfodydd Misol. Ar ol y frwydr fawr rhyngddo ef a'r diweddar Mr. Jones, Aberystwyth, yn Nghymmanfa Cydwely, yn y flwyddyn 1860, mewn perthynas a'r priodasau annghyfreithlon, yr oedd Cyfarfod Misol y Sir i fod yn Rhiwbwys yn fuan ar ol y Gymmanfa hono, a'r mater hwnw i gael ei ddwyn ger bron yn y Cyfarfod Misol hwn. Yr oedd wedi myned i fyny yr holl ffordd o Blaenanerch i Rhiwbwys, yn benaf, er mwyn sefyll dros ei ochr gyda y mater hwnw. Ond pan oedd y mater yn cael ei drin, yr oedd efe druan o hono, yn pendympian cysgu, a chwyrnu peth hefyd yr holl amser. A'r oll a wnaeth o blaid ei ochr yn y mater, oedd dyweyd unwaith —"Y mae yn well ei ohirio fe." Deallai fod rhyw un a deimlai yr un fath ag ef gyda golwg ar y cwestiwn, yn cynnyg ei ohirio. Gan hyny dywedodd yntau dan haner hepian ar y pryd, mai gwell fuasai gwneyd felly; a'i ohirio a wnaed. Ac yr oedd yntau yn siriol a hwylus iawn drwy'r holl gyfarfod hwnw mewn canlyniad.

Er ei fod yn y modd yma yn gaeth i raddau mawr gan y gelyn hwn, yr ydoedd ar yr un pryd yn llawn ysmaldod a chellwair yn aml. Yn yr un Cyfarfod Misol, mewn cyfarfod arall—pan oedd y brodyr yn ceisio llunio rhyw benderfyniad i'w anfon at foneddiges yn y Sir, a hynododd ei hun wrth yru rhai o'i thenantiaid i ffordd o'u llefydd, o eisiau eu bod yn dyfod i'r Llan—dyma ef yn dyfod i mewn dipyn yn ddiweddar, ac yn eistedd i lawr yn ymyl y drws,

yn bur bell oddiwrth eisteddle barn yn y lle, a'r cyfarfod hwnw; ac yn gwneyd ei hun gartref, yn weddol ysgafn a llawen ei feddwl, yn ein plith ni y *crytiaid*, ys dywedai efe. Ac yn fuan, dacw un o'r brodyr, yr hwn oedd yn hen lanc, yn codi i fyny i siarad ar y mater. A chan gynted ag y gwelodd ef yr hen lanc parchedig yn siarad ar benderfyniad i'w anfon at yr hen ferch foneddig, gwnaeth hyny gynhyrfu ei ddoniau cellwair ef yn y man. Ac meddai wrthym ni yn ei ymyl :—" Tush! Beth mae'r hen frawd yn wybod ar rhyw fater fel yna ŵr? Pe gwnae un o honyn' nhw gynnyg ei fod e i fyn'd i garu, a phriodi'r hen ferch, f'allai y deuai i'w lle gwed'yn—ddaw hi byth a llawer o lun arni heb hyny ;" dywedai hyn dan fwynhau ei hun yn fawr yn ein plith ni y llanciau.

Cysgai y pryd hwnw yn aml yn y pwlpud, pan i bregethu gydag arall; a chlywid ef weithiau yn rhoddi ambell chwyrniad enbyd pan fuasai hwnw yn pregethu.

Cofus ydyw genym am dano felly, mewn Cyfarfod Misol yn Ceinewydd un tro. Yn olaf am ddau y pregethai efe y waith hono. Dau ŵr dyeithr—Mr. Mathews a'i gyfaill, y rhai ydoedd ar daith ar y pryd trwy y Sir—a bregethent y boreu. A phur anfoddlon, ac anhwylus yr oedd efe wrth feddwl pregethu fel hyny yn y prydnawn. Pa beth bynnag, ar ol dyweyd ragor nag unwaith na wnai aros i bregethu yn y prydnawn, aros wnaeth, a phregethu hefyd. Digwyddai fod yn ddiwrnod trymaidd iawn y dydd hwnw o ran yr hîn, a'r odfa—yn ganu, gweddio, a phregethu—yn hynod felly, hyd nes y dechreuodd efe. Cysgai llawer o'r gynulleidfa tra y bu y brawd cyntaf yn ceisio pregethu; ond neb mor ddoniol a'r hen weinidog anwyl oedd yn y pwlpud; yr hwn hefyd oedd i anerch y gynulleidfa drymaidd a chysglyd ei hun yn y man. Ac nid yn unig cysgai, ond chwyrnai mor uchel, fel yr oeddem ni ar y *gallery* yn ei glywed yn hawdd. Modd bynnag, wedi ymladdfa galed â phrofedigaethau ac anhawsderau, odfa galed, a hin

drymaidd, gorphenodd un gweinidog ei bregeth, a gorphenodd y llall ei hun. A dyma y cysgadur yn codi'i fyny yn fywiog ar ol ei hûn, a phawb yn edrych yn llon arno, ac mor dderbyniol o hono, a phe buasai heb gysgu na chwyrnu mewn odfa erioed; ac yntau ei hun heb fod yn ymwybodol ei fod wedi cysgu o gwbl—o leiaf, o un euogrwydd o herwydd hyny. Y testyn y waith hon ydoedd,—1 Pedr i. 15, 16,—"Eithr megys y mae y neb a'ch galwodd chwi yn sanctaidd," &c. Mater y bregeth ydoedd:—"Y rhwymau sydd ar y Cristion i fod yn sanctaidd, a'r rheswm am hyny; sef fod Duw yn sanctaidd." Nid ydym yn awr yn gallu cofio fawr o sylwadau y bregeth. Ond yr ydym yn cofio ei bod o ran ei chyfansoddiad, yn rhagori ar lawer o'i bregethau ef, ac o duedd dda iawn. Gellid meddwl nad oedd efe yn meddwl gwneyd rhyw orchestwaith annghyffredin o honi y prydnawn hwnw, a hyny i raddau am mai prydnawn ydoedd Ond yr oedd y bregeth a'r hwyl yn mynu dod er hyny. Yr oedd ei lais mewn cywair da, a'r gynulleidfa wedi ymysgwyd o'i chysgadrwydd, ac yn esgud i wrando erbyn hyn. Y mae yn myned yn odfa hwylus ofnadwy. Ond er syndod i bawb o'r gwrandawyr, dyma ddarn o'r bregeth yn dyfod allan o ganol y tân a'r mwg, yn condemnio yn ddychrynllyd, yr arferiad o gysgu "yn moddion gras," fel pechod mawr, ac arferiad hollol annheilwng o'r Duw sanctaidd a addolwn; a'r pregethwr newydd ddihuno ei hunan, wedi bod yn cysgu yn *uchel iawn* yn yr odfa hono! Ond nid ydoedd, yn dra thebyg, yn bechod ynddo ef—pa beth bynnag yn bechod ynddo yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda. Cysgai felly, fel y dywedwyd yn barod, yr amser yma yn mhob man, a chyda phobpeth, oni bae ei fod yn ymladd yn ei erbyn fel y dywedai efe; a gwnai hyny yn aml er ymladd ei oreu yn ei erbyn, fel y dangoswyd uchod. Gwelsom ef yn cysgu amryw weithiau, wrth adrodd hanes, neu ddyweyd ystori; a myned yn mlaen

gwed'yn fe allai, ar ol, a than bendwmpian; ac hwyrach rhoddi ambell i chwyrniad yn iawn i lanw y gwagle, a thori ar y distawrwydd. A da iawn ydoedd iddo gael gwared o'r pla blin yma, drwy y pethau a nodwyd, am flynyddoedd olaf ei oes.

Wrth ddyweyd ei fod yn cysgu yn ddoniol, meddyliem, wrth gwrs, ei fod yn chwyrnwr digymar. Nid ydym ni yn myned i benderfynu i ba ddosparth y perthynai fel pregethwr—gadawn hyny i'r beirniaid—ond gallwn ni benderfynu ei fod yn y dosparth blaenaf fel chwrnydd yn ei gwsg, os nid yn ddosparth, a hwnw yn mlaenaf ar ei ben ei hun. A chaiff y ffeithiau canlynol wasanaethu fel prawf o'i ddoniau chwyrnu ef, ac o ddilysrwydd ein honiad ninnau mewn perthynas iddo yn y peth hwn.

Pan yn byw yn y Crug-gwyn—tŷ bychan yn Blaenanerch, dipyn yn agos i'r ffordd fawr—pan yn byw yno am dymmor byr, i aros i Brynhyfryd i ddyfod yn barod, dywedir fod ei chwyrniadau i'w clywed weithiau yn amlwg o'r ffordd fawr, er dychryn i ddyn ac anifail yn ddiau wrth fyned heibio. Clywsom ei fod wedi enwogi ei hun yn fawr yn hyn yn Hafodmaidd, Sir Fflint, unwaith. Ar ol iddo ef a'r teulu fyned i'w gwelyau, clywsent hwy rhyw sŵn rhyfedd a dyeithr yn rhywle. Nid oedd ganddynt un dychymyg pa beth ydoedd, o ba le y deuai, nac i ba le yr elai chwaith. Ofnai gwraig y tŷ—gwraig weddw ydoedd yn byw yno y pryd hwnw—fod rhywbeth allan o le ar y gwartheg yn y beudy, eu bod yn cornio eu gilydd neu ryw anhwyldeb o'r fath; a galwodd ar y forwyn i fyned a chanwyll allan i weled pa beth oedd yn bod. Daeth hono yn ol yn fuan i dystiolaethu, mai nid y gwartheg yn y beudy oedd yn euog o'r sŵn dyeithr ac annymunol. Fel yna y bu hyd boreu dranoeth; methwyd a deall y dirgelwch, na chysgu fawr yn esmwyth, o herwydd y sŵn. Yn ffortunus, yr

drymaidd, gorphenodd un gweinidog ei bregeth, a gorphenodd y llall ei hun. A dyma y cysgadur yn codi'i fyny yn fywiog ar ol ei hûn, a phawb yn edrych yn llon arno, ac mor dderbyniol o hono, a phe buasai heb gysgu na chwyrnu mewn odfa erioed; ac yntau ei hun heb fod yn ymwybodol ei fod wedi cysgu o gwbl—o leiaf, o un euogrwydd o herwydd hyny. Y testyn y waith hon ydoedd,—1 Pedr i. 15, 16,—"Eithr megys y mae y neb a'ch galwodd chwi yn sanctaidd," &c. Mater y bregeth ydoedd:—"Y rhwymau sydd ar y Cristion i fod yn sanctaidd, a'r rheswm am hyny; sef fod Duw yn sanctaidd." Nid ydym yn awr yn gallu cofio fawr o sylwadau y bregeth. Ond yr ydym yn cofio ei bod o ran ei chyfansoddiad, yn rhagori ar lawer o'i bregethau ef, ac o duedd dda iawn. Gellid meddwl nad oedd efe yn meddwl gwneyd rhyw orchestwaith annghyffredin o honi y prydnawn hwnw, a hyny i raddau am mai prydnawn ydoedd Ond yr oedd y bregeth a'r hwyl yn mynu dod er hyny. Yr oedd ei lais mewn cywair da, a'r gynulleidfa wedi ymysgwyd o'i chysgadrwydd, ac yn esgud i wrando erbyn hyn. Y mae yn myned yn odfa hwylus ofnadwy. Ond er syndod i bawb o'r gwrandawyr, dyma ddarn o'r bregeth yn dyfod allan o ganol y tân a'r mwg, yn condemnio yn ddychrynllyd, yr arferiad o gysgu "yn moddion gras," fel pechod mawr, ac arferiad hollol annheilwng o'r Duw sanctaidd a addolwn; a'r pregethwr newydd ddihuno ei hunan, wedi bod yn cysgu yn *uchel iawn* yn yr odfa hono! Ond nid ydoedd, yn dra thebyg, yn bechod ynddo ef—pa beth bynnag yn bechod ynddo yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda. Cysgai felly, fel y dywedwyd yn barod, yr amser yma yn mhob man, a chyda phobpeth, oni bae ei fod yn ymladd yn ei erbyn fel y dywedai efe; a gwnai hyny yn aml er ymladd ei oreu yn ei erbyn, fel y dangoswyd uchod. Gwelsom ef yn cysgu amryw weithiau, wrth adrodd hanes, neu ddyweyd ystori; a myned yn mlaen

gwed'yn fe allai, ar ol, a than bendwmpian; ac hwyrach rhoddi ambell i chwyrniad yn iawn i lanw y gwagle, a thori ar y distawrwydd. A da iawn ydoedd iddo gael gwared o'r pla blin yma, drwy y pethau a nodwyd, am flynyddoedd olaf ei oes.

Wrth ddyweyd ei fod yn cysgu yn ddoniol, meddyliem, wrth gwrs, ei fod yn chwyrnwr digymar. Nid ydym ni yn myned i benderfynu i ba ddosparth y perthynai fel pregethwr—gadawn hyny i'r beirniaid—ond gallwn ni benderfynu ei fod yn y dosparth blaenaf fel chwrnydd yn ei gwsg, os nid yn ddosparth, a hwnw yn mlaenaf ar ei ben ei hun. A chaiff y ffeithiau eanlynol wasanaethu fel prawf o'i ddoniau chwyrnu ef, ac o ddilysrwydd ein honiad ninnau mewn perthynas iddo yn y peth hwn.

Pan yn byw yn y Crug-gwyn—tŷ bychan yn Blaenanerch, dipyn yn agos i'r ffordd fawr—pan yn byw yno am dymmor byr, i aros i Brynhyfryd i ddyfod yn barod, dywedir fod ei chwyrniadau i'w clywed weithiau yn amlwg o'r ffordd fawr, er dychryn i ddyn ac anifail yn ddiau wrth fyned heibio. Clywsom ei fod wedi enwogi ei hun yn fawr yn hyn yn Hafodmaidd, Sir Fflint, unwaith. Ar ol iddo ef a'r teulu fyned i'w gwelyau, clywsent hwy rhyw sŵn rhyfedd a dyeithr yn rhywle. Nid oedd ganddynt un dychymyg pa beth ydoedd, o ba le y deuai, nac i ba le yr elai chwaith. Ofnai gwraig y tŷ—gwraig weddw ydoedd yn byw yno y pryd hwnw—fod rhywbeth allan o le ar y gwartheg yn y beudy, eu bod yn cornio eu gilydd neu ryw anhwyldeb o'r fath; a galwodd ar y forwyn i fyned a chanwyll allan i weled pa beth oedd yn bod. Daeth hono yn ol yn fuan i dystiolaethu, mai nid y gwartheg yn y beudy oedd yn euog o'r sŵn dyeithr ac annymunol. Fel yna y bu hyd boreu dranoeth; methwyd a deall y dirgelwch, na chysgu fawr yn esmwyth, o herwydd y sŵn. Yn ffortunus, yr

oedd un o fyfyrwyr y Bala wedi bod mor anffortunus a bod gydag ef yn y gwely yn ei wylio drwy y nos. Ac ebai hwnw, boreu dranoeth:—"Beth oeddech chwi yn fy ngyru i'r gwely gyda'r hen filan yna—chysgais i un llygad trwy y nos, gan ei chwyrnu o—chwyrnu na chly'-soch chwi erioed ffasiwn beth—beth, yr oedd y tŷ yn crynu i gyd; a chly'soch chwi ddim o hono fo mewn difrif?" Ac fel hyn, caed goleuni ar y tywyllwch blin, ac arbedwyd y teulu parchus rhag y brofedigaeth o gredu fod eu tŷ yn breswyl twrf ysprydion.

Buom ni, rai gweithiau, mor ddrwg ein ffawd a bod yn gywely iddo. O dyn anwyl! yr oedd yr ystafell-wely yn lle rhyfedd wedi iddo ef ddechreu cysgu, gan sŵn y taranau, ac ymweithiad egniol ei holl gorff. Yr ydoedd gallu cysgu i ni gydag ef yn hollol allan o'r cwestiwn—cysgu yn wir! buasai yr un peth i ni feddwl am gysgu ar ochr Seinai pan yn taranu, ag wrth ei ochr ef yn cysgu. Pa fodd bynnag, pan fuom ganddo ddwy noson yn olynol—a heb gysgu un llygad y nos gyntaf, ac yn teimlo yn mron marw o eisiau cysgu yr ail nos, o herwydd blinder teithio a cholli cysgu—yr ydym yn cofio ein bod yn dechreu hepian weithiau, rhwng y tyrfau mawrion hyny—yr eiliadau, os nid y munydau hyny, y buasai heb anadlu—beth bynnag allan—ynddynt, yn ystod "y tawelwch mawr," ys dywedodd y Parch. R. Edwards, wrth wrando arno weithiau yn tyrfu, ac weithiau yn distewi yn y modd yma—dechreuem hepian weithiau yn y tawelwch yma; ond wrth reswm, yn gorfod dihuno gwed'yn bob tro y torai y daran fawr allan. Wedi gallu o honom berswadio ein hunain i gredu mai nid tynu yr anadl olaf a marw yr ydoedd, yn yr yspeidiau o dawelwch y cyfeiriwyd atynt, yr oeddem fel Haydn, a'r ystorm ar y môr, yn gallu mwynhau y dymestl am dipyn; ond cyn y boreu, yn myned i deimlo yn bur *nervous.* A buom unwaith yn y Pentremawr, Llanrhystyd, pan gydag ef yn y gwely,

yn canu y darn pennill hwnw yn brofiadol iawn hefyd, o'r natur ag ydoedd :—

"O na wawriai
Boreu hyfryd Jubilee."

Canem ef allan yn uchel; o herwydd nid oedd fawr o berygl i ni aflonyddu dim ar y teulu dan y fath amgylchiadau. Ac wedi gwawrio o'r boreu hwnw, ac i Mr. a Mrs. Davies gyfodi o'u gwely yn foreu iawn, codasom ninnau o'n gwely profedigaethus, ac aethom i'r eiddo Mr. Davies; ond nid i gysgu eto, am mai sŵn y rhyfel oedd y wlad hono i ni drachefn. A chyn hir iawn, gostegodd y dymestl, a dyma Mrs. Davies i mewn yn yr ystafell gydag ef, gyda dwfr cynes iddo tuag at eillio ei farf. A chyda ei bod i mewn gofynodd iddi :—"B'le mae e ŵr?" "Mae e wedi codi Mr. Jones," atebai hithau, "a myned i orwedd tipyn ar ein gwely ni." "A welwch chi y bachgen crwn ŵr," ychwanegai "yn codi heb wybod i fi fel yna: o achos mod i yn hwrnu tipyn gwela'i." Mwynhai yr helynt yma yn fawr dranoeth, yn enwedig pan ddywedasom wrtho ein bod wedi bod yn canu y darn pennill wrth ei ochr yn y gwely; ac adroddai yr helynt yn aml ar ol hyn, er difyrwch i'w gyfeillion.

Nos dranoeth—os nad ydym yn cam gofio—y cyfododd y Parch. E. Mathews o'r gwely oddiwrtho yn Aberystwyth, ar adeg Cymmanfa, o herwydd ei fod yn chwyrnu mor enbyd. Cododd Mr. Mathews, ac aeth allan o'r ystafell i chwilio am wely arall mwy tawel. A'r lle yr aeth iddo gyntaf, ydoedd ystafell-wely y morwynion, er dychryn nid bychan i'r rhai hyny, a thipyn o syndod a difyrwch iddo ei hun. Wedi methu cael lle i orphwys yno, llwyddodd i ddyfod o hyd i ystafell-wely y Parch. R. Humphreys, Dyffryn. A chan fod cywely Mr. Humphreys y noson hono, yn pregethu allan yn y wlad, aeth Mr.

Mathews i'r gwely ato ef. Ond ymddengys, na fu *poor* Mr. Mathews nemawr gwell yn y diwedd—myned o'r mwg i'r daflod a wnaeth. A mawr y difyrwch ydoedd yn nhŷ y Parch. E. Jones (oblegid yno y lletyent) dranoeth, o herwydd y digwyddiadau digrifol hyn. Ac yr ydym yn cofio yn dda am Mr. Jones a Mr. Mathews, y nos ar ol hyny gwed'yn, yn chwareus yn ceisio rhedeg am y cyntaf i'r ystafell-wely, er ceisio rhwystro y naill y llall i ddyfod i mewn yno. Rhedai Mr. Mathews yn gyntaf, a cheisiai Mr. Jones redeg ar ei ol, a bygwth myned i'r gwely gydag ef y noson hono drachefn. A da ydoedd iddynt hwy, ac i'r wlad, eu bod yn well pregethwyr nag oeddent o redegwyr.

Tua diwedd Mai, 1860, wele Mr. Jones yn cychwyn i Gymmanfa Woodstock, Swydd Benfro, a ninnau gydag ef—efe yn ei gig, a ninnau yn marchogaeth. Yr ydoedd mewn hwyl dda ar y ffordd wrth fyned yno. A thua dau o'r gloch prydnawn yr un diwrnod, cyrhaeddasom Castell Henry—*head quarters* awdurdodau a doniau y Gymmanfa hono. Lle dyeithr hollol i ni oedd y Castell hwn y pryd hwnw, er iddo fod yn gartref cysurus i ni am flynyddoedd ar ol hyny; ond yr ydoedd yn adnabyddus a chartrefol iawn ganddo ef. Yr ydoedd yno yn barod y brodyr—ieuainc y pryd hwnw—Mri. Roberts, Aberteifi, John Thomas, Pater, a Thomas Hughes, Hay, yn cael eu harholi i'w hordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth, heb un arholwr yn agos atynt—dim yn nes na Threfeca, neu Abertawe yn dra thebyg. Ond aethai yr arholiad yn mlaen yn hapus iawn er y pellder hwn oedd rhwng yr arholwyr dysgedig a medrus a'r ymgeiswyr, o herwydd yr ydoedd y gofyniadau gyda'r ymgeiswyr beth bynnag er ys tipyn o amser cyn dyfod i'w hateb, a Mr. Harries, Cefnydre, Abergwaen, yn ofalus iawn yn edrych ar eu hol; ac mewn modd caredig yn casglu pob llyfr a gawsai yn Castell Henry er eu harwain yn ddiogel a llwyddianus

trwy yr arholiad; ac yn mhlith llyfrau eraill o enwogrwydd diamheuol, deuai ag Almanac am y flwyddyn iddynt, er hwyluso'r gwaith i fyned yn y blaen. Ac erbyn amser cysgu, yr ydoedd yno lawer o ddyeithriaid wedi dyfod o Dde a Gogledd—y Parchn. R. Edwards, Wyddgrug, O. Jones, Manchester, y pryd hwnw, Mr. Thomas Williams, Aberteifi, &c., &c. Ac wedi ei myned yn hwyr iawn, aethpwyd i'r gwelÿau. Aeth Mri. Edwards, O. Jones, a J. Jones i un ystafell lle yr ydoedd dau wely, a'r tri brawd ieuanc a arholent eu hunain, a ninnau i ystafell arall lle yr ydoedd dau wely. Aethom i'r llofft oll gyda ein gilydd. Ac erbyn bod y tri gweinidog yn eu ystafell-wely, ebai Mr. Edwards :—gobeithio mai y dyn bach tew yna o Aberteifi sydd i fod hefo chwi Mr. Jones yn y gwely yna heno, a'r tri yn chwerthin yn galonog a mwynhaol. Ond dyma y dyn bach tew i mewn gyda hwy yn yr ystafell, a'r tri yn mron ag ymddryllio wrth geisio cau ar y chwerthin, rhag ei dori allan, yr hyn dan yr amgylchiadau fuasai yn dra anfoneddigaidd ynddynt. "Yr oeddwn i," meddai Mr. Jones wrthym pan yn dyfod adref o'r Gymmanfa hono, "yn meddwl mai dod i mewn i 'mofyn rhywbeth—rhyw *barcel* neu rhywbeth o'r fath—oedd ef yn ei wneyd wedi y cwbl. Ond yn y man, dyna y dyn bach ar ei liniau yn dduwiol iawn, a Roger erbyn hyny ar ei fol ar ei wely yn chwerthin ; ac O. Jones a finnau yn fawr gwell, tra bu y dyn bach yn myn'd i'r nefoedd. A dyna fe yn dechreu dihatru ar unwaith, ac aeth i'r gwely o'n blaen ni gryn amser gwed'yn, o achos ei bod yn galed iawn arnom—yn enwedig y brawd Roger, i ymatal rhag i'r storom o chwerthin oedd wedi ymgroni ynom i dori allan."

Aeth pawb o honom yn mhen rhyw amser i'n gwelyau. Ac am enyd dyma ddistawrwydd, o ran a wyddem ni, yn ystafell y pedwar dyn mawr; a ninnau yn y llall yn clebran rhywbeth, a phob peth yn ysgafn ein calonau yr

amser hwnw—yr oeddent hwy erbyn hyn yn agos a gorphen arholi eu hunain, a *phasio* eu hunain yn anrhydeddus, a ninnau heb ddim neillduol yn ein blino. Ond yn ddisymwth, dyma ryw dwrw pur fawr yn yr ystafell arall. "Dyna y gwely wedi tori," medd rhywun, "o dan Mr. Jones a Mr. Williams." "Na, nid yw y gwely wedi tori," medd arall, "dim ond y planc croes oedd yn dal y gwely yn *study* dorodd i gyd. Nid yw y gwely ddim gwaeth. Gwely newydd hollol yw e; ac ni wnaeth e ddim ond rhoddi ffordd dipyn i'w le yn y *joints*, gan faint y pwysi sydd arno; gallwch gysgu yn dawel ynddo eto." A hyny a wnaed, yn effeithiol dros ben, a doniol i'w ryfeddu. Yn mhen enyd, dyma ryw sŵn rhyfedd a dyeithr —beth bynnag i rai o'r bechgyn yn ein hystafell ni. "Hawyr anwyl," medd un o honynt, "beth sydd yn gwneyd y sŵn ofnadwy yna? Y mae y tŷ yn crynu i gyd." "O, y ddau hen frawd Mr. Jones, a Mr. Williams, sydd yn ymryson chwyrnu," ydoedd yr ateb. "Wel ni chlywais i erioed o'r blaen y fath beth," medd Mr. T. Hughes. "Mi goda i i agor y drysau i ni gael chwareu teg i'w glywed." Ac y mae yn debyg, na bu erioed y fath fwstwr yn cael ei greu gan ddeuddyn wrth gysgu yn yr un gwely o'r blaen—dyma farn unfryd y dysgedigion ar y mater. Ac yn lle cysgu, gwaith y ddau Ogleddwr ydoedd mwynhau eu hunain trwy y nos wrth wrando ar y ddau Ddeheuwr yn chwyrnu am yr uwchaf ac am y mwyaf. Digwyddent weithiau i ymatal rhag anadlu ar yr un pryd —"A bu tawelwch mawr," ebai Mr. Edwards. Yna torai dwy daran allan yr un pryd:—"Ac wele bu sŵn," medd Edwards drachefn. Ac ymddengys na chysgodd y ddau ŵr parchus o'r Gogledd trwy y nos. Ac wrth gwrs, ni chysgasom ninnau trwy y nos. Yr oedd helynt y fath newydd-deb mwynhaol i Hughes a Thomas, fel na ddaeth cwsg yn agos atynt trwy y nos; ac yr oedd eu gweled hwy yn mwynhau eu hunain mor rhagorol, yn nghyd a'r

cydgyfarfyddiad, a'r digwyddiadau rhyfedd yn yr ystafell arall, yn ddigon i yru cwsg yn mhell oddiwrth Roberts a ninnau trwy y nos.

Boreu dranoeth, yr ydoedd y tri gweinidog i lawr gydag eraill yn brydlawn, ac yn eistedd wrth y bwrdd i gael boreu-fwyd. "B'le mae Mr. Williams," medd Mr. Harries. "Y mae o yn canu *solo* rwan," meddai Mr. Edwards, "yn y gwely acw; y mae Mr. Jones yma ac ynteu wedi bod yn canu *duett* drwy y nos." A diau y cofia rhai fu yn gwrando ar y *solo* a'r *duett* yn cael eu canu y noson hono yn Castell Henry am danynt yn bur hir.

Y mae y ffeithiau yna, yn gystal ag ereill ellid ddwyn yn mlaen, yn ddigon i brofi fod gwrthddrych ein cofiant, yn hynod a phoblogaidd, a doniol iawn, hyd yn oed pan fuasai ar "lun y meirw."

## PENNOD X.

*Yn pregethu yn anterth ei nerth, ac uchder ei boblogrwydd—Mewn Cyfarfod Misol—Disgwyliad mawr am dano—Yn y gwahanol gyfarfodydd neillduol yno—Yn y seiat gyffredinol—Yn pregethu yno—Mewn Cymmanfa—Yn bregethwr Cymmanfa—Yn y Gogledd yn* 1859—*Yn y seiat yno—Yn pregethu yno—Mewn Cymmanfa yn y Deheudir—Yn nghyfarfodydd neillduol y Gymmanfa yn y De—Yn pregethu—Y Gymmanfa olaf y bu ynddi yn pregethu.*

AML a thaer ydoedd y ceisiadau arno yn awr i fyned i bregethu, o bell ac agos. Ychydig yn ddiau gafodd fwy o alwadau yn yr ystyr yma nag a gafodd efe. Ac ychydig hefyd ymddengys, ydoedd yn mwy anhawdd eu perswadio i fyned nag ydoedd efe—nacau y buasai fynychaf. Yr ydoedd i raddau yn llwfr a digalon, wrth feddwl myned i gyfarfodydd mawrion drwy ei oes. Ymdeimlai, feallai, â rhyw fath o anallu i gyfarfod â'r disgwyliadau ydoedd yn y wlad am dano, a dal yn mlaen yn ei boblogrwydd; yr ydoedd yn eiddigus a gwyliadwrus iawn o'i boblogrwydd bob amser, ac yn mhob man. Ond er na theithiodd lawer, yn enwedig mewn cymariaeth i'r galwadau am dano i Ogledd a De, a threfydd Lloegr. Eto yn ystod ei oes, teithiodd dipyn drwy Gymru ac i ddinasoedd Lloegr; a diau wneuthur o hono waith mawr yn y wlad trwy hyn. A dymunol iawn fuasai genym allu myned a'r darllenydd ar ei ol i rai o'r teithiau hyn, i weled y tyrfaoedd yn tyru i'w wrando, a'i glywed yntau mewn hwyl sanctaidd yn traethu gair y cymmod iddynt. Ond y mae hyn yn fwy nag a allwn—did oes genym ddefnyddiau o ddim gwerth at hyn. Ni buom ni ein hunain erioed gydag ef ar daith; ac y mae y rhai fu oll wedi

meirw, ni feddyliem, heb adael dim ar eu hol am dano yn yr ystyr yma. Yn mlynyddoedd olaf ei oes, nid ydoedd, o herwydd rhywbeth, yn hoff o gymeryd neb ganddo i'w deithiau. Ac heblaw hyn, ni cheid ganddo ddyweyd fawr iawn am ei deithiau o ran ei bregethu, a'r gwrando ydoedd arno—gallai y deuai gair dipyn yn ochelgar wrth gyfaill neillduol weithiau. Buom yn synu lawer gwaith ei fod mor ddistaw mewn perthynas i'w boblogrwydd. Ac ymddengys—er ei fod yn fyw iawn i'w boblogrwydd—nad ydoedd yn ymwybodol o'i fawredd wedi y cwbl drwy ei oes. Ac un peth sydd yn peri i ni feddwl hyn yw, ddarfod i ni ei glywed lawer tro yn dyweyd am rhyw gapelau lle y buasai yr achos yn gwanychu, a'r cynulleidfaoedd yn lleihau ynddynt:—"Pa'm y man' nhw yn gweyd fod yr achos yn myn'd i lawr yn ———, welais i un argoel o hyny yno. 'Roedd yno gynulleidfa lon'd y lle, a phobol fach neis iawn." Dywedai hyn yn hollol bur a dirodres; ac yn hollol ddifeddwl mai ei boblogrwydd ef ydoedd wedi tynu pobl yno am y tro hwnw yn unig.

Fel hyn, ni fwriadwn yn y bennod hon, ond rhoddi i'r darllenydd rhyw engraifft neu ddwy o hono mewn Cyfarfod Misol, a Chymmanfa. Nid ydoedd neb yn y Sir—dipyn o ffordd o'i gartref—ag y disgwylid mwy am dano i'r Cyfarfod Misol, na Jones, Blaenanerch, nac a lanwai fwy o le ynddo wedi dyfod, nag a wnai efe. Ac ai iddynt, ar y cyfan, yn lled ffyddlon trwy ei oes. Os yn rhan uchaf y Sir y buasai y Cyfarfod Misol i fod, cychwynai yn y cyffredin, y prydnawn o'r blaen; ac ai i Aberaeron, neu rywle tua chanol y Sir. A da iawn gan frodyr y lle hwn ydyw cael ei gyhoeddiad; canys gwyddant y bydd yno gynulleidfa luosog yn disgwyl am dano pan ddaw yno. Ni a dybiwn mai i Rhiwbwys y mae yn myned y waith hon, y nos o'r blaen, o herwydd mai yn Aberystwyth y mae y cyfarfod i fod. A chan fod y lle hwn yn gyfleus, ac yntau yn hoffach o fyned iddo na llawer lle yn y Sir—

o herwydd yr ydoedd, ac y mae rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant, yn nefoedd fechan ei Sir ef, ac ni ddeallai neb hyny yn well nag ef. Cychwyna yn foreu dranoeth o dŷ, ac oddiwrth deulu caredig Mr. Davies—o herwydd gofala efe am fod yno yn brydlon—tuag Aberystwyth, a Mr. Davies a rhan o'r teulu gydag ef. Ac wedi ei weled, a'i adnabod o draw nid yn unig y mae y bobl sydd yn gofalu am y dyeithriaid a'r ceffylau yn ymloni, ac yn teimlo yn falch am ei fod wedi dyfod; ond teimla plant y dre' yn awr fod y Cyfarfod Misol wedi dyfod i'r lle mewn gwirionedd. Maent wedi ei weled ef, yn teimlo ac yn meddwl, fel y plant hyny yn y Gogledd, y rhai a ddisgwyliant yn bryderus weled y Gymmanfa yn dyfod i'r lle, yn gymaint a bod y dydd iddi i fod yno wedi gwawrio er ys oriau arnynt. Gwelent lawer o ddynion yn dyfod i'r lle, ond ni welent y Gymmanfa. Ond wedi disgwyl tipyn, dyma Lewis Morris, yn ei fawredd cynenid, ar gefn ei farch uchel yn dyfod at y lle; a chyda hyny, wele y plant yn rhedeg adref nerth eu haelodau i ddyweyd wrth eu tad:—"Nhad, nhad, y mae y Gymmanfa wedi dod o'r diwedd, ar gefn ceffyl du (?) mawr." Yn gyffelyb mi dybiwn, y teimlai plant Sir Aberteifi, pan welent Jones, Blaenanerch, yn dyfod yn ei gerbyd adeg y Cyfarfod Misol—credent yn ddios erbyn hyny fod y Cyfarfod Misol wedi dyfod i'r lle. Ac y maent hwy a'r dynion yn ymryson i dderbyn ei anifail, a'i groesawu yno. Ac os bydd yntau adnabyddus â hwy, cyfarcha hwy yn serchus, a dywed wrthynt o ddigrifwch:—"John," neu, "Thomas, gofala di am y 'ngeffyl i, onide ti cai di hi gen i eto." "O'r goreu Syr," fuasai yr ateb parod. A gwna John neu Thomas, ond odid, ofalu am le da, a thriniaeth dda i'w geffyl os bydd bosibl.

Y mae yn bresenol yn y cyfarfod cyntaf, i ymddiddan â'r blaenoriaid. Ond ni wna ddyweyd ond ychydig yn hwn; y mae eto heb ymddeffro yn iawn i waith y

Cyfarfod Misol; a gad y gwaith hwn i Mr. Roberts, Ll——ac eraill—rhai a ystyriai efe yn fwy medrus i drin a siarad â blaenoriaid nag ef. Gofala fod yn bresenol yn nghyfarfod trin yr achosion allanol hefyd. Ond nid yw yn siarad fawr yn hwn chwaith. A gellid meddwl nad yw yn sylwi dim ar yr hyn sydd yn myned yn mlaen ynddo. Eithr camsyniad yw hyn; os ydyw heb gysgu, sylwa yn weddol fanwl ar y cwbl, er nad yw yn dyweyd dim. Ond os digwydda rhywbeth i ddyfod dan sylw, a rhywbeth a fyno efe ag ef yn neillduol, teimla ac ymddangosa fel arall; dan amgylchiadau felly, y mae ei wyneb yn siriol, neu wedi syrthio i raddau amlwg iawn; ac yn awr y mae yn siarad, feallai yn lled aml os yw yn teimlo yn fawr o blaid neu yn erbyn y mater. Neu os gwel rhyw frawd yn ymosod yn llym ar frawd arall, neu ddadleu yn orselog dros rhyw ddeddf lym iawn, gwna yn dra thebyg godi i siarad yn erbyn y naill a'r llall; a gwna gryn niwed i'w hachos hefyd—nid cymaint trwy nerth yr hyn a ddywed, ond trwy ei fod ef yn dyweyd; ac weithiau gwnai hyn trwy wendid yr hyn a ddywedai. Safai yn lled gyndyn—yn fwy felly nag ydoedd o gadarn—weithiau, dros ei olygiadau ar rhyw fater o ddadl, er blinder iddo ei hun ac i eraill. Ac ar y cyfan, gellid meddwl y buasai yn well iddo ef yn bersonol, a hyny heb fod yn golled fawr i'r achos yn gyffredinol, pe na buasai yn ymyraeth llawer a'r achosion allanol perthynol i'r eglwys; o herwydd ei gwasanaethu mewn pethau ysprydol ydoedd ei fedr a'i lwyddiant ef.

Yn y seiat gyffredinol, pa fodd bynnag, yr ydoedd yntau gyda'i waith priodol ei hun, ac yno yn llanw lle mawr. Yn y cyffredin—o leiaf yn ei flynyddoedd olaf—ar ddiwedd y cyfarfod y byddid yn galw arno ef i siarad. A gofalid fod digon o amser yn cael ei roddi iddo ef; a phe na ofalai y cadeirydd i gadw rhyw haner awr o'r amser iddo ef, ni buasai wiw iddo ddisgwyl i heddwch deyrnasu

rhyngddo a'r bobl, na sirioldeb i deyrnasu ar wyneb Mr. Jones ei hun tuag ato, am y dydd hwnw. A chan gynted ag y gelwid ef i ddyweyd, ai rhyw gyffroad trwy y gynulleidfa, a rhai yn deffroi o gwsg feallai, a phawb yn gollwng allan anadliad gref a thrwmlwythog, er mwyn gallu ail anadlu yn ysgafnach o hyny hyd y diwedd. Ac nid cynt y mae efe ar ei draed, nag y mae pawb o herwydd rhyw reswm—nid yr un rheswm sydd am hyn gan bawb—yn gwenu, ac fel hyn yn ei groesawu i siarad, gan ddisgwyl yn hyderus y caent floedd neu ddwy, os na ddaw dim mwy, rywbryd cyn y diwedd; a boddlona y lluaws yn bur dda mewn seiat fel hyn, os cânt floedd neu ddwy effeithiol ganddo. Wel, dyma ef yn dyweyd; ond araf ac annyben, a gwasgarog yw hi eto. Eithr toc, dechreua dwymno, ac y mae yr adnodau yn dechreu ystwytho o ran eu cymalau, fel y maent yn cerdded yn hawddach a chyflymach; a thery yn ddamweiniol wrth ryw ddarn hapus o hen bregeth yn gymwys i'r mater dan sylw. Y mae yr *hwyl* yn dechreu disgyn arno ef a'r gynulleidfa. Ac erbyn hyn, y mae y llais mawr—nid yr un uchel a chryf iawn, ond y mawr a'r ceuog iawn hwnw—mae hwn allan yn hir-seinio, a'r bobl erbyn hyn, rai yn chwerthin ac eraill yn ŵylo, a phawb wrth eu bodd. Ond y mae yr haner awr i fyny—rhedodd ei holwynion i fyny yn hynod o gyflym—rhaid tewi a gadael y cwbl yn y fan yna. Terfyna y Seiat, er dipyn yn drymaidd ar y cyntaf, yn nechreuad yr hwyl fawr wedi cyrhaedd y nod; a phawb yn credu, "*that whatever ends well, is all well.*"

Y noson olaf y mae i bregethu y waith hon; er mai deg o'r gloch yw ei amser ef i bregethu yn y Cyfarfod Misol er ys blynyddoedd bellach, a phrin y buasai yn iawn fel arall yn ei fryd ef ac eraill. Ond odfaon y nosweithiau yw y mwyaf pwysig o lawer yn Aberystwyth, fel trefydd yn gyffredinol, adeg Cyfarfod Misol. A rhaid ydoedd iddo ef aros i'r nos olaf y waith hon

—dyma adeg eu hodfa ddeg o'r gloch hwy mewn cyfarfodydd o'r fath.

Mae y capel mawr yn orlawn o wrandawyr, a phob peth yn arwyddo yn fanteisiol gyda golwg ar yr odfa. Wedi i frawd i ddechreu yr odfa yn fyr ac i bwrpas, dacw ddyn tal, teneu, a meddylgar o ymddangosiad, yn codi i fyny yn frysiog, a Mr. Jones yn ymdrechu yn galed i geisio myned i bregethu yn gyntaf; ond yn ofer—y mae ei gyfaill yn hollol benderfynol. Ac wedi canu y pennill, darllena ei destyn mewn llais a thôn uchel. Dechreua ar unwaith i bregethu o ddifrif, ac ymddengys fel mewn brys. Tafla sylwadau galluog allan, fel hyn yn frysiog, ac fel pe na bae yn gweled dim neillduol ynddynt. Ymwthia i'r dwfn yn y modd yma, fel heb yn wybod iddo ei hun a'r gynulleidfa, a yn mlaen heb gymeryd amser i nodi penau, na gwneyd un rhaniadau ar ei bregeth. Ac wedi bod yn ymgodymu yn wrol â rhyw fater anhawdd a phwysig am amser, y mae o'r diwedd yn cael buddugoliaeth hollol arno, ac yn medru gwneyd defnydd da o'r fantais a enillodd arno. Mae gwrando y brawd galluog hwn, yn peri i ni gofio yn aml am y *train* trwmlwythog yn myned i fyny'r bryn. Mae hwnw weithiau, yn pwffian ac yn tuchan yn enbyd iawn, ac yn myned yn bur araf—yn ymddangos i'r annghyfarwydd yn mron a methu, a myned i *stopio* yn hollol. Ond yn mlaen yr â er hyny, a'i lwyth trwm gydag ef, nes o'r diwedd cyrhaedda ben y bryn. Ac yna â yn mlaen gyda chyflymdra ofnadwy, heb bwffio na thuchan, na chyfarfod ag un rhwystr—â yn mlaen yn awr yn nerth ei bwysau ei hun. Felly Mr.——— yn aml. Mae ganddo lwyth trwm o'r nwyfau goreu yn y cyffredin—mor drwm weithiau nes y metha fyned yn mlaen heb bwffio a thuchan llawer iawn; a gall yr annghyfarwydd feddwl y metha fyned yn mlaen yn hollol weithiau. Ond myned yn mlaen y mae er hyny, a myned yn uwch hefyd wrth fyned yn mlaen. Ac yn

fuan y mae yn cyrhaedd pen y gor-i-fyny, efe a'i lwyth trwm. Yna â yn mlaen a'r llwyth gwerthfawr a thrwm yma, gyda chyflymdra a rhwyddineb, heb duchan, na tharo wrth un rhwystr—mae y pwysau o aur a pherlau sydd yn y cerbydau ar ei ol, yn ei yru yn mlaen erbyn hyn gyda chyflymdra a nerth ofnadwy. Felly i raddau mawr y waith hon, pregethodd yn alluog ac effeithiol iawn; erbyn y diwedd, gymaint felly, fel mai peth dipyn yn sobr yw i un dyn ystyriol i feddwl codi fyny i bregethu ar ei ol; ac y mae Mr. Jones yn ddigon call i ddeall hyn. Ond rhaid myned ati—nofio neu soddi; canys rhaid peidio ymgynghori a chig a gwaed mewn mater o'r fath. Y mae yn cyfodi i fyny yn arafaidd, a rhydd bennill byr allan yn drymaidd a diofal. Ar ol canu yn afaelgar a da, a'r bobl wrth eu bodd wrth feddwl am a basiodd, ac yn y disgwyliad am y dyfodol, dyma y testyn allan mewn llais i raddau yn isel, a'r darlleniad o hono yn araf a thrwsgl iawn:—"Canys meirw ydych, a'ch bywyd a guddiwyd gyda Christ yn Nuw. Pan ymddangoso Crist ein bywyd ni, yna hefyd yr ymddangoswch chwithau gydag ef mewn gogoniant."

Y mae pawb yn ymddangos yn weddol ddedwydd a siriol, ond y pregethwr sydd yn anerch y gynulleidfa; mae ef yn ymddangos yn wyneb-drist ac ymollyngar hynod. Ac y mae rhai o'i gyfeillion yn dechreu ofni iddi fyned yn odfa farwaidd arno, ar ol pregeth mor ragorol o'i flaen. Y mae yn myned yn mlaen, eithr yn nodedig o arafaidd. Mor wahanol i'w frawd oedd o'i flaen y mae yn dechreu—*extrems meet* yw hi yma mewn mwy nag un peth. Y mae yn mwy araf na chyffredin y tro hwn. Y mae pob gair yn dyfod allan mor chwarian ac oeraidd, a phe yn penderfynu tori calon ei olynydd, a rhewi yr awyr cyn i hwnw ddyfod allan iddi. Ac y mae yn aros mor hir rhwng y gwahanol frawddegau y waith hon, fel y gallasai T. H. ddyweyd ei bregeth i gyd rhwng y tyllau gweigion hyny yr arosai efe rhyngddynt; fel y

dywedodd un brawd ffraeth wrthym unwaith, pan yn ei wrando yn rhywbeth yn gyffelyb. Pa fodd bynnag, nid yw hyn yn arwyddo yn ddrwg i'r cyfarwydd ag ef; eithr i'r gwrthwyneb. Dengys yn unpeth, ei fod yn gallu meddianu ei hun ar ol odfa dda ei gyfaill o'i flaen—nid yw hwnw wedi ei ladd, na'i wanychu o gwbl. Ac y mae yn siarad yn fwy pwyllog na chyffredin fel hyn, yn un peth, er mwyn i'r bobl i gael amser i oeri tipyn ar ol y bregeth o'r blaen. Nid yw hyn oll ond tawelwch o flaen ystorm; distawrwydd o flaen daeargryn, a mellt, a tharanau, yw hyn oll. Wel, dyma yr haner awr gyntaf wedi myned, heb na bloedd nac un syniad pert, nac un gair o ysmaldod—ond nid yn ofer er hyny. Gwir fod rhai o'r dosparth a ddisgwyliai fwyaf oddi wrtho ef, yn fwy na haner gwangaloni, a chredu mai odfa *flat* iawn a gawsai y tro hwn. Ond na, aroswch. Y mae y pregethwr yn dechreu sirioli o ran ei wyneb, a chanmola y gynulleidfa am wrando eto mor dda—er na wrandawent yn rhyw dda ar y pryd. Ond nid oedd dim gwahaniaeth am hyny—dyma ei ddull ef i'w dwyn i wneyd, a chodi ei hun a hwythau i hwyl. Dechreua y llais ymledu, ac ymddyrchafu, ac ymgordeddu, a'r bobl yn dechreu credu y daw rhywbeth o'r odfa eto yn y man; ac o herwydd hyn y maent yn dechreu bywiocau a gwenu ar y pregethwr, ac yntau yn gwenu arnynt hwythau. Ac fel y mae pwnc, yspryd, a llais y pregethwr yn gwella, y mae y gynulleidfa yn raddol yn cael ei hystwytho i dori ar y distawrwydd, mewn aml ocheneidiau, ac ambell i "amen" hyglyw.

A chan fod ein cyfaill, y Parch. Griffith Davies, Llundain, wedi ysgrifenu cofnodau pur helaeth o'i bregeth, fel ei traddodwyd ganddo y waith hon, ac yn garedig wedi caniatau i ninnau i wneyd defnydd o'i gofnodau ef, nis gallem wneyd yn well na'i rhoddi i mewn yn gyflawn—hyny yw, y talfyriad yma o honi—fel ei hysgrifenwyd gan Mr. Davies wrth ei gwrando yr adeg hono. Un rheswm

sydd genym am roddi y lloffion o'r bregeth hon i mewn yn y cofiant hwn yw, am fod ynddi lawer o'i arddull ef fel pregethwr i'w weled, ac amryw o'r ergydion disymwth hyny a gaed ganddo yn ngwres y foment o draddodi, yr hyn ni cheir o gwbl yn ei bregethau, fel y mae efe wedi eu hysgrifenu. Modd bynnag, rhoddwn y cofnodiad yma yn gyflawn a hollol fel ei hysgrifenwyd gan ein cyfaill. A dyma hwy:—"Y mae yr Apostol yn y pennodau blaenorol, yn ymdrin a dau o wirioneddau mwyaf Cristionogaeth, sef marw gyda Christ, ac adgyfodi gydag Ef. Yn y bennod hon y mae yn tynu y casgliad—'Rhoddwch eich serch ar bethau sydd uchod,' &c. Fry y mae eich pethau chwi. Cadwch eich meddwl a'ch serch gyda hwy yn awr—yn fuan iawn bydd eich pethau a chwithau gyda'ch gilydd yn mwynhau eich gilydd am byth. Ni a wnawn bedwar sylw oddiwrth y geiriau hyn.

I. *Yn mha ystyr y mae y saint yn feirw?* Y maent yn feirw er eu bod yn fyw, ac yn meddu'r bywyd uwchaf. (1.) Y maent yn feirw i'r byd, o ran serch ato, a gofal gormodol am dano. Yn meddwl a serch y Cristion crefydd sydd yn mlaen, a'r byd yn ol. Y mae crefydd gydag ef yn y *first class*, a'r byd yn ol tua'r *third* yn rhywle. (2.) Y maent yn feirw i'r ddeddf, fel sylfaen cymeradwyaeth. At Grist y maent yn edrych am sylfaen cymeradwyaeth. Pe baent yn ymddybenu ar y ddeddf, byddent yn llyncu y cwbl eu hunain; ond y maent wrth ddelio a hen *fank* Calfaria yn gallu talu tipyn o *interest* i Dduw. (3.) Y maent yn feirw i bechod. Y mae crefydd yn gwneyd dyn yn analluog i ymhyfrydu mewn pechod. Yn wir, y mae y creadur newydd yna yn bert i chi—y mae yn ddigon o *exhibition*. (4.) Y maent yn feirw iddynt eu hunain. Beth yw iaith y Cristion am dano ei hun? 'Y llai na'r lleiaf'—dyna sant bach, dyna un llai, a dyna y lleiaf; ond dyma un yn llai na'r lleiaf. Peth sydd yn eich *reducio* chwi yw gras, bobol. Meddwl am Dduw

mwy, ac nid am danom ein hunain. Yr oedd Eli yn dal y newydd am farwolaeth ei feibion o'r goreu; ond pan glywodd am arch Duw, dacw ef ar lawr. Yr oedd yn gwybod y cai ei feibion degwch ar law Duw, ond ni chai arch Duw degwch ar law y Philistiaid.

II. *Yn mha ystyr y mae Crist yn fywyd i'r saint?* (1.) Y mae yn sylfaen bywyd dan yr holl saint. (2.) Yn egwyddor o fywyd ynddynt. Y maent hwy ynddo Ef er eu cyfiawnhau, ac yntau ynddynt hwythau er eu sancteiddio. Hen goncern drwg drwyddo yw pechod; ond crefydd dda, y mae yn dda bob *inch* o honi—da yn ei dechreuad, da yn ei heffeithiau, a da yn ei diwedd. (3.) Y mae yn gynnaliaeth bywyd i'r holl saint. 'Byw trwy ffydd yn Mab Duw.' Aberth y groes sydd yn wledd i'r saint. Y mae bendithion yr efengyl i'r Cristion, fel y manna i'r Israeliaid—manna bob dydd. Y mae fel dŵr o'r graig yn eu dilyn i bob man. B'le bynnag yr elai Moses yn yr anialwch, byddai hen ddwfr y graig yn ei ddilyn—byddai yn sisial wrth ei ddrws yn mhob man, gan ddywedyd,—'A oes syched arnat ti, Moses.' Y mae y Cristion fel y milwr yn byw ar y llywodraeth. Nid yw y milwr yn agor *shop* fan hyn, ac yn codi *business* fan draw—byw ar y *Government* mae ef—felly y Cristion. Rhaid i deyrnas yr Emmanuel fyned yn chwilfriw, cyn y bydd eisiau ar y Cristion. Rhaid i Fab Duw fyned yn *fankrupt* cyn y gwelir finnau yn dylawd. Mae'n hen bryd dechreu diolch am hyn! Y mae yr adar bach yn dechreu canu yn y gauaf, ond iddynt gael cydewyn yr haul. (4.) Y mae Crist yn ddyben bywyd iddynt—'Byw i mi yw Crist.' Wrth fyw i Grist yr wyt yn dyfod i afael a bywyd Crist. Os bydd y gronyn gwenith farw, fe ddaw i afael â *soil* anfarwoldeb, ac fe *sproutia* i fyny i fywyd diderfyn yn y man. (5.) Crist yw perffeithydd bywyd y Cristion—'Pentywysog a pherffeithydd ein ffydd.' 'Hyn yw ewyllys y Tad, roddi o honof iddynt fywyd tragwyddol.'

sydd genym am roddi y lloffion o'r bregeth hon i mewn yn y cofiant hwn yw, am fod ynddi lawer o'i arddull ef fel pregethwr i'w weled, ac amryw o'r ergydion disymwth hyny a gaed ganddo yn ngwres y foment o draddodi, yr hyn ni cheir o gwbl yn ei bregethau, fel y mae efe wedi eu hysgrifenu. Modd bynnag, rhoddwn y cofnodiad yma yn gyflawn a hollol fel ei hysgrifenwyd gan ein cyfaill. A dyma hwy:—"Y mae yr Apostol yn y pennodau blaenorol, yn ymdrin a dau o wirioneddau mwyaf Cristionogaeth, sef marw gyda Christ, ac adgyfodi gydag Ef. Yn y bennod hon y mae yn tynu y casgliad—'Rhoddwch eich serch ar bethau sydd uchod,' &c. Fry y mae eich pethau chwi. Cadwch eich meddwl a'ch serch gyda hwy yn awr—yn fuan iawn bydd eich pethau a chwithau gyda'ch gilydd yn mwynhau eich gilydd am byth. Ni a wnawn bedwar sylw oddiwrth y geiriau hyn.

I. *Yn mha ystyr y mae y saint yn feirw?* Y maent yn feirw er eu bod yn fyw, ac yn meddu'r bywyd uwchaf. (1.) Y maent yn feirw i'r byd, o ran serch ato, a gofal gormodol am dano. Yn meddwl a serch y Cristion crefydd sydd yn mlaen, a'r byd yn ol. Y mae crefydd gydag ef yn y *first class*, a'r byd yn ol tua'r *third* yn rhywle. (2.) Y maent yn feirw i'r ddeddf, fel sylfaen cymeradwyaeth. At Grist y maent yn edrych am sylfaen cymeradwyaeth. Pe baent yn ymddybenu ar y ddeddf, byddent yn llyncu y cwbl eu hunain; ond y maent wrth ddelio a hen *fank* Calfaria yn gallu talu tipyn o *interest* i Dduw. (3.) Y maent yn feirw i bechod. Y mae crefydd yn gwneyd dyn yn analluog i ymhyfrydu mewn pechod. Yn wir, y mae y creadur newydd yna yn bert i chi—y mae yn ddigon o *exhibition*. (4.) Y maent yn feirw iddynt eu hunain. Beth yw iaith y Cristion am dano ei hun? 'Y llai na'r lleiaf'—dyna sant bach, dyna un llai, a dyna y lleiaf; ond dyma un yn llai na'r lleiaf. Peth sydd yn eich *reducio* chwi yw gras, bobol. Meddwl am Dduw

mwy, ac nid am danom ein hunain. Yr oedd Eli yn dal y newydd am farwolaeth ei feibion o'r goreu; ond pan glywodd am arch Duw, dacw ef ar lawr. Yr oedd yn gwybod y cai ei feibion degwch ar law Duw, ond ni chai arch Duw degwch ar law y Philistiaid.

II. *Yn mha ystyr y mae Crist yn fywyd i'r saint?* (1.) Y mae yn sylfaen bywyd dan yr holl saint. (2.) Yn egwyddor o fywyd ynddynt. Y maent hwy ynddo Ef er eu cyfiawnhau, ac yntau ynddynt hwythau er eu sancteiddio. Hen goncern drwg drwyddo yw pechod; ond crefydd dda, y mae yn dda bob *inch* o honi—da yn ei dechreuad, da yn ei heffeithiau, a da yn ei diwedd. (3.) Y mae yn gynnaliaeth bywyd i'r holl saint. 'Byw trwy ffydd yn Mab Duw.' Aberth y groes sydd yn wledd i'r saint. Y mae bendithion yr efengyl i'r Cristion, fel y manna i'r Israeliaid—manna bob dydd. Y mae fel dŵr o'r graig yn eu dilyn i bob man. B'le bynnag yr elai Moses yn yr anialwch, byddai hen ddwfr y graig yn ei ddilyn—byddai yn sisial wrth ei ddrws yn mhob man, gan ddywedyd,—'A oes syched arnat ti, Moses.' Y mae y Cristion fel y milwr yn byw ar y llywodraeth. Nid yw y milwr yn agor *shop* fan hyn, ac yn codi *business* fan draw—byw ar y *Government* mae ef—felly y Cristion. Rhaid i deyrnas yr Emmanuel fyned yn chwilfriw, cyn y bydd eisiau ar y Cristion. Rhaid i Fab Duw fyned yn *fankrupt* cyn y gwelir finnau yn dylawd. Mae'n hen bryd dechreu diolch am hyn! Y mae yr adar bach yn dechreu canu yn y gauaf, ond iddynt gael cydewyn yr haul. (4.) Y mae Crist yn ddyben bywyd iddynt—'Byw i mi yw Crist.' Wrth fyw i Grist yr wyt yn dyfod i afael a bywyd Crist. Os bydd y gronyn gwenith farw, fe ddaw i afael â *soil* anfarwoldeb, ac fe *sproutia* i fyny i fywyd diderfyn yn y man. (5.) Crist yw perffeithydd bywyd y Cristion—'Pentywysog a pherffeithydd ein ffydd.' 'Hyn yw ewyllys y Tad, roddi o honof iddynt fywyd tragwyddol.'

'Ah,' ebe Crist, 'mi ofala i am yr hen ewyllys, ei bod hi i gael ei *hexecutio*, yr oeddwn i gyda Nhad, yn ei wel'd e yn ei *signo* hi draw.' Trefn saff am fywyd yw hen drefn gras—trefn *glever* ydyw hi. Fe ddaw fy nghorff yn gystal a fy enaid i ddiogelwch byth. Y mae'r hen gorff bob aelod o hono wedi ei farcio ar lyfr y bywyd. Rhaid cael hwn i glawr o afaelion y bedd. Fe fyn Iesu ei gael—fe ddadwreiddia fynyddoedd—fe ferwa y *Cardigan Bay* er mwyn ei gael, os bydd raid. Yr wyf yn dychymygu gweled Crist yn croesawi enaid y Cristion yn angeu, fel hyn—wedi anfon y *Life Guard* lawr i'w 'mofyn, dyma fe yn *arrivio* yn y nefoedd. 'Wel,' ebe'r Iesu, 'y mae'r hen ffrynd wedi 'i adael ar ol dipyn bach. Cafodd ei glwyfo yn y frwydr druan; ond dos di yn mlaen, mi *settla* i a'r gwalch hwnw, angeu, am y fath dro. Chwareu dy aden am dipyn bach, mi fynaf berffeithio dy iachawdwriaeth—mynaf yr hen gorff adref i dragwyddol fro, na ddaw angeu byth ar ei *gyfyl* ef mwy.

III. *Yn mha ystyr y mae bywyd y saint yn cael ei guddio?* Sylwaf yn unig ar un gwirionedd. Yn awr y mae yn guddiedig o ran y perffeithrwydd o hono,—draw y perffeithir ef. Yn wir, y mae hi yn dda gyda Christ yma, credwch chwi fi; ond draw y mae yn llawer iawn gwell. Mae y nefoedd yn cael ei rhoddi wrth y *grains* yma; ond yr ochr draw, bydd y mwynhad yn berffaith. Cadwch eich golwg yn *mlaen*—yn mlaen y mae Canaan—yn mlaen y mae gwlad yr addewid—yn mlaen y mae y llaeth a'r mêl—yn mlaen y mae 'hen ŷd y wlad'—yn mlaen y mae dyffryn Esgol. Cadwch eich golwg yn y blaen.

IV. *Yr amser a nodir yma:*—'Pan ymddangoso Crist ein bywyd ni,' &c. (1.) Y mae Crist i ymddangos yr ail waith. Fe ddaeth y tro cyntaf i ddileu pechod. Pechod dduodd y nefoedd, nes yr oedd yr Iesu yn methu codi llythyrenau enw ei Dad—gwaeddai, 'Fy Nuw.' Ond fe ddaw yr ail waith heb bechod. Bydd y Gwaredwr a'r

gwaredigion y pryd hwnw, heb un *bill* yn eu herbyn hwy. Dyma'r amser y bydd Duw yn cwpla'r *building*—fe ddaw a'r *top stone* i'r golwg y pryd hwnw. (2.) Bydd y saint i ymddangos gyda Christ—fe fydd y gorsen ysig yn gedrwydden gref erbyn hyn—bydd y llin sydd yn awr yn mygu, erbyn hyn wedi myned yn fflam. (3.) Bydd Crist a'i bobl yn ymddangos mewn gogoniant. Yr wyf yn meddwl y byddaf yn methu adnabod fy hun wedi fy ngwisgo. Byddaf heb glwy. *Mewn gogoniant*—mewn sancteiddrwydd yw hyny. Mi feddyliais i fod Paul wedi colli ar y *coast* unwaith ; yr oeddwn yn dechreu tosturio wrth yr hen *divine*. 'Y rhai a alwodd efe, y rhai hyny hefyd a gyfiawnhaodd Efe, a'r rhai a gyfiawnhaodd Efe, y rhai hyny hefyd a ogoneddodd Efe.' Pa le y mae'r sancteiddio genyt ti, Paul? 'Gogoneddiad yw hyny.' Ah! fe ddaw yr Iesu yn y *royal carriage* i hol y briodasferch adref. Bobol, yr wyf fi wedi cymeryd lamp i fyned gyda hi. (4.) Bydd y saint byth uwchben eu digon—'mewn gogoniant.' Henffych i'r boreu y caf roddi ergyd i'r ocean byth.

1. Cofiwn fod Crist i ymddangos yr ail waith —cofiahyn ddyn annuwiol. (2.) Gweddïwn am i ni gael ei adnabod fel bywyd i ni, cyn y bydd raid i ni ei adnabod fel Barnwr."

Terfynodd y cyfarfod mewn gogoniant mawr, a'r pregethwr doniol, a'r gynulleidfa luosog, wrth eu bodd yn yr olwg ar "Hen drefn y cadw."

Er mwyn y rhai na chawsant ei weled a'i glywed, ymdrechwn roddi desgrifiad o hono eto mewn Cymmanfa. Yr ydoedd ef yn bregethwr Cymmanfa mewn modd arbenig—heb fod yn rhy fawr, nac yn rhy fychan, (ys dywedodd un o hoff-ddynion esgynlawr y Gymmanfa yn Nghymru y dyddiau hyn) am dano. A theimlai i'r byw bwysigrwydd bod yn bregethwr Cymmanfa effeithiol. Feallai y teimlai ormod yn yr ystyr hyn, ar rai golygiadau. Gwnai hyn ef yn un anhawdd iawn i'w

gael i'r Cymmanfaoedd; ac wedi ei gael, yn agored i golli llawer o'i bregethau am ei fod yn rhy ofnus a llwfr. Ac yr ydoedd o achos hyn hefyd, yn agored i waeddi yn rhy fuan, a cholli y llywodraeth oreu arno ei hun a'i bethau. Y waith gyntaf y bu yn pregethu mewn Cymmanfa yn y Gogledd—a gallai mai hwn oedd y tro cyntaf o gwbl iddo i bregethu ar esgynlawr y Gymmanfa—bu yn agos iawn a dyrysu, a gorfod dyfod i lawr mewn gwarth heb ddyweyd dim. Yr ydoedd y bregeth wedi myned o'i feddwl yn llwyr wedi iddo ddarllen ei destyn, am ychydig amser. Ac ymddengys iddo ddyweyd rhywbeth mewn perthynas i hyny wrth y dyrfa, a dymuno arnynt i gyd ymdeimlo âg ef a gweddio drosto. Ac fel hyn cafodd afael ar benau—ond nid un gair o'r rhagymadrodd—y bregeth, a chafodd nerth i feddiannu ei hun, a meistroli ei bregeth a'r dyrfa mewn modd neillduol iawn, o hyny hyd ddiwedd yr odfa gwed'yn. Pa fodd bynnag, hoff-ddyn y Gymmanfa ydoedd efe. Hawdd oedd gweled hyny, yn amlder a thaerni y ceisiadau am dano iddynt, o Dde a Gogledd, a'r tyru mawr ar ei ol wrth fyned yno, a dyfod oddiyno. Gellid gweled yr un peth wedi ei ddyfodiad i'r lle, yn y wên siriol a godai ar bob wyneb wrth ei weled yn myned heibio ar yr heol, neu yn y capel, neu fyned i'r esgynlawr ar y maes, yn enwedig felly pan godai ar ei draed i siarad. Ac yn awr, rhoddwn goreu y medrwn dan yr amgylchiadau, fraslun o hono mewn dwy Gymmanfa—y naill yn y Gogledd, a'r llall yn y De. Ac oblegid rhesymau neillduol, cymerwn olwg arno yn Nghymmanfa Bangor, yn y flwyddyn 1859, fel engraifft o hono yn Nghymmanfa y Gogledd. Yr ydoedd y Gymmanfa hono yn un hynod ar lawer cyfrif. Yr ydoedd ar adeg o adfywiad crefyddol neillduol, mewn llawer rhan o Gymru, ac yn ddechreuad o hono yn y rhan hono o'r wlad. Ac o herwydd y cyffro yma yn y wlad, a'r disgwyliad ynddi

am y Diwygiad, ymddengys ei bod y mwyaf fu yn Nghymru erioed. Bernir fod tua 30,000 o ddynion yn gwrando yn y cae, a miloedd lawer yn heolydd a thai y dref yn methu cael lle yn y cae, ac allan o bob gobaith i allu clywed y pregethu. Yr ydoedd yn fawr hefyd ar gyfrif ei chasgliad o ddoniau goreu Cymru. Ac yn eu plith yr ydoedd yr hen efengylydd o Blaenanerch, a sôn mawr am dano, a disgwyliad mawr wrtho—beth bynnag gan luaws y bobl—a hyny yn neillduol yn awr, am ei fod yn dyfod o Sir Aberteifi—lle yr ydoedd yr adfywiad eisoes wedi tori allan mewn modd nerthol iawn, ac yntau i raddau mawr dan ei ddylanwad. A'r adfywiad ydoedd pwnc y dydd yr adeg hono yn Nghymru. Hwn hefyd ydoedd mater ymddiddanion cyhoeddus arno yn un o gyfarfodydd y Gymmanfa hon—hanes yr adfywiad. Siaradodd amryw o'r brodyr ar y mater yn y cyfarfod hwn, am y pethau a welsant ac a glywsant yn effeithiol iawn. Ac yn mhlith eraill, siaradodd y Parch. O. Thomas yn effeithiol annghyffredin. Adroddai lawer o'r hyn a ddywedasid gan blant y diwygiad yn Siroedd y deheudir—y modd y buasai y naill yn ateb y llall, &c., nes yr ydoedd y gynulleidfa wedi ei berwi gan deimlad. Ond terfynodd Mr. Thomas yn rhy fuan o lawer gan y bobl—melus, moes mwy ydoedd eu teimlad a'u dymuniad. Ond pwy all siarad ar ei ol ef, wedi iddo greu y fath gyffro a theimlad yn y gynulleidfa ? Nid yw brodyr blaenaf y Gogledd na'r De sydd yn y cyfarfod wedi gweled dim o'r adfywiad eto, na phrofi ei yspryd ; ac felly, rai o honynt hwyrach, heb gredu ynddo eto yn iawn. Pwy gyfyd i siarad ?—y mae y bobl yn disgwyl. Y mae Mr. Jones, Blaenanerch yma. Ac y mae ef wedi gweled llawer o'r adfywiad, a'i brofi, a chredu ynddo erbyn hyn. A gall ef siarad ar ol pawb os bydd yr awelon yn chwythu yn deg, fel y mae yn amlwg eu bod yn y cyfarfod hwn. Wel efe yw y dyn i godi i fyny i anerch y gynulleidfa yn mhellach. Y mae *common sense*

y gadair a'r dyrfa yn naturiol yn cyfeirio ato. "Mr. Jones, Blaenanerch, Sir Aberteifi, a wnewch chwi ddweyd gair yn mhellach ar yr adfywiad? Yr ydych chwi yn dyfod o wlad yr adfywiad, ac wedi ei weled lawer." "Na wna i. Na wna i yn siwr." "Deuwch, deuwch, rhaid i chwi ddweyd gair." Ar hyny, dyma ef ar ei draed, a'r olwg arno i raddau yn gyffrous, er mai araf deg y mae yn dyfod yn mlaen, ac araf y mae yn siarad ar y dechreu. Ond yn bur fuan—oblegid y mae eisoes wedi ei gynhyrfu wrth wrando ar yr hyn a ddywedwyd yn barod, a'i yspryd yn llawn o'r tân sanctaidd—y mae mewn hwyl yn dywedyd:—"Y mae Mab Duw yn myned i ffarmio'r hen ddaear ei hunan yn y dyddiau yma. A chwareu teg, ei eiddo fe yw hi, fe piau hi bob cwys o honi—talodd yn ddrud am dani. Ac y mae yn myn'd i droi ei chaeau drain a mieri yn winllanoedd y gwin coch yn y man. Y mae wedi dechreu gwneyd hyn yn Sir Aberteifi. Mab Duw sy'n myn'd a'r maes i gyd gyda ni yn awr; ac y mae satan yn ei cholli yn lan yco. Y mae wedi bód fel arall gyda ninnau. Y diafol oedd yn myned a'r maes i gyd—yr ysgubau mawrion—a'r Gŵr fu ar y groes yn lloffa tipyn o'r maesydd. Ond—y mae chwant arna i waeddi Diolch y munyd yma—y mae wedi newid yco yn awr. Mab Duw sy'n myn'd a'r 'sgubau i gyd yn awr, a'r cythraul yn lloffa tipyn o ryw beth all e gael ar ol. * * * Y mae y diafol bron cael ei adael ei hunan gyda ni y dyddiau yma. Y mae yn myned i'r ffair wagedd ei hunan; caiff fod yn yr *auction* wrtho ei hunan, y mae yn gorfod myned i'r dafarn ei hunan. Y mae y *troopau* cwmni llawen, yn myn'd yn droopau i'r Gymmanfa, ac i'r cwrddau gweddi, a'r seiat yn ein gwlad ni yn awr. Ac y mae Iesu Grist yn myn'd i feddianu y byd y mae efe wedi marw drosto, iddo ei hun yn fuan. Ac 'rwyf fi yn meddwl y daw Efe i'r Gymmanfa yma hefyd, a meddianu tyrfa iddo ei hun—a lawr delo fe." Fel hyn chwythodd y tân

ydoedd wedi dechreu cyneu eisioes, nes yr aeth i wreichioni, a fflamio, a llosgi, fel mai gwaith ofer ydoedd ceisio ei ddiffodd; a'r cwbl yn arwyddo fod y cwmwl yn myned i ymdywallt ar y Gymmanfa.

A rhan o'r odfa ddeg o'r gloch yn unig y mae a fynom ni yn mhellach a'r Gymmanfa hon. Mae y dyrfa yn annghyffredin o fawr; y bobl wedi ymarllwys yno gyda y *rail* ac arall, o bob cwr o'r wlad, yn mhell ac agos. Ac y mae llawer yn y gynulleidfa newydd ddyfod i'r lle, yn ceisio dyfalu a holi, Pwy sydd i bregethu yn awr gyntaf yn yr odfa?—gwyddent amcan da pwy oedd i fod yn olaf; canys yr oedd Mr. Rees ar y *stage*. Ond wedi i frawd orphen gweddio, dyma Blaenanerch, yn glamp o Gymro golygus, yn dyfod i du blaen yr esgynlawr i dori y ddadl yn meddwl yr anwybodus, ac er boddlonrwydd i bawb —agos beth bynnag—o'r dyrfa fawr. A dengys y sirioldeb a eistedd ar bob wyneb, a'r olwg gryf, a gwyneb agored ar y pregethwr sydd yn myned i anerch y fath luaws, yn gystal a'r ymwybyddiaeth sydd yn meddwl y dyrfa, fod y "*right man in the right place;*" a dim ond y nerth o'r uchelder sydd yn eisiau, ac y mae pob arwyddion y ceir hwnw hefyd. Y testyn ydyw:—"Wele fi yn sylfaenu maen yn Seion," &c. Darllena y testyn yn hollol ddiaddurn, mewn tôn drymaidd, a llais isel—beth bynnag tuag at i'r fath luaws i allu ei glywed. Meddianna ei hun yn dda, er ei bod yn amlwg fod sefyll o flaen y fath dyrfa ofnadwy, i draethu gair y bywyd wrthynt, yn pwyso yn drwm ar ei natur. Ond ni wna hyn ei daflu ddim allan o'i ffordd y waith hon; canys y mae yn gallu bod yn ddigon araf i barotoi y bwrdd yn hamddenol, a hwylio y tanau yn ofalus. A thrwy ei fod fel hyn yn bur araf ac annyben, a dim rhyfedd yn y pregethwr na'i bregeth eto, mae rhai nad oeddent wedi ei glywed o'r blaen, yn dechreu meddwl nad oedd dim hynod ynddo wedi y cwbl, ac eraill mwy adnabyddus

o hono, yn ofni mai methiant truenus a'i arno, a hyny mewn lle mor bwysig. A chan nad ydyw llawer eto yn ei glywed yn dda, a dim yn yr hyn a glywant yn dyfod i fyny a'u disgwyliadau, dechreua rhai yma a thraw siarad allan eu hofnau a'u siomedigaethau, y naill wrth y llall. Ebai un hen ddyn mawr—amlwg yn y wlad, o herwydd ei ddireidi a'i annuwioldeb—wrth Mr. M. Jones, Cae coch:—"Ai hwnacw ydu hwntw mawr y deheudir dwad—'does dim ynddo fo yn rhyfedd?" "Ie, dacw fo," medd y llall, "ac os oes cythreuliaid ynot ti, gwylia rhagddo, onide byddant allan o honot *bodegun;* mae o yn parotoi ar dy gyfer di."—Na, yn awr y mae ef yn dechreu pregethu o ddifrif—pa beth bynnag yn mryd y lluaws—er ei fod yn parotoi at hyny er ys haner awr. Mae y llais erbyn hyn wedi ystwytho yn dda. Mae yn barod i wneyd a fyno a myned i'r man a ewyllysio—i lawr neu i fyny, yn hir neu yn fyr, fel y myno efe. Ac erbyn hyn y mae ambell sylw byr tarawiadol yn cael ei greu ar y pryd, mewn perthynas i'r maen a'i gadernid, yn cael ei draethu ganddo; a'r oll erbyn hyn yn dechreu cymeryd gafael ar y gwrandawyr. Wele yn canlyn rai o'i sylwadau yn y bregeth hono:—"Mae Crist yn bob peth i'r eglwys—yn sylfaen ac yn bencongl faen, yn Alpha ac yn Omega iddi; Efe yw *top* a gwaelod yr iachawdwriaeth—Efe yw y sylfaen. Y mae yn sylfaen holl arfaethau a bwriadau Duw i gyd. Mae yn sylfaen holl addewidion Duw. Dyma lle mae'r addewidion yn ie ac yn amen—ynddo fe maent fel hyny. Ac y mae yn sylfaen gobaith i'r holl saint. Ar y graig hon y mae'r eglwys wedi ei hadeiladu; ac y mae mor gadarn yma, fel na all holl byrth uffern ei gorchfygu—sylfaen *safadwy* yw hi. Fe fu treio mawr ar y sylfaen hon. Mi welaf y byd yn ymosod arni. Mi welaf uffern, ie, mi welaf y nefoedd yn ymosod arni. Yr oedd yr haul yn duo, y creigiau yn hollti, a'r beddau yn agor pan oedd y maen dan yr

oruchwyliaeth; ond fe ddaliodd heb un *flaw* ynddo. A dyma lle mae dy ddiogelwch di, Gristion, pwyso ar y maen. Oblegid mi welaf dy gyfoeth di yn cilio, iechyd yn dy adael, cyfeillion yn cefnu am byth; ond y peth fydd am dy fywyd yr adeg hono yw fod y sylfaen yn dal, yn Faen heb siglo—SAFA-ADWY. Diolch am rywbeth na sigla fe ddim. Pwyswch arno, fe'ch deil byth." * * * * Erbyn hyn dechreua y gynulleidfa i ymysgwyd, ac aml i "Amen," ac ochenaid yn tori allan yn uchel oddi wrthi. Ac yr ydoedd y pregethwyr ar yr esgynlawr gan amlaf, yn awr wedi bywiogi, ac yn gwenu; a Mr. D. Jones, Treborth, ar ei draed er ys meityn yn ymyl y pregethwr, yn ceisio ei gynnorthwyo, mae'n debyg, gyda'i olwg siriol arno, a'i ocheneidiau effeithiol yn ei glyw, yn gystal a'i fwynhau ei hun. Yr un modd Mr. O. Thomas mewn man arall. Fel hyn, ai y pregethwr yn mlaen yn hwylus erbyn hyn, dan roddi ambell floedd effeithiol, a gwenu yn swynol ar y gynulleidfa. Ond eto, pa fodd bynnag, nid ydyw yn gwaeddi llawer, myned yn mlaen y mae eto dan hirleisio mewn llais mawr a nerthol, ac effeithiol iawn. Rhydd ei law yn achlysurol yn awr ar ei glust wrth siarad, ac y mae y bobl erbyn hyn yn gwrth-ateb yn aml, a phur gynhyrfus. Ac fel y mae y pregethwr yn myned i draethu yn uwch, y mae yr hen graig gerllaw yn ymddeffro i wrando, a dwyn ei thystiolaeth hithau i nerth a chadernid tragwyddol Craig yr oesoedd. A yn mlaen i ddyweyd am yr "*oruchwyliaeth ar y Maen a nodir yn y testyn.*" "Mae y Jehovah mawr yma," medd efe, "yn priodoli hyn iddo ei hun—'Wele fi yn sylfaenu maen yn Seion.' Fe fyddai yn anfon ei weision i gyflawni llawer o bethau. Anfonodd Moses i waredu ei bobl o'r Aifft, a Joshua i'w harwain i Ganaan. A danfonodd angylion i gyflawni llawer o bethau drosto yn y byd yma. Ond fe ddaeth ei hunan at y gwaith yma —Efe ei hunan oedd yn *handlo* y *square* a'r cwmpas wrth

dynu y Maen allan, a'i roddi i lawr yn Seion. Mae ein iachawdwriaeth ni i gyd o Dduw. Mae *stamp* y nefoedd ar bob *inch* o honi—mae Duwdod yn cerdded trwy ei holl osodiadau hi. Hen drefn *glever* yw i ni bwyso ein bywyd byth arni. A oes dim 'whant arnoch chi threio hi, bechgyn y quarreli yma? Ond y mae'n rhaid i chwi ddod i Seion, os ydych chwi am gael gafael ar y Maen; does dim Crist yn y byd. Na, nid yw Mab Duw ddim i'w gael yn y chwareudŷ; nid yn y tafarnau fechgyn, y mae y Maen; nid yn mhalasau annuwiol-deb y mae bywyd. Rhaid i bawb i ddod i eglwys Dduw, cyn cael eu hachub—rhaid dyfod i Seion cyn cael y Maen. Ac os ydych chwithau am bwyso ar y Maen, *trotiwch* i Seion cynta galloch chwi.

*Ond y sylfaenu yma gan Dduw.* Mae hyn yn golygu ei awdurdodiad yn ei sefyllfa, a'i swyddau fel cyfryngwr—Hwn a osododd Duw yn iawn. Yn awr,—rhaid i fi gymeryd pwyll hefyd—yn awr y mae tri sylfaenu wedi bod ar y Maen; neu osod wedi bod ar Grist.

1. Yn arfaethol. 'Yr hwn yn wir a ragordeiniwyd cyn sylfaenu y byd.' Mae ein hachos ni wedi bod dan sylw gan Dduw yn foreu iawn. 'Canys ni apwyntiodd Duw ni i ddigofaint, ond i gaffael iachawdwriaeth.' Nid oedd eisiau ein hapwyntio i ddigofaint—yr oedd ein pechodau wedi gwneyd hyny. Ond yr oedd rhaid apwyntio cyn achub, ordeinio cyn cadw. A dyma oedd gan Dduw yn nhragwyddoldeb—cael modd i'n cadw ni, a'r orsedd heb un cwmwl arni—cael modd i'n codi ni, a'i enw Ef yn ogoneddus byth wrth wneyd. Felly Efe a feddianodd ei Fab yn nechreuad ei ffordd, cyn ei weithredoedd oll erioed, ac a'i heneiniodd i'r gwaith. Fel hyn yr oedd ei fynediad allan o'r dechreuad, er dyddiau tragwyddoldeb. Yr oedd ein iachawdwriaeth ni yn meddwl, a bwriad, ac arfaeth Duw erioed, ac oddi yma y mae wedi tarddu allan. Mae afonydd mawrion y ddaear yma yn tarddu

draw, ac yn rhedeg am ugeiniau o filldiroedd weithiau, cyn cyraedd y gwastadedd bras yn y dyffryn. Fel hyny y gwna y Mississippi yn America—tardda draw tua y Rocky Mountains, ganoedd o filldiroedd cyn cyraedd i ddyffryn y Mississippi. Felly trefn yr iachawdwriaeth, y mae wedi tarddu allan draw, tua mynyddoedd arfaethau a bwriadau tragwyddol Duw, ond y mae wedi rhedeg i Gymru, ac i'r ardaloedd lle yr ydym ni yn byw—profi o'i rhinwedd hi rhodded Duw i ni gael.

2. Fe'i sylfaenwyd yn weithredol. Yn un peth, fe'i gwnaethpwyd Ef yn ddyn—gwnaethpwyd Ef o wraig. Er ei fod yn Berson dwyfol, nis gallasai ein gwaredu heb fod yn ddyn. 'Am hyny, gan fod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed, felly yntau hefyd, yr un modd, a fu gyfranog o'r un pethau.' Gan fod y plant yn meddu cig a gwaed, rhaid iddo yntau feddu yr un peth; am hyny, 'Pan ddaeth cyflawnder yr amser, y danfonodd Duw ei Fab, wedi ei wneuthur o wraig, a than y ddeddf [rhoddwn yr adnodau, hyd y gallwn, fel eu traddodid ganddo ef,] tuag at brynu y rhai oedd dan y ddeddf.' 'Y gair a wnaethpwyd yn gnawd;' a dyma Dduw wedi 'ymddangos yn y cnawd.' Ac fel hyn, dyma fe yn meddu ar y natur oedd wedi pechu. Wel dyma ddigon i ti ddeddf, a thithau gyfiawnder—dyma Fab Duw yn Fab y dyn. 'Nage!' Wel, beth sydd eisiau eto?' 'Rhaid ei wneyd yn bechod.' Nid oedd meddu ar ein natur yn ddigon. Yr oedd rhaid sefyll yn ein lle ni, dwyn ein pechodau ni, a dioddef ein cosp ni. Ac felly y bu. Wedi iddo ymuno â'n natur, a dyfod i'n lle ni, dyma y Tad yn rhoddi arno Ef ein hanwireddau ni i gyd. A dyma barodd iddo chwysu yn yr ardd, dyma aeth ag Ef i Galfaria, a dyma a'i gwasgodd i farwolaeth ar ben y bryn. 'Canys Efe a draddodwyd dros ein pechodau ni.' 'Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed Ef.' Fel hyn, 'er ei fod yn Fab, Efe a ddysgodd ufudd-dod trwy y pethau a ddioddef-

odd;' ac ar ol ei berffeithio, 'Efe a wnaethpwyd yn awdwr iachawdwriaeth dragwyddol i'r rhai oll a ufuddhant iddo.' Ac er nad adnabu bechod, y mae Efe yn cael ei wneyd 'yn bechod drosom ni, fel y gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo Ef.'

Proffwydwyd am dano yn Eden, arwyddwyd Ef yn y cysgodau, rhagddywedwyd am dano gan y proffwydi. A phan ddaeth cyflawnder yr amser, dyma Dduw yn anfon ei Fab i'r byd—nid i ddamnio y byd, ond fel yr achubid y byd trwyddo Ef. Beth sydd yn y preseb? Ceidwad. Beth sydd yn y cadachau? Gwaredwr i ni. Nid rhyfedd fod angylion yn canu. Os canasant pan osodwyd conglfaen y ddaear i lawr, nid yw yn rhyfedd os ydynt yn canu, a chanu yn uwch, pan mae Conglfaen iachawdwriaeth yn myned i'w le. Y mae yn werth i ninnau ganu yn y Gymmanfa yma hefyd am y drefn. 'Rwf 'i yn meddwl canu *chalon hi* yn y man am dani.

*Ond eto yn drydydd, yn athrawiaethol.* Rhaid pregethu Crist. Ni fydd y byd yn well o hono heb ei ddadguddio a'i ddwyn ger bron y byd. A dyma y moddion at hyny, ei bregethu—dwyn ei enw ger bron y cenhedloedd—hyn yw y moddion sydd at agoriad eu llygaid, a'u troi o dywyllwch i'r goleuni. Mae pregethu Crist mor angenrheidiol er achub y byd, a marw Crist ar y Groes. 'Felly yr ysgrifenwyd, ac felly yr oedd raid i Grist ddioddef, a chyfodi y trydydd dydd; a phregethu edifeirwch a maddeuant pechodau yn ei enw Ef yn mhlith yr holl Genhedloedd, gan ddechreu yn Jerusalem.' Mae yr un rhaid am bregethu ag oedd am ddioddef a marw—yr un peiriant mawr yw y cwbl, wedi ei drefnu gan ddwyfol ddoethineb, a'i adeiladu a'i weithio ar draul rhad ras—peiriant am gadw, am achub yw e wedi fwriadu. A dyma yr hen beiriant fu'n gweithio ar ddydd y Pentecost, ac yn nhŷ Cornelius, ac y mae yn ei rym heddyw gystal a'r dyddiau hyny—*olew ar yr olwynion!* Gwelwch mor

fanteisiol yw iachawdwriaeth! Mor hawdd i ddyn i gael ei gadw, dim ond 'cyffesu â'r genau yr Arglwydd Iesu, a chredu â'r galon i Dduw ei gyfodi Ef o feirw,' dyna y cwbl fyny am byth—cadwedig a fyddi—dyna ti yn sâff i bob tragwyddoldeb—CADWEDIG. Mae ef wedi mawrhau y Gyfraith, boddloni cyfiawnder, maeddu uffern, condemnio pechod, a Duw wedi cael digon. Mentrwch y drefn. Mae Duw wedi mentro ei ogoniant arni, a chael ei foddloni ynddi, a'r euog yn myned yn rhydd—gollwng Ef yn rhydd, canys myfi a gefais IA-AWN." Erbyn hyn mae y dyrfa yn gynhyrfus iawn, a llawer ynddi yn dechreu tori allan i waeddi yn mron mor uchel a'r pregethwr. Ac y mae y Graig gerllaw yn awr wedi myned i'r hwyl fawr, ac yn bloeddio gyda nerth. "Ie, gair campus yw hwn mewn Cymmanfa, IA-AWN," medd y pregethwr—"campus IA-AWN," medd y Gareg o'r mynydd—"Diolch am dano," medd ugeiniau ar y maes. "Dyma lon'd gwlad o air; a phe gallwn, mi waeddwn i dipyn o air fel hyn yn y fan yma yn awr, IA-AWN;" a gwaeddodd lon'd y wlad o hono. "Dyma lon'd byd o air, IA-AWN"—"*llon'd byd*, IA-AWN," medd y Graig. "Dyma lon'd amser, dyma lon'd tragwyddoldeb o air," medd y pregethwr drachefn, "IA-AWN — llon'd tragwyddoldeb, IA-AWN," medd yr hen Graig ar ei ol. Ac ymddengys fod hono o'r diwedd, wedi myned i gyhoeddi yr *iawn* a'i ddigonolrwydd anfeidrol, yn fwy effeithiol i deimladau rhai o'r gwrandawyr, na hyd yn oed y pregethwr ei hun, er mor angerddol oedd y genadwri o'i enau ef yn awr. Ac erbyn hyn, yr ydoedd cannoedd yn gwaeddi—"*Bendigedig*," a "*Diolch*," am yr Iawn a'r Maen yn Seion. Ond ni wnai neb waeddi yn uwch na'r hen ddyn, a ofynai er ys tipyn cyn hyny:—"A hwnacw yw Hwntw mawr y De?"—diolchai am fod gobaith iddo yntau am ei fywyd, trwy drefn yr Iawn hwnw.

Ymdrechai y pregethwr i fyned yn mlaen am dipyn

gwed'yn—efe yn bloeddio, a'r graig, a'r dyrfa—i ddyweyd am ragorfreintiau y rhai sydd yn pwyso ar y Maen. Ond ofer yr ymdrechai. Er mor uchel y gwaeddai efe, ac er fod ei lais yn uwch na holl sŵn y dyrfa; eto, ofer ceisio myned yn mlaen fel hyny, pan ydoedd cannoedd, os nid miloedd o bobl yn y gynulleidfa wedi annghofio eu hunain—rhai yn llefain am eu bywyd, ac eraill yn molianu Duw am dano, ac am rinwedd trefn yr iachawdwriaeth, a chadernid y Maen yn Seion, &c.; ac un hen frawd yn sefyll mewn wagen, yn gwaeddi cyfuwch ag y medrai—"O'r Hen Flaenanerch Anwyl!"

Fel hyn y terfynodd ei odfa ef yn y cyfarfod hwnw, yn nghanol yr annybendod gogoneddus yna. Ond gwnaeth waith mawr. Ac y mae son am yr odfa hon yn aml yn y Gogledd hyd y dydd hwn. Yr ydoedd, i raddau mawr, yn ddechreuad i'r adfywiad nerthol gymerodd le yn y rhanau hyny o'r wlad ar ol y Gymmanfa hono; a bu, y mae yn ymddangos, yn fywyd tragwyddol i ugeiniau, os nid i gannoedd yn y cyfarfod hwnw.

Ceisiwn roddi desgrifiad o hono eto mewn Cymmanfa yn y Deheudir. Y Gymmanfa hon gaiff fod, Cymmanfa Woodstock, Sir Benfro, yn y flwyddyn 1860. Cyfeiriasom ato eisioes mewn cysylltiad â'r Gymmanfa hon yn cysgu, &c., yn Castell Henry. Ac yn awr, ceisiwn ei ddangos yn y cyfarfodydd neillduol, ac yn pregethu ynddi. Cymerwn olwg arno yn y Gymmanfa hon, yn un peth am ei bod yn engraifft dda o'r hyn ydoedd efe yn y Gymmanfa yn gyffredinol—heb ddim hynod iawn ynddi, o ran *hwyl*, nac arall yn ei pherthynas ag ef.

Y mae i mewn yn brydlawn yn y cyfarfod cyntaf, fel arferol. Eistedda yn y côr mawr, ond mewn congl o'r neilldu. Eistedda a'i ben i lawr, a gellid tybied, fel y dywedasom am dano mewn Cyfarfod Misol, nad yw yn cymeryd un sylw o'r ymdriniaeth a ddygir yn mlaen. Ond nid felly mae—y mae yn sylwi ar y cwbl os gall

ymgadw rhag cysgu; ac y mae ganddo air i'w ddyweyd hefyd ar y cwbl, os rhaid am dano, ac os gwasgir arno, fe wna ddyweyd hefyd; ond os caiff lonydd, ni wna ddyweyd un gair yr holl gyfarfod. Ac fel hyny y gwna yn aml; ond nid felly yn y cyfarfod hwn yn y Gymmanfa hon, oblegid y mae pwnc y priodasau dan sylw ynddo—pwnc ag y teimlodd efe, gnawd ac yspryd oddiwrtho, trwy ei hen gyfaill selog, Mr. Jones, Aberystwyth, fel ei wrthwynebydd. Rhaid iddo ef ddyweyd gair ar y fath fater yn y cyfarfod hwn; a gwna hyny yn ewyllysgar, ac nid trwy gymell fel arferol. Gwyr erbyn hyn, fod llais y wlad—a chreda fod hwnw yn llais Duw—gydag ef, a'i hen wrthwynebydd par hus, wedi cilio o'r maes (os nid wedi cilio i'r nef, *Gwlad yr hedd.*) Pa beth bynnag, gair byr y mae ef yn ei ddyweyd ar y mater yn awr. Nid oes angen gwneyd araeth, a myned i'r hwyl ar y pwnc hwn yn bresenol; o herwydd y mae y fuddugoliaeth wedi ei henill, ac y mae yntau wrth ei fodd yn mwynhau hyny mewn distawrwydd:—"clwyfau wedi cael iachad"—yntau "yn aros yn ei ddinas (o hedd a buddugoliaeth) foreu a nawn."

Dranoeth, yn y cyfarfod wyth o'r gloch, gan nad oedd llawer o waith gyda'r achosion allanol, cafwyd amser da i ymddiddan mewn perthynas â'r mater, "ysprydolrwydd crefydd." Yn y cyfarfod, teimlai yntau ar unwaith, fod iddo gymeryd rhan arbenig ynddo. Ac ymbarotoa at hyny, trwy alw i'w gof rai o'r adnodau oeddent bob amser yn barod i wasanaethu arno. Ac wedi i un neu ddau o frodyr y Gogledd i siarad yn dda ar y mater, gelwir ar Mr. Jones, Blaenanerch, i ddyweyd arno. Nid ydyw yn codi i wneyd ar unwaith, er ei fod yn meddwl gwneyd, a'r hen adnodau, fel y saethau yn llaw y cadarn, yn ei feddwl erbyn hyn. Eithr rhaid peidio ar unwaith er hyny, er mwyn bod yn ostyngedig, a bod i fyny a'r arferiad, iddo ef beth bynnag. Ond nid

oes neb yn credu y gwna ballu yn hollol; na, y mae y wen sydd ar wyneb y gynulleidfa, a'r tipyn cyffroad yna sydd yn cerdded trwyddi, wrth feddwl fod yr hen Flaenanerch yn myned i siarad, yn profi i'r gwrthwyneb. Ac erbyn hyn, dyma ef ar ei draed. Nid ydym yn awr yn cofio dim o'r hyn a ddywedodd. Ond yr ydym yn cofio hyny, er na ddywedodd ddim hynod iawn, na myned i ryw hwyl fawr y tro hwnw, fod lluaws y gwrandawyr yn ymddangos wrth eu bodd yn derbyn ei eiriau, a bod yr adnodau a'r darnau hen bregethau y gwyddem am danynt, yn nodedig o bwrpasol i'r mater, er nad ydoedd—yr ydym yn lled sicr o hyny—wedi meddwl dim am dano, nes dyfod i mewn i'r cyfarfod hwnw.

Ond i bregethu yr ydoedd ef wedi dyfod i'r Gymmanfa, a dyma sydd yn gorphwys yn drwm ar ei feddwl ef. Pregetha nos gyntaf y Gymmanfa mewn capel cyfagos, a phregetha yn rhyfedd. Yr ydoedd yn un o'r odfaon mwyaf nerthol a hwylus gafodd erioed; pregethodd am awr a haner, heb wanychu dim gellid meddwl, erbyn y diwedd. Dywedai Mr. O. Jones, Manchester, y pryd hwnw—yr hwn a bregethasai o'i flaen yn yr odfa hon, na fyddai i Sir Aberteifi byth i weled eisiau E. Morris i bregethu ynddi, tra fyddai ynddi John Jones, Blaenanerch. Eithr â'r odfa ddau ar y maes, y diwrnod diweddaf o'r Gymmanfa hon, y mae a fynom ni yn neillduol. Y mae y tywydd wedi bod dipyn yn anfanteisiol yn y boreu; ond erbyn y prydnawn, y mae yn llawer gwell. Ac yn awr y mae yr hin yn dda, a'r gynulleidfa yn lled fawr, a phob peth yn ymddangos yn addawol a dymunol, gyda golwg ar yr odfa ddau o'r gloch. Ond y mae yn y lle lawer o Saeson, yn newynog am fara y bywyd, wedi aros i'r odfa hon eto, a rhaid gwneyd rhywbeth i gyfarfod âg anghenion a dymuniadau y rhai hyny. Ond yn hytrach na rhoddi Sais i bregethu i gynulleidfa o Gymry agos oll, am ddau o'r gloch fel hyn, gwna pobl

gall Woodstock drefnu fod odfa Saesnig i fod yn y capel, a dau frawd i bregethu yno i'r Saeson, tra y mae y Cymry yn addoli yn y cae gerllaw. Ac erbyn i'r awr gysegredig i ddyfod, dyma bobl y ddwy iaith yn ymneillduo, y naill i'r capel, a'r lleill i'r maes yn ymyl.

Mr. O. Jones sydd yn pregethu o flaen Mr. Jones yn yr odfa hon eto, a dyma yw trefn y cyhoeddiad. Ond trwy ymdrech mawr a phenderfynol, y llwyddodd Mr. O. Jones i gael pregethu yn gyntaf. Yr ydoedd y bregeth gyntaf yn dda—y syniadau yn gryfion, yr iaith yn glasurol iawn, a'r traddodiad yn effeithiol. Wedi canu pennill ar ol y bregeth gyntaf, dyma yr hen Flaenanerch—fel ei gelwid gan amlaf yn ardal Woodstock—yn codi i fyny ar yr esgynlawr i anerch y dyrfa luosog sydd ger ei fron ef. Y mae yn dew iawn, ond iachus a chryf yr adeg yma, a'i wallt a'i fochgernau yn gwynu i raddau mawr, a'r olwg arno yn bur barchedig ac enillgar; a'r nifer luosocaf o'r gynulleidfa sydd mewn oed, yn ei adwaen yn dda, a'r lluaws mawr yn disgwyl mwy oddi wrtho, a thrwyddo ef, na neb o'i frodyr yn y Gymmanfa; a phawb yn gobeithio y deuai yr hwyl fawr, ac yna pob peth yn dda, a phawb yn llawen. Darllena yn destyn :—"Pá faint mwy y bydd i waed Crist buro eich cydwybodau chwi," &c. Darllena ef fel arferol, i fesur yn ddiaddurn a thrwsgl. Rhagymadrodda yn well nag arferol yn y bregeth hon. Traetha lawer o syniadau da a chyson ar natur y ddwy oruchwyliaeth, a rhagoriaeth y newydd; ac ymadrodda yn llai araf a chwarian, nag y bydd yn aml wrth ddechreu pregethu. Yr ydoedd wedi astudio y pwnc hwn yn dda, ac wedi cyfansoddi tair, os nid ychwaneg o bregethau arno, y rhai oeddent yn mhlith ei rai goreu ef. Ymddengys mai casgliad a hufeiniad o'r rhai hyny ydyw y bregeth hon ganddo, gan mwyaf. Pa fodd bynnag, y mae yn un dda iawn—yn ein bryd ni, yn un o'r rhai goreu glywsom ganddo erioed, o ran mater a threfn;

ac fel amryw o'r cyfryw ganddo ef, yn un na phregethodd ond ychydig o honi. A chan nad ydyw debyg iddo ysgrifenu dim o'r bregeth hon fel ei traddodai ar y testyn uchod, nid oes genym i wneyd ond dibynu ar ein cof, a'r pregethau eraill ysgrifenedig sydd ganddo ar yr un mater, tuag at roddi i'r darllenydd rhyw grynodeb byr o'i sylwadau yn ei bregeth, fel eu traddodwyd ganddo yn y Gymmanfa hon.

Athrawiaeth y bregeth, os edrychwn arni oll, ydyw "Digonolrwydd aberth Crist i gyfarfod angen y byd." Dengys hyn, trwy ddangos rhagoriaeth Crist yn ei berson, ei swyddau, a'i aberth, ar eiddo yr Archoffeiriad Iuddewig.

Y mae yn awr wedi darfod a rhagymadroddi, ac ymdroi, a pharotoi; ac yn dechreu pregethu "i chalon hi"—chwedl yntau—er ys tipyn. Y mae wedi dechreu troi, a *twisto* ei lais, a dangos y medra waeddi yn iawn; a'i fod yn llawn fwriadu gwneyd hefyd yn y man. Ac y mae y bobl erbyn hyn yn gogwyddo, nid yn unig eu clustiau i wrando arno, ond hefyd eu llygaid a'u genau, a'u holl gorff i wneyd hyny. Wele yn canlyn rai o'r sylwadau:—
"Rhagora yr hyn a wnaeth Crist ar yr hyn a wnaed gan yr Archoffeiriad Iuddewig, yn ei aberth. Aberthu aberthau, a rhoddion oedd y rhai hyny. Ond offrymu ei hun wnaeth hwn. 'Yr hwn trwy yr Yspryd tragwyddol a'i hoffrymodd ei hun. Yr hwn a roddais ei hun drosom.' Yr oedd y rhai hyny yn sefyll beunydd yn gwasanaethu; ac felly yn fynych yn offrymu yr un aberthau, y rhai ni allent o ran cydwybod berffeithio yr addolydd. Ond 'unwaith yn niwedd y byd yr ymddangosodd Efe, i ddileu pechod trwy aberthu ei hun.' Nid oedd yn yr aberthau hyny ddim ond adgoffa pechod. Nid oedd yno dynu ymaith pechod. Mi welaf yr hen Iuddew druan, wedi bod yn hebrwng yr oen neu y bustach i'r offeiriad yn myned adref, a chydwybod pechod yn myned adref gydag ef gwed'yn, o ran wnai yr aberth hwnw ei hunan iddo ef—

nid oedd hwnw yn tynu ymaith, dim ond adgoffa ei fai iddo. Oblegid nid oedd iawn yn cael ei roddi gan y rhai hyny. Ac yr oedd yn anmhosibl i'r aberthau hyny i fod yn iawn. Na, na, nid chwareu plant ydoedd cael iawn am ein pechodau ni, mhobol i. Yn awr, yr oedd yn rhaid cael tri pheth cyn cael iawn am bechod. (1.) Yr oedd rhaid cael y natur oedd wedi troseddu, am fod Duw yn rhwym o gospi pechod yn y natur a'i cyflawnodd. (2.) Yr oedd rhaid cael yr aberth yn ddifeus ynddo ei hun, am fod y gyfraith yn gofyn perffeithrwydd hollol, ac ni chymerai lai. (3.) Yr oedd i fod yn anfeidrol yn ei werth a'i deilyngdod, am fod pechod yn ddrwg anfeidrol, fel y mae yn taro yn erbyn awdurdod anfeidrol.

Yn awr dewch â'r aberthau hyny yn mlaen yn wyneb y gofynion—y maent yn ddiffyg i gyd. Nid oeddent hwy druain yn meddu ar y natur oedd wedi pechu—'yr anifeiliaid hyny,' medd Paul, 'nid oeddent ddifai ynddynt eu hunain.' Canys yn beio arnynt hwy y dywed Ef, 'aberth ac offrwm nis mynaist.' Ac nid oedd gwerth anfeidrol yn y gwaed hwnw—gwaed teirw a geifr ydoedd; ac fel hyn yr oeddent hwy yn ddiffyg i gyd. Ond yn wyneb diffyg y rhai yna, y mae yn dda genyf eich arwain at aberth gwell, a gwaed mwy rhagorol—aberth a gwaed y Groes. Dyma aberth y mae y cwbl ynddo yn llawn; ydyw y mae hwn yn ddifai i Dduw. Dyma aberth o'r natur ag oedd wedi pechu—'cig a gwaed yr un fath a'r plant.' Dyma aberth difai ynddo ei hun—'Oen difeus a difrycheulyd,' yn gwaedu ydyw. Dyma aberth anfeidrol yn ei werth a'i deilyngdod; 'yr hwn trwy yr Yspryd tragwyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw.'" "Bendigedig fo fe," medd rhyw hen frawd yn nghanol y gynulleidfa, nes taro llawer a syndod, wrth ei fod yn gwaeddi fel hyny ar gyhoedd y dyrfa. "Gadewch iddo fe," medd y pregethwr, "fel yna y'n ni yn cael tipyn o *fresh air* tua Sir Aberteifi yco y dyddiau yma—Bendigedig fo fe hefyd. Y mae y Gŵr fu ar y groes yn haeddu

cael ei ganmol—y mae ei aberth yn ddifai i Dduw. Ond rhaid i fi gymeryd pwyll hefyd; oblegid nid wyf fi wedi myn'd i haner y bregeth eto. Ni wna i ddim o'ch gollwng yn fuan iawn y prydnawn yma, os gwnewch chwi bara i wrando—'rych chwi yn gwrando yn *noble*—y mae y gwaed yma yn werth ei ganmol." Ac yr oedd y pregethwr mewn hwyl a chywair i waeddi yn awr; yr hyn beth hefyd a wnai mewn gogoniant, nes aflonyddu yn enbyd ar addoliad tawel y Saeson oedd yn ymyl. Er fod y cyfeillion wedi bod yn ddoeth, yn trefnu i'r brodyr hyny i fod yn addoli ar wahan, nid oeddent wedi ystyried yn ddyladwy, mai yr hen Flaenanerch oedd i bregethu yn un, mor agos atynt y prydnawn hwnw—dylasai o leiaf fod haner milldir oddi wrth ei frodyr Seisnig. Wedi i'r hen frawd anwyl i ddechreu bloeddio yn ofnadwy fel hyn, y mae drws y capel i'w weled fel twll cwch gwenyn, pan y mae y rhai hyny yn ymyl codi, a hedfan ymaith o'u hen breswylfa ry' gyfyng—felly drws hen gapel patriarchaidd Woodstock yr adeg yma, y mae yn llawn pobl yn dyhidlo allan o'r capel drwyddo, ac yn ymadael mor gyflym a distaw ag y medrent, am y maes—"Ie y mae yn ddifai," medd y pregethwr, gan fyned yn mlaen wedi cael ei anadl, ar ol bod yn gwaeddi yn enbyd, "yr oedd yr aberthau hyny yn ddianaf yn wyneb y gyfraith, ond nid yn ddifai gan Dduw. Erbyn cael aberth y boreu, yr oedd rhaid cael un arall gwed'yn erbyn y prydnawn. Pa le y mae'r aberth prydnawn ddoe? Y mae wedi ei feio gan Dduw—felly y maent yn filoedd wedi eu beio. Ond dyma aberth o'r diwedd, nid oes ynddo un bai gan Dduw —dim yn eisiau; y mae yn llon'd y gofynion dwyfol; y mae yn ateb yn llawn i'r hyn oedd yn y meddwl tragwyddol yn gofyn ei fod; y mae yn *iawn*. Diolch am aberth a digon ynddo am fywyd y dyrfa, y mae yn *iawn* i Dduw. Allasai cyfiawnder ddim gofyn mwy nag a gafodd yn y gwaed yma; allasai deddf ddim derbyn

mwy; allasai Duw ddim cael mwy:—'Yr hwn trwy yr Yspryd tragwyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw.' 'Ag un aberth y perffeithiodd Efe yn dragwyddol y rhai trwyddo Ef sydd yn dyfod at Dduw.' Nid oes dim yn well i bregethu na'r hen adnodau yma. A 'whare teg i finnau, 'rydw i yn pregethu yn Ysgrythyrol iawn. [Y mae yn dyweyd hyn yn un peth, er mwyn cael ei anadl, fel y gallo floeddio'r adnodau gyda nerth; o herwydd dywed y tipyn ysmaldod yma yn hamddenol ac mewn llais isel.] 'Gan wybod nad â phethau llygredig, megys arian neu aur, y'ch prynwyd oddi wrth eich ofer ymarweddiad, yr hwn a gawsoch trwy draddodiad y tadau: eithr â gwerthfawr waed Crist, megys Oen difeus a difrycheulyd.' *Without spot* yw e yn y Saesnaeg. Ac y mae yn well gen' i y Saesnaeg yn y fan hon—*without* SPOT. Maen' nhwy y Saeson yna yn meddwl nad oes dim Saesnaeg gyda ni ar y cae yma. Ond maen' nhw yn camgymeryd; fe bregethwn i Saesnaeg yn eithaf da iddyn' nhw, a dyma fe— *without* SPOT"—llon'd byd o *without spot*. Gallasem dybio na chafodd y "iaith nesaf atom" y fath ddirdyniad erioed o'r blaen—beth bynnag oddiar yr amser y bu y *Fat Welshman* o Twrgwyn yn bloeddio ynddi, am y farn a thragwyddoldeb uwchben rhai o *ladies* Llundain yn nghapel Rowland Hill gynt, nes yn agos a'u gyru yno, gan ddychryn, yn gynt na phryd. Ac erbyn hyn, dyma y Saeson yn rhedeg allan o'r capel, fel pe buasai hwnw ar dân; ac y mae yn gwestiwn a orphenwyd yr odfa hono yn rheolaidd byth; a barnai rhai o'r frawdoliaeth Saesnig, eu bod hwy wedi cael mwy o efengyl yn "*without spot*" Mr. Jones, nag a gawsant yn nwy bregeth yr efengylwyr Saesnig. "Diolch yn oesoesoedd am y gwaed," medd yr hen frawd Wm. Phillip eto. "Ie, wir, diolch am y gwaed," medd y pregethwr—"y mae e yn haeddu cael ei ganmol; 'whare teg i'r hen frawd a'i ddiolch. Mae arna' i chwant gwaeddi diolch hefyd—

DIOLCH AM Y GWAED—dyma mywyd i. 'Pa faint mwy y bydd i waed Crist i buro ein pechodau.' Ac os ydych chwithau, y dyrfa fawr yma, yn meddwl dianc am eich bywyd, rhaid i chi ddilyn *track* y GWAED bob *step*."

Aeth yn mlaen i son llawer am effeithiolrwydd y gwaed i sancteiddio y pechadur ar ol hyn, a hyny mewn hwyl heb fod yn gymaint a pheri iddo ef golli ei bwnc, na pheri i'r bobl i golli eu hunain. A therfynodd un o'r pregethau goreu drwyddi, ac un o'r odfaon hapusaf—clywsom ef lawer gwaith yn mwy hwylus—a gawsom ganddo erioed, trwy y casgliadau canlynol:—

1. Y dylem edrych at Grist am ein bywyd.
2. Y dylem edrych ato yn ein cyflawniadau crefyddol.
3. Y dylem edrych ato am wrandawiad i'n gweddïau.

Parhaodd i bregethu am awr a haner, yn dra thebyg, a'r pregethwr a'r dyrfa yn ymddangos heb flino dim; ond y naill a'r llall yn mwynhau gwirioneddau plaen yr efengyl, nes annghofio i raddau mawr flinder y cnawd, a munydau ac oriau amser.

Ac fel y digwyddodd yn yr un lle, yn mhen tair blynedd ar ddeg ar ol hyn—yn y flwyddyn 1873—y pregethodd ei bregeth olaf mewn Cymmanfa; a dyma y tro olaf i ni ei glywed yn pregethu o gwbl. Yr ydoedd yr odfa olaf hon iddo i bregethu mewn Cymmanfa, yn hynod o hapus iddo—yn fwy effeithiol a thoddedig na'r un y cyfeiriasom ati uchod. Yr oeddem ni yn ei ofni yn fawr y waith hon. Yr oedd wedi bod yn wael ei iechyd, ac heb ymddangos mor iach a chryf ag arferol, ar y pryd. Yr ydoedd ei gof hefyd wedi dechreu gwaethygu, a cholli ei afael i raddau ar yr adnodau, ac nid ydoedd yn gallu siarad rhyw eiriau allan mor amlwg ag arferol, o herwydd colli rhai o'i ddannedd blaen. Ac heblaw hyn, yr ydoedd i bregethu am ddau y tro hwn eto, pan ydoedd y bobl wedi dechreu blino; ac yn anffodus, yr ydoedd dau i bregethu o'i flaen—un yn Gymraeg, a'r llall yn

Saesneg. Ac fel yr ydoedd yn naturiol meddwl, yr ydoedd yn hynod anfoddlon i'r trefniant hwn—trwy orchest fawr y cafwyd ganddo i aros a phregethu o gwbl.

Pa fodd bynnag, aros wnaeth, a phregethu hefyd ar y geiriau:—"A phob un a adawodd dai, neu frodyr, neu chwiorydd," &c., &c. Er bod yn y Gymmanfa hon bregethwyr enwog yn pregethu, a phob un o honynt yn rhagori braidd arno ei hun—yr ydoedd rhyw rwyddineb a llewyrch neillduol yn y Gymmanfa hono yn agos drwyddi oll—erbyn ei fod ef wedi dechreu ymaflyd ynddi o ddifrif (a gwnaeth hyny yn fuan y waith hon,) y mae rhywbeth yn ymddangos ynddo, wedi ei dori allan i bregethu ar y maes, yn fwy naturiol a rhagorach nag un o honynt rywfodd. A deallasom yn o fuan er ein llawenydd, a'n siomedigaeth yr ochr oreu, y gwnai ei chael yn dda y tro hwn eto, wedi y cwbl. Yr oedd yr hwyl yn gwasgu ei hun yn mlaen arno y waith hon, fel ar ei waethaf. Nid oedd yn meddwl gwneyd rhyw lawer o honi y tro hwn gellid tybied, o herwydd yr annghyfleusderau a nodwyd. Ond deuai arno—ymlidiai ar ei ol i'w ddal y tro hwn. Gwnai ef, fel llawer eraill, ymlid ar ol yr hwyl weithiau, a methu ei dal hefyd. Fel y dywedodd un brawd ffraeth o gyfaill iddo am dano ef yn pregethu mewn Cymmanfa yn yr un Sir unwaith, pan roddai y brawd hwnw hanes y pregethu i arall ar ol hyny. "Sut y pregethodd yr hen Flaenanerch?" medd hwnw. "O fel hyn oedd hi," ydoedd yr ateb:—"'Ni ddo ddim,' medd yr hen bregeth. 'Mi wna i ti ddod,' medd y pregethwr. 'Ni ddo i ddim ochodyn, waeth i ti beidio treio,' medd y bregeth drachefn. 'Rhaid i ti ddod,' medd y pregethwr gwed'yn. 'Fe ddala i na raid,' ebai yr hen bregeth benderfynol, a hi gariodd y tro yma." Ond fel arall ydoedd y bregeth yn ymddwyn tuag ato y Gymmanfa hon. "Y mae arnaf flys dod," meddai, "os caf." "Dwdw i ddim am i ti ddod," medd y pregethwr. "Mae

yn rhaid i mi gael dod," medd hi eto yn fuan. "Wel o'r goreu ynteu," medd y pregethwr, "ti gai ddod;" a chyduno a'u gilydd a wnaethant yn gampus hyd y diwedd.

Y mae yn ffaith fod pobl yn ei glywed y tro diweddaf hwn y pregethodd mewn Cymmanfa yn muarth ffermdŷ, filldir o ffordd o Woodstock. Ac yr ydoedd mewn gwirionedd yn angerddol o effeithiol, gyda'r A yna yn y testyn —"a bywyd tragwyddol a etifedda efe." "Dyma A noble. A—A—a bywyd tragwyddol. Y mae yn dda yma—can cymaint. Crefydd a duwioldeb piau o ddigon yma, fechgyn ieuainc—can cymaint—can cymaint o lawenydd, can cymaint o fwyniant, can cymaint o ddedwyddwch. 'Wel dyna y cwbl.' Na, A, A,—'a bywyd tragwyddol a etifedda efe.' Dechreu yw hi yma gyda y grefydd yma—draw y mae hi yn *glever*. A, A,—'a bywyd tragwyddol a etifedda efe.' 'Grawn sypiau ar drosolion yw hi yma,' [Swniai yr ymadroddion hyn yn annghyffredin o effeithiol ar dop ei lais,] "ond y dyffryn ar ei hyd yw draw—dirwyn i mewn y ffrwythau oddiar y cangau, yn tyfu yn eu *soil* eu hunain yn nyffryn Esgol, ei hunan byth. Yr olew yn y stên yw hi yma; ond yn y cyflawnder y mae yr ochor draw. Ni gawsom rai defnynau lawr yma; ond môr yw hi draw—beth am yr awr cawn fyn'd i'r mor? Mae arna' i 'whant yn aml y dyddiau yma, i roi ergyd i mewn i'r *ocian*. O ie, 'adwaen o ran' yw hi yn awr yn y byd yma, 'gweled yr ydym trwy ddrych, mewn dammeg,' ond yno 'wyneb yn wyneb,'—yno yr 'adnabyddaf megys i'm hadwaenir. Yr awr hon meibion i Dduw ydym, ac nid amlygwyd i ni eto beth a fyddwn.' 'Whare teg i'r saint hefyd yn awr. Y maent hwy yn feibion i Dduw—y maent yn perthyn i'r *royal family* yn awr, y mae gwaed y teulu yn 'whare yn eu gwythienau hwy yn awr. Ond y mae mwy yn ol, mae mwynhau yr etifeddiaeth yn ol. 'Os plant etifeddion hefyd, sef

etifeddion i Dduw, a chyd etifeddion â Christ.' 'Eithr ni a wyddom pan ymddangoso Efe, y byddwn gyffelyb iddo, oblegid ni a gawn ei weled Ef megys ag y mae.'" * * * *

O! yr ydoedd hon yn odfa fendigedig i'r "Pembrokeshire *folks*," y rhai ydoedd bob amser yn hoff o hono i ffarwelio ag ef, nes cwrdd a'u gilydd eto, "yr ochr draw," ys dywedodd efe, i weled a mwynhau yr hyn sydd tu hwnt, a thu cefn i'r *a* yma yn y testyn.

Gobeithio y gwna y bennod hon, er mor anmherffaith, wasanaethu i ryw fesur, er rhoddi i'r rhai na chlywsant ef ryw syniad o'i bregethau, o ran mater ac arddull, yn gystal ag o hono ef ei hun yn eu traddodi hwy.

## PENNOD XI.

*Mr. Jones yn Adfywiad 1859—60—Yn methu credu ynddo ar y dechreu—Yr effeithiau a'i canlynai yn peri iddo i gredu ynddo—Yn cael ei feddiannu gan yspryd y diwygiad—Ei deimladau yn ddrylliog iawn—Yn tori allan i orfoleddu ei hunan nos Sul olaf yr wythnos weddi gyntaf—Yn tori allan i foliannu mewn seiat wrth geisio gan eraill i dewi, ac yn neidio yn ei glogs—Tipyn o ysmaldod yn ei feddiannu am fod un o'r hen chwiorydd wrth orfoleddu, yn taflu y bai—fod ei gŵr wedi ei gadael—ar y diafol.*

GELLIR dyweyd mai un o blant y Diwygiad ydoedd Mr. Jones ei hun, fel yr awgrymwyd yn barod. Canfyddasai amryw o honynt, o ryw raddau a natur, yn nghymydogaeth ei enedigaeth pan yn ieuanc; a chawsai ei gyffroi a'i gynhyrfu yn fawr ganddynt mewn ystyr, y pryd hwnw. A hoffasai wrando yn y capel, yn ymyl y rhai oedd mwyaf cynes o'r hen bobl, pan yn blentyn, fel y dywedasom eisioes. A phan ddaeth at grefydd yn mhen blynyddoedd ar ol hyn, ymddengys fod cryn gyffro crefyddol yn y wlad, a llawer yn ymuno â chrefydd. Fel hyn, yr ydoedd llawer o naws yr adfywiadau yma, a chydymdeimlad â hwy, yn ei natur ef trwy ei oes. Yr ydoedd ei deimladau yn fywiog a drylliog, a'i yspryd yn wresog, fel yr ydoedd ei holl natur ef trwy ei oes, yn *good conductor*, er tynu y mellt sanctaidd yma i'w daro ef ei hun, a thrwy hyny eu tynu i lawr i'r ddaear, fel y gwelwyd lawer gwaith.

Modd bynnag, nid ar unwaith y daeth i gredu yn yr adfywiad diweddaf—adfywiad 1859—60; ond i'r gwrthwyneb, teimlai fel llawer o'i frodyr blaenaf yn y Sir, yn rhagfarnllyd tuag ato i raddau mawr. Nid ydoedd yr

adfywiad hwn yn ei agweddau allanol, yr un fath a'r rhai cynt, na'r offerynau trwy ba rai ei dygid yn mlaen, yn gwbl y rhai y disgwyliasid gan ddynion iddynt fod y cyfryw. Ond er hyn oll, wrth weled cymaint yn cael eu dychwelyd at grefydd, a hen grefyddwyr digrefydd a diwerth, yn dyfod yn grefyddwyr da, a'r eglwysi yn gyffredinol yn cael eu deffroi o'u cysgadrwydd, ac aml i fellden yn rhwygo yr awyr drom yn Blaenanerch—yn dyweyd yn amlwg i bawb, ond rhagfarn ac annghredin-iaeth, fod y cwmwl ar ymdywallt—methodd annghredin-iaeth a rhagfarn yr hen Flaenanerch, mewn perthynas a'r adfywiad, ag anadlu yn hir yn y fath awyr. Erbyn ei fod yn cychwyn ei daith i fyned i Sasiwn Bangor y flwyddyn hono—y Sasiwn yr ydym yn cyfeirio ato yn pregethu ynddi yn y bennod o'r blaen—neu o leiaf yn fuan ar ol cychwyn, y mae yn amlwg fod ei ragfarn tuag at, a'i annghrediniaeth yn yr Adfywiad, wedi diflanu yn llwyr; ac yntau i fesur helaeth wedi ei feddiannu gan ei yspryd ef ei hun.

Yn awr, erbyn yr amser y daeth ef adref o'r daith hono, yr ydoedd y cwmwl wedi hen dori uwchben Blaen-anerch; ac oddi ar adeg Cymmanfa Llangeitho, wedi bod yn taflu allan yno lawer o dân, a gwlaw, a chenllysg, yn gystal a chreu taranau. Ac mor agos i'r ddaear ydoedd y pryd hwnw, ac mor llawn o wefr, fel y gwnai barcut papur, heb rhyw lawer o *string* yn perthyn iddo i dynu ei gynwys i lawr i'r ddaear yn Blaenanerch, yr adeg hono. A phan ddaeth yr hen weinidog adref o'i daith yn y Gogledd —un o'i deithiau mwyaf llwyddianus a hapus yn mhob ystyr—yr ydoedd mewn tymer a naws yspryd da iawn, i gyfarfod ag amgylchiadau rhyfedd ei gynulleidfa yn Blaenanerch. Yr ydoedd ef wedi ei lanw o yspryd y Diwygiad, a hwythau wedi eu llanw o'i gorff a'i yspryd, fel nad oedd y ddau, y gweinidog a'i gynulleidfa, ond un gronfa o hylif hylosg, yn barod i gymeryd tân a fflamio i entrych nef gyda y dirwasgiad, neu yr ysgytiad lleiaf. A

## PENNOD XI.

*Mr. Jones yn Adfywiad 1859—60—Yn methu credu ynddo ar y dechreu—Yr effeithiau a'i canlynai yn peri iddo i gredu ynddo—Yn cael ei feddiannu gan ysbryd y diwygiad—Ei deimladau yn ddrylliog iawn—Yn tori allan i orfoleddu ei hunan nos Sul olaf yr wythnos weddi gyntaf—Yn tori allan i foliannu mewn seiat wrth geisio gan eraill i dewi, ac yn neidio yn ei glogs—Tipyn o ysmaldod yn ei feddiannu am fod un o'r hen chwiorydd wrth orfoleddu, yn taflu y bai—fod ei gŵr wedi ei gadael—ar y diafol.*

GELLIR dyweyd mai un o blant y Diwygiad ydoedd Mr. Jones ei hun, fel yr awgrymwyd yn barod. Canfyddasai amryw o honynt, o ryw raddau a natur, yn nghymydogaeth ei enedigaeth pan yn ieuanc; a chawsai ei gyffroi a'i gynhyrfu yn fawr ganddynt mewn ystyr, y pryd hwnw. A hoffasai wrando yn y capel, yn ymyl y rhai oedd mwyaf cynes o'r hen bobl, pan yn blentyn, fel y dywedasom eisioes. A phan ddaeth at grefydd yn mhen blynyddoedd ar ol hyn, ymddengys fod cryn gyffro crefyddol yn y wlad, a llawer yn ymuno â chrefydd. Fel hyn, yr ydoedd llawer o naws yr adfywiadau yma, a chydymdeimlad â hwy, yn ei natur ef trwy ei oes. Yr ydoedd ei deimladau yn fywiog a drylliog, a'i yspryd yn wresog, fel yr ydoedd ei holl natur ef trwy ei oes, yn *good conductor*, er tynu y mellt sanctaidd yma i'w daro ef ei hun, a thrwy hyny eu tynu i lawr i'r ddaear, fel y gwelwyd lawer gwaith.

Modd bynnag, nid ar unwaith y daeth i gredu yn yr adfywiad diweddaf—adfywiad 1859—60; ond i'r gwrthwyneb, teimlai fel llawer o'i frodyr blaenaf yn y Sir, yn rhagfarnllyd tuag ato i raddau mawr. Nid ydoedd yr

adfywiad hwn yn ei agweddau allanol, yr un fath a'r rhai cynt, na'r offerynau trwy ba rai ei dygid yn mlaen, yn gwbl y rhai y disgwyliasid gan ddynion iddynt fod y cyfryw. Ond er hyn oll, wrth weled cymaint yn cael eu dychwelyd at grefydd, a hen grefyddwyr digrefydd a diwerth, yn dyfod yn grefyddwyr da, a'r eglwysi yn gyffredinol yn cael eu deffroi o'u cysgadrwydd, ac aml i fellden yn rhwygo yr awyr drom yn Blaenanerch—yn dyweyd yn amlwg i bawb, ond rhagfarn ac annghrediniaeth, fod y cwmwl ar ymdywallt—methodd annghrediniaeth a rhagfarn yr hen Flaenanerch, mewn perthynas a'r adfywiad, ag anadlu yn hir yn y fath awyr. Erbyn ei fod yn cychwyn ei daith i fyned i Sasiwn Bangor y flwyddyn hono—y Sasiwn yr ydym yn cyfeirio ato yn pregethu ynddi yn y bennod o'r blaen—neu o leiaf yn fuan ar ol cychwyn, y mae yn amlwg fod ei ragfarn tuag at, a'i annghrediniaeth yn yr Adfywiad, wedi diflanu yn llwyr; ac yntau i fesur helaeth wedi ei feddiannu gan ei yspryd ef ei hun.

Yn awr, erbyn yr amser y daeth ef adref o'r daith hono, yr ydoedd y cwmwl wedi hen dori uwchben Blaenanerch; ac oddi ar adeg Cymmanfa Llangeitho, wedi bod yn taflu allan yno lawer o dân, a gwlaw, a chenllysg, yn gystal a chreu taranau. Ac mor agos i'r ddaear ydoedd y pryd hwnw, ac mor llawn o wefr, fel y gwnai barcut papur, heb rhyw lawer o *string* yn perthyn iddo i dynu ei gynwys i lawr i'r ddaear yn Blaenanerch, yr adeg hono. A phan ddaeth yr hen weinidog adref o'i daith yn y Gogledd —un o'i deithiau mwyaf llwyddianus a hapus yn mhob ystyr—yr ydoedd mewn tymer a naws yspryd da iawn, i gyfarfod ag amgylchiadau rhyfedd ei gynulleidfa yn Blaenanerch. Yr ydoedd ef wedi ei lanw o yspryd y Diwygiad, a hwythau wedi eu llanw o'i gorff a'i yspryd, fel nad oedd y ddau, y gweinidog a'i gynulleidfa, ond un gronfa o hylif hylosg, yn barod i gymeryd tân a fflamio i entrych nef gyda y dirwasgiad, neu yr ysgytiad lleiaf. A

lle rhyfedd mewn gwirionedd oedd yn Blaenanerch y pryd hyny, pan oedd y gynulleidfa—yn weinidog, blaenoriaid, a phawb agos—yn euog o dori allan rai gweithiau, i foliannu Duw ar gyhoedd; a rhai o honynt yn para i dori allan i orfoleddu felly am yn agos i flwyddyn, bob odfa braidd. A phan oedd y wedd yma ar bethau yn Blaenanerch yn ei gradd uwchaf, nid ydoedd yno neb yn mwy drylliedig ei dymerau na Mr. Jones; ond er hyny ymgadwai rhag tori allan i orfoleddu yn ffurfiol, oddieithr rhyw dro neu ddau—yr ydoedd yn gallu gollwng allan yr agerdd gan amlaf ffordd arall. Eithr yr ydoedd mor ddrylliog ei deimladau yr adeg hono, fel nas gallasai ddal heb wylo, a gwaeddi rhywbeth gyda hwy ei hun, os buasai mor agos at un o honynt, ag i ddeall pa beth a ddywedid gan hwnw. A'r modd y gwnai yn y cyffredin, pan ydoedd hi boethaf yno, ydoedd myned i eistedd ar sedd y ffenestr yn ymyl y pwlpud—y man pellaf allasai gael, heb fyned allan oddiwrth y tân a'r gwaeddi mawr. Ei waith yn y fan hono, ydoedd chwerthin a wylo—neu yn hytrach, chwerthin wylo—dyweyd rhyw bennill o hymn, a gwaeddi ambell i "Diolch iddo," yn haner cuddiedig yn eu cysgod hwy. Pa fodd bynnag, ar y nos Sabboth olaf o'r wythnos weddi gyntaf—dechreu y flwyddyn 1860—aeth yr hen weinidog i'r hwyl fawr ei hun; ac o herwydd hyn, yn gystal a phethau eraill yn y lle, y mae y noson hono yn Blaenanerch, yn adeg nad annghofir byth mo honi gellid meddwl, gan neb oedd yno. A chan ein bod yno ein hunain y noson hono, ceisiwn mor bell ag y medrwn, roddi darlun o'r olygfa ryfedd i'r darllenydd. Yr oeddem wedi methu myned at ein cyhoeddiad y Sul hwnw o herwydd y gwlaw; ac hefyd o herwydd y tybiem nad oedd pwys mawr i ni beidio y dydd hwnw, yn gymaint ag mai dydd i weddio ydoedd, yn fwy na phregethu; a gwyddem fod cystal mantais yn Blaenanerch i wneyd hyny, yr adeg hono

yn neillduol, ag un lle dan y nef; a thrwy bob peth fel hyn, yr ydoedd yn hawdd i ni allu perswadio ein hunain i aros yn ein hen gartref dros y Sul hwnw.

Y Sabboth yma, yr ydoedd cyfeillion brwdfrydig Blaenanerch, wedi bwriadu cynal saith o gyfarfodydd i gyd yn y capel, er dyfod a chaerau Jericho i lawr, bid sicr. Dechreuwyd y cyntaf am saith neu wyth—nid ydym yn cofio yn awr yn sicr—yn y boreu, a bwriedid gorphen un, os nid dau gyfarfod gweddi erbyn yr odfa gyhoeddus, pryd yr oedd Mr. Jones i bregethu. Ni orphenwyd un, chwaethach dau, erbyn amser yr odfa gyhoeddus. Aethpwyd wrth gwrs i waeddi, a methwyd tewi nes yr oedd amser dechreu yr odfa bregethu yn mhell trosodd. Ac yn lle cynnal saith cyfarfod y dydd hwnw yn ol y cynllun, i gael y caerau i lawr, ni chadwyd mewn gwirionedd ond un; oblegid yr ydoedd yno ryw rai yn aros i waeddi a gorfoleddu, a gweddio rhwng y cyfarfodydd, nes nad oedd yr oll ond un cyfarfod mawr trwy y dydd. Eithr â diwedd y cyfarfod mawr yma, y mae a fynom ni yn awr yn fwyaf neillduol. Yn adeg y cyfarfod gweddi nos Sul, ceisiwyd gan blant y tân a'r gwaeddi, i ymdawelu tipyn, er mwyn i ddau frawd neu dri i fyned i weddio, a llwyddwyd o'r diwedd. Yr ydoedd Mr. Jones yn awr yn ei gôr bach, yn ymyl y pwlpud—yn barod i fyned i fyny i eistedd ar sedd y ffenestr, os ai yn rhy boeth arno yn y fan hono—a *shawl* fawr iawn am ei wddf a'i enau, a golwg go ddyeithr a hynod arno. A rhyw fodd, y noson hono, digwyddodd i un neu ragor o'r rhai mwyaf tanllyd o'r gorfoleddwyr, a'r rhai oedd fwyaf tebyg i effeithio arno ef —yr hen chwaer Nain Bronheulwen ac eraill—i eistedd yn y côr nesaf i gôr bach y gweinidog; mor agos oeddent yn hwn, fel nas gallasai lai na deall yr hyn a ddywedent, os aent i'r hwyl—yr hyn beth ydoedd yn fwy nag y gallasai efe ddal y pryd hwnw. Pa ham y daeth rhai o'r dosparth yma i'r fan hono y tro hwnw sydd ddirgelwch.

Gallasai mai wedi blino i waeddi trwy y dydd, yr ydoedd yr hen chwaer Nani wedi wneyd, a meddwl fel Mr. Jones, fod yr awyr fesur yn oerach yn y côr hwnw, nag yn nghanol y danllwyth ar y llawr, man priodol "plant y Diwygiad" yn y capel. Wel dyma y cyfarfod gweddio yn dechreu, a rhywbeth rhyfedd yn disgyn ar y gweddïwr a'r gynulleidfa. Yr un modd pan weddïai yr ail—aml i fellden yn ymsaethu, ac ambell daran yn rhuo; ond y cwmwl heb dori eto. Yn awr, rhaid ydoedd ceisio gan Mr. Jones i fyned i weddïo yn nesaf, a gorphen y cyfarfod yn y wedd hono arno. Ond ni wnai er dim. Yr oedd ef yn sal, a'i frest yn dost iawn—na wnai ef ddim. Gan hyny, rhaid oedd ceisio gan frawd arall. Wele hwnw yn dyfod, ac yn gweddio yn rhyfedd gellid meddwl, a'r bobl yn teimlo yn annghyffredin iawn; yr amenau mawrion fel *bomb shells* yn ymddryllio, ac yn ymsaethu drwy y capel; a neb a'i "Amen" yn uwch a mwy chwilboeth na Mr. Jones. Ac yn fuan, dyma y cwmwl yn ymddryllio ac yn ymdywallt, a'r gynulleidfa braidd oll i lawr a fyny, yn un darn o waeddi a moliannu. A dyma hwy ar dân yn y côr yn ymyl Mr. Jones—yr ydoedd yno un, os nid rhagor wedi tori allan yn y fan hono heb law Nani. Yn awr, pa beth a wna? Y mae yn rhy boeth—y mae gormod o "dân tan y crochan," ys dywedai efe weithiau—i ollwng y *steam* trwy y chwerthin wylo yna heno. Edrychwch. Y mae yr olwg arno yn ddyeithr a hynod annghyffredin. Y mae y mynydd yn mygu yn ofnadwy. Aroswch! Y mae yn ymyl taflu allan afonydd o dân; ond tân cariad a dafla ef allan, gallwch fod yn siwr o hyny. Nis gall ymatal yn mhellach, y mae sain cân a moliant yr hen Nani gyda'i phennillion swynol, eisioes wedi myned yn drech nag ef. "Gwasgara'r tew gymylau," meddai Nani, mewn llais toddedig a swynol—yr hwn bob amser, dan y cyfryw amgylchiadau, fuasai yn debyg o oglais teimladau

Mr. Jones—"Oddi yma i dŷ fy Nhad" *'ren'*, atebai yntau. "Datguddia i mi beunydd," meddai Nani eto. "Yr iachawdwriaeth rad," dywedai y pregethwr. "O diolch am y cyfiawnder yma," dywedodd Nani drachefn (terfynodd y pennill yn rhy fuan, yr hyn nid ydoedd ryfedd yn y byd, yn enwedig pan gofiom fod dau yn tynu arno ac o hono, gan hyny, rhaid troi at rywbeth arall, oblegid nid ydoedd yr hwyl a'r tân yn debyg i derfynu eto) "y mae yn ddigon i 'nghuddio a'n ngwisgo i, hen greadur euog a noeth am byth." A chyda hyn, dyma Mr. Jones yn neidio ar ei draed, fel pe wedi cael ei saethu, ac yn curo ei ddwylaw yn rymus y naill wrth y llall, gan waeddi yn y man uwchaf a phereiddiaf y gwaeddodd erioed, er gwaethaf yr hen *muffler* mawr oedd am ei wddf, a'i enau i raddau hefyd,—" Y mae e yn rhad hefyd Nani fach." Ac erbyn hyn, dyma y bobl, yn enwedig y rhai ydoedd heb waeddi eu hunain—ac yn wir lawer o'r rhai ydoedd hefyd—yn rhedeg mor agos ag y medrent ato ef —rhai i'r pwlpud, a rhai i'r lloft uwch ei ben—i gael ei weled a'i glywed yn yr hwyl, wedi tori allan i orfoleddu. Aeth yn mlaen yn y modd yma am enyd, dan floeddio gyda y nerth a'r pereidd-dra mwyaf, ddarnau o'i bregethau am lwyddiant yr efengyl: megys—" Y mae hen drefn y cadw, fel y môr tawdd yn y deml gynt, yn gorwedd ar ddeuddeg o ychain. Yr oedd tri yn edrych tua'r dwyrain, a thri yn edrych tua'r gorllewin, a thri yn edrych tua'r gogledd, a thri yn edrych tua'r deheu; ond môr ar gyfer pob cyfeiriad—digon o gyflawnder welwch chi! Diolch am dano!" A chyda hyn, dyma yr holl dyrfa yn gwaeddi "Amen" a "Diolch," nes rhwygo yr awyr. Ar ol myned yn mlaen fel hyn am ddeng munyd neu chwarter awr, y mae yn eistedd lawr. Ond ar unwaith, dyma ef yn codi eto yn wyllt, ac yn bloeddio :—" 'Rwyf fi yn dychymygu mod i yn gwel'd angel y munyd yma." " Beth sydd ganddo?" " Cadwyn yn ei law." " Beth

mae ef yn ei wneyd â hono?" "Rhwymo y CYTHRAUL. Brysied y boreu." Yna, dyma y corus o Amenau eto, na chlywyd erioed—beth bynnag tua Blaenanerch, o'u bath o'r blaen yn canlyn. Eistedda eto; ond am eiliad. Dyma ef yn codi eto ar unwaith, ac yn bloeddio yn uwch nag o'r blaen gellid meddwl:—"'Rwyf fi yn gweled angel arall 'nawr!" "Beth mae e yn ei ddyweyd?" "Aeth teyrnasoedd y byd yn eiddo ein Harglwydd ni, a'i Grist E-EF. Brysio wnelo y boreu," eto. "Haleluiah, y mae y wawr wedi tori." Yna eisteddodd i lawr yn nghanol twrf yr Amenau, y Diolch iddo, a'r annybendod mawr a gogoneddus hwnw, a'r olwg arno yn awr yn welw a difrifol iawn. Ac wedi i'r bobl orfoleddu llawer, a gwaeddi eu hunain allan o nerth i raddau mawr, cafwyd ganddynt dawelu i'r fath raddau, fel y gallwyd cael seiat ar ol y cyfarfod rhyfedd hwn. Derbyniwyd i'r seiat y tro hwnw, rhyw bump neu chwech o bersonau, y rhai ydoedd wedi dal allan er pob peth hyd yn hyn; ac yr oeddent yr unig ddynion mewn oed—agos iawn o leiaf —yn ardal Blaenanerch, oedd heb ymuno â chrefydd yr adeg hono. Ni wnai Mr. Jones ddyweyd dim yn y seiat. Ac wedi myned i'r tŷ capel, ni ddywedai ddim braidd, na neb arall o ran hyny. Ymddangosai yn bur wael; wedi cael ei gyffroi i'r fath raddau, heblaw ei fod wedi trethu ei natur mor drwm trwy floeddio mor uchel wrth "ganmol y Gŵr, a'r hen drefn" y prydnawn hwnw.

Ryw ddydd gwaith, pur oer o ran yr hîn yn y gauaf hwnw, yr ydoedd seiat yn y capel. Ond er mor oer oedd y tywydd, methodd yr hen chwaer Nani a pheidio myned i'r hwyl, wrth waith y brawd yn dechreu y seiat. Wedi dechreu y cyfarfod, dyma Mr. Jones yn myned i lawr at Nani ac eraill oeddent yn bygwth rhwystro y seiat i gael ei dwyn yn mlaen—ac ymddengys mai *clogs* oedd am ei draed y diwrnod hwnw, *o herwydd yr oerfel.* Dacw ef ar y llawr—lle peryglus dros ben iddo ef y

pryd hyny—ac yn dyweyd :—"Taw 'nawr, Nani fach. Y mae eisiau arno' ni gadw seiat yma 'nawr. Ti gei di a finnau ganu'r ochor draw yn y man, a 'whare teg ati i ganu chalon hi y pryd hyny—ni wna dim ein rhwystro ni ei ganmol *E* yno." A thrwy ei fod ef ei hun, yn gystal a'r rhan fwyaf o'r bobl oedd yno, yn orlawn o deimlad eisioes, ac yn dyweyd y pethau cyffrous yna, aeth yr hen Nani yn llawer iawn gwaeth—aeth hi a llawer eraill i waeddi erbyn hyn; ac yn eu plith Mr. Jones, a dywedir iddo gyda gorfoleddu y tro hwn, i neidio peth yn ei *glogs;* ac os felly, da ydoedd fod y "ddaear wedi ei sicrhau, a'i selio trwy ddoethineb."

Yr ydoedd yr hen bererin, Nani Bronheulwen, yn byw ar dir Cytir bach, ac wedi bod yn gweithio llawer gydag ef pan ydoedd ieuanc, gyda gorchwylion y fferm fel y cyfeiriwyd yn barod. A thrwy ei fod yn bur adnabyddus o honi, yn ei drwg a'i da, ac hoff iawn o honi, fel hen chwaer ddiniwed a chynes iawn gyda chrefydd, buasai hoff iawn o'i chymeryd i fyny, a chreu tipyn o ddifyrwch diniwed ar ei thraul, hyd yn nod yn y capel weithiau. Ac un waith, yn amser yr adfywiad hwn, (mewn seiat y bu hyn eto,) yr ydoedd hi wedi tori allan i orfoleddu, a Mr. Jones mewn tymer lled siriol, a rhydd oddi wrth yr *hwyl* ei hun gellid meddwl. Testyn cân a moliant Nani y tro yma ydoedd cyfammod Duw yn ei gadernid tragwyddol. "O diolch," ebai hi, "y mae hwn yn gyfammod na thor ef byth. Fe dorodd y cythraul y briodas gynta," gwaeddai yn uchel iawn—yr ydoedd ei gŵr wedi ei gadael amryw flynyddoedd yn ol. "Ond O diolch! Dyma briodas na thor angeu na chythraul mo honi byth." "Na, 'whare teg i'r hen fachgen hefyd"—meddai Mr. Jones yn go uchel, gan fwynhau ei hun ar ei eistedd yn y côr mawr, yn gwrando ar yr hen bererin yn canmol y cyfammod—"'whare teg i'r hen fachgen, nid arno fe bu'r bai i gyd am y *job* hono hefyd—yr oedd

tipyn o'r drwg hyny arnat ti dy hunan Nani fach, 'whare teg i'r gŵr drwg er cynddrwg yw e."

Ond rhaid ymatal, a gadael yr adfywiad ac yntau ar hynyna. Y mae ef, ac amryw eraill o "blant y diwygiad," wedi myned i'r "ochor draw, i *ganmol* y Gŵr," ys dywedai efe. Ond y mae Nani hyd yma, yr ochr hon; ond yn gallu "canmol y Gŵr"—weithiau dan orfoleddu—er mewn anialwch, a'r groes ar ei hysgwydd, a'r hen ddyn yn ei blino.

## PENNOD XII.

*Yn gwaelu yn ei iechyd—Ei saldra diweddaf—Yn marw —Lle ei gladdedigaeth—Ei gladdedigaeth—Mrs. Jones yn marw, ac yn cael ei chladdu yn mhen mis ac ychydig ddyddiau ar ei ol.*

Yr ydoedd Mr. Jones, ar y cyfan, yn ddyn hynod o iachus a chryf ar hyd ei oes; ac o herwydd hyn, i raddau hwyrach yn ddifater ac esgeulus o'i iechyd yn aml. Buasai ar amserau yn teithio am lawer o oriau heb fwyta nac yfed, na cherdded dim, a gwnai hyn weithiau ar dywydd gwlyb ac oer iawn. Yr ydoedd mor drwm o gorff, ac ymollyngar o feddwl, mewn pethau o'r fath hyn, fel y gwnai deithio braidd trwy y dydd weithiau, heb ddisgyn i gael bwyd iddo ei hun nac i'w anifail; ac ni ddisgynai chwaith i gerdded ond y peth nesaf i ddim, bydded hyd y daith, a natur yr hîn y peth a fyddent. Ond er ei fod wrth wneuthur felly wedi gwybod am ddioddef oerni, a gwlaw, a hir ddirwest lawer tro, diangodd heb ddioddef fawr ddim o afiechyd o herwydd hyny trwy ei oes. Pa fodd bynnag, yn Rhagfyr, 1872, aeth am Sabboth i Llangeitho; ac wrth ddyfod adref y dydd Llun canlynol, cafodd wlaw yr holl ffordd. Ond er y gwlaw a'r gwynt, daeth adref yr holl ffordd o Llangeitho i Blaenanerch—pellder o tua deng milldir ar hugain heb aros dim ar y ffordd, na cherdded ond peth nesaf i ddim i gael ei wres. Daeth adref y waith hon a'r llwyth dillad—gofalai fod digon o'r cyfryw ganddo bob amser—wedi gwlychu drwyddynt agos oll, ac yntau wedi bod yn aros ynddynt yn y sefyllfa hono am oriau lawer yn dra thebyg. Gallasai ei fod wedi cael ei wlychu rywbeth yn gyffelyb rai gweithiau o'r blaen;

ond anaml, os erioed, y bu yn aros cyhyd mewn dillad gwlybion, ar adeg oer o'r flwyddyn a'r tro hwn. Beth bynnag, dygodd y daith anffodus hon ei heffeithiau ar ei gyfansoddiad yntau. Ni bu byth ar ol hyn yn holl iach a chalonog fel cynt. Heblaw effeithiau y daith hon yn anmharu ei iechyd, a darostwng ei nerth, cafodd heb fod yn hir ar ol hyny, godwm allan o'i gerbyd, trwy i'w anifail syrthio pan yn myned i Blaencefn; ac er iddo gael ei waredu rhag cael rhyw niwed allanol mawr, eto yr ydoedd yn amlwg fod yr ysgydwad, i ddyn o'i oedran a'i lesgrwydd ef, yn dra niweidiol—a diau iddo gael rhyw gymaint o ofn hefyd drwy yr anffawd hon—effeithiodd hyn gyda y gwaeledd o'r blaen, yn fawr er gwanychu ei iechyd, a llwfrhau ei feddwl. Ond ni feddyliodd ef na neb arall fod niwed mawr yn bod wedi y cwbl er hyn oll; yr ydoedd yn awr yn dechreu heneiddio, ac ni theimlai un afiechyd neillduol yn ei flino. A dywedai rhyw ychydig cyn ei saldra diweddaf, ei fod yn teimlo can iached ag erioed.

Pa fodd bynnag, teimlai raddau o waeledd a llesgrwydd mwy na chyffredin wedi ei ddal, rai dyddiau cyn y Sul olaf y bu allan, ac yn pregethu yn Blaenanerch. Y Sul hwnw ydoedd Ionawr y 3ydd, 1875. Fel hyn, yn ei hen gartref am ei oes, y pregethodd ei bregeth olaf, yn gystal a'i gyntaf; a hyny y Sul olaf ond un cyn iddo farw a myned i fwynhau Sabboth na ddaw dydd Llun byth ar ei ol. Pregethodd y tro olaf hwn fel arferol, er nad ydoedd yn teimlo yn agos iach; ond ni ellid deall fod dim allan o le arno ef yn pregethu, o ran nerth corff, na grym meddwl. Ei destyn olaf hwn ydoedd :—" A hyn yw gwaith Duw, gredu o honoch yn yr hwn a anfonodd Efe." Nid ydoedd dim yn hynod yn y bregeth—yn rhag-arwyddo mai yr olaf ydoedd—nac ynddo yntau yn ei thraddodi, yn peri i neb feddwl ei fod ef yn traddodi pregeth am y waith olaf, yn ymyl y nefoedd. Yr ydoedd

y bregeth yn newydd; a dywedai wrth ei gymydog a'i gyfaill—D. Williams, Rhyd—fod ganddo ddau destyn gwed'yn, y leiciai efe i gael pregethu arnynt heb fod yn hir i gynulleidfa Blaenanerch. Yr ydoedd yn dipyn yn hynod hefyd, sef nad oedd dim yn rhyfedd yn yr odfa olaf i Jones, Blaenanerch, yr hwn a gawsai gymaint o odfaon rhyfedd yn ei ddydd. Ond felly y bu, ac felly yr ydoedd raid iddi i fod. Nid ydoedd yn yr odfa hono un arwydd o'r nef, nac o'r ddaear, yn tystiolaethu iddo ef, nac i'w wrandawyr, mai hono ydoedd i fod yr olaf iddo ef i ddyweyd am y Mab, a'r bywyd trwy gredu ynddo, a bod yr udgorn arian mawr o Blaenanerch yn "seino'i sŵn" allan y waith olaf am byth cyn ei ysprydoli, yn Blaenanerch y tro hwnw.

Bu allan ychydig y Llun canlynol, eithr teimlai yn rhy wael ei iechyd i fyned i'r capel y nos hono. Yr ydoedd allan dydd Mawrth yn shop waith Daniel Williams, ac yn dyweyd wrtho fod ei hen gyfaill Daniel Davies yn sal iawn—yn mron marw yn ol pob arwyddion. Dangosai ei fod mewn cryn helynt gyda golwg ar pa beth i wneyd yr wythnos nesaf. Yr ydoedd y Cyfarfod Misol i fod yn y Ceinewydd, ac os buasai Mr. Daniel Davies farw, ofnai nas gallasai fyned yno, pan wedi addo yn sicr i fyned. Ar ol hyn, gwaethygodd yn fawr yn ei iechyd ei hun bob dydd, nes erbyn y Sabboth—y 10fed o Ionawr, yr ydoedd yn glaf iawn. A thua'r amser yma y dechreuwyd ofni bod niwed yn bod. Y dydd hwn, ni ddywedai fawr wrth neb yn rhagor nag ateb ei fod "yn sal iawn," mor fyr, ond parod ag y medrai. Daeth y Meddyg ato rywbryd y dydd hwn; ond nid ydoedd hwnw yn gallu dyweyd yn benderfynol pa beth ydoedd ei ddolur—nid ydoedd yn siwr pa un a'i dolur y galon, neu y parlys ydoedd arno. Yr ydoedd un fraich wedi colli ei nerth ganddo erbyn hyn. Rhoddes y Meddyg rywbeth iddo i'w gymeryd; ond ni chafodd un effaith arno. Yr

ydoedd yn gallu, neu ynteu yn mynu, codi o'i wely dydd Llun a Mawrth, a mynodd godi am dipyn hyd yn oed dydd Mercher, er ei fod yn glaf iawn—yn amlwg i bawb erbyn hyn, ei fod yn marw yn gyflym annghyffredin. Annogodd Mr. James ef y dydd yma i fyned yn ol i'w wely yn fuan, am ei fod yn rhy wael i fod ar lawr; ac aeth yn y fan. Yr ydoedd yn awr, mor ufudd a mwynaidd ag oen yn mhob peth. Prydnawn dydd Mercher, yr ydoedd yn gwaelu a gwanhau mor gyflym, nes yr ydoedd i'w weled yn amlwg yn newid er gwaeth bob awr. Aethai mor wan erbyn nos, nes y methai symud ei hunan yn y gwely, na siarad, ond yn floesg iawn. Un o'r pethau diweddaf a ddywedodd yn ddealladwy oedd:—"Fe gostiodd yn ddrud iawn iddo—do, do; ond fe dalodd y cwbl er hyny." Un peth arall y tybid iddo ddyweyd yn ei funydau olaf ydoedd:—"Peidiwch chi meddwl, nad wyf fi ar y Graig." Yr ydoedd ei amser ef i siarad wedi terfynu erbyn hyn; y llais nerthol wedi peidio, a'r tafod hyawdl wedi glynu wrth daflod ei enau, ac yn gwrthod dyweyd un gair er ei gymell yn fawr, fel y gellid meddwl. Yn gynar nos Fercher, ymddangosai fel wedi colli ei ymwybyddiaeth. Treuliodd yr holl nos, dan yr adeg y bu farw, mewn agwedd fel yn pregethu yn egniol iawn. Symudai ei enau, a gweithiai a'r llaw, a'r fraich oeddent heb golli eu nerth yr holl amser. A phan beidiodd y llaw a'r fraich a gweithio, aeth yr anadl allan yr un pryd; yr ydoedd hyn tua wyth o'r gloch dydd Iau, Ionawr 14eg, 1875, pan ydoedd yn ei wythfed mlynedd a thriugain o oedran.

Fel hyn ymddangosai angeu mewn brys gwyllt—fel pe buasai mewn ofn rhag i weddiau Seion yn yr ardal ei rwystro y waith hon eto—i ddwyn ei waith yn mlaen arno; ni chafodd amser i ddim ganddo, ond i farw—"Dygi hwynt ymaith megys â llifeiriant." Ac yn lle myned i bregethu i angladd ei hen gyfaill Mr. Daniel

Davies, cafodd fyned i gydganu ag ef mewn bywyd, a hyny cyn bod ei gyfaill ond prin hwylio ei delyn i ddechreu ar ei dôn; ac yn lle myned i'r Cyfarfod Misol yn Ceinewydd, cafodd fyned i'r Gymmanfa dragwyddol yn y nef, braidd heb yn wybod iddo ei hun. "Bwriadau lawer sydd yn nghalon dyn, ond cyngor yr Arglwydd a saif." Ac felly yn ddiseremoni ac mewn brys y bu farw y llonwych a'r poblogaidd Jones, Blaenanerch. Dyma y modd y stopiodd y peiriant—efengyl hwn a drodd lawer i gyfiawnder. Fel hyn y distawodd yr hen udgorn mawr, wedi bod yn swyno Cymru am ddeugain mlynedd —dyma Jones, Blaenanerch wedi marw, wele ef yn ei arch yn barod i'r bedd o ran ei gorff. Ie, claddu sydd nesaf; rhaid ei gladdu, y mae wedi marw. Ond y mae yn anhawdd iawn claddu corff yr hen Jones (fel y byddem ni a ddechreuodd bregethu yn yr un lle ag ef yn arfer ei alw) er ei fod wedi marw, yr hwn a ymddangosai mor iach a chyfan, ac a draethai air y bywyd gyda y fath nerth i ni mor ddiweddar. Dyma ein teimlad, a theimlad pawb gallem dybied, yn yr ardal adeg ei farwolaeth a'i gladdedigaeth.

A bu mesur o ymryson rhwng dau le, a dau fath o deimladau, gyda golwg ar gael ei gorff ef i'w gladdu. Yr ydoedd claddfa y teulu o'r ddwy ochr—gyda yr eithriad o gorff ei dad ef, yr hwn a gladdasid yn Blaenanerch—yn mynwent Llan Aberporth. Ac fel hyn, yr ydoedd yn naturiol i Mrs. Jones i feddwl am ei gladdu yn Aberporth. A da yn ddiau fuasai yn ngolwg y ddaear gysegredig yno, a'r anwyl gariadus frodyr, i gael corff y proffwyd o Blaenanerch. Ond yr oedd teimlad pobl Blaenanerch, a phawb eraill yn agos, yn angerddol am ei gladdu yn mynwent Blaenanerch. Ac yr ydoedd efe ei hun wedi awgrymu wrth un o'r blaenoriaid—Mr. Hughes—mai o flaen ffenestr y pwlpud yn Blaenanerch y buasai ef yn dewis iddynt ei gladdu ef. Anfynych, ac anhawdd oedd

cael ganddo siarad am ei oedran, ei farw, a'i gladdu, ond yn ffodus yn y mater yma, digwyddodd awgrymu yr uchod i Mr. Hughes unwaith. A phan welodd Mrs. Jones a'i mab fod y fath deimlad dros ei gladdu yn Blaenanerch, gwnaeth eu synwyr da—er bod eu teimlad, beth bynnag eiddo y fam, yn gryf ffordd arall—eu perswadio i roddi ffordd, a'i gladdu yn y capel. A gwnai llai callineb na'r eiddo Mrs. Jones, weled nad oedd wiw meddwl fel arall bellach. Yr ydoedd y teimlad a'r brwdfrydedd, wedi myned i redeg mor uchel, fel na adewid llonydd gan y merched ac eraill, i Mrs. Jones i alaru yn y dydd, na chysgu y nos. Pan ddechreuai gysgu, yr ydoedd merched ieuainc y capel, fel trychiolaethau yn amgylchu ei gwely, i ofyn am gorff eu hen broffwyd anwyl a fagasant—neu yn hytrach a gawsant eu magu ganddo, â didwyll laeth y gair—cynhyrfodd y Blaenanerchiaid yn y modd yma nefoedd a daear, nes llwyddo o'r diwedd i gael ei lwch i orphwys yn mynwent capel Blaenanerch. Yr ydoedd hyn yn naturiol iawn, a chamsyniad dibryd fuasai ei gladdu ef yn un lle arall. Blaenanerch, neu'r hen Flaenanerch ydoedd ef wrth ei enw, fel yr ydym wedi dangos eisioes, a gwneyd defnydd o'r enw hwn lawer gwaith yn y cofiant hwn. Ac yr ydoedd hyn yn fwy nag enw iddo ef—yr ydoedd delw Blaenanerch arno ef, a'i ddelw yntau ar Blaenanerch. Daear Blaenanerch fu yn ddaear maddeu iddo, a chapel y lle yma yw "eglwys y plwyf"—ys dywedai Jones, Talsarn—y priodwyd ef a Mab Duw. Yma y dechreuodd, ac y gorphenodd ef bregethu. Ysgol Sul Blaenanerch fu ei athrofa ef, a seiat y lle yma fu ei *theological seminary* ef—hen flaenoriaid, a hen chwiorydd hono fu yn darlithio ar dduwinyddiaeth iddo ef. A hen dadau Blaenanerch a'i cododd ef i'r pwlpud, ac a fu yn rhedeg ar ei ol i'w wrando yn pregethu yn nhai annedd y gymydogaeth yn nechreuad ei weinidogaeth, gan ei gynal i fyny o ran ei

gorff a'u hysgwyddau (yr ydoedd yn arferiad yn y wlad y pryd hwnw pan fyddai un yn pregethu ar ben ystôl mewn tŷ annedd, fod un brawd gweddol urddasol yn sefyll o'i flaen, i ddal yn llythyrenol ei freichiau i fyny, a thuag at i'r swyddogaeth hon i gael ei dwyn allan yn gyflawn, yr oedd i'r brawd i fod yn un gweddol gynes dan y weinidogaeth, er dal ei freichiau i fyny mewn ystyr ysprydol,) ac o ran ei feddwl a'u hamenau a'u hocheneidiau brwd, gan eneinio lleithig ei draed yn y cyfryw amgylchiadau, yn aml a'u dagrau. A phlant y rhai hyn sydd yn eneinio ei arch â'u dagrau, a deimlant mor frwdfrydig dros gael ei lwch i orwedd a huno yn mynwent Blaenanerch—ogof Magpela, etifeddion yr addewid yn yr ardal hono.

Dydd Mawrth, Ionawr 20fed, 1875, ydoedd dydd ei gladdedigaeth. Ac er fod y tywydd yn hynod anffafriol, ac yn adeg anffafriol o'r flwyddyn, a'r teulu heb anfon at neb yn y Sir, nac allan o honi, daeth tyrfa luosog iawn i'r gladdedigaeth. A dyma oedd wedi llyncu y cwbl braidd yn y gymydogaeth hon y pryd hwnw—marw a chladdu. Y dydd o'r blaen, yr ydoedd yr holl ardal wedi bod yn claddu yr hyn ydoedd farwol o'r ffraeth-bert Mr. Daniel Davies, Tanygroes. Ac erbyn bod y bobl gartref, a chyn eu bod wedi cael amser i sychu eu dagrau ar ol Mr. Davies, dyma gladdedigaeth Mr. Jones ganddynt i fyned iddi—peth mwy chwith a siomedig eto, yn gymaint a bod yr olaf yn llawer ieuangach, ac yn gryf ac iach mor ddiweddar, pan ydoedd y llall wedi myned yn fusgrell, ac yn methu myned allan o'i dŷ er ys tro—i wylo dagrau ar ddagrau, a theimlo rhwygiad ar rwygiad.

Yr ydoedd Mr. Jones yn ei gladdedigaeth yn debyg i'r hyn ydoedd yn ei fywyd fel pregethwr. Yr ydoedd y claddedigaeth, ag ystyried yr hîn—yn lluosog iawn, fel y dywedwyd yn barod, ac yn cael ei wneyd i fyny

o wahanol enwadau crefyddol—felly ei wrandawyr yn ei fywyd. Yr hyn ni welir yn aml yn y dyddiau hyn, yr ydoedd yn y gladdedigaeth ddau offeiriad; a siaradodd un o honynt—y Parch. Mr. Lloyd, Troedyraur—yn rhagorol ar nodweddion Mr. Jones fel dyn ac fel pregethwr.

Yn y tŷ cyn cychwyn i'r capel, darllenodd a gweddiodd y Parch. John Jones, Penmorfa. Yn y capel, darllenwyd a gweddïwyd gan y Parch. O. Thomas, Brynmair (A.) Yna galwyd ar amryw frodyr cyhoeddus o wahanol enwadau crefyddol, i anerch y gynulleidfa ar yr achlysur galarus a chyffrous; yr hyn a wnaed gyda theimlad a nerth neillduol. Wedi rhoddi ei gorff i lawr mewn bedd newydd, yn yr hwn ni ddodasid dyn o'r blaen, wedi ei naddu mewn craig, yr hwn sydd yn nghyntedd y capel, o flaen ffenestr y pwlpud, siaradwyd ar lan y bedd gan yr ysgrifenydd. Ac wedi canu—yn hytrach methu canu—y pennill:—"Mor ddedwydd yw y rhai trwy ffydd," &c., a gweddïo gan y Parch. John Jones, Ceinewydd, ymadawodd y dyrfa yn anewyllysgar (er fod y tywydd yn peri ei bod yn anhawdd iawn sefyll allan o gwbl,) gan haner sylweddoli ei bod yn gadael ar ol yn y bedd gorff yr hen weinidog parchedig, fu yn eu difyru a'r ymadrodd am y groes am ddeugain mlynedd. O! mor anhawdd ydoedd sylweddoli y gwirionedd, na chaem mwyach weled y wyneb llydan a siriol, na chlywed mwyach y llais mawr, y waedd nerthol, na'r *intonation* effeithiol—O mor anhawdd oedd sylweddoli hyn uwch ben ei arch, ac wrth ei fedd y diwrnod hwnw! a mwy anhawdd byth ydoedd dygymod a hyn y pryd hwnw. Gallwn ddyweyd am dano, fel y dywedodd ef am y diweddar Mr. Jones, Aberystwyth, ein bod yn dychymygu gweled y Cyfarfod Misol, a'r Gymmanfa, a Chymdeithas Dirwest, &c., &c.—ie, Cyfarfodydd Crefyddol a Moesol y wlad oll, yn eu *mourning* yn colli eu dagrau ar fedd yr hen Flaenanerch anwyl; ac y maent heb sychu eu dagrau hyd y dydd heddyw.

Yr ydoedd Mrs. Jones yn wael ei hiechyd i raddau o'i flaen ef, ac yn ymddangos yn gwanychu er ys tro. Ond nid ydoedd niwed mawr yn ymddangos mewn cysylltiad â hi wedi y cwbl. Yr olwg ddiweddaf a welsom ni arni, er ei bod yn ymddangos i raddau yn wanaidd, ac yn curio gan henaint yn dechreu dyfod yn mlaen; meddyliem er hyny, y gallasai ei oroesi ef am flynyddoedd. Pa fodd bynnag, fel arall y bu; ni bu byw ar ei ol ond hyd y chweched o Fawrth yn yr un flwyddyn. Bu farw yn ddisymwth iawn. Clywyd hi yn gwneyd rhyw sŵn yn y gwely ganol nos, ac erbyn myned yno, yr ydoedd yn marw. Fel hyn, bu farw yn fuan iawn ar ol ei hanwyl briod. Bu farw fel y dywedwyd yn ddisymwth a disseremoni; ond nid yn ddibarotoi ar gyfer hyny yn ddifrifol ar hyd ei hoes; a gwneyd ei rhan yn dda, fel boneddiges gall a rhinweddol, fel aelod yn Blaenanerch, ac fel ymgeledd gymwys i Mr. Jones, yn ei fynediad allan, a'i ddyfodiad i mewn gydag efengyl y deyrnas. Buont fyw gyda'u gilydd am flynyddoedd yn gysurus a defnyddiol, a buont feirw yn agos yr un amser, a gorphwysa eu llwch yn nghyd yn mynwent Blaenanerch, hyd y dydd y cant gyd-gyfodi ar 'ddisglaer wedd eu Prynwr,' ac ail ymuno a'r "*hen ffryndiau,*" wedi iddynt hwy gysgu digon yn llwch y ddaear. Wel, cysgwch bellach, a gorphwyswch yn dawel, hyd y boreu hwnw.

Erbyn hyn, mae Mr. James wedi gosod *Marble Monument* teilwng o'u coffadwriaeth ar eu beddau; yr hwn sydd yn harddwch i'r fan, ac yn gredid i Mr. James a'r teulu.

## PENNOD XIII.

*Mr. Jones fel pregethwr—Ei nodweddion neillduol—Ei boblogrwydd—Amryw bethau yn cael eu nodi er cyfrif am ei boblogrwydd am 42 o flynyddoedd; megys gwres angherddol ei yspryd, ysgrythyroldeb ac eglurder ei bregethau, ei ymddangosiad corfforol, ei allu i siarad, a nerth ac amrywiaeth ei lais, tlysni ei gydmariaethau, a phertrwydd llawer o'i ddywediadau.*

TEIMLWN anhawsdra, a hyny o herwydd mwy nag un rheswm, i roddi desgrifiad o Mr. Jones fel pregethwr. Y mae perygl i ni ar un llaw ei ddyrchafu yn ormodol, a'i roddi i eistedd yn rhy uchel, fel y byddo yn brofedigaeth i rywrai ddywedyd wrtho—"Y cyfaill, eistedd yn îs i lawr;" neu yn hytrach ddywedyd wrthym ni, am ei osod i eistedd yn îs i lawr, a ninnau trwy gywilydd orfod gwneyd hyny. Ac y mae perygl i ni ar y llaw arall ei osod i eistedd yn rhy bell i lawr yn mhlith ei frodyr; ac felly, gam-synied yn y cyfeiriad hwnw drachefn. Ni fynwn er dim—ac yn wir, ni feiddiwn o'n bodd, "rhag ofn y bobl"—gamsynied yn y cyfeiriad diweddaf ychwaith.

Anhawdd ydyw dyweyd pa le oedd ei gartref fel meddyliwr a chyfansoddwr ei bregethau; oblegid nid ydoedd dan un ddeddf o'i eiddo ei hun, nac eiddo neb arall—buasai mor wahanol yn hyn, nid yn unig i bawb arall, ond hefyd iddo ei hun ar wahanol amserau. Yr ydoedd yn myned yn uchel weithiau, a hyny fel heb yn wybod iddo ei hun; ond nid yma yr ydoedd ei gartref ef. Disgynai hefyd weithiau yr un modd i'r dyfnder, ond amlwg ydoedd mai nid yn y dyfnder chwaith ydoedd ei drigfa ef. Eithr er nad ydoedd efe yn ymgartrefu ar glogwyni uchel

mynydd Duw, i syllu o'r fan hono ar ryfeddodau a gogoniant anfeidroldeb Duw yn nhrefn yr efengyl; ac er na feddai ar y gallu na'r beiddgarwch i gloddio yn ddwfn iawn i gyfoeth eu seiliau, at feini tywyllwch a chysgod angeu, a'u dwyn allan i olwg ei wrandawyr i'w synu a'u difyru gyda'u dyeithrwch a'u gwerth. Eto mynydd Duw ydoedd ei drigfa yntau; ac yr ydoedd yn bur gyfarwydd a'i lechweddau mwyaf ffrwythlawn. Nid ydoedd, y mae yn wir, mor fedrus a rhai o'i frodyr i ganfod a dangos y blodau a dyfant arno, i foddhau chwilfrydedd a chywreinrwydd y gwamal, a'r beirniad dinewyn. Eithr yr ydoedd mor lew a nemawr o honynt, i ddwyn ei wrandawyr ar hyd y llwybr unionaf a hawddaf at ddaear ar y mynydd sanctaidd, i ddwyn bara allan i gynnal eu calonau; ac i'r llanerchau arno, lle y tyfa y gwinwydd a'r olewwydd, er cael gwin i lawenychu eu calon, ac olew i beri i'w gwynebau ddisglaerio; ac at y ffynnonau dyfroedd yn cerdded trwy y dyffrynoedd, a rhwng y bryniau; a'r lle y planodd efe gedrwydd Libanus, lle y nytha adar y nefoedd, y rhai a leisiant oddi rhwng y cangau —yr ydoedd efe yn ddoniol i ddenu ei wrandawyr at y gwrthddrychau pwysig a dyddorol yma, a berthynant i'r mynydd sanctaidd.

Yn nechreuad ei weinidogaeth, pregethai yn aml yn daranllyd iawn; a diau y bu y dull hwn yn foddion argyhoeddiad i fywyd i lawer drwyddo yr adeg hono. Modd bynnag, gadawodd y cyfryw ddull braidd yn llwyr, yn bur gynar yn ei oes, o bregethu. Nid ydym yn gwybod paham. Gallem gasglu mai un rheswm am hyny ydoedd, fod ansawdd crefydd yn y wlad wedi oeri i raddau mawr, o'r hyn ydoedd pan ddechreuodd ef bregethu; felly, i'r gwres angerddol ydoedd yn ei yspryd yntau i gilio hefyd i raddau. Ac y mae yn ddiameu hefyd fod dull mwy efengylaidd o bregethu yn fwy cydnaws a'i natur ef, er fod ei ddawn y mae yn debyg,

yn enwedig fel yr ydoedd y pryd hwnw, yn gweddu yn dda i'r dull arall. Ar ol hyny, aeth i bregethu yn athrawiaethol a Chalfinaidd neillduol. Ond deallodd ei hun yn fuan—trwy i rai o'i gyfeillion mwyaf craffus awgrymu hyny iddo yn benaf, y mae yn ymddangos—nad ydoedd y dull hwnw yn gymwys iddo ef mewn un modd. A rhoddes ef heibio am byth, o ran arddull a'r wedd or-galfinaidd oedd ar ei bregethau yr adeg hono—yr ydoedd i fesur helaeth yn rhydd ac eang o ran ei olygiadau duwinyddol yn ystod ei flynyddoedd diweddaf. Ac yr ydoedd am y rhan fwyaf o'i oes wedi cael gafael ar ei fan a'i waith priodol ei hun fel pregethwr—cyhoeddi yr "hen efengyl," ys dywedai efe, yn y wedd mwyaf efengylaidd a serchus arni fel cenadwri bywyd byd euog, a "*dedwyddwch* a *braint* y Cristion." Gwelodd mai nid ei swyddogaeth na'i fedr neillduol ef ydoedd arwain y cannoedd a'r miloedd a dyrent i'w wrando o dro i dro ar hyd a lled gwlad, at y "mynydd teimladwy sydd yn llosgi gan dân, a chwmwl, a thywyllwch a thymestl," &c. Eithr deallodd yn lled gynar yn ei oes, mai ei briodwaith ef ydoedd eu harwain i "fynydd Seion; ac i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol, ac at fyrddiwn o angylion. I gymmanfa a chynulleidfa y rhai cyntaf anedig, y rhai a ysgrifenwyd yn y nefoedd, ac at Dduw Barnwr pawb, ac at ysprydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd. Ac at Iesu Cyfryngwr y Testament Newydd, a gwaed y taenelliad, yr hwn sydd yn dywedyd pethau gwell na'r eiddo Abel." Yr ydoedd efe i raddau mawr yn gartrefol gyda y pethau hyn oll, yn yr ystyr a roddwn iddynt yn awr; ac yn fedrus i arwain ei wrandawyr atynt. Gellid meddwl ei fod wedi cymeryd llety yn ninas Duw, y Jerusalem nefol, yn niwedd ei oes, gan mor gartrefol yr ymddangosai ynddi wrth siarad am dani, ac mor hoff ydoedd o'i desgrifio a'i chanmol. Ni phregethai un bregeth braidd, heb son llawer am y nefoedd a'i dedwyddwch, rhagorfreintiau y teulu yno,

&c. Ac ymddengys mai un o'r pregethau olaf a gyfansoddodd ac a draddododd ydoedd ar y geiriau :—" Nid amlygwyd eto pa beth a fyddwn," &c. A mynych y tynai i mewn i'w bregethau, gan nad pa beth fyddai y testyn, ryw hoff sylwadau ydoedd ganddo am y nefoedd ; megys " y nefoedd yn y dafn yw hi yma ; ond nefoedd yn y cyflawnder yw hi *'rochr draw.* Y blawd yn y celwrn yw hi yma, i gadw y Cristion rhag y newyn ; ond hen ŷd y wlad yn y *warehouse* fawr yw hi draw," &c., &c., &c.

Y mae yn hysbys fod poblogrwydd yn nodweddiad neillduol ei bregethau a'i bregethu trwy ei oes. A diau ei fod yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd Cymru yn ei oes ; ac fe allai y mwyaf poblogaidd yn Nghymru, adeg olaf ei oes, gan luaws y bobl, a chymeryd Cymru a threfydd Lloegr, lle yr ydoedd ef yn adnabyddus, i mewn yn gyffredinol. Dyma farn y Parch. O. Thomas ar y mater hwn y mae yn debyg, a phwy all farnu yn well gyda golwg ar bwnc o'r fath ? Dechreuodd yn annghyffredin o boblogaidd, fel y dywedwyd o'r blaen, a hyny yn mhob man ; ond nid yn unman yn fwy nag yn ei gartref a'i gwmpasoedd ; a daliodd yn boblogaidd am 42 o flynyddoedd ; ie, ennillai mewn poblogrwydd yn Nghymru yn gyffredinol y mae yn ymddangos o hyd, hyd y diwedd. Daliodd i raddau mawr yn boblogaidd yn ei gartref, a'r capelau nesaf i'w gartref, hyd y diwedd ; er na feddai ar amrywiaeth, na gallu meddwl neillduol yn ei bregethau. Buasai rhai pobl a berthynent i enwadau eraill—ac aml i Fethodist hefyd o ran hyny, o gwmpas ei gartref—yn dyweyd nad ydoedd yn bregethwr mawr, ac nad ydoedd dim newydd ganddo, yn aml yn gadael eu cartref, ac yn rhedeg i'w wrando ef yn haner lladradaidd, pan ddeuai yn weddol agos. Ac os ai i ranau uchaf ei Sir ei hun, nid oedd neb, pwy bynnag o Ogledd neu Dde, a gasglai fwy o bobl i'w wrando yn mhob man, ac ar bob adeg, nag ef. Pan fuasai ef am Sabboth yn rhai

o gapelau uchaf, neu hyd yn oed canol y Sir, buasai pawb yn codi allan y Sul hwnw fel mater o gwrs, a phobl ieuainc ac eraill y capelau cyfagos yn cymeryd *license* i esgeuluso eu cydgynulliad, er mwyn myned i wrando'r hen Flaenanerch; ac nid oedd perygl mawr galw i gyfrif am y trosedd gan y blaenoriaid; o herwydd yr oedd wedi myned yn arferiad gwlad, ac yn aml iawn gwelid rhai o'r blaenoriaid eu hunain yn euog o wneyd yr un peth. Buasai shopwyr y pentref, a chryddion a theilwriaid y gymydogaeth, yn gwybod yn aml fis neu ddau cyn yr amser, am gyhoeddiad Jones, Blaenanerch, yn nghapel y gymydogaeth; a sicrhai yr ymdrafodaeth yma ef yn boblogaidd yn mryd y dosparth pwysig hwn, pe na buasai dim arall. Clywsom y Parch. John Evans, Abermeurig, ac eraill o'r cyfeillion yn y lle, yn dyweyd fod teilwriaid a chryddion yr ardal—rhai o honynt yn Socin-iaid—yn y cyffredin, yn dyfod i wybod rhyw fis neu chwech wythnos yn mlaen am ei gyhoeddiad ef yn Abermeurig, fel pe buasai Cymmanfa neu Gyfarfod Misol yn dyfod i'r lle—yr oedd pawb yn codi allan y Sul hwnw, ac yn ceisio ymddangos mor drwsiadus ag y medrent, am y gwyddent y byddai yno lawer o bobl yn nghyd. Ymddengys ei fod yn un o'r rhai mwyaf poblogaidd yn Aberystwyth, er ei fod yn myned yno yn lled aml drwy ei oes. Un rheswm am ei boblogrwydd yno ydoedd, am fod yno ddosbarth o ddynion, o tua Trefechan a'r *back streets* yn y dref, yn dyfod allan i'w wrando ef, na welid yn gwrando neb arall braidd un amser—yr oeddent yn ei adnabod ef yn dda, tra na wyddent ddim am enwogion dyeithr. Am ei boblogrwydd annghyffredin trwy y gwledydd yn y De a'r Gogledd, gwyr y gwledydd yma yn dda. Dwy waith y bu yn Llundain; ond mae yn debyg na bu neb yno yn fwy poblogaidd nag ef erioed. Ac nid aml y bu yn Liverpool, ond anaml y bu yno neb yn fwy poblogaidd. Gwelsom hyny y

Gymmanfa ddiweddaf y bu yno. Er fod yno gasgliad o yn agos holl enwogion y cyfundeb y tro hwnw, gellid meddwl nad ydoedd yno neb (o herwydd ei ddyeithrwch mewn rhan yn ddiau,) a chymaint o ddisgwyl gan y lluaws wrtho, a'r hen Flaenanerch. Ni wnawn yn mhellach yn y modd yma, ond adrodd y ddwy ffaith a ganlyn, er dangos ei boblogrwydd braidd digymar, yn agos i derfyn ei oes. Cymerodd y naill le yn Ngogledd Cymru, a'r llall yn y Deheudir.

Nos Sabboth, ar ol y Gymmanfa ddiweddaf y bu ef ynddi yn Bangor, yr oedd i bregethu—yn ol fel ein hysbyswyd—yn y Tabernacl, capel mawr Bangor, Mr. Jones, Blaenanerch; a dau o'n pregethwyr mwyaf galluog a phoblogaidd ni i bregethu yr un pryd, yn capel y Twrgwyn, yn yr un ddinas. Yr oedd capel y Twrgwyn yn lled wag, a'r Tabernacl yn orlawn, ac ugeiniau allan ar y *street*, wedi methu cael lle i fyned i mewn.

Yn Nghymmanfa Llanwrtyd, yn fuan ar ol marwolaeth Mr. Jones, Aberystwyth, y digwyddodd y ffaith arall y cyfeiriwn ati. Yn y seiat wyth, dydd mawr yr Wyl, yr oedd coffad am farwolaeth Mr. Jones; ac amryw o'r brodyr yn siarad yn dda iawn, ac yn dyweyd am wahanol rinweddau Mr. Jones yn bur ddoniol. Yn y diwedd, ceisiwyd gan Mr. Jones, Blaenanerch, i ddyweyd gair am yr ymadawedig; ac ofnid braidd i wneyd hyny hefyd, oblegid gwyddai llawer fod y ddau Jones wedi bod yn gwrthwynebu y naill y llall yn lled selog ar fater y priodasau, ryw ychydig amser cyn marwolaeth Mr. Jones, Aberystwyth; a bod yr ymadawedig wedi ymosod yn bersonol, dipyn yn llym, ar ol iddynt fod yn croes ddadleu yn y Gymmanfa, ar Mr. Jones, Blaenanerch, nes y teimlodd yn fawr ar y pryd. Ond yr ydoedd y ddau wedi maddeu y naill i'r llall, yn mhell cyn i un fyned i'r nefoedd, ac i'r llall ddyfod i'r Gymmanfa hon—ac yn wir, dechreuodd maddeuant gerdded o'r ddwy ochr, y

mae yn debyg, cyn ymadael o'r Gymmanfa y bu y ddadl ynddi. A phrawf ei fod ef wedi llwyr faddeu—ac o'i du ef yr oedd yr anhawsdra i wneyd yn sefyll—oedd yr hyn a ddywedodd efe am ei frawd ymadawedig ar yr achlysur dan sylw. Wedi tipyn o gymell arno, cododd, a dechreuodd siarad mewn llais trymaidd iawn ar y cyntaf. Dywedai nad oedd ganddo ef ddim neillduol, ond ei fod yn teimlo hiraeth ar ol Mr. Jones, a'i fod yn meddwl am y geiriau hyny mewn cysylltiad ag ef wedi marw :—"Pa fodd y tywyllodd yr aur coeth da ?" —"Yr ydwyf fi," meddai, "yn dychymygu gwel'd Cyfarfod Misol Sir Aberteifi yn ei *mourning* y dyddiau yma ar ei ol. Y mae dysgyblaeth eglwysig, Cymdeithas Dirwest, a Diweirdeb, yn eu *mourning* yn wylo y dagrau ar ei ol gyda ni yn Sir Aberteifi." Siaradodd yn mlaen yn y modd yma am dano gyda rhyw ddylanwad rhyfedd arno ei hun ac eraill. Yn fuan, wele y cyhoeddwr yn hysbysu trefn y moddion cyhoeddus yn y gwahanol gapelau. "Am 10, yn y capel hwn"—capel y Methodistiaid—"mae hwn a hwn," gwyr enwog a phoblogaidd iawn ; a phawb yn aros yn llonydd. "Yn nghapel y Bedyddwyr, y mae hwn a hwn i fod," a neb yn symud, ond edrych yn ddisgwyliadwy o hyd ar y cyhoeddwr. "Yn nghapel yr Annibynwyr, yr ochr arall i'r afon, y mae hwn a hwn,"—a neb yn aflonyddu dim—"a Mr. Jones, Blaenanerch." A chyda hyn, dyma y bobl yn rhuthro allan o'r capel, fel pe bae wedi cymeryd tân, a ffwrdd a hwy tua chapel yr Annibynwyr—y ffordd tuag yno yn llawn pobl, a rhai yn rhedeg, a phawb yn brysio er achub lle yn nghapel y "*Dissenters*," i wrando Mr. Jones, Blaenanerch.

Gellid nodi llawer iawn o engreifftiau o'r un natur a gymerodd le mewn cysylltiad ag ef mewn gwahanol fanau, a hyny i raddau mawr drwy ei oes o bregethu. Ond gan fod ei boblogrwydd neillduol mor hysbys trwy y gwledydd, gadawn ar hynyna o nodiadau

ar hyny yn bresenol, y rhai a wnaethom yn benaf er mwyn yr ieuainc na chawsant ei glywed ef yn pregethu.

Yn awr, rhaid fod rhyw reswm, neu resymau am y ffaith hon, a bod rhyw fawredd gwirioneddol yn y dyn a ddaliodd fel hyn yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd Cymru—gwlad a gafodd ei breintio mor helaeth a'r ddawn yma er ys oesau, a gwlad sydd yn gwneyd hobi o wrando, a phwyso, a mesur pregethau a phregethwyr—rhaid yr oedd rhyw fawredd yn y dyn a ddaliodd i fod yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd y wlad yma am ddwy a deugain o flynyddoedd, ac a gynnyddai felly ynddi hyd ei fedd.

Ymdrechwn, o hyn i'r diwedd, ddangos paham y bu felly, neu yn mha beth neu bethau yr ydoedd ei boblogrwydd mawr yn gynwysedig.

Gwyddom na lwyddwn yn hyn ond yn rhanol ac anmherffaith iawn. Y mae rhywbeth yn gynwysedig yn mhoblogrwydd dynion, na ellir ei esponio yn aml, na chyfrif am dano; ac amrywia lawer yn aml mewn gwahanol bersonau. Bod yn boblogaidd fel efe ei hun, y mae pob un gwir boblogaidd, yr hwn y mae Duw wedi ei wneyd felly. A dyma un rheswm paham y tramgwyddai rhai wrth boblogrwydd Mr. Jones; am nad ydoedd yn fawr a phoblogaidd yr un fath ag eraill—E. Morris, John Elias, H. Rees, ac eraill. Pa fodd bynnag, gallem dybied fod cydgyfarfyddiad y pethau canlynol yn Mr. Jones, yn rheswm i raddau mawr am ei boblogrwydd trwy ei oes:—Gwres anngherddol ei yspryd—Ysgrythyroldeb ac eglurdeb ei arddull—ei allu annghyffredin i siarad—nerth ac amrywiaeth braidd annghydmarol ei lais—maint ag agwedd ei gorff—a thlysni neillduol llawer o'i gymariaethau. Ac y mae yn ddiddadl fod cydgyfarfyddiad helaeth o'r pethau yma ynddo ef fel pregethwr; a'r pregethwr a feddai gymaint o ragor-

iaethau wedi eu cyfuno yn hardd ynddo, nis gallasai lai na bod yn boblogaidd yn Nghymru.

Yr ydoedd gwres a thynerwch, teimlad ac yspryd, yn un o nodweddiadau mwyaf arbenig ac effeithiol cymeriad Mr. Jones fel pregethwr. A dyma, yn ol ein meddwl ni, a roddai fôd yn benaf i fater a ffurf ei bregethau a'i weddïau, yn gystal a thonau ei lais—yn enwedig yn nechreuad ei grefydd a'i bregethau. Yr ydoedd wedi cael ei eni a'i fagu mewn ardal yn arfer bod yn gynes grefyddol, yn fangre adfywiadau aml, ac ardal wedi ei delweddu i raddau mawr gan ddylanwad "Morrisiaid Mawr yr Iesu," o Twrgwyn; ac yntau yn ddisgybl uniongyrchol i Mr. E. Morris, ac yn ddiau wedi dal gafael mewn graddau o yspryd, os nid arddull y dyn enwog hwnw o siarad—yn gymaint a'i fod yn edmygydd braidd diderfyn o hono; ac hefyd, yr ydoedd fel y dywedasom yn barod, wedi dyfod at grefydd ar adeg o gryn gyffroad crefyddol yn y wlad. A thrwy bobpeth, nid rhyfedd fod y gwres yspryd, a'r naws cynes yma yn nhymer Mr. Jones i'r fath raddau, ac yn allu mor gryf yn nodweddiad ei holl fywyd fel dyn cyhoeddus. Yr yspryd a'r teimlad tanllyd yma yn benaf, oedd yn creu pregethau iddo ef ar hyd ei oes; a chreai hwy yn agos o ddim iddo hefyd mewn ystyr, ar y cyntaf. Nid gweithio ei bregethau allan yr ydoedd efe; ond eu teimlo allan—eu toddi allan a wnai. Ac nid deall pa un oedd y bregeth fawr oedd ef—teimlo hyny fyddai yn wneyd. Ac yr oedd y teimlad yma yn dylanwadu yn fwy na chyffredin ar holl beirianwaith ei bregethu trwy ei fywyd. Dyma yspryd y pethau byw, mor bell ag yr oedd y dyn yn y cwestiwn, a ysgogai ac a lywodraethai yn benaf o lawer holl olwynion ei bregethu ef. Hwn a godai wen ar ei wyneb, a ddyrchafai, doddai, ac a gordeddai ei lais; a hwn oedd y *conductor* a dynai y mellt a'r gwlaw o'r adnodau a adroddai, nes goleuo ac addurno y nefoedd, a gwlychu, a maethu, a ffrwythloni y

ddaear. Yr ydoedd y gwres yspryd, a'r tynerwch teimlad yma felly yn un elfen fawr a bywydol yn ei bregethu ef trwy ei oes, ac yn cyfrif i fesur helaeth am ei boblogrwydd fel pregethwr.

Peth arall a'i nodweddai mewn modd neillduol, ydoedd Ysgrythyroldeb ac eglurdeb ei bregethau; a diau y cyfrifai hyn hefyd i raddau am ei boblogrwydd. Yr ydoedd ei amddifadrwydd o lyfrau yn moreu ei oes, wedi bod yn fantais iddo ymgydnabyddu â'r Beibl, a chofio llawer o hono y pryd hwnw. Cyn dechreu pregethu, ac ar ol hyny am gryn amser, fel y dywedwyd eisioes, yr oedd y Beibl yr unig fwnglawdd o'r bron yn ei gyraedd ef i dynu o hono; fel y bu i raddau mawr iddo ef drwy ei oes. Ac fel hyn yr ydoedd wedi dyfod yn hynod gyfarwydd âg adnodau y Beibl. A thrwy fod ei gof yn dda, yr oedd yn gallu eu cofio mor berffaith o ran eu geiriad, a gwybod mor dda yn mha lyfr a phennod yr oeddent agos oll. Heblaw hyn, yr ydoedd wedi arfer edrych ar y gwahanol adnodau mewn cysylltiad a rhyw bwnc o athrawiaeth, fel yr oeddent ganddo yn barod i wasanaethu arno mewn unrhyw angenrhaid—nid oedd raid iddo ond dyweyd wrth un Dos, dyna hi yn myned ar ei amnaid, ac wrth arall Gwna hyn, a hi a'i gwnai ar ei air. Yr ydoedd yn fedrus yn hyny, sef i weled rhyw fater—mater ger bron seiat y Gymmanfa neu Gyfarfod Misol—yn dal perthynas â rhyw adnodau, a'r adnodau hyny bob amser yn barod i wasanaeth yn ei feddwl ef. Gellid meddwl wrth ei fod yn adrodd adnodau ar ryw achlysuron o'r fath, gyda y fath berffeithrwydd o ran y llythyren, a'r fath oslef, a phwysleisiad cymwys i'r amcan, ei fod wedi bod yn rhag-barotoi yn ofalus ar gyfer yr amgylchiad, pan y gwyddid yn dda gan ei gyfeillion nad ydoedd wedi rhag-barotoi dim. Ond yr ydoedd yr adnodau gydag ef bob amser, ac yn barod i waith pan y cynhyrfid ei yspryd i'w galw ato. Ac nid yn unig medrai adrodd adnodau yn ddoniol ar

ryw fater, ond buasai ganddo ryw sylwadau tarawiadol mewn cysylltiad a'r rhan amlaf o honynt, a barai iddynt gyraedd trwodd gan amlaf; megys pan adroddai yr adnod—" Mai os cyffesu a'th enau yr Arglwydd Iesu," &c. Wedi ei hadrodd, dywedai yn iaith yr annghredadyn— " Ie, yr oeddwn i yn meddwl fod, os ynddi yn rhywle." " Wel ïe," atebai yntau, " genyt ti mae'r *osau*, ac nid gan Dduw. Rho di heibio dy *osau* di, nid oes un *os* yn yr hen drefn am dy gadw di—'cadwedig a fyddi.' " Eto pan ddygai yr adnod :—" Yr hwn y mae y Mab ganddo, y mae y bywyd ganddo,"—i brofi rhyw fater, buasai yn y cyffredin yn dyweyd :—" Yr hwn y mae y Mab ganddo, y mae y bywyd ganddo, pe buase fe y cardotyn yn ei fwthyn; a'r hwn nid yw ganddo Fab Duw, nid oes ganddo fywyd, pe buase fe frenin yn ei balas." A'i fedr gyda yr adnodau yma, oedd ei nerth ef lawer fel siaradwr a phregethwr—ei waith yn adrodd adnodau, nes eu gwneyd " yn well nag adnodau," fel y dywedai ein cyfaill J. Parry yn ei farwnad ar ei ol; a " phwy fedrai eu hadrodd fel efe," ys dywedodd brawd yn Nghymmanfa Bangor, wedi ei wrando yn pregethu yn un o'r cyfarfodydd yno. " Fe fyddaf fi yn methu deall beth y mae y bobol yn weled yn yr hen Jones, Blaenanerch yna," meddai un pregethwr wrth y llall ar ol yr odfa. " Nid oes na barddoniaeth, nac athroniaeth, nac un meddwl newydd ganddo un amser—dim ond adrodd yr adnodau yna." " Wel ïe," meddai brawd arall oedd yn gwrando, " ond pa un o honoch chwi fedr adrodd adnodau 'run fath ag y gall o wneyd ?" Ni ddarfu i ni wrando ar ddim yn well erioed, fel cyngor i wŷr ieuainc yn cael eu neillduo i gyflawn waith y weinidogaeth, na'i eiddo ef yn Nghymmanfa Treforris, at yr hwn y cyfeiriasom yn barod. Adnodau ydoedd y cyngor agos i gyd—adnodau gwell nag adnodau. Ymddangosent wrth ei fod ef yn eu hadrodd gyda y fath eneiniad a nerth, fel pe yn cael eu

creu ar y pryd o bwrpas iddo ef gael ymaflyd ynddynt yn y fan hono, a'u taflu yn chwilboeth i blith y gwrandawyr—fel y dywedai Mr. D. Jones, Treborth, am yr hen bobl yn taflu eu sylwadau allan i'w gwrandawyr. Ac un o'r cyfarfodydd mwyaf hapus a dylanwadol a gafodd erioed, gellid meddwl, ydoedd traddodiad y cyngor hwn ganddo, yn gystal ag un o'r rhai mwyaf nodweddiadol o hono ef ei hun. Yn enwedig pan floeddiai ar *dop* ei lais:—" Y mae y bechgyn bach yma wedi bod mewn *examination* pur bwysig, i gael eu hordeinio yn y Gymmanfa yma; y maent wedi bod wrthi ddoe ac echdoe, yn galed iawn. Ond y mae arholiad mwy pwysig o'n blaen ni i gyd—*examination* y Farn—cofiwch am hono fechgyn anwyl—*passio* hono mewn anrhydedd yw y pwnc mawr i chwi, ar ol yr ordeinio a'r pregethu yma. Ac a wyddoch beth, fe fydda i, hen Gymro uniaith, yn meddwl *passio examination* y Farn *with honours;* ac yr ydw i bron gwaeddi, Henffych i'r boreu y munyd yma." Ac yn y fan yna y terfynodd, a'r bobl wedi annghofio pobpeth ar y pryd, ond dylanwad y cyngor yma o adnodau byw, nes y dygwyd y byd a ddaw, yn fyd presenol, i raddau mawr iawn, i feddwl pawb, gellid tybied, yn y lle.

Yr ydoedd efe hefyd yn eglur iawn o ran ei sylwadau, heblaw bod yn Ysgrythyrol iawn; ac i fesur mawr yr ydoedd yn eglur i luaws ei wrandawyr, am ei fod mor Ysgrythyrol. Ni byddai ef un amser yn ymgais at y dwfn a'r mawr, yn ol ystyr gyffredin y geiriau, er y dywedai ambell i sylw pur feiddgar weithiau yn ngwres yr hwyl. Dywedai rai prydiau, pan yn siarad am fawredd trefn gras, ac anfeidroldeb yr iawn:—"Fe fydda i weithiau yn dychymygu gwel'd yr Iawn, yn ysbïo yn y gwagle yna am ryw fyd euog eisiau'i gyfiawnhau, a rhyw greaduriaid aflan eisiau'u golchi, ar ol gorphen a'n byd ni —y mae digon o rinwedd yn yr Iawn ar gyfer angen bydoedd, chwaethach ar gyfer ein byd ni." Pan yn

dangos gwerth ac effeithiolrwydd esiamplau crefyddol ar y byd, dywedai a ganlyn yn aml:—"Fe glywch y gŵr crefyddol yn dyweyd weithiau am ei wraig ddigrefydd—'O! fe fyddai yn dda gen i pe gwelai yr Arglwydd yn dda roi crefydd i ngwraig i, y mae ofn arna' i y bydd hi farw yn ddigrefydd.' Rho di grefydd iddi, ŵr. 'Y wraig ddigred a sancteiddir trwy y gŵr. Bydded i dy ymarweddiad da di ei hennill—rho di grefydd iddi. 'Run fath fe fydd y wraig weithiau yn dyweyd, 'Fe fyddai yn dda iawn gyda fi pe cai ngŵr innau ras.' Rho di ras iddo." Yna adroddai 1 Pedr iii. 1, 2, a'r drydedd adnod yr un modd feallai, os buasai myn'd arni.

Nid ydoedd wedi cael yr addysgiad meddwl a'i temtiai i ymgyraedd at y dwfn a'r mawr yn ngwirionedd yr efengyl; ac ymddengys nad ydoedd yn meddu ar y math hwnw o feddwl a'i gwnai i ragori yn yr arddull hwnw o bregethu, pe buasai ei fanteision a'i addysg wedi bod yn wahanol. Nid ydoedd efe byth yn tasgu ei wrandawyr a gwaith mawr i feddwl, er gallu ei ddeall a'i ddilyn yn ei syniadau, nac yn peri iddynt gwestiyno eu cywirdeb un amser; ond caent eu cludo yn mlaen yn esmwyth a diberygl ganddo ar hyd wyneb dyfroedd, a heibio glanau pur adnabyddus iddynt. Ni welid ef un amser yn arwain ei wrandawyr i nofio mewn dyfroedd mor ddyfnion a dyeithr yn afon Dadguddiad, nes eu dychrynu rhag ymgolli, neu foddi o honynt yn eu dyeithrwch a'u dyfnder; nac ychwaith yn eu gadael ar lanau mor feision, nes peri iddynt feddwl bod eu llestri yn taro wrth y gwaelod a'r ochrau bob munyd; ac amlwg iddynt hefyd bob amser ydoedd, mai afon bur o ddwfr y bywyd ydoedd y dyfroedd bob dafn o hono, yn dyfod allan oddiwrth orseddfainc Duw a'r Oen. Fel hyn, pan yn gofalu peidio peryglu ymgolli yn mhellderau a dyfnderau dyfroedd y bywyd, gofalai ei fod ef a'i wrandawyr mewn dyfroedd digon dwfn i allu nofio yn dawel a hyfryd ynddo; ond nid yn rhy bell

iddo ef a hwythau i allu gweled pren y bywyd yn tyfu ar y glanau, a thynu o'i ffrwythau i dori eu newyn, a chymeryd o'i ddail i iachau eu clwyfau, a gweled rhai o'r blodau a'r rhosynau a dyfent ar ochrau y bryniau, ac ar fynwes y dolydd gerllaw. Yn ei flynyddoedd mwyaf adnabyddus a phoblogaidd, arosai braidd bob amser gyda y gwirioneddau mwyaf hyfryd i'r eglwys ac i'r byd —dedwyddwch a chysuron crefydd, a digonolrwydd trefn iachawdwriaeth ar gyfer y penaf pechadur; dyma ei bwncdestynau ef—tynai y materion hyn i mewn rywfodd, i bob pregeth braidd ar hyd y blynyddoedd diweddaf o'i fywyd. A diau fod hyn yn un elfen yn ei boblogrwydd mawr, sef ei fod fel hyn yn llefaru wrth fodd calon Seion, am fod ei hanwiredd wedi ei ddileu, ei dedwyddwch yn fawr, &c., ac wrth fodd calon y byd, am fod digon yn " Hen drefn Gras " ar ei gyfer yntau.

Yr ydoedd hefyd yn meddu ar allu annghyffredin i siarad. Nid yn unig yr oedd yn gallu bloeddio a chanu yn dda; ond yr ydoedd yn siaradwr da iawn. Medrai roddi ei gorff yn yr ystum oreu, a goslef ei lais, a'r pwyslais yn y modd mwyaf naturiol i natur y peth y siaradai arno; a siaradai yn rhwydd iawn a digoll bob amser, er ei fod yn araf neillduol ar y dechreu. Ond y mae yn ddiamheu mai yn ei allu lleisiol braidd digyffelyb ef, yr ydoedd cuddiad ei gryfder ef i raddau helaeth, fel siaradwr a phregethwr yn gynnwysedig wedi y cwbl.

Y mae yn agos a bod yn anmhosibl rhoddi desgrifiad perffaith o hono yn ei lais i'r neb nas clywodd ef; amrywiai gymaint ar wahanol adegau—ac yn aml wrth draddodi ei bregeth ar yr un adeg. Meddai ar lais mawr annghyffredin o ran nerth a chwmpas. Nid ydoedd ei lais mor beraidd a'r eiddo John Jones, Talsarn—beth bynnag yn yr amser y cofiem ni am dano. Ymddengys iddo golli rhyw nodau yn ei ddawn lleisiol, a graddau o bereidd-dra ei lais, trwy y clefyd y bu ynddo

fel y dywedwyd o'r blaen. Yr oedd ei lais ef yn mwy ceuol na llais Jones, Talsarn, ac yn llai gyddfol; ond yr oedd yn llawn mor nerthol a llais y pregethwr seraffaidd o Dalysarn. Ac yr ydoedd y llais mawr a nerthol hwn, yn berffaith dan ei awdurdod ac at ei wasanaeth. Os *intonio* mewn sŵn gweddol gryf a dwfn fuasai eisiau, gwnai hyny yn ewyllysgar. Os canu y bregeth mewn cywair uchel fuasai raid, parod ydoedd i wneyd hyny yn effeithiol. Ac os bloeddio ar ei uchder mwyaf gyda'i holl nerth ofnadwy, wedi i'w yspryd gael ei gynhyrfu i'w waelodion eithaf fuasai raid, gwnai hyny hefyd gyda nerth, ac uchder, a phereidd-dra annghyffredin iawn. Ond er y gallai floeddio yn uwch na neb a glywsom ni, a hyny am awr weithiau, nid bloeddiwr oedd ef. Ac er y gallasai ganu ei bregeth gyda medr ac effeithiolrwydd anarferol, a'i law ar ei glust, eto nid canwr pregethau oedd ef; torai i siarad o ganol ei floeddio, ac i *jokio* dan wenu â'i wrandawyr ar haner ei ganu yn aml.

Nid yw yn ymddangos ei fod yn debyg iawn ei ddawn ymadrodd i neb arall. Ac os cymerodd neb yn gynllun yn hyny, gellid meddwl mai E. Morris ydoedd hwnw. Clywsom Mr. Samuel Morris—mab yr efengylydd enwog o Twrgwyn—yn dyweyd fod rhywbeth yn ei ddawn a'i lais yn ei adgofio ef o'i dad weithiau. Ond nid yw debyg ei fod ef wedi meddwl am un *model* yn y byd. Achoswyd y tebygolrwydd ynddo i Mr. Morris, trwy ei fod wedi gwrando llawer arno, a'i edmygu gymaint pan yn ieuanc; yn gystal a bod graddau o debygolrwydd naturiol ynddo hwyrach yn hyny i'r llall; a gallai fod graddau o ddawn ymadrodd Cristmas Evans wedi bod yn ei foldio hefyd o herwydd yr un peth. Clywsom ef yn dyweyd unwaith, mai wrth ddynwared Ismael Jones y dechreuodd arfer rhoddi ei law wrth ei glust. Nid ydym yn gwybod dim a fu gan ddawn y dyn hwnw rywbeth â

ffurfio un o'r nodau amrywiol oedd yn ei lais. Pa fodd bynnag, y mae yn dra thebyg na feddyliodd ef fawr am gymeryd y naill na'r llall yn gynllun, ac nad ydoedd ymwybodol o un dylanwad o eiddo neb yn effeithio arno yn yr ystyr yma, os bu hyny. Ni wnaeth ef yn debyg iawn, ond gadael ei natur ei hun o ran gwres yspryd a theimlad, a nerth a chwmpas, &c., ei lais, a natur y pethau yr ymdriniai â hwynt yn eu perthynas a'i wrandawyr, i ffurfio ei ddawn a'i arddull ef fel siaradwr cyhoeddus.

Yr ydoedd ei ymddangosiad corfforol hefyd yn gynnorthwy i'w bregethu, ac yn cyfranu i'w boblogrwydd. Yr ydoedd tua phum troedfedd, ac wyth neu naw modfedd o daldra. Yr oedd ei frest yn llydan iawn, a'i gefn yn uniawn. Meddai ar ben lled fawr, gwallt ei ben, a'i gernau—y rhai a siafiai agos i gyd yn ol arferiad yr hen bobl—yn wyneuddu, nes yr heneiddiodd, a'i dalcen yn lled uchel a llydan iawn. Ei lygaid oeddent lwyd-ddu, ac heb fod yn fawrion; ei drwyn yn uniawn, ac o faintioli cyffredin; ei wyneb yn llydan (*leonine face*); ei enau yn llydan, a'i wefusau yn drwchus, a'i ddannedd yn naturiol. Yr oedd ei wisg (oddieithr pan ddechreuodd bregethu,) bob amser yn dda a thrwsiadus, a'i *linen* yn lan—yn adlewyrchu clod i Mrs. Jones bob pryd—er bod hyny yn anhawdd mewn cysylltiad ag ef, o herwydd ei fod yn chwysu cymaint. Gwyr pawb a'i gwelodd ei fod yn dew iawn—yn ddiarebol felly—yn agos trwy ei oes. Ond er ei fod yn dew iawn, nid ydoedd hyny yn ei anharddu ef, na'i anmharu i'w waith mawr mewn un modd. Nid ydoedd yn gochddu yn ei wyneb fel ambell bregethwr tew, a'r rhan amlaf o'r tafarnwyr tewion; ac nid yw yn ymddangos fod y trwch mawr o gnawd hwnw yn gwanhau dim o'i beiriannau llafar ef, ond i'r gwrthwyneb. Ac yr oedd gweled dyn mawr golygus fel hyn—dyn na allasai neb dyeithr wrth fyned heibio iddo lai nag edrych arno, a theimlo fod yno ddyn a rhywbeth allan

o'r cyffredin ynddo—yr oedd gweled dyn fel hyn yn cyfodi ger eu bron yn y pwlpud, yn rhwym o roddi boddhad, a chreu disgwyliad mewn cynulleidfa, ac yn cyfranu i effeithiolrwydd ei bregethu, a mawredd ei boblogrwydd. Ac yn arbenig, yr oedd gweled y dyn golygus hwn yn gwenu yn nghanol hwyl nefol, ac yn cellwair tipyn yn chwareus a'i wrandawyr rhwng taranau o floeddio, yn llawer iawn er ei wneyd yn hoff-ddyn y lluaws. Fel y dywedai rhai weithiau, eu bod hwy yn cael mwy yn y cwrdd wrth weled yr hen Jones, Blaenanerch yn gwenu, nag oeddent yn gael wrth glywed llawer yn pregethu; a diau eu bod yn dyweyd y gwir.

Ond elfen arall yn ei boblogrwydd ydoedd tlysni llawer o'i gymariaethau a phertrwydd ei ddywediadau. Buom llawer tro yn synu ei fod mor rhydd oddiwrth gymysgu cymariaethau. Mae yn debyg nad ydoedd wedi darllen na meddwl dim am unrhyw reolau gyda golwg ar hyny erioed. Ond er hyny, nid ydym yn cofio ei glywed erioed yn cymysgu ei gymariaethau. Clywsom ef lawer gwaith dipyn yn isel a chartrefol gyda'i gymariaethau, yn enwedig pan yn pregethu o gwmpas gartref, ond nid un amser yn annaturiol, ac yn eu cymysgu. Ac yn awr, gwnawn orphen y bennod hon, yn gystal a'r llyfryn hwn o Gofiant Mr. Jones, trwy gyflwyno i'r darllenydd ychydig engreifftiau o'r cymariaethau a'r dywediadau hyn o'i eiddo, yn ol fel yr ydym yn cofio, ac wedi eu clywed—rai o honynt—gan eraill.

Yn nghladdedigaeth yr hynod T. John, Cilgeran, pregethai y Parch. Daniel Davies ac yntau yn hwylus dros ben. Ac yn agos i ddiwedd ei bregeth, dywedai Mr. Jones—wedi bod yn dyweyd llawer am yr enaid yn y nefoedd, a'r "hen gorff yn myned i orwedd yn mhriddellau y ddyffryn"—"'Rwy' i yn dychymygu gweled yr enaid ar ol bod yn y nefoedd am dipyn, a dechreu teimlo ei hunan gartref yn ngogoniant a dedwyddwch y lle, yn

myned i siarad â Iesu Grist gyda golwg ar gael y corff hefyd adre' yno. Gofyna iddo, 'Bryd daw yr hen ffrynd adre', ŵr? Y mae arna' i hiraeth am ei wel'd yntau wedi dod yma i'r lle da, o hen garchar y bedd.' 'Aros di dipyn bach,' atebai y Gwaredwr. 'Ymrodia di ar lanau'r afon bywyd yna ychydig bach; 'whare di dipyn ar gangenau pren y bywyd yna; bwyta o'i ffrwyth; a gwrando ar adar y nefoedd yn canu rhwng ei ddail am dipyn bach eto, fe fydd yr hen ffrynd ar lan erbyn hyny.'"

Weithiau buasai yn darlunio y corff yn myned i'r nefoedd yn y *luggage train*. "Mi wela' yr enaid," meddai, "yn myn'd adre' gyda chyflymdra wedi dechreu ei daith, gyda'r *express;* ond y mae yr hen gorff dipyn yn hirach yn dod i ben ei *siwrneu*—gyda'r *luggage train* y mae yn dod, y mae e yn gorfod troi o'r neilldu i aros tipyn yn y *station;* ond y mae yntau yn siwr o ben y siwrneu yn y man."

"Y mae ambell i grefyddwr," dywedai, "fel y daear-fochyn. Dywedir fod y daear-fochyn a rhyw gliniau bach ganddo un ochr, fel na all e ddim rhedeg ond rhyw un ffordd ar hyd ochr yr allt—y mae yn ei gwanafu yn mlaen faint a fyno, ond iddo gael ei ffordd ei hun; ond wna fe ddim a hi os halwch chi e i redeg ffordd arall. Fel hyny mae ambell grefyddwr—mae rhyw goes fer ganddo. Os halwch e i fyn'd ffordd arall, a fe ddim—mae rhyw glun fer ganddo. Mae ambell un y mae ganddo faint fynoch chi o gariad, ond dim cyfiawnder ac amynedd. Chi gewch rai, fe weddïan o *June* i *January*, ond dowch chi at y casgliad, 'ro'n nhw ddim at hwnw—redan' nhw ddim bob ffordd."

Yn y Gymmanfa ddiweddaf y bu ynddi yn Bangor, yr oedd Cyfarfod Dirwestol yn cael ei gynnal yn un o'r capelau nos gyntaf y Gymmanfa gyhoeddus. Ac er syndod i rai, dyma yr hen Blaenanerch i mewn, ac i'r côr

mawr. Ac wedi i amryw frodyr a bennodasid i hyny siarad, meddyliodd y cadeirydd — y Parch. Daniel Rowlands, am geisio gan Mr. Jones i ddyweyd rhywbeth yn gymaint a'i fod yno—pe buasai ddim ond dyweyd *rhywbeth* ar *rywbeth.* Gwyddai y buasai hyny yn dda gan y gynulleidfa – ni wyddai y cadeirydd fod yr hen frawd yn areithiwr mor ddoniol ar ddirwest yn dra thebyg. Ond ceisiodd ganddo beth bynnag, i ddyweyd rhywbeth yn y cyfarfod. Ni wnai ar y dechreu, ar gais y cadeirydd; ac nid ydoedd yn debyg iawn wedi meddwl dyweyd dim. Ond dyma y dyrfa wedi clywed ei enw, yn ei guro i fyny i siarad. Ac o'r diwedd, dyma ef ar ei draed i wneyd, a siarad yn effeithiol a hwylus a wnaeth hefyd y mae yn debyg. "Wel ie," meddai yn ei gyfarchiad, "Yr ydych chwi yn dyfod a Dirwest yn mlaen yn lle'r efengyl. Na, nid yn lle yr efengyl yr ydym ni am dd'od a Dirwest, ond gyda'r efengyl—yn llawforwyn i'r efengyl yr ydym ni am roddi Dirwest. 'Whare teg i ninnau, a 'whare teg i Ddirwest hefyd; y mae hi yn llawforwyn dda iawn. A Dirwest ar ol y dyn i'r dafarn a'r cwmni llawen, a diosga y dillad budron oddi am dano, er mwyn iddo dd'od i'r addoldy, i'r efengyl i gael gafael arno i gael ei wisgo yn y newid dillad—i roi y llian main am dano. Helpu yr efengyl mae Dirwest, ac nid myned yn ei herbyn. Ac y mae yn dda iawn i gadw gafael ar y bobl ieuainc yna rhag pyllau meddwdod, fel y byddo yr efengyl yn cael gafael ynddyn' nhwy—mae yn *gawell llawforwyn noble* i ddal Moses bach rhag boddi, nes y delo'r hen *Lady* heibio iddo, a'i gymeryd adre' gyda hi i balas y Brenin i'w ddysgu yn addysg y llys, a'i ddwyn i fyny ar fwrdd y Teulu Breninol."

*Y fam ai llygad ar y gadair a'r baban ynddi.* "Chi gewch wel'd y fam yn *fusy* gyda gwaith y tŷ; ond y mae ei llygad hi yn nghanol ei gwaith ar y gadair o hyd, rhag ofn fod rhywbeth o le yno; ac os rhydd y baban wawch,

fe adawa y fam y cwbl yn y fan i redeg at y bychan. Felly y mae yr Arglwydd a'i blentyn yn y byd yma—y mae ei lygad ef ar hwn o hyd. Y mae e yn dwyn gwaith yr *universe* yn mlaen ; ond y mae ei lygad ef ar y baban yma yn ei dŷ mawr, a'i glust yn gwrando ar ei anadl yn chwareu. Ac os â hwn i lefain, fe adawai Duw bob peth pe buasai raid, i ymgeleddu hwn :—'Llygaid yr Arglwydd sydd ar y cyfiawn, a'i glustiau sydd yn agored i'w llefain hwynt.' "

*Y Cristion yn Ddarlun o Grist.* "Yn ddiweddar gwnaeth cyfaill i fi ddangos palas gŵr boneddig i fi. Aeth a fi trwy ystafell ar ol ystafell, lle yr oedd amryw bethau ardderchog a gwerthfawr. Ond nid oedd y palas ei hun, na'r pethau a welwn i hyd yma ynddo, yn rhoddi un drychfeddwl i fi fath ddyn oedd y gŵr mawr ei hunan o ran maint a llun ei gorff, na gallu ei feddwl—dim ond tŷ y gŵr mawr oeddwn i wedi ei weled eto. Ond o'r diwedd, arweiniodd fy nghyfaill fi i *room* lle yr oedd darlun cyflawn a pherffaith iawn o'r boneddwr ei hun. 'Dyna i chi yn awr,' medd fy nghyfaill, 'rywbeth i ddangos sut un yw y gŵr mawr ei hunan.' Felly y greadigaeth yma, palas y Gŵr Mawr yw hon, ac nid oes yma ddim yn dangos fawr pa fath un yw Efe ei hunan. Y mae ystafelloedd y nefoedd yna yn hardd iawn, a gwastadedd yr hen ddaear yma yn brydferth i'w ryfeddu; ond ni wna nefoedd na daear ddarlun o'r Gŵr ei hunan. Ond os deuwch chwi gyda fi i ystafell arall yn ei feddiant, mi ddangosa i chwi ddarlun pur dda— a pherffaith pan orphenir ef—o'r Gŵr Mawr ei hunan. 'Oblegid y rhai a ragwybu, a ragluniodd Efe hefyd, i fod yn un ffurf a delw ei Fab Ef'—mae y Cristion yn ddarlun teg o'r Gŵr ei hunan."

*Duw yn ateb gweddiau ei bobl weithiau trwy y Telegraph.* "Y mae Duw yn aml dipyn yn hir cyn ateb

yn agos ato. Ond nid ar y crochan y mae y bai, os bai hefyd, ond ar y tân sydd odditano fe; peidiwch chwi â'r tân, fe beidia y crochan a'i gynhyrfu yn y man. Fel yna plant y diwygiad yma. Peidiwch a'u beio hwy am y gwaeddi a'r tipyn annhrefn yma; nid arnyn' nhwy' mae y bai—os oes bai yn bod—arnoch chwi yn dyfod a'r tân yma—tân cariad Duw yn yr efengyl—yn rhy agos atynt; nid oes ganddynt hwy druain ddim ond berwi trosodd i wneyd pan y mae y gwres yn taro arnynt mor gryf. Yr wyf fi yn teimlo ei wres hefyd y munyd yma, nes yr wyf i bron gwaeddi GOGONIANT iddo byth am y DREFN."

*Y* BLACKS *yn porthi Elias.* "Mae boneddigion y wlad yma yn hoff iawn o gael dynion duon i wasanaethu arnynt ar y bwrdd, am eu bod yn well *cooks* a *butlers* na dynion gwynion, meddant. Felly y gwnaeth Duw anrhydeddu yr hen brophwyd ar lan afon Cerith, trwy anfon y *blacks*, gweision y llys brenhinol, i *attendio* arno, a'i borthi a bara a chig y boreu, a bara a chig prydnawn."

*Y plentyn yn gorfod myned i'r gwely heb y ganwyll.* "Y mae John wedi bod yn fachgen drwg heddyw, 'A ydyw e?' 'Ydyw, y mae yn rhaid iddo fyned i'r gwely heb y ganwyll yn gosp arno am hyny. Cerdd i'r gwely, John.' 'Y mae yn dywyll iawn, nhad.' 'Cerdd i'r gwely, John.' 'Na, y mae yn dywyll iawn nhad, y mae arnaf ofn yn y tywyllwch.' 'Cerdd i'r gwely, John, y mae yn rhaid i ti fyned yn y tywyllwch heno, yr wyt ti wedi bod yn fachgen drwg heddyw.' Fel yna y mae Duw yn gwneyd a'i blant, pan y maent yn blant drwg. Ei blant Ef ydynt; ni wna dori ei gyfammod a hwy, na gwadu y berthynas â hwynt; ond y mae yn eu ceryddu am eu drygau. Ac un ffordd ganddo i'w ceryddu yw, eu hanfon i wely angeu heb y goleuni —gadael iddynt i ymbalfalu mewn dychryn yn y

tywyllwch tua'r *entrance.* Os ydych chwi am gael yr *entrance* yn oleu, bobol, yn y nos, gofalwch fod yn blant da yn y dydd.

*Crist yn disgyn i'r dyfnder i chwilio am berlau iddo ei hun.* "Yn nyfnder y moroedd y maent yn cael gafael ar y perlau yma. Maent yn werthfawr i'w ryfeddu; ond trwy lawer o drafferth a pheryglon y maent yn cael gafael arnynt. Y mae rhywrai yn gorfod mentro eu bywydau wrth chwilio am danynt. Y maent yn disgyn i ddyfnder y môr, lle y maent mewn perygl o foddi bob munyd, ac weithiau gyfarfod â *sharks* y dyfnder wrth chwilio am danynt. Felly Iesu Grist. Y mae yntau wedi cael gafael ar berlau braf iawn—y maent yn werthfawr iawn yn ei olwg ef, ac yn ngolwg y nefoedd. Ond y maent wedi costio yn ddrud iddo. Yn y dyfnder y cafodd yntau o hyd i'w berlau. A dyma oedd ef yn ei wneyd yn ein byd ni, dyfod yma i chwilio am berlau a wnaeth; a mentrodd ei fywyd wrth geisio cael gafael arnynt. Yr wyf yn dych'mygu ei wel'd tua Gethsemane a Chalfaria, yn disgyn i'r dyfnder tonog; ac yn cyfarfod â hen *sharks* y gwaelod, ac yn ymladd a rheini yn y dyfnder ac yn cael ei waedu ganddynt; ond er hyny yn eu concro, ac yn eu lladd yn y dyfnder; ac yn cael gafael ar berlau teg ar waelodion y dyfnder, er addurno ei goron a'i balas â hwynt i dragwyddoldeb:—'A byddant eiddo fi medd Arglwydd y lluoedd, y dydd y gwnelwyf *briodoledd.*'"

*Y meirch yn ngherbydau Pharaoh.* "Byddwch yn un a chytun gydag achos y Gwaredwr tua——yma; nid un yn myned ffordd hyn, a'r llall yn tynu ffordd draw. Yr o'wn i yn gwel'd dyn yn y fan ar fan pwy ddiwrnod, a wagen drwmlwythog ganddo ar odreu rhiw serth iawn, yn parotoi y ceffylau i fyned a'r wagen i fyny'r allt. Ac yn y man, dyma fe yn gwaeddi:—'*Together my boys.*' A dyma y pedwar ceffyl gyda'u gilydd a'u holl nerth yn dechreu

tynu y llwyth trwm tua phen y rhiw ; a myn'd a'r wagen lwythog i fyny tuag yno yn *glever* hefyd gyda'u gilydd a wnaethant. A dyma ddywedaf finnau wrthych chwithau yma :—*Together my boys,* mae achos ein Ceidwad ni yn y pantiau yma eto, gofalwch beidio croes-dynu, onide, nid â byth i ben y mynyddoedd yma. 'I'r meirch yn ngherbydau Pharaoh i'th gyffelybais, fy anwylyd.' Dyna fel yr oedd y meirch yn ngherbydau Pharaoh wedi eu treinio i fyny, fel yr oeddent a'u llygaid ar ben y banc bob un, i fyn'd a cherbyd y brenin i fyny yno. Fel hyn y mae y ddyweddi i fod—bod a'i llygad ar ben y banc, a chyd-dynu cerbyd y Brenin yno—mae'n rhaid i'r cerbyd gyraedd *top* y bryn ; gan hyny, gofalwch dynu gyda'ch gilydd tuag yno."

*Dynion duwiol yn 'difeddion y ddaear.* "Y saint fydd yn ffarmio yr hen ddaear yma, ac yn berchen ei *soil* i gyd yn y man. Fel arall y mae hyd yma. Yr annuwiol yw perchenogion y ddaear yma fwyaf eto. Ond y mae i fyn'd i newid, y mae eu *lease* hwy i ddal y ddaear bron myn'd allan. A phe gallwn, fe waeddwn nes y clywai hen '*squires* annuwiol y byd yma, am iddynt wneyd yn fawr o hono—y mae eu lês i redeg allan yn y man ; a dynion duwiol i fod yn *landlords* ac yn *denants* yr hen ddaear yma o fôr i fôr yn fuan iawn bellach. 'Gwyn eu byd y rhai addfwyn, canys hwy a etifeddant y ddaear.' "

WREXHAM : ARGRAFFWYD GAN HUGHES AND SON, HOPE ST.

*Llyfrau Cyhoeddedig gan Hughes and Son.*

**Y GEIRIADUR YSGRYTHYROL**: gan y Parch. T. CHARLES, B.A., Bala; gydag ATTODIAD gan y Parchn. L. Edwards, D.D., a D. Charles, D.D. Y mae yn cynnwys—Ystyr, tarddiad, ac arwyddocâd geiriau; Eglurhad ar brif byngciau y Grefydd Gristionogol; Beirniadaeth ar amryw ranau o'r Ysgrythyr Lân; Sylwadau ar sefyllfa a maintioli Mynyddoedd; Naturiaethau Creaduriaid; Coedydd; Gwyliau, Aberthau, a Defodau Iuddewig; Enwau a hanes yr amrywiol genedloedd, teyrnasoedd a dinasoedd a grybwyllir yn yr Ysgrythyrau, &c., &c.; gyda braslun o Hanes Bywyd yr Awdwr. *Croen llo hardd, Pris 25s.*

**Y DEONGLYDD BERNIADOL**: gan y Parch. JOHN JONES *(Idrisyn)*. Y mae yn cynnwys eglurhad manwl ar bob adnod yn yr HEN DESTAMENT, er gwasanaeth yr Ysgolion Sabbothol ac addysg deuluaidd. Y mae wedi ei loffa o weithiau oddeutu 250 o brif Dduwinyddion a Berniaid y byd; megys Watson, Benson, Burns, Coke, Clarke, Pool, Macknight, Scott, Guyse, Doddridge, &c., &c. Argraffiad Newydd—4 *Cyfrol, Croen Llo, Pris £2 16s.*

**Y DEONGLYDD BERNIADOL AR Y TESTAMENT NEWYDD**: gan yr un Awdwr. *Croen Llo hardd, Pris 17s.*

**TRAETHODAU LLENYDDOL**: gan LEWIS EDWARDS, D.D., Bala. *Mewn llian, 8s. 6c.; haner-rhwym, 10s.*

**TRAETHODAU DUWINYDDOL**: gan LEWIS EDWARDS, D.D., Bala. *Mewn llian, 9s.; haner-rhwym, 10s. 6c.*

**CORPH O DDUWINYDDIAETH**: gan y Parch. G. LEWIS, D.D., yn cynwys Eglurhad a Phrawf o amrywiol ganghenau yr Athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb; wedi ei ranu i chwe' dosbarth. Rhagflaenir sylwadau yr Awdwr yn y gyfrol hon â Thraethawd ar HANES DUWINYDDIAETH Y GWAHANOL OESOEDD, gan y Parch. L. Edwards, D.D. *Mewn llian, pris 7s. 6c.*

**CYDYMAITH YR YSGRYTHYR**: sef sylwadau ar ddilysrwydd, cywiredd, awdureiddiad, ac ysbrydoliaeth yr Ysgrythyr; wedi ei addurno â darluniau o Jerusalem, Tyrus, Sidon, Sichar, Ephesus, a Patmos. Gan y Parch. J. HUGHES. *Mewn llian hardd, pris 3s. 6c.*

**DRYCH PROFFWYDOLIAETH**: gan y Parch. J. HUGHES; yn cynwys sylwadau ar wiredd, dyben, a deongliad Proffwydoliaethau yr Ysgrythyrau Sanctaidd. *Argraffiad Newydd*, gyda Nodiadau Ychwanegol; ac wedi ei addurno â darluniau o Sion, Samaria, Babilon, Hebron, Ninefeh, a Sardis. *Mewn llian hardd, pris 3s. 6c.*

**Y PROFIEDYDD YSGRYTHYROL**; neu EIR-LYFR CRYNO O FATERION YSGRYTHYROL, dan adraniadau priodol. Gan y Parch. J. HUGHES, Liverpool. *Mewn llian hardd, pris 2s. 6c.*

*Llyfrau Cyhoeddedig gan Hughes and Son.*

**BEIBL TEULUAIDD HARDD, gyda CHYFEIRIAD-AU.** Y mae yr argraffiad hwn o'r Beibl Teuluaidd wedi ei addurno â Darluniau hardd, ac â Mapiau lliwiedig; a cheir ynddo hefyd Gôf-ddalen er cofrestru genedigaethau, priodasau, a marwolaethau teuluaidd. *Wedi ei rwymo mewn levant goreuredig, gyda rims a chlasp, pris* 35*s.*

**BEIBL YR ATHRAW:** sef yr Hen Destament a'r Newydd, gyda Chyfeiriadau a Mynegair; cynwysa hefyd ddetholiad helaeth o wybodaeth anhebgorol i ddeiliaid yr Ysgol Sabbothol. Addurnedig â deuddeg o Fapiau. *Newydd ei gyhoeddi; mewn lledr, gilt edges, a chlasp, pris* 10*s.* 6*c.*

**Y TESTAMENT DAEARYDDOL:** gan y Parch. T. Roberts. Y mae yn cynwys sylwadau ar dros 3,000 o Adnodau; Geiriadur Daearyddol o'r holl leoedd y sonir am danynt yn y Testament Newydd; eu hydred a'u lledred, ynghyd a'u pellder o Jerusalem; Taflen o Deithiau yr Apostol Paul; Bywyd a theithiau Crist, &c., &c., *Roan, gilt edges,* 2*s.* 6*c.; levant, rims a chlasp,* 3*s.* 6*c.; calf, goreuredig, rims a chlasp.* 4*s.* 6*c.*

**Y TESTAMENT BACH CYFEIRIADOL:** y mae yn cynwys hefyd daflen fuddiol i'r ieuaingc ymofyngar am wybodaeth Ysgrythyrol, gan y dangosa ar un olwg amrywiol ddosbarthiadau llyfrau y Testament Newydd; Cysondeb cryno o'r Efengylau; Mynegai Daearyddol; yn nghydag amryw Dablau, &c. *Roan,* 1*s.; levant a chlasp,* 1*s.* 6*c.; eto gilt edges a chlasp,* 2*s.; Lledr, rims a chlasp,* 2*s.* 6*c.*

**TAITH Y PERERIN DARLUNIADOL:** gan John Bunyan. Sef ei daith o'r byd hwn i'r un a ddaw; yn nghyda hanes cychwyniad allan Christiana a'i phlant, eu taith beryglus, a'u mynediad diogel i'r wlad ddymunol; gyda lluaws o Nodiadau, a hanes bywyd Bunyan. *Mewn llian hardd, goreuredig, gyda* 110 *o Ddarluniau hardd ar ddur, pris* 10*s.* 6*c.*

**CANWYLL Y CYMRU:** gan y Parch. Rhys Prichard. Y Seren Foreu neu Ganwyll y Cymry; sef Gwaith Prydyddol y Parch. Rhys Prichard, M.A., gynt Ficer Llanymddyfri; gyda lluaws o Nodiadau eglurhaol a hanesyddol helaeth. Y mae yn cynnwys hefyd FYWGRAFFIAD YR AWDWR, gan y diweddar Barch Rice Rees, o Goleg Dewi Sant; gyda darlun hardd o *Y Neuadd, Llanymddyfri,* gynt anneddle y Ficer Prichard, yn y flwyddyn 1644. Y Trydydd Argraffiad—*Mewn llian, pris* 5*s.* 6*c.*

**HANES PRYDAIN FAWR:** gan y Parch. T. Levi. Sef ei hanes yn ei Chodiad, ei Chynydd, a'i Mawredd; yn nghyda Braslun o'i Chyfansoddiad, ei Llywodraeth, a'i Chyfreithiau. *Mewn llian, pris* 4*s.* 6*c.*—yn cynwys 585 o dudalenau.

**"CYMRU FU:"** Yn cynnwys Hanesion, Traddodiadau Chwedlau a Dammegion Cymreig, &c., &c. Wedi eu hysgrifenu gan Gwilym Hiraethog, Glasynys, Nicander, Cynddelw, Ceiriog, a'r Golygydd. *Yn Bedair Rhan, Swllt yr Un. Mewn llian,*5*s.*

**GWYRTHIAU YR ARGLWYDD IESU: gan O. EVANS,** Llanbrynmair. Y mae ynddo DRAETHAWD ARWEINIOL, yn cynnwys Chwech o Bennodau dan y teitlau canlynol:—"Desgrifiad o Wyrth." "Y Gwyrthiau yn deilwng o bob credin-iaeth." "Dybenion y Gwyrthiau." "Eu Dosbarthiad." "Y gwahaniaeth rhwng Gwyrthiau Crist a Gwyrthiau eraill." "Di-flaniad y Doniau Gwyrthiol." Gyda Thair-ar-ddeg o Bregethau neu Ddarlithiau. *Mewn llian hardd, 3s. 6c.*

**DAMMEGION YR ARGLWYDD IESU: gan O. EVANS,** LLANBRYNMAIR. [*Awdwr y gyfrol ar "Wyrthiau Crist."*] Yn cynnwys TRAETHAWD ARWEINIOL, wedi ei ranu yn ben-nodau ar y materion canlynol:—"Natur a Nodwedd Dammeg." "Paham y llefarai yr Iesu ar Ddammegion." "Deongliad Dam-megion." "Cipolwg ar drefn a chynnwysiad y Dammegion." "Dammegion y Rabbiniaid Iuddewig a'r Tadau Eglwysig." Gyda Deg-ar-hugain o Bregethau neu Ddarlithiau beirniadol, eglurhaol, ymarferol, ac addysgiadol. *Mewn llian hardd, 3s. 6c.*

**ARWEINIAD I'R EFENGYLAU: gan y Parch. G. PARRY.** Y mae yn cynnwys Pennodau ar—Gwrthddrych yr Efengylau; Parotoadau Rhagluniaethol i'r Efengyl; Gweithred-iadau Rhagluniaeth gyffredinol y byd, a Rhagluniaeth neillduol yr Iachawdwriaeth; Tarddiad, Awduriaeth, Cyfansoddiad, Dilys-rwydd, Gwiredd, Nodweddion Gwahaniaethol, a Chysondeb yr Efengylau. Gydag ATTODIAD: yr hwn a gynnwysa Nodiadau ar iaith gyffredin ein Harglwydd a'i Ddysgyblion, ac iaith wreidd-iol Matthew; Parhad tymhor gweinidogaeth gyhoeddus ein Hiach-awdwr, ac amser y Pasg diweddaf; Ymosodiadau diweddar ar yr Efengylau, yn nghydag Attebion iddynt. *Mewn llian, pris 3s.*

**Y SABBOTH YN ETIFEDDIAETH DYN: gan y Parch. J. HUGHES,** Liverpool. Traethawd ar Rwymedigaeth gyffredinol dyn i'r Sabboth; Buddioldeb cyffredinol y Sabboth i ddyn; ac Amddiffyniad i'r Sabboth gyda golwg ar y Gwrthddadleuon iddo. —*Mewn amlen, pris 1s.*

**HANESION Y BEIBL: wedi ei gyfaddasu i'r Cymry** gan y Parch. T. LEVI. Y mae yn cynwys y pethau hyny sydd yn meddu dyddordeb neillduol yn Hanesyddiaeth yr Hen Destament, fel y maent, gan mwyaf, yn gofnodiad o reol ddwyfol o ufudd-dod, ac o droseddau a chosbedigaethau dyn; a'r cofnodiad a roddir yn Hanesyddiaeth y Testament Newydd o weithredoedd gras a thru-garedd a gyflawnwyd gan Gyfryngwr cyfammod gwell. Y mae y naill fel y llall yn cael eu hegluro yn y gyfrol hon â 300 o DDAR-LUNIAU PRYDFERTH, pa rai sydd wedi eu hamcanu i gyfeirio llygaid yr ieuaingc at gynwysiad Llyfr y llyfrau. *Mewn llian hardd, pris 3s. 6c.*

**COLL GWYNFA: gan JOHN MILTON.** Cyfieithiad o "*Paradise Lost,*" John Milton. Gyda Chofiant, a sylwadau ar ei athrylith, ynghyda nodiadau eglurhaol. Gan I D. FFRAID. Y mae y llyfr wedi ei addurno â Cherfluniau prydferth. *Mewn llian hardd, pris 5s.*

9L

*Llyfrau Cyhoeddedig gan Hughes and Son.*

**COFIANT Y PARCH. J. JONES, TALSARN;** mewn cysylltiad â hanes Duwinyddiaeth a Phregethu Cymru; gan y Parch. OWEN THOMAS, D.D., Liverpool. *Yn haner-rhwym*, 15s.; *neu yn ddwy gyfrol, llian*, 15s.; *ddwy gyfrol haner-rhwym*, 17s.

**COFIANT Y PARCH. ROBERT THOMAS, LLIDIARDAU;** ynghyda Lloffion o'i eiriau a'i bregethau. Gan y Parch. O. JONES, B.A. *Mewn llian, pris* 4s., *gydag Arlun.*

**COFIANT Y PARCH. RICHARD HUMPHREYS, DYFFRYN;** ynghyda chasgliad o'i Bregethau a'i Draethodau. Gan y Parch. GRIFFITH WILLIAMS, Talsarnau. *Mewn llian hardd, pris* 3s. 6c., *gydag Arlun cywir.*

**COFIANT Y PARCH. J. JONES, BLAENANERCH:** gan y Parch. J. DAVIES, Blaenanerch. *Llian hardd, pris* 2s. 6c.

**COFIANT Y PARCH. J. HUGHES, LIVERPOOL** (awdwr "*Methodistiaeth Cymru*," &c., gyda Nodiadau ar ei gymeriad a'i farwolaeth, gan y Parch. H. REES ac ereill. Gan y Parchn. ROGER EDWARDS a J. HUGHES. *Mewn llian, pris* 2s. 6c., *gydag Arlun cywir.*

**COFIANT Y PARCH. T. RICHARD, ABERGWAEN;** gyda Nodiadau arno fel Dyn, Cristion, a Phregethwr. Gan y Parch. E. MATTHEWS. *Mewn llian, pris* 3s. 6c.

**COFIANT DAFYDD ROLANT Y BALA:** ynghyda lloffion o'i ddywediadau, a Chofnodion o un-ar-bymtheg o'i Bregethau mwyaf hynod. Gan y Parchn. O. JONES, B.A., a ROBERT THOMAS, Llidiardau. *Mewn llian, pris* 2s.

**COFIANT WILLIAM ELLIS,** hen Flaenor hynod Maentwrog: gan y Parch. GRIFFITH WILLIAMS, Talsarnau. *Mewn amlen, pris* 6c.

**HYNODION HEN BREGETHWYR CYMRU:** gydag HANESION DIFYRUS AM DANYNT. *Yn* 3 *Rhan, pris Swllt yr un; neu y* 3 *Rhan ynghyd, llian hardd*, 4s.

---

**METHODISTIAETH CYMRU:** gan y Parch. J. HUGHES. Sef hanes blaenorol a gwedd bresenol y Methodistiaid Calfinaidd yn Nghymru, o ddechreuad y Cyfundeb. *Yn* 3 *cyfrol: mewn llian, pris* 22s. 6c.; *haner-rhwym*, 25s.

**LLAW-LYFR Y BEIBL,** neu **ARWEINIAD I FYFYRDOD O'R YSGRYTHYRAU SANCTAIDD;** gan JOSEPH ANGUS, D.D., wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg gan J. RHYS MORGAN; gyda lluaws o Ychwanegiadau gan y Parch. J. HUGHES, Liverpool. Amcan y gyfrol hon ydyw dysgu dynion i ddeall a gwerthfawrogi y Beibl, ac ar yr un pryd rhoddi y fath hyfforddiad mewn llenyddiaeth a hanesiaeth henafol ag a fyddo yn gynnorthwyol i addysgiaeth gyffredinol yn mysg pob dosbarth. *Yn rhanau*, 1s. *yr un; llian*, 10s. 6c.; *haner-rhwym*, 12s.